



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Aseu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat

Adroddiad Terfynol

Mehefin 2020

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
1. Cyflwyniad gan y cyd-gadeiryddion	13
2. Sut aeth y panel ati i wneud ei waith	15
3. Y Fframwaith Cyfreithiol	25
4. Heriau wrth fynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig a risgiau eraill o niwed	39
5. Datgan a thystiolaethu am gam-drin domestig	48
6. Lleisiau plant	67
7. Sut yr ymdrinnir â honiadau	84
8. Diogelwch a phrofiadau yn y llys	108
9. Gorchmynion a roddir	131
10. Niwed sydd yn deillio o orchmynion llysoedd teulu	148
11. Argymhellion	171
Atodiad A: Rhestr o Acronymau	188
Atodiad B: Adolygiad o Gyfraith Achos	190

Awduron:

- Yr Athro Rosemary Hunter FAcSS, Prifysgol Caint
- Yr Athro Mandy Burton, Prifysgol Caerlŷr
- Yr Athro Liz Trinder, Prifysgol Exeter

Aelodau Panel

- Melissa Case & Nicola Hwer, Cyfarwyddwr Polisi Teuluoedd a Chyfiawnder Troseddol, MoJ (Cyd-Gadeiryddion)
- Neil Blacklock, Cyfarwyddwr Datblygu, Respect
- Eleri Butler, Prif Weithredwr, Cymorth i Ferched Cymru
- Lorraine Cavanagh QC & Deirdre Fottrell QC (cyd-gynrychiolwyr), Cymdeithas Cyfreithwyr Plant
- Mr Ustus Stephen Cobb, Y Farnwriaeth
- Nicki Norman, Prif Weithredwr Dros Dro, Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr
- Barnwr Rhanbarth Katherine Suh, Y Farnwriaeth
- Isabelle Trowler, Prif Weithiwr Cymdeithasol Lloegr (Plant a Theuluoedd)

Crynodeb Gweithredol

1. Dyma adroddiad terfynol y panel arbenigol, sydd yn adlewyrchu canfyddiadau yr alwad am dystiolaeth, yn dilyn dros 1,200 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau ar draws Cymru a Lloegr, yn ogystal â chyfarfodydd bord gron a grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda gweithwyr proffesiynol, rhieni a phlant sydd â phrofiad o'r llysoedd teulu. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn canolbwyntio ar gam-drin domestig.
2. Mae'r adroddiad terfynol yma yn darparu dealltwriaeth o ba mor effeithiol mae'r llysoedd teulu yn arenwi ac yn ymateb i honiadau o gam-drin domestig a throseddau difrifol eraill, mewn achosion sydd yn ymwneud ag anghydfodau rhwng rhieni ynghylch y trefniadau ar gyfer eu plant, a elwir yn 'achosion plant cyfraith breifat'.
3. Mae'n llunio canfyddiadau mewn perthynas â phrosesau a deilliannau ar gyfer partion a phlant sydd yn gysylltiedig ag achosion o'r fath, yn llunio casgliadau o gyflwyniadau unigol gan rai sydd â phrofiad personol o achosion plant cyfraith breifat, yn cynnwys dioddefwyr cam-drin domestig. Er nad oedd y panel yn gallu adolygu ffeiliau achos unigol, mae tystiolaeth o'r alwad am dystiolaeth, cyfarfodydd bord gron a grwpiau ffocws wedi cael ei hategu gan adolygiad o lenyddiaeth ac adolygiad o gyfraith achos berthnasol.
4. Mae'r panel yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer y camau nesaf y mae'r system cyfiawnder teulu angen eu cymryd (pennod 11) ac fe'u crynhoir isod.

Pam bod angen newid

5. Bob diwrnod daw rhai o bobl mwyaf bregus ein cymdeithas gerbron y llysoedd teulu, pan fo penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud mewn achosion sydd yn aml yn rhai emosïynol iawn, felly mae'n hanfodol bod y system yn gallu eu gwarchod rhag mwy o niwed a risg o niwed.
6. Mae'r fframwaith cyfreithiol a nodir yn Neddf Plant 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys roi prif ystyriaeth i les y plentyn. E hynny, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r panel yn dangos pryderon parhaus ynghylch sut y mae system y llys teulu yn cydnabod ac yn ymateb i honiadau o, a niwed sydd wedi cael ei brofi i blant a rhieni sydd yn ddioddefwyr mewn achosion plant cyfraith breifat.
7. Er bod y panel wedi enwi peth arfer dda a bwriadau da eang ymysg y rhai sydd yn gweithio o dan bwysau cynyddol yn y system cyfiawnder teulu, mae hefyd wedi datgelu materion ymgorfforedig a systematig oedd yn effeithio ar sut mae'r risg i blant ac oedolion yn cael ei adnabod a'i reoli.

Yr heriau wrth fynd i'r afael â cham-drin a throseddau difrifol eraill

8. Mynegwyd pryderon gan y rhai a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth ynghylch sut y mae llysoedd teulu yn mynd i'r afael â cham-drin domestig a cham-drin plant yn rhywiol mewn achosion plant cyfraith breifat. Roedd cyflwyniadau yn amlygu teimlad bod cam-drin yn cael ei leihau yn systematig, yn amrywio o beidio gwrando ar lais y plentyn, anwybyddu, diystyru neu beidio credu honiadau, i asesu risg yn annigonol, prosesau llys trawmatig, canfyddiad o drefniadau plant anniogel, a chamdrinwyr yn parhau i reoli drwy ymgyfreitha mynych a bygwth ymgyfreitha mynych. Canfu'r panel bod y materion yma yn cael eu tanategu gan y themâu allweddol canlynol yn y dystiolaeth a adolygwyd:

- Adnoddau cyfyngedig; mae'r adnoddau sydd ar gael wedi bod yn annigonol ar gyfer ymateb i'r galw cynyddol mewn achosion plant cyfraith breifat, ac mae mwy o bartion yn mynd i'r llys heb gynrychiolaeth.
- Y diwylliant y blaid cyswllt; roedd ymatebwyr yn teimlo bod y llysoedd yn rhoi blaenoriaeth ddiangen ar sicrhau cyswllt gyda'r rhiant nad yw'n breswlydd, oedd yn arwain at leihau honiadau o gam-drin domestig.
- Gweithio mewn seilos; roedd y cyflwyniadau yn amlygu'r gwahaniaeth mewn dulliau a diwylliant rhwng cyfiawnder troseddol, amddiffyn plant (cyfraith gyhoeddus) ac achosion plant cyfraith breifat, diffyg cyfathrebu a chydlyniant rhwng llysoedd teulu a llysoedd ac asiantaethau eraill sydd yn gweithio â theuluoedd, oedd yn arwain at benderfyniadau anghyson a dryswch.
- System wrthwynebol; gyda rhieni yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd mewn sefyllfa nad yw'n gytbwys yn aml mewn achosion sydd yn ymwneud â cham-drin domestig, cam-drin plant yn rhywiol a hunan-gynrychiolaeth, a'r plentyn ddim yn cael ei gynnwys fawr ddim neu ddim o gwbl.

Datgan a thystiolaethu am gam-drin domestig

9. Yn gyffredinol, roedd y dystiolaeth o gyflwyniadau yn dangos bod dioddefwyr yn wynebu nifer o rwystrau rhag datgan camdriniaeth ddomestig, ac mae nifer ohonynt yn troshaenu â'r heriau uchod ac yn cynnwys:

- Diwylliant o blaid cyswllt y llysoedd a'r gweithwyr proffesiynol sydd ymwneud ag achosion trefniadau plant; roedd y cyflwyniadau yn amlygu diffyg dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o gam-drin domestig, ac effeithiau parhaus cam-drin ar blant a rhieni sydd yn ddioddefwyr, lleihau cam-drin yn systematig neu anghrediniaeth, a derbyn croes-honiadau heb graffu trylwyr.
- Tystiolaethu am gam-drin; roedd dioddefwyr yn adrodd am anawsterau o ran tystiolaethu am gam-drin, yn arbennig pan fo yna ffocws ar ddigwyddiadau unigol neu gam-drin corfforol diweddar, neu pan roeddent yn dod ar draws safbwyntiau seiliedig ar stereoteipio ynghylch sut y dylai 'dioddefwr delfrydol' ymddwyn.

- Gall gweithio mewn seilo arwain at dystiolaeth o gamdriniaeth yn cael ei derbyn mewn un system, er enghraifft y llysoedd troseddol, a ddim yn cael ei chydabod neu ddim yn cael ei defnyddio yn effeithiol yn y llys teulu.

10. Mae'r rhain yn rhwystrau penodol yn achos dioddefwyr o gefndiroedd BAME o ran datgan camdriniaeth ddomestig; mae dioddefwyr a'r gweithwyr proffesiynol sydd yn eu cefnogi yn canfod bod y rhwystrau yma yn ymwneud â hiliaeth, yn ogystal â rhywiaeth a rhagfarn dosbarth. Mae dioddefwyr gwrywaidd hefyd yn wynebu heriau penodol, gyda rhai ymatebwyr yn amlygu bod stereoteipiau mewn perthynas â 'gwir' ddiodeffwyr yn achosi rhwystr rhag cael eu credu.

Llais y Plentyn

11. Mae'r dystiolaeth o ymchwil a chyflwyniadau yn awgrymu bod llais y plentyn yn rhy aml ddim yn cael ei glywed neu ei fod yn cael ei dawelu mewn gwahanol ffyrdd pan fo camdriniaeth ddomestig yn cael ei datgan. Nid oes gan gyfran fawr o blant unrhyw gyswllt uniongyrchol â phroses y llys teulu, a dibynnir ar rieni neu ofalwyr i gynrychioli eu safbwyntiau. Roedd yna nifer o rwystrau rhag i blant allu cyfathrebu eu safbwyntiau yn effeithiol, a amlygwyd i'r panel:

- Amser cyfyngedig. Er bod cyflwyniadau wedi nodi bod gwneud y mwyaf o'r amser a dreulir gyda phlant yn bwysig er mwyn datblygu perthynas o ymddiriedaeth, adroddwyd mai amser cyfyngedig sydd gan weithwyr proffesiynol, a phan fo ymgynghoriadau yn cael eu cynnal, mae hynny yn fyr fel rheol.
- Diffyg dilyniant. Roedd cyflwyniadau yn nodi mai yn anaml yr ymgynghorir â phlant ar ôl rhoi gorchymyn; a bod hynny yn aml yn eu gadael gyda threfniadau na fydd efallai yn gweithio yn effeithiol nac yn ddiogel.
- Diffyg adnoddau Gall adnoddau annigonol amharu ar i ba raddau y mae plant yn cyfranogi mewn achosion.
- Diwylliant o blaid cyswllt. Roedd cyflwyniadau yn cyfeirio at broses o 'wrando dewisol', tra gwrandewid ar blant sydd yn dymuno cael cyswllt â'r rhiant nad yw'n preswyllo, ond na wrandewir ar y rhai nad ydynt yn dymuno cael cyswllt neu y rhoddir pwysau arnynt i newid eu safbwynt. Yn aml adroddwyd bod gorchmynion yn aml yn blaenoriaethu bod plentyn yn treulio amser gyda rhiant sydd o bosib yn gamdriniol beth bynnag fo'r amgylchiadau penodol.
- Gweithio mewn seilos. Roedd cyflwyniadau yn amlygu bod y llysoedd yn aml yn methu ag ymgysylltu yn effeithiol â sefydliadau oedd wedi sefydlu perthnasoedd cryf gyda phlentyn ac sydd efallai â mwy o wybodaeth fanwl am eu hamgylchiadau unigol.
- Cymhlethdod. Roedd tystiolaeth yn nodi y gallai deall a chynrychioli safbwynt y plentyn fod yn anodd, a bod plant yn aml yn destun amrywiol ddylanwadau, a rhai ohonynt yn gallu bod yn groes. Mae hynny yn gofyn am amser a sgil.

12. Roedd tystiolaeth yn awgrymu bod yna effeithiau negyddol sylweddol o ganlyniad i beidio â gwrando ar blant yn ystod achosion. Gall plant deimlo eu bod wedi cael eu hanwybyddu neu fod yn amheus o awdurdod, a gall ymddiriedaeth yn system y llys gael ei erydu o ganlyniad i brofiad negyddol y plentyn.

Sut yr ymdrinnir â honiadau

13. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J (PD12J) Rheolau Gweithdrefnau Teulu 2010 yn darparu canllawiau manwl ar y camau y mae'n ofynnol i llys eu cymryd yn dilyn honiadau o gam-drin domestig mewn achos trefniadau plant. Roedd tystiolaeth yn mynegi pryder nad yw PD12J yn gweithredu yn ôl y bwriad a'i fod yn cael ei weithredu yn anghyson.

14. Roedd hynny yn cynnwys pryderon ynghylch:

- Y diwylliant o blaid cyswllt; y rhagdybiaeth ynghylch cyfranogiad rhieni, a phenderfyniadau ynghylch pryd y mae honiadau o gam-drin domestig yn cael eu hystyried yn berthnasol.
- Y broses wrthwynebol; cynnal gwrandawriadau canfod ffeithiau a chanfyddiadau o degwch.
- Diffyg adnoddau; sydd yn effeithio ar y broses o ganfod ffeithiau ac ansawdd asesiadau risg, diffyg dilyniant barnwrol, ac anawsterau difrifol i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain wrth ymdrechu i lywio drwy gymhlethdod PD12J heb gyngor cyfreithiol.
- Gweithio mewn seilos; sydd yn arwain at ddiffyg cydlyniant rhwng y broses canfod ffeithiau ac achosion eraill.

Diogelwch a phrofiadau yn y llys

15. Effeithir ar brofiadau dioddefwyr camdriniaeth ddomestig o achosion llys gan bryderon ynghylch eu diogelwch corfforol, yn ogystal â'r trawma maent wedi ei brofi o ganlyniad i gam-drin domestig. Beth bynnag fo ganlyniad yr achos, roedd dioddefwyr yn gyffredinol yn adrodd nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn y llys, ac roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn awgrymu eu bod yn aml yn canfod bod yr achosion llys eu hunain wedi bod yn drawmatig hefyd.

16. Adroddwyd mewn cyflwyniadau bod pob cam ar y daith drwy achosion plant cyfraith breifat (mynd i'r llys, yn adeilad y llys ei hun, yn ystafell y llys a dychwelyd i'r llys i ymateb i honiadau mynych) yn achosi problemau penodol o ran diogelwch, oedd yn cynnwys:

- Diogelwch corfforol. Nododd nifer o ymatebwyr nad oedd achosion yn y llys teulu yn cael eu hategu yn aml gan ddarpariaeth ddigonol o fesurau arbennig, a bod hynny yn gadael dioddefwyr yn agored i fygythiadau ac ymosodiadau corfforol.

- Lles seicolegol. Adroddodd dioddefwyr y gall cymryd rhan mewn achosion a rhoi tystiolaeth am eu profiadau fod yn drawmatig hefyd; ar hyn o bryd ni ymdrinnir â hynny yn briodol.
- Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain. Nodwyd bod yr effaith ar ymglyfreithwyr drostynt eu hunain yn arbennig o aciwt mewn perthynas â diogelwch, oherwydd nad oes ganddynt wybodaeth ddigonol o'r mesurau sydd ar gael ar reolau sydd yn darparu ar eu cyfer, ac nid oes ganddynt gyngor cyfreithiol fyddai fel arall yn eu hysbysu am eu hawliau i dderbyn mesurau arbennig.
- Croesholi uniongyrchol. Gall dioddefwr wynebu'r posibilrwydd o gael ei groesholi gan ei gamdriniwr, mewn achosion pan fo'r camdriniwr yn cynrychioli ei hun, neu o orfod croesholi ei gamdriniwr pan fyddant yn ymglyfreithwyr drostynt eu hunain.

17. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod gorchmynion a roddir o dan adran 91(14) Deddf Plant 1989 ('gorchmynion gwahardd') yn aneffeithiol o ran gwarchod dioddefwyr rhag mwy o gamdriniaeth drwy geisiadau mynych am orchmynion trefniadau plant. Mae cyfraith achos wedi sefydlu bod y gorchmynion yma yn rhai eithriadol, sydd yn golygu y tybir bod y trothwy ar gyfer caffael gorchymyn yn rhy uchel, a thybir bod y trothwy ar gyfer caniatâd i wneud cais ar ôl rhoi gorchymyn yn rhy isel.

Gorchmynion a roddir

18. Gall y gorchmynion a roddir gan y llys mewn achosion sydd yn ymwneud â cham-drin domestig a throseddau difrifol eraill gael eu siapiro gan y materion systematig a nodwyd eisoes. Yn eu tro gellir tybio bod y materion yma yn arwain at bedair thema allweddol o ran sut mae llysoedd teulu yn rhoi gorchmynion trefniadau plant:
- Dylai plant gael cyswllt: Adroddodd cyflwyniadau gan rieni oedd wedi honni camdriniaeth fel rhan o achosion, a gweithwyr proffesiynol oedd yn eu cefnogi, ei bod yn debygol y bydd rhyw fath o gyswllt uniongyrchol yn debygol o gael ei orchymyn yn y rhan fwyaf o achosion.
 - Dylai cyswllt gael ei gyflwyno. Roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y panel yn dangos, pan fo llys yn gorchymyn gwahardd cyswllt uniongyrchol, y nod fel arfer oedd 'cyflwyno' cyswllt yn anghyfyngedig. Roedd cyflwyniadau yn awgrymu y gellir ystyried bod ymyriadau megis rhaglenni cyflawnwyr camdriniaeth domestig (DAPP) a gwasanaethau cyswllt dan oruchwyliaeth yn gamau tuag at gyswllt uniongyrchol.
 - Mae rhiantu ar y cyd yn cael ei hyrwyddo. Adroddodd nifer o ymatebwyr, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, hyd yn oed pan fynegwyd yr honiadau mwyaf difrifol am gam-drin domestig, bod y llysoedd yn disgwyl i rieni weithio gyda'i gilydd er mwyn hwyluso trefniadau cyswllt.
 - Nid yw dibyniaeth ar y llysoedd yn cael ei annog. Mae cyflwyniadau ac astudiaethau o ffeiliau blaenorol yn dangos bod gorchmynion caniatáu yn cael eu rhoi yn rheolaidd; gall dioddefwyr camdriniaeth deimlo eu bod dan bwysau i gytuno â gorchmynion o'r fath hyd yn oed pan nad ydynt yn credu eu bod yn ddiogel. Nid yw

gwrandawiadau adolygu, allai fod yn ffordd o wirio ymarferoldeb a diogelwch gorchmynion, yn cael eu hannog ac yn anaml maent yn cael eu cynnal.

19. Er gwaethaf PD12J, roedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd yna fawr o wahaniaeth rhwng y gorchmynion a roddwyd mewn achosion oedd ac nad oedd yn ymwneud â cham-drin domestig. Roedd y llysoedd bron bob tro yn gorchymyn rhyw fath o gyswllt, yn aml heb gyfyngiadau, ac yn aml heb fod yn ofynnol i'r camdriniwr honedig fynd i'r afael â'i ymddygiad.

Niwed sydd yn deillio o orchmynion llysoedd teulu

20. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod gorchmynion a roddwyd gan y llys wedi galluogi i gamdrinwyr honedig barhau i reoli plant a dioddefwyr cam-drin domestig sydd yn oedolion, yn ogystal â galluogi parhad cam-drin dioddefwyr a phlant. Roedd nifer o gyflwyniadau yn manylu ar sut yr oedd effeithiau hirdymor y gamdriniaeth hon yn amlygu ei hun ar ffurf niwed corfforol, emosiynol, seicolegol, ariannol ac addysgol, a niwed i berthnasoedd plant heddiw ac i'r dyfodol.
21. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod lefel y gamdriniaeth yr oedden nhw a'u plant wedi ei ddioddef wedi gwaethygu ar ôl achosion yn y llys teulu. Roedd yna bryderon bod cyfiawnder troseddol ac asiantaethau lles plant yn diystyru ymdrechion i riportio camdriniaeth barhaus o ganlyniad i'r gorchmynion gan lysoedd teulu. Hefyd amlygodd nifer o ymatebwyr yr effeithiau negyddol yr oedd plant oedd yn cael eu cymell i gael cyswllt â rhieni camdriniol yn ei deimlo, a'r baich a roddwyd ar famau a phlant i gydymffurfio â gorchmynion cyswllt o'i gymharu â'r disgwyliadau lleiaf ar gyflawnwyr camdriniaeth i newid eu hymddygiad.
22. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod yr effeithiau hirdymor negyddol ar les plant o ganlyniad i gyswllt parhaus gyda rhiant camdriniol yn gorbwysu gwerth perthynas barhaus gyda'r rhiant hwnnw yn sylweddol.

Y ffordd ymlaen

23. Gellir canfod y rhestr lawn o'r argymhellion a gyflwynwyd gan y panel ym mhennod 11 yr adroddiad, ac maent yn cael eu crynhoi isod.
24. Mae'r panel yn gobeithio y bydd ei argymhellion yn grymuso barnwyr, cyfreithwyr, Cafcass, Cafcass Cymru a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes cyfiawnder teulu i weithio i'w potensial gorau mewn achosion plant cyfraith breifat, ac yn bennaf oll y bydd ei argymhellion o fudd i blant a rhieni sydd yn dioddef camdriniaeth ddomestig.
25. Mae'r argymhellion yn amrywio o ddiwygiadau deddfwriaethol i wella hyfforddiant. Bydd MoJ yn gweithio â phartneriaid ar draws y system cyfiawnder teulu er mwyn bwrw ymlaen â'r argymhellion yma, ac mae'r gwaith cychwynnol wedi ei nodi yn y cynllun

gweithredu ategol. Bydd hynny yn cynnwys peilota dull ymchwiliol mewn achosion trefniadau plant, ceisio gwella cydlyniant rhwng awdurdodaethau ac asiantaethau, gwella llais y plentyn, gwell hyfforddiant, ac yn fwy cyffredinol, cyflwyno egwyddorion dylunio newydd ar gyfer achosion plant cyfraith breifat.

Argymhellion

1. Trosolwg

- Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y panel, ynghyd â'r adolygiad o dystiolaeth, yn dangos bod yna bedwar rhwystr trosfwaol i allu'r llys teulu i ymateb yn gyson ac yn effeithiol i droseddau cam-drin domestig a throseddau difrifol eraill:
 - Diwylliant y llys o blaid cyswllt
 - Y system wrthwynebol
 - Adnoddau cyfyngedig sydd yn effeithio ar bob elfen o achosion cyfraith breifat
 - Y ffordd y mae'r llys teulu yn gweithio mewn seilo, heb gydlyniant â llysoedd a sefydliadau eraill sydd yn delio â cham-drin domestig.

2. Egwyddorion dylunio y system gyfiawnder teulu

- Dyma ddylai egwyddorion dylunio elfennol ar gyfer achosion plant cyfraith breifat fod:
 - Diwylliant o ddiogelwch a gwarchodaeth rhag niwed
 - Dull sydd yn ymchwiliol ac sydd yn datrys problemau
 - Adnoddau sydd yn ddigonol ac a ddefnyddir yn fwy cynhyrchiol
 - Gyda dull mwy cydlynol rhwng gwahanol rannau y system.
- Mae angen dylunio gweithdrefnau gydag anghenion plant, ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn ystyriaethau canolog, yn ogystal â cham-drin domestig a phryderon eraill difrifol ynghylch diogelwch.

3. Datganiad Ymarfer

- Cynigir llunio Datganiad Ymarfer er mwyn sicrhau dull cyson a moesegol o ymdrin ag achosion sydd yn codi materion ynghylch cam-drin domestig a throseddau difrifol eraill.
- Mae'r panel yn gwahodd Llywydd yr Adran Deulu i hyrwyddo'r Datganiad Ymarfer yma, ac iddo gael ei ymgorffori i'r Rhaglen Trefniadau Plant.

4. Adolygiad o ragdybiaeth cyfranogiad rhieni

- Mae angen adolygu rhagdybiaeth cyfranogiad rhieni yn a.1(2A) Deddf Plant 1989 ar frys er mwyn mynd i'r afael â'i heffeithiau niweidiol.

5. Diwygio'r Rhaglen Trefniadau Plant

- Dylai llysoedd teulu beilota a darparu Rhaglen Trefniadau Plant wedi ei diwygio mewn achosion plant cyfraith deulu, sydd yn canolbwyntio ar ddiogelwch, sydd yn ymwybodol o drama ac sydd yn defnyddio dull datrys problemau.

- Dylai'r Rhaglen Trefniadau Plant ymgorffori gweithdrefn ar gyfer adnabod ceisiadau camdriniol a'u rheoli yn gyflym er mwyn dod i gasgliad crynodol.

6. Cryfhau Llais y Plentyn

- Mae'r panel yn argymhell y dylai'r ystod o opsiynau ar gyfer gwranddo ar lais y plentyn, ynghyd ag eiriolaeth, cynrychiolaeth a chymorth i blant gael eu harchwilio yn llawnach fel rhan o'r gwaith o ymhelaethu a pheilota'r Rhaglen Trefniadau Plant ddiwygiedig.

7. Diogelwch yn y Llys

- Hefyd dylai'r darpariaethau ym Mil Cam-drin Domestig sydd yn ymwneud â mesurau arbennig mewn llysoedd troseddol ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig gael eu hymestyn i lysoedd teulu. Hefyd dylid diwygio'r bil er mwyn gwahardd croesholi uniongyrchol mewn unrhyw achos teulu pan fo yna dystiolaeth o gam-drin domestig, neu pan fo cam-drin domestig yn destun yr achos.
- Dylid datblygu fframwaith o hawliau allweddol er mwyn amddiffyn oedolion a phlant mewn achosion llys teulu, yn seiliedig ar God Ymarfer MoJ ar gyfer Dioddefwyr Troseddau, er mwyn cynnwys ymweliadau ymglyfarwyddo ac ymateb cydnerth i achosion o dorri diogelwch.
- Gorchmynion Gwahardd: dylai mesurau i ddadwneud y gofyniad 'eithrio' am orchymyn adran 91(14) gael ei gynnwys yn y Bil Cam-drin Domestig. Dylai'r mesurau yma ddiwygio, amnewid neu ategu adran 91(14) Deddf Plant 1989.
- Mae'r panel yn rhoi mwy o argymhellion mewn perthynas â darparu mesurau arbennig ac argaeledd cymorth arbenigol i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig.

8. Cyfathrebu a chydlynu

- Dylid sefydlu mecanweithiau ffwythiannol ar gyfer cyfathrebu, cydlynu, dilyniant a chysondeb ar draws ystod o feysydd ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r panel yn credu y dylid sefydlu mecanweithiau lefel genedlaethol o dan nawdd Llywydd yr Adran Deulu. Dylai'r Barnwyr Teulu Dynodedig oruchwylio trefniadau lefel leol i weithredu mecanweithiau a phrosesau cenedlaethol.
- Dylai heddluoedd, ynghyd â Llysoedd Teulu a chynrychiolwyr polisi roi ystyriaeth frys i sut y gellid ariannu datgeliad yr heddlu pan na fo'r partïon yn cael cymorth cyfreithiol ac nad ydynt fel arall yn gallu ariannu eu hunain.

9. Adnoddau

- Mae'r panel yn argymhell buddsoddi mwy mewn nifer o feysydd er mwyn cyd-fynd â'r adolygiadau a gynigir i'r Rhaglen Trefniadau Plant.
 - Yr adnoddau llys a barnwrol sydd ar gael ar gyfer achosion plant cyfraith breifat - yn cynnwys cymorth gweinyddol a lles i rai sydd yn gwranddo ar achosion o'r fath i wneud eu gwaith yn effeithiol
 - Cafcass a Cafcass Cymru

- Ystâd llys teulu
- Cymorth cyfreithiol
- Cyllid ar gyfer asesiadau arbenigol
- Rhaglenni Cyflawnwyr Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr
- Canolfannau cyswllt dan oruchwyliaeth
- Darpariaeth addysgol a therapiwtig mewn perthynas â cham-drin domestig i rieni mewn achosion plant cyfraith breifat
- Gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a cham-drin plant arbenigol.

10. Adolygiad o Raglenni Cyflawnwyr Cam-drin Domestig

- Adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol o DAPP er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n effeithiol ar leihau niwed i blant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig, ac sydd yn seiliedig ar egwyddorion dylunio tanategol a argymhellir gan y panel.
- Dylai DAPP fod ar gael yn fwy eang yng Nghymru a Lloegr a dylent ganiatáu hunangyfeirio ar gyfer rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat.

11. Hyfforddiant

- Mae'r panel yn argymhell ystod eang o hyfforddiant i bawb sydd yn cyfranogi yn y system cyfiawnder teulu, yn cynnwys: rhaglen newid diwylliannol er mwyn cyflwyno ac ymgorffori diwygiadau i achosion plant cyfraith breifat er mwyn helpu i sicrhau bod hynny yn cael ei weithredu yn gyson; a rhestr o feysydd gwybodaeth allweddol sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r Rhaglen Trefniadau Plant ddiwygiedig yn effeithiol a chyson.
- Mae'r panel yn awgrymu y dylid ystyried cynnal hyfforddiant ar sail amlddisgyblaethol ar draws pob proffesiwn ac asiantaeth yn y system cyfiawnder teulu, er mwyn sicrhau ymagwedd gyson.

12. Achrediad Gweithwyr Cymdeithasol

- Mae'r panel yn argymhell bod gweithwyr cymdeithasol sydd yn cynnal asesiadau ar gyfer achosion plant cyfraith breifat yng Nghymru yn cael hyfforddiant ar safon Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Grŵp 3;
- Mae'r panel yn argymhell y dylai gweithwyr cymdeithasol sydd yn cynnal asesiadau ar gyfer achosion plant cyfraith breifat yn Lloegr fod yn ymarferwyr plant a theuluoedd achrededig; a
- Mae'r panel yn argymhell bod cynnwys yr hyfforddiant achrededig yng Nghymru a'r asesiadau achredu yn Lloegr yn cael eu hadolygu gan arbenigwyr cam-drin domestig er mwyn helpu i sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol yn cael eu hasesu.

13. Monitro a Throsolwg

Mae'r panel yn argymhell:

- Datblygu a gweithredu dull cyson a chynhwysfawr o fas data gweinyddol am achosion sydd yn codi materion cam-drin domestig, cam-drin plant yn rhywiol a phryderon eraill ynghylch diogelu.
- Sefydlu tîm monitro cenedlaethol yn swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig er mwyn cynnal trosolwg ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad llysoedd teulu o ran gwarchod plant a dioddefwyr rhag cam-drin domestig a risgiau o niwed arall mewn achosion plant cyfraith breifat.
- Cynnwys llysoedd teulu mewn adolygiadau o wersi lleol (yn Lloegr), adolygiadau o ymarfer plant (yng Nghymru) ac adolygiadau o ddynladdiadau domestig, pan fo'r teuluoedd dan sylw wedi bod yn gysylltiedig ag achosion plant cyfraith breifat.

14. Mwy o ymchwil

- Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gomisiynu astudiaeth ymchwil annibynnol, systematig, ôl-weithredol ar weithredu'r CAP presennol, PD12J ac adran 9(14) mewn achosion pan fo honiadau o gam-drin domestig, cam-drin plant yn rhywiol a throsteddau difrifol eraill yn cael eu gwneud.
- Dylai'r Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant gynnal adolygiad cenedlaethol statudol seiliedig ar ymarfer o achosion cam-drin domestig mewn achosion plant cyfraith breifat yn ystod y 12 mis nesaf er mwyn darparu gwaelodlin, gydag adolygiad dilynol ôl-ddiwygio bob 2-3 blynedd er mwyn edrych ar newidiadau mewn ymarfer; a bod Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru yn comisiynu adolygiad cyffelyb yng Nghymru.
- Dylai unrhyw gynlluniau peilot ar gyfer profi argymhellion y panel mewn perthynas â rhaglen Trefniadau Plant gael eu gwerthuso'n drylwyr gan ddefnyddio dulliau ymchwil ansoddol a meintiol, yn cynnwys adolygiad o ffeiliau, gorchmynion a dyfarniadau llys.
- Dylai cylch gorchwyl y corff goruchwyllo cenedlaethol uchod ddylid ei sefydlu gynnwys comisiynu a/neu gynnal ymchwil rhagolygol a pharhaus i'r gwaith o weithredu'r system ddiwygiedig ar gyfer materion plant cyfraith breifat.

1. Cyflwyniad gan y cyd-gadeiryddion

Yn 2019, dechreuodd 54,920 o achosion cyfraith breifat Deddf Plant yn y llysoedd teulu. Mae amcangyfrifon yn dangos bod mynychder camdriniaeth ddomestig yn yr achosion yma yn sylweddol uwch nag yn y boblogaeth yn gyffredinol, gyda honiadau neu ganfyddiadau o gam-drin domestig mewn samplau o achosion trefniadau/cyswllt plant yn amrywio o 49% i 62%.¹ Ar 21 Mai 2019 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder alwad gyhoeddus am dystiolaeth fyddai'n cael ei lywio gan banel o arbenigwyr o bob rhan o'r system cyfiawnder teulu, er mwyn casglu tystiolaeth o sut mae'r llysoedd teulu yn gwarchod plant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat sydd yn ymwneud â cham-drin domestig a throseddau difrifol eraill. Nod y gwaith yma oedd deall yn well beth oedd profiadau y rhai oedd yn gysylltiedig ag achosion o'r fath, canfod unrhyw faterion systematig, a chreu cronfa dystiolaeth fwy cydnerth ar gyfer hysbysu gwelliannau.

Wrth sefydlu'r panel, casglwyd ystod eang o arbenigwyr at ei gilydd, a phob un â chyfoeth o brofiad mewn cyfraith teulu preifat ac o weithio gyda, a chefnogi rhai sydd wedi bod drwy'r system. Roedd ein galwad am dystiolaeth yn gofyn am safbwyntiau gan ystod hyd yn oed ehangach o bobl, a derbyniwyd ymatebion gan ymarferwyr cyfreithiol a gweithwyr cymdeithasol, barnwyr, grwpiau y trydydd sector, ac yn bwysicach na dim, rhai sydd wedi cael profiad personol o fynd drwy achosion plant cyfraith breifat fel ymgyfreithwyr. Pan lanswyd yr alwad am dystiolaeth, roeddem wedi cynllunio ymarfer byr wedi ei ffocysu er mwyn canfod y materion allweddol yn y system. Derbyniwyd tystiolaeth mor swmpus a manwl fel bod y panel wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i gynhyrchu'r adroddiad terfynol yma er mwyn gallu gwneud cyfiawnder â'r dystiolaeth honno.

Roedd yr ystod eang o arbenigedd ar y panel yn golygu bod yna safbwyntiau gwahanol ar adegau, ac mae hynny hefyd yn wir am MoJ a'n cynrychiolaeth ni ar y panel - rydym yn croesawu'r adroddiad a'r her gydnerth mae wedi ei chyflwyno i ni, ond ni ddylid darllen yr isod fel arwydd o bolisi MoJ na pholisi'r llywodraeth yn ehangach. Ochr yn ochr â'r adroddiad yma, ac wedi ei hysbysu ganddo, mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi cynllun gweithredu, fydd yn amlinellu pa gamau fydd yn cael eu cymryd fel y gall y llysoedd teulu warchod plant a rhieni sydd yn wynebu risg o niwed yn well i'r dyfodol.

Gofynnwyd am dystiolaeth ar ystod eang o niwed y mae pobl yn y system cyfiawnder teulu wedi ei ddioddef, ac sydd yn parhau i ddioddef hynny efallai - yn cynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant, treisio, llofruddiaeth a throseddau treisgar eraill. Ond, roedd y rhan helaeth o'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn canolbwyntio ar gam-drin domestig, ac oherwydd hynny dyna yw canolbwynt yr adroddiad yma. Rydym yn credu bod yr adroddiad yn newid ein dealltwriaeth o brofiadau rhai sydd yn dioddef camdriniaeth

¹ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth sydd yn ategu'r adroddiad yma, Tabl 4.1.

ddomestig yn sylweddol; rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gyflwynodd dystiolaeth ac i aelodau'r panel a'i dadansoddodd.

Er bod yr adroddiad yn darparu dadansoddiad manwl o nifer o'r materion a enwir, rydym yn cydnabod bod yna gyfyngiadau i'r dystiolaeth ac na fydd yn gwbl gynrychioliadol o bawb yn y system. O ystyried mynychder cam-drin domestig mewn achosion plant cyfraith breifat, mae'n debygol y bydd gan y partïon a'r plant yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig wedi cael nifer o wahanol brofiadau o achosion o'r fath. Ond roeddem yn fodlon bod y dystiolaeth a dderbyniwyd yn yr adolygiad yma gan weithwyr proffesiynol a goroeswyr niferus ac eraill sydd â phrofiad uniongyrchol o achosion plant cyfraith breifat yn ddigon (ac yn gryf mewn gwirionedd) cyson er mwy galluogi i'r panel sefydlu safbwyntiau hyderus ynghylch y problemau systematig.

Yn y system cyfiawnder teulu, mae barnwyr, gweithwyr cymdeithasol, cyfreithwyr, staff y llysoedd a gweithwyr proffesiynol eraill yn gweithio'n galed iawn yn ddyddiol er mwyn gwneud penderfyniadau anodd er lles y plentyn, ac ni allant wneud hynny dim ond ar sail y wybodaeth sydd ar gael iddynt yn unig. Rydym yn eithriadol ddiolchgar am yr ymroddiad diflino a ddangoswyd gan yr unigolion yma, ac rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad yma a chynllun gweithredu ategol y Llywodraeth yn eu helpu yn eu rolau allweddol maent yn eu cyflawni.

Rydym yn ddiolchgar iawn i holl aelodau'r panel am yr amser a'r arbenigedd maent wedi ei rannu gyda ni wrth ymchwilio a chynhyrchu'r adroddiad yma. Rydym yn diolch yn arbennig i'r Athrawon Rosemary Hunter, Liz Trinder Mandy Burton am eu gwaith ymroddedig a diflino wrth arwain a drafftio'r adroddiad, gan sicrhau bod lleisiau pawb ar y panel ac a gyflwynodd dystiolaeth yn cael eu clywed.

Yn bwysicach na dim, diolch i bob person a sefydliad a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth; yn arbennig i fwy na 1,000 o unigolion y mae llawer ohonynt yn ddiodefwr camdriniaeth ddomestig, am ddweud wrth y panel beth a ddigwyddodd iddynt. Bydd cyhoeddi'r adroddiad yma yn sicrhau y byddir yn gwrando ar leisiau y rhai sydd wedi dioddef niwed ac y bydd rhywun yn gweithredu ar hynny.

**Melissa Case & Nicola Hewer,
Cyfarwyddwr Polisi Cyfiawnder Teulu a Throsedd,
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

Cyd-gadeiryddion y Panel

2. Sut aeth y panel ati i wneud ei waith

Roedd yr alwad yma am dystiolaeth yn ceisio creu gwell dealltwriaeth o sut mae'r llysoedd teulu yn ymateb i honiadau o gam-drin domestig a throseddau difrifol eraill, mewn achosion sydd yn ymwneud ag anghydfodau rhwng rhieni mewn perthynas â'u plant ar ôl gwahanu, a elwir yn 'achosion plant cyfraith breifat'. Roeddem yn amcanu at greu cronfa dystiolaeth fwy cydnerth mewn perthynas â'r broses a deilliannau ar gyfer y partïon a'r plant sydd yn gysylltiedig ag achosion o'r fath.

Oherwydd y pwysigrwydd a'r elfen o frys sydd yn gysylltiedig â'r gwaith yma, ein tasg oedd casglu dystiolaeth mewn tri mis. Yn ymarferol, roedd y nifer fawr o ymatebion yn golygu bod y panel angen chwe mis ychwanegol er mwyn sicrhau y gellid dadansoddi ac adolygu'r dystiolaeth yn drylwyr.

2.1 Ein Amcanion

Y cwestiwn ymchwil troswaol ar gyfer yr alwad am dystiolaeth oedd:

“Pa mor effeithiol mae'r llysoedd teulu yn ymateb i'r honiadau o gam-drin domestig a risgiau o niwed eraill i blant a rhieni sydd yn ddiodefwr mewn achosion plant cyfraith breifat, gan ystyried y broses a'r deilliannau i'r partïon a'r plant?”

Amcanion penodol yr alwad am dystiolaeth oedd:

- Deall sut mae gorchmynion Cyfarwyddyd Ymarfer 12J,² Rhan 3A FPR 2010,³ Cyfarwyddyd Ymarfer 3AA ac adran 91(14)⁴ yn cael eu cymhwyso yn ymarferol a'u heffaith, yn cynnwys y rhyngweithio rhwng y Cyfarwyddiadau ymarfer yma a'r risg o niwed, ar y dybiaeth o gyfranogiad rhieni;
- Er mwyn deall yr heriau sydd yn gysylltiedig â chymhwyso'r Cyfarwyddiadau Ymarfer a'r gorchmynion adran 9(14);
- Deall natur unrhyw anghysonderau wrth gymhwyso'r darpariaethau;
- Deall y risg o niwed i blant a rhieni sydd yn ddiodefwr o ganlyniad i barhau i gael perthynas â'r rhiant, neu ellid ei achosi o ganlyniad i orchmynion cyswllt i barhau i ryngweithio â rhiant sydd yn gyflawnwr, pan fo yna dystiolaeth o gam-drin domestig, yn

² Mae'r darpariaethau yma yn cael eu trafod yn fanylach ym mhennod 3. Mae **Cyfarwyddyd Ymarfer 12J** yn nodi'r weithdrefn ar gyfer llysoedd sydd yn delio ag achosion trefniadau plant pan honnir camdriniaeth ddomestig. Mae hefyd yn darparu ar gyfer trefniadau arbennig mewn achosion o'r fath.

³ Mae **Rhan 3A** a **Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA** yn nodi gweithdrefnau a chyfarwyddiadau i lysoedd ar gyfer arenwi tystion sydd yn agored i niwed (yn cynnwys partïon gwarchoddedig) ac ar gyfer ystyried mesurau arbennig i'w cynorthwyo i gyfrannu yn effeithiol at achosion teulu.

⁴ **Gorchmynion yn unol ag adran 91(14) Deddf Plant 1989**: mae 'gorchmynion gwahardd' yn atal parti rhag gwneud mwy o geisiadau i'r llys heb ganiatâd ymlaen llaw gan y llys.

cynnwys ymddygiad o orfodi a rheoli, neu ymddygiad arall sydd yn achosi risg o niwed i blentyn neu riant.

- Dehongli'r dystiolaeth a gasglwyd ac argymhell y camau nesaf.

2.2 Ffynonellau tystiolaeth

Dyluniwyd y rhaglen gasglu tystiolaeth gennym gyda'r pwyslais pennaf ar wrando ar rai oedd â phrofiad personol a phroffesiynol o achosion perthnasol. Er mwyn sicrhau bod yna ddigon o gyfle i unigolion a sefydliadau gyfrannu at yr alwad am dystiolaeth dewisodd y panel:

- gynnal adolygiad ymchwil ac adolygiadau o gyfraith achos mewn perthynas â PD12J ac adran 91(14)
- galw am dystiolaeth ysgrifenedig; a
- chynnal digwyddiadau bord gron a grwpiau ffocws.

Aeth y panel ati i ddadansoddi'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth gan ddefnyddio fframwaith thematig gyda thrafodaeth helaeth ar themâu, materion tanategol ac argymhellion yng nghyfarfodydd y panel.

2.2.1 Adolygiad ymchwil

Ar ein cais, Dr Adrienne Barnett o Brifysgol Brunel arweiniodd yr adolygiad o'r ymchwil oedd ar gael ar y risgiau i blant a rhieni sydd yn gysylltiedig ag achosion plant cyfraith breifat mewn perthynas â cham-drin domestig a throseddau difrifol eraill, a sut mae'r llys teulu yn rheoli'r risgiau yma. Mae'r adolygiad ymchwil yn cwmpasu tair thema gyffredinol:

- Profiadau plant a rhieni o gam-drin domestig cyn ac ar ôl i rieni wahanu;
- Profiadau plant a rhieni o achosion llys teulu a phenderfyniadau yng nghyd-destun cam-drin domestig;
- Sut mae'r system llys teulu yn ymateb i ac yn rheoli cam-drin domestig mewn achosion plant cyfraith breifat, yn cynnwys sut mae'r llysoedd yn cymhwyso Cyfarwyddyd Ymarfer 12J (PD12J), yn gorfodi gorchmynion cyswllt ac yn rheoli ymgyfreitha camdriniol.⁵

Roedd y llenyddiaeth a adolygwyd yn cynnwys amrywiaeth eang o astudiaethau ymchwil a gyhoeddwyd mewn adroddiadau ymchwil, monograffau ac erthyglau mewn cyfnodolion academiaidd, gan ddefnyddio ystod o fethodolegau, yn y DU ac awdurdodaethau eraill. Mae'r panel yn nodi mai dim ond ychydig o ymchwil a fu i weithredu diwygiadau 2017 i

⁵ Mewn perthynas â throseddau difrifol eraill, chwiliwyd am lenyddiaeth ar blant a genhedlwyd o ganlyniad i dresio gan ddieithryn neu gydnabod, ond roedd y diffyg llenyddiaeth berthnasol sydd yn gysylltiedig â Chymru a Lloegr yn golygu na ddilynwyd yr agwedd yma ymhellach.

PD12J⁶, ond fel arall mae yna gronfa ymchwil sylweddol yn gysylltiedig â'r tri maes. Mae'r adolygiad llawn o'r lenyddiaeth wedi ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adolygiad yma:

Hefyd, rydym wedi enwi dau o feysydd cyfraith achos ar gyfer ymchwiliad manylach - PD12J ac adran 91(14). Cynhaliodd Yr Athro Rosemary Hunter yr adolygiad o gyfraith achos mewn perthynas â PD12J, cynhaliodd Mandy Burton yr adolygiad o gyfraith achos mewn perthynas ag adran 91(14) a darparodd Lorraine Cavanagh QC ddadansoddiad ategol. Mae'r adolygiad o gyfraith achos yn Atodiad i'r adroddiad yma.

2.2.2 Yr alwad am dystiolaeth ysgrifenedig

Pwrpas yr alwad am dystiolaeth ysgrifenedig oedd sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu gan ystod eang o unigolion a sefydliadau sydd â phrofiad o achosion cyfraith breifat perthnasol. Roedd yr alwad am dystiolaeth yn cynnwys holiadur ar-lein oedd ar gael am gyfnod o chwe wythnos.⁷ Dyluniwyd yr holiadur er mwyn bod yn hygyrch i aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.

Strwythurwyd y cwestiynau mewn wyth adran allweddol, mewn perthynas ag:

- Achosion plant cyfraith breifat yn gyffredinol;
- Datgan honiadau o gam-drin domestig neu droseddau difrifol eraill mewn achosion plant cyfraith breifat;
- Llais y plentyn yn yr achosion yma;
- Y weithdrefn pan fo cam-drin domestig yn cael ei ddatgan;
- Diogelwch a gwarchodaeth yn y llys i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig a throseddau difrifol eraill;
- Ceisiadau mynych i'r llysoedd teulu yng nghyd-destun cam-drin domestig a throseddau difrifol eraill;
- Y deilliannau i blant a rhieni sydd yn ddioddefwyr sydd yn gysylltiedig ag achosion o'r fath.
- Unrhyw wybodaeth, profiadau neu argymhellion eraill yr oedd yr ymatebwyr eisïau eu rhannu.


Roedd yr holiadur hefyd yn gofyn i ymatebwyr a oedd eu profiadau yn y llys teulu yn ystod 2018–19, 2014–17, neu cyn 2014. Dewiswyd y cyfnodau amser yma oherwydd bod gwahanol fersiynau o PD12J mewn grym, o'i gyflwyno yn 2008, ei adolygu yn 2014 a'r ail adolygiad yn Hydref 2017. Hefyd cyflwynwyd FPR Rhan 3A yn hwyr yn 2017.

⁶ Ers cwblhau'r adolygiad o lenyddiaeth cyhoeddwyd dwy astudiaeth: M Lefevre a J Damman, *Practice Direction 12J: What is the Experience of Lawyers Working in Private Law Children Cases?* (2020); IDAS, *Domestic Abuse and the Family Courts: A Review of the Experience and Safeguarding of Survivors of Domestic Abuse and their Children in Respect of Family Court Proceedings* (2020).

⁷ Roedd yr alwad am dystiolaeth ar gael ar-lein o 19 Gorffennaf i 26 Awst 2019. Roedd copïau hefyd ar gael mewn Cymraeg a Saesneg a derbyniwyd ymatebion hefyd drwy e-bost neu fel copïau caled yn y post.

Derbyniwyd 1,226 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau ledled Cymru a Lloegr. O blith y rhain, ni ellid defnyddio 111, neu roeddent y tu allan i'r cwmpas.⁸ O blith y 1,115 ymateb arall, roedd y rhan helaeth (87%) gan unigolion oedd â phrofiad personol o achosion plant cyfraith breifat - mamau a'u teuluoedd yn bennaf - a 10% gan unigolion oedd â phrofiad proffesiynol/ymarferol yn y llysoedd teulu.⁹ Roedd y 3% (32 cyflwyniad) arall gan sefydliadau.¹⁰ Wrth ddadansoddi'r ymatebion, mae'r panel wedi rhoi sylw dyledus i'r ymatebion gan sefydliadau, gan adlewyrchu'r ffaith eu bod yn cynrychioli profiad cyfun eu haelodau a defnyddwyr gwasanaeth.

Usable Submissions



Roedd y rhan helaeth o'r cyflwyniadau yn ymdrin â'r rhan o'r cwestiwn ymchwil oedd yn ymwneud â pha mor effeithiol yr oedd y llysoedd teulu yn ymateb i honiadau o gam-drin domestig. Roedd y cyflwyniadau gan dadau yn bennaf gan ddynion oedd wedi wynebu honiadau o gam-drin domestig. Derbyniwyd cymharol ychydig o gyflwyniadau gan dadau oedd wedi dioddef cam-drin domestig. Mae tra-niferedd cyflwyniadau gan famau sydd yn ddiodefwyr camdriniaeth ddomestig yn unol â'r ymchwil sylweddol a'r dystiolaeth ystadegol sydd yn dangos bod y gamdriniaeth gan ddynion yn erbyn partneriaid benywaidd agos fwy mynych, parhaus, difrifol a bod yr effaith yn fwy.¹¹ Roedd cyflwyniadau gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol yn disgrifio eu profiadau mewn achosion oedd yn ymwneud â chamdriniaeth oedd yn amrywio o ran parhad a difrifoldeb, tra bod y

⁸ Mae anefnyddadwy neu y tu allan i gwmpas yn golygu nad ydynt yn blant cyfraith breifat, ddim yng Nghymru neu Loegr neu ddim yn ymateb i'r cwestiwn.

⁹ Er enghraifft, Ynadon a Chynghorwyr Cyfreithiol, cyfreithwyr a bargyfreithwyr, swyddogion Cafcass a gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth cam-drin domestig a chymorth i deuluoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol (seicolegwyr, therapyddion, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu) ac eraill sydd yn ymarfer yn y maes (Cyfeillion Mckenzie, academyddion, ymgyrchwyr, canolwyr, ASau/ACau Cymru).

¹⁰ Er enghraifft, sectorau cyfreithiol a cham-drin domestig, grwpiau tadau ac elusennau plant.

¹¹ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 4.2.

rhan fwyaf o famau yn disgrifio camdriniaeth cymharol ddifrifol a pharhaus, a bod hynny bron yn ddieithriad yn cynnwys rheolaeth orfodol.

Mewn perthynas â risg o niwed arall i blant a rhieni sydd yn ddiodefwr, darparodd rhai mamau a llond llaw o dadau dystiolaeth am eu profiadau o achosion llys teulu pan roeddent wedi ymdrechu i warchod eu plant oedd wedi datgelu camdriniaeth rywiol gan y rhiant arall. Hefyd derbyniwyd tystiolaeth gan wasanaethau cymorth arbenigol i deuluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol, megis Mosac a CARA. Hefyd, cododd nifer o famau faterion yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol fel rhan o batrwm o ymddygiad camdriniol gan y tad yn erbyn y plant eu hunain. Fel y mae'r cyflwyniadau yma yn ei ddangos, mae cam-drin domestig, cam-drin plant a cham-drin plant yn rhywiol yn aml yn rhyng-gysylltiedig yn hytrach na'u bod yn ffenomena ar wahân.

Nid oedd yr un cyflwyniad yn darparu tystiolaeth mewn perthynas â throseddau difrifol eraill yn erbyn oedolion sydd yn ddiodefwr nad oedd yn rhyw fath o gam-drin domestig.

Er bod yr alwad am dystiolaeth yn ymwneud ag achosion plant cyfraith breifat yn gyffredinol, roedd bron yr holl gyflwyniadau yn darparu tystiolaeth am achosion trefniadau plant yn hytrach na mathau eraill o achosion plant cyfraith breifat.

Roedd cyflwyniadau unigol yn cynnwys yr ystod lawn o gyfnodau oedd yn gynwysedig yn yr alwad am dystiolaeth, ac roedd nifer sylweddol o'r cyflwyniadau yn adrodd am brofiadau ym mhob cyfnod. Gallai ymatebwyr ddewis yr holl gyfnodau oedd yn gymwys i'w hachos nhw, ac roedd nifer fawr o gyflwyniadau yn pontio mwy nag un cyfnod. Roedd hynny yn golygu nad oedd hi bob amser yn bosibl dweud pa fersiwn o PD12J oedd mewn grym ar adeg y digwyddiadau penodol a ddisgrifiwyd. Ond, roedd y rhan fwyaf o'r cyflwyniadau yn adrodd am brofiadau diweddar yn y llysoedd teulu, naill ai yn y cyfnod 2018-19, neu'r cyfnod 2014-19.

2.2.3 Cyfarfodydd bord gron

Cynhaliwyd tri digwyddiad bord gron gyda rhai oedd â phrofiad proffesiynol ac ymarferol o gyfiawnder teulu, yn benodol mewn achosion cam-drin domestig. Sef:

- Bord gron 1: Llundain, aelodau y farnwriaeth
- Bord gron 2: Llundain, ystod ehangach o ymarferwyr yn cynnwys y rhai sydd yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol, gwasanaethau cymorth cam-drin domestig, y trydydd sector, Cafcass, y sector cyfreithiol, a gwasanaethau perthnasol eraill yn Lloegr.
- Bord gron 3: Caerdydd, ystod eang o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol o faes cyfiawnder teulu yng Nghymru, yn cynnwys gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, Cafcass Cymru, gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a gwasanaethau cymorth i ddynion.

Arweiniodd hyn at drafodaeth rhwng cynrychiolwyr mewn gwahanol rolau er mwyn caffael dealltwriaeth fwy trylwyr o realiti, yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer creu gwelliannau mewn

achosion plant cyfraith breifat. Recordiwyd sain bob un o'r sesiynau bord gron, a dadansoddwyd y trawsgrifiadau yn thematig.

2.2.4 Grwpiau ffocws

Hefyd cynhaliwyd deg grŵp ffocws yng Nghymru a Lloegr, oedd yn cynnwys gwahanol gohortau o unigolion er mwyn sicrhau bod ystod eang o brofiadau a safbwyntiau yn cael eu hystyried. Cynhaliwyd sesiynau gyda:

- mamau oedd wedi bod yn gysylltiedig ag achosion cyfraith teulu preifat fel dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a throseddau difrifol eraill; yn cynnwys sesiwn yn benodol ar gyfer merched o gefndiroedd BAME;
- tadau oedd wedi bod yn gysylltiedig ag achosion naill ai fel dioddefwyr camdriniaeth ddomestig neu fel unigolion oedd wedi bod yn destun honiadau yn eu herbyn; a
- phlant a fu'n destun achosion o'r fath.

Oherwydd y sensitifrwydd oedd yn gysylltiedig â hyn, hwyluswyd y grwpiau ffocws gyda help sefydliadau trydydd sector oedd yn gweithio ym maes cyfiawnder teulu allai gynnig cymorth arbenigol i gyfranogwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y sesiynau. Roedd y rhain yn cynnwys Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr, Cymorth i Ferched Cymru, Respect, Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teulu,¹² a Southall Black Sisters. Mynychwyd pob sesiwn gan aelod o'r panel er mwyn sicrhau cynrychiolaeth a throsolwg, fe'u recordiwyd a'u cofnodi. Yna gwerthuswyd y cofnodion yma yn thematig fel rhan o'r broses o ddadansoddi data.

2.3 Dadansoddi

I ddechrau dadansoddwyd yn thematig tua hanner y cyflwyniadau galwad am dystiolaeth, ar draws yr holl grwpiau gwahanol, gan Yr Athro Rosemary Hunter.¹³ Rhannwyd gweddill y cyflwyniadau ac fe'u darllenwyd gan aelodau eraill y panel. Roedd gan aelodau'r panel fynediad at yr holl gyflwyniadau er mwyn gallu rhoi ystyriaeth ehangach.

Rhannwyd asesiad cychwynnol Yr Athro Hunter o'r themâu a'r crynodeb o bwyntiau oedd yn codi o'r cyflwyniadau gyda'r holl banel. Yna cymharwyd a chyferbynnwyd y cyflwyniadau yr oeddem wedi eu darllen yn unigol, ac ychwanegu themâu ychwanegol, yn

¹² Mae FJYPB yn cael ei noddi ac mae ei waith yn cael ei hwyluso gan Cafcass, ond mae'r Bwrdd ei hun yn annibynnol. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys Cymru a Lloegr.

¹³ Roedd y sampl yn cynnwys 200 o gyflwyniadau gan famau, yr holl gyflwyniadau gan dadau, yr holl gyflwyniadau unigol gan weithwyr proffesiynol/darparwyr gwasanaethau a'r holl gyflwyniadau gan sefydliadau. Mae dadansoddiad thematig yn cynnwys archwilio data ansoddol yn drylwyr er mwyn canfod themâu cyffredin- testunau, syniadau a materion - a welir yn fynych. Rhoddir label llawfer (codau) i bob syniad, er mwyn disgrifio ei gynnwys. Mae'r codau yma yn cael eu cymhwysu ar draws yr holl gyflwyniadau yn gyson er mwyn canfod cynnwys cyffelyb ar draws cyflwyniadau lluosog. Mae codau tebyg yn cael eu grwpio gyda'i gilydd fel themâu. Daw'r broses yn i fod yn iteraidd nes bod yr holl destunau allweddol, syniadau a materion cyffredin ar draws yr holl ddata yn cael eu codio a bod yr holl themâu canlyniadol yn cael eu harenwi. Bydd yr adroddiad ar y dadansoddiad yn gyffredinol yn cael ei strwythuro yn ôl y themâu terfynol a nodir.

ogystal â phwyntiau penodol o drawsgrifiadau'r cyfarfodydd bord gron a grwpiau ffocws. Hefyd amlygwyd a nodwyd arfer dda ac awgrymiadau yn y cyflwyniadau ar gyfer newid. Cawsom drafodaeth agored ar y themâu er mwyn meithrin dealltwriaeth gyson o'r materion a chytuno ar themâu allweddol.

Arsylwad pwysig o'r dadansoddiad oedd y gwahaniaethau mewn profiad a adroddwyd amdanynt yn y cyflwyniadau gan famau a'r rhai gan dadau. Roedd y cyflwyniadau gan famau yn nodi eu bod eisiau i'r gamdriniaeth stopio a sicrhau bod eu plant yn cael eu diogelu rhag niwed. Roeddent yn adrodd nad oedd yr achosion llys yn darparu yr un o'r deilliannau yma, a'u bod yn aml yn achosi i'r sefyllfa fod yn waeth. I'r gwrthwyneb, roedd cyflwyniadau gan dadau yn tystiolaethu am lefel uchel o brofiad o ddim cyswllt a gorchmynion cyswllt anuniongyrchol, a lefel llawer uwch o gynefindra â gorchmynion adran 91(14). Yn gyffredinol, mae hynny yn awgrymu bod yr ymatebion a dderbyniwyd gan famau a thadau wedi dod o grwpiau gwahanol o bobl i raddau oedd yn cynrychioli gwahanol fathau o brofiadau o'r llysoedd teulu. Dylid cofio hynny pan fo gwahaniaeth mewn safbwyntiau tadau a mamau yn cael eu nodi yn yr adroddiad yma.

Ond hyd yn oed o ystyried y gwahaniaethau rhwng cyflwyniadau mamau a thadau, roedd yn amlwg bod yna lefel uchel o gysondeb mewn cyflwyniadau ac yn y cyfarfodydd bord gron a grwpiau ffocws.

Hefyd, roedd yna ddilyniant cyffredinol mewn perthynas â'r profiadau yr adroddwyd amdanynt dros gyfnod o amser, yn hytrach na gwahaniaethau rhwng gwahanol gyfnodau. Hefyd canfu'r dadansoddiad ddilyniant o ran materion rhwng Cymru a Lloegr. Nid oedd yr alwad am dystiolaeth yn gofyn i ymatebwyr am leoliad daearyddol eu profiadau, er bod rhai cyflwyniadau wedi cyfeirio at eu lleoliad, neu wedi cyfeirio fel arall at ffactorau oedd yn amlygu eu lleoliad. Fel y disgrifir uchod, cynhaliwyd cyfarfodydd bord gron gydag ymarferwyr a goroeswyr yng Nghymru a Lloegr. Codwyd rhai materion penodol mewn perthynas â Chymru neu Loegr (e.e. darpariaeth neu ddiffyg argaeledd rhaglenni cyflawnwyr camdriniaeth ddomestig), a phan fo gwahaniaethau cenedlaethol yn amlwg, rydym wedi adrodd am hynny.

2.4 Llunio adroddiad a llunio argymhellion

Digwyddodd y gwaith o lunio'r adroddiad a llunio argymhellion yn gyfochrog.

O ystyried y lefel uchel o gysondeb rhwng cyflwyniadau a'r themâu clir cyffredin a ddaeth i'r golwg, penderfynwyd integreiddio'r dystiolaeth i benodau amrywiol yr adroddiad yn hytrach nag adrodd am y dystiolaeth o wahanol grwpiau ar wahân. Felly, defnyddiwyd y themâu allweddol o'r ymarferiad casglu data cyfan fel sail ar gyfer strwythur a chynnwys yr adroddiad terfynol.

Dyrannwyd themâu o'r adolygiad ymchwil, galwad am dystiolaeth, grwpiau ffocws a chyfarfodydd bord gron i benodau penodol er mwyn sicrhau bod pob thema yn cael sylw a

bod dyblygu yn cael ei leihau drwy groesgyfeirio fel bo'r angen. Yna cwblhaodd Yr Athrawon Rosemary Hunter, Liz Trinder a Mandy Burton ddrafftiau cychwynnol o'r penodau a drafodwyd gan y panel ac yna fe'u hailddrafftiodd fel ymateb i'r adborth gan aelodau'r panel, a'u golygu er mwyn cysondeb iaith ac arddull, gan yr un awduron ac Ysgrifenyddiaeth y Panel. Ochr yn ochr â'r penodau drafft yma, defnyddiwyd awgrymiadau o newidiadau a enwyd yn yr ymarferiad casglu data ac arbenigedd sylweddol aelodau'r panel er mwyn llunio a chytuno ar yr argymhellion yma.

2.5 Cydnerthedd a chyfyngiadau'r dystiolaeth

Roedd y panel yn gallu defnyddio ystod eang o dystiolaeth er mwyn hysbysu ei gasgliadau, yn cynnwys cyflwyniadau unigol, trafodaethau bord gron a grwpiau ffocws a'r adolygiad o ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn hyderus bod ein dadansoddiad, a'r argymhellion yr ydym wedi eu llunio ar sail hynny, yn cyflwyno darlun cydnerth o sut mae llysoedd teulu yn delio ag achosion o gam-drin domestig ac achosion sydd yn deillio o risgiau eraill mewn achosion plant cyfraith breifat, a'r heriau wrth wneud hynny.

Ond, mae'n bwysig cydnabod cyfyngiadau'r dystiolaeth a ystyriwyd gan y panel. Roedd rhai cyflwyniadau yn feirniadol o'r broses a ddefnyddiodd y panel i gasglu tystiolaeth, gan nodi angen am ymchwil annibynnol, ansoddol a meintiol yn seiliedig ar ddadansoddi ffeiliau llys, yn hytrach na hunan-adroddiadau. Oherwydd y cyfyngiadau amser ar broses casglu data y panel a natur anhysbys yr ymatebwyr, nid oeddem yn gallu cael mynediad at ffeiliau llysoedd, trawsgrifiadau, dyfarniadau neu orchmynion yn yr achosion a ddisgrifiwyd yn y cyflwyniadau.

Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y panel yn ansoddol ei natur. Mae tystiolaeth ansoddol yn darparu corff cyfoethog o fewnwelediadau data i sut mae'r system cyfiawnder teulu yn gweithio ac i brofiadau unigolion a sefydliadau. Ond nid yw tystiolaeth ansoddol ar ei ben ei hun wedi'i ddylunio i ddweud wrthym pa mor gyffredin neu fynych yw'r profiadau hynny.

Ac ni allwn ychwaith ddweud pa mor gynrychioliadol yw'r cyflwyniadau o holl ddefnyddwyr y llys a gweithwyr proffesiynol. Fel yn achos pob ymchwiliad, roedd y cyflwyniadau gan unigolion a sefydliadau a'r ymgysylltu â'r broses o gasglu data yn wirfoddol. Felly mae'n debygol y bydd yna rywffaint o duedd dethol. Efallai bydd gan yr unigolion sydd yn fodlon i raddau helaeth â'r broses a'r deilliannau mewn llysoedd teulu lai o gymhelliant i ddarparu tystiolaeth. Yn yr un modd, efallai bod gan weithwyr proffesiynol sydd yn gweithio yn y system fwy o gymhelliant i amddiffyn y ffordd mae'r system yn gweithio.

Ac ni allwn ychwaith brofi cywirdeb na chyflawnrwydd y cyflwyniadau a roddwyd. Nid yw'n bosibl cael cofnod 'gwrthrychol' o beth ddigwyddodd ym mhob achos. Mae tystiolaeth ansoddol yn cynrychioli canfyddiadau a safbwyntiau unigolion a sefydliadau sydd yn

ymateb. Bydd agweddau, cyd-destun diwylliannol, diwylliant sefydliadol, rolau penodol yn yr achosion a thueddiadau unigol y rhai sydd yn darparu tystiolaeth yn dylanwadu ar y safbwyntiau hynny. Hefyd gallent fod yn destun tuedd adalw. Roedd y panel yn ymwybodol iawn y gall cyflwyniadau fod yn seiliedig ar gamddealltwriaeth, camsyniadau neu ystumio bwriadol yn ogystal â syniadau gobeithiol.

Ef gwaethaf y cyfyngiadau cynhenid yma, rydym wedi ein perswadio bod y dystiolaeth a gasglwyd yn arenwi problemau systematig ynghylch sut mae llysoedd teulu yn delio ag achosion cam-drin domestig ac achosion sydd yn datgan risgiau eraill o niwed mewn achosion plant cyfraith breifat. Mae'n annhebygol bod y panel wedi llwyddo i ddatgelu camgymeriadau ynysig neu ddigwyddiadau prin yn unig. Mae'r dystiolaeth yn pwyntio at faterion sydd yn effeithio ar achosion lluosog ar draws y system a hynny gydag effeithiau difrifol o bosibl, er ein bod hefyd wedi gallu arenwi enghreifftiau o arfer dda. Mae yna nifer o resymau dros ddod i'r casgliad hwnnw.

I ddechrau, roeddem wedi derbyn swm mawr o gyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol, a dioddefwyr camdriniaeth gwrywaidd a benywaidd, a phob un yn nodi problemau cyffelyb. Er na allwn fesur maint y problemau hynny, nid yw'n ymddangos bod y profiadau yr adroddwyd amdanynt yn ddigwyddiadau untro neu leol.

Yn ail, roedd cael ffynonellau lluosog o dystiolaeth yn golygu ein bod wedi gallu croeswiro materion a themâu o wahanol ffynonellau. Er na allwn asesu gwirionedd neu gywirdeb unrhyw gyflwyniad unigol, roedd cyflwyniadau dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn codi themâu a phryderon cyffelyb. Yn eu tro, roedd y themâu a'r pryderon a fynegwyd gan ddiodeffwyr yn cael eu hategu yn fras gan y rhan fwyaf o'r cyflwyniadau proffesiynol a sefydliadol, ond nid pob un. Mae'n bwysig nodi bod y materion a'r pryderon hynny yn gyson iawn â chanfyddiadau corff sylweddol o ymchwil academaidd a adolygwyd ar gyfer y panel.

Yn drydydd, roedd y panel yn ofalus wrth asesu dilysrwydd canfyddiadol y cofnodion. Wrth ddarllen y cyflwyniadau, roeddem yn gallu gwahaniaethau rhwng lleiafrif oedd yn ymddangos eu bod yn seiliedig ar dempled generig, a'r rhan fwyaf oedd â disgrifiadau manwl oedd yn ymddangos eu bod yn darparu cofnod dilys o brofiadau unigol. Hefyd, er bod tuedd gyffredinol y dystiolaeth yn negyddol, roedd yna nifer o gofnodion oedd yn newid pwyslais, gyda phrofiadau cadarnhaol a negyddol. Roedd y rhai oedd â phrofiad mewn nifer o wahanol gohortau yn rhoi teimlad o amrywiaeth o ran arferion mewn a rhwng llysoedd a gyda threigl amser. Nodwyd dirywiadau yn ogystal â gwelliannau gyda threigl amser, er mai'r thema gryfaf oedd dilyniant, gyda fawr ddim yn newid mae'n ymddangos o ganlyniad i weithredu adolygiadau o PD12J. Yn benodol, disgrifiodd rhai ymatebwyr gyswllt a ddigwyddodd pan oeddent yn blant, oedd efallai wedi digwydd cyn i PD12J ddod i rym, ond roedd yna gysondeb yn yr adroddiadau drwy gydol y cyfnodau a ddisgrifir yng nghrynsyth y data sydd yn awgrymu na fu newid sylweddol i brofiadau plant gyda threigl amser.

Er ein bod yn cydnabod yr angen am fwy o ymchwil ansoddol (gweler pennod 11), rydym yn hyderus bod yr ymchwil a'r adolygiadau o gyfraith achos, yr alwad am dystiolaeth, data grwpiau ffocws a bord gron yn darparu mewnwelediad holistig i sut mae llysoedd teulu yn delio ag achosion o gam-drin domestig ac achosion sydd yn codi risgiau eraill o niwed mewn achosion plant cyfraith breifat ar hyn o bryd, a chryfderau a gwendidau yr ymagwedd honno.

2.6 Nodyn ar derminoleg a chyflwyniad

Rydym yn defnyddio 'mamau' a 'thadau' yn yr adroddiad er mwyn adlewyrchu'r cyflwyniadau a dderbyniwyd, pan dderbyniwyd adroddiadau penodol neu pan fynegwyd pryderon gan un grŵp ac nid y llall. Rydym yn defnyddio 'rhieni' sydd yn niwtral o ran rhywedd pan godwyd pwyntiau gan famau a thadau. Mae cyfeiriadau at 'famau' hefyd yn cynnwys safbwyntiau gan aelodau teulu mamau, megis y nain ar ochr y fam. Yn yr un modd, mae cyfeiriadau at 'dadau' hefyd yn cynnwys safbwyntiau gan deuluoedd tadau.

Dylai'r termau 'dioddefwyr' a 'chyflawnwyr' camdriniaeth ddomestig neu 'gamdriniwr' gael eu darllen mewn cyd-destun - mewn rhai rhannau o'r adroddiad maent yn gysylltiedig â rhywedd a mewn rhannau eraill fe'u bwriedir i fod yn gynhwysol o ran rhywedd. Hefyd bwriedir i'r termau yma gynnwys pobl yr honnir eu bod yn ddiodefwr, cyflawnwyr neu gamdrinwyr yng nghyd-destun achosion llys.

Pan fyddwn yn cyfeirio at gyflwyniadau gan 'weithwyr proffesiynol', mae hynny yn golygu bod y pwynt wedi cael ei fynegi mewn nifer o gyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol, ac nid yw'r oll o reidrydd o un grŵp penodol o weithwyr proffesiynol. Pan fyddwn yn cyfeirio at gyflwyniadau penodol, rydym yn enwi'r grŵp proffesiynol perthnasol e.e. 'seicolegydd', 'cyfreithiwr', 'gweithiwr cam-drin domestig'. Darparwyd cyflwyniadau yn ddiennw. Gofynnwyd i sefydliadau a roddodd gyflwyniadau a oeddent yn cytuno i gael eu henwi neu beidio yn yr adroddiad, a chytunodd pob un.

Pan ydym yn cyfeirio at y llys teulu, llysoedd teulu neu dim ond 'y llys', bwriedir i hynny gynnwys y Llys Teulu presennol ac Adran Deulu yr Uchel Lys, yn ogystal â llysoedd ble cynhaliwyd achosion plant cyfraith breifat yn ystod y blynyddoedd cynharach, megis Llysoedd Achosion Teuluoedd a Llysoedd Sirol. Mae cyfeiriadau at 'Cafcass/Cymru' yn golygu y ddau sefydliad. Pan fyddwn yn cyfeirio at un sefydliad yn unig rydym yn defnyddio naill ai 'Cafcass' neu 'Cafcass Cymru'.

Y derminoleg gyfredol mewn achosion plant cyfraith breifat yw fod llysoedd yn rhoi gorchmynion i blant 'fyw gyda' neu 'dreulio amser gyda' rhiant. Drwy gydol yr adroddiad rydym wedi cadw'r 'hen' iaith o ran 'preswylfa' a 'chyswllt' oherwydd mai dyma oedd y termau a ddefnyddiwyd amlaf yn y cyflwyniadau a'r termau fydd yn fwy cyfarwydd i ddarllenwyr nad ydynt yn gweithio ym maes y gyfraith.

Mae dyfyniadau o gyflwyniadau wedi cael eu golygu ychydig er mwyn gwaredu camsillafu a gwallau amlwg eraill, heb newid yr ystyr a fynegir na llais unigol yr ymatebydd. Mae naratif hirach o brofiadau ymatebwyr fydd yn ein helpu i fynegi pwynt yn cael eu cyflwyno ar ffurf 'cyflwyniadau crynodol', sydd yn cyfuno aralleiriadau o rannau o'r cyflwyniadau a rhai dyfyniadau uniongyrchol.

Mae ystyron yr acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad ar gael yn y Rhestr Acronymau ar ddiwedd yr adroddiad.

3. Y Fframwaith Cyfreithiol

Mae'r bennod hon yn egluro'r gyfraith mewn perthynas ag achosion plant cyfraith breifat mewn achosion pan geir honiadau a/neu dystiolaeth arall o gam-drin domestig neu droseddau difrifol eraill. Y ddeddfwriaeth ddomestig allweddol yw Deddf Plant 1989 (Y Ddeddf Plant). Mae darpariaethau'r Ddeddf Plant sydd yn berthnasol i achosion plant cyfraith breifat yn gymwys yng Nghymru a Lloegr.¹⁴ Mae Rheolau Gweithdrefn Teuluoedd 2010 (FPR) yn darparu set o reolau llys ar gyfer y Ddeddf Plant ac achosion teulu eraill yn y llys teulu ac Adran Deulu yr Uchel Lys. Mae'r FPR yn cael eu hategu gan Gyfarwyddiadau Ymarfer sydd yn darparu mwy o gyfarwyddiadau i'r llys ar faterion ynghylch gweithdrefnau. Mae'n rhaid i'r llys hefyd gydymffurfio ag egwyddorion a sefydlwyd mewn cyfraith achos ac egwyddorion penodol cyfraith ryngwladol, sydd fel arfer yn cael eu gweithredu drwy gyflwyno deddfwriaeth ddomestig sydd yn rhoi grym i'r cytundeb rhyngwladol perthnasol.

3.1 Pwyntiau allweddol

3.1.1 Achosion plant cyfraith breifat

Mae achosion plant cyfraith breifat yn achosion rhwng unigolion preifat, er enghraifft dau riant, yn hytrach nag achosion sydd yn cynnwys yr awdurdod lleol, megis achosion gofal (achosion cyfraith gyhoeddus). Gan amlaf maent yn berthnasol i geisiadau am orchymyn trefniadau plant - gorchymyn a wneir gan lys o dan adran 8 y Ddeddf Plant er mwyn rheoleiddio trefniadau mewn perthynas â gyda phwy y dylai'r plentyn fyw gyda nhw, treulio amser gyda nhw, neu gael unrhyw gyswllt arall gyda nhw.¹⁵ Yn flaenorol galwyd y rhain yn 'orchmynion cyswllt' a 'gorchmynion preswyllo'. Cyflwynwyd y derminoleg gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.

3.1.2 Yr egwyddor lles a'r rhestr wirio lles

Mae'n rhaid i les y plentyn fod yn brif ystyriaeth i'r llys mewn unrhyw benderfyniad a wna'r llys ynghylch ei fagwraeth. Cyfeirir at hynny fel 'yr egwyddor lles' ac mae'n gynnwysedig yn adran 1(1) y Ddeddf Plant. Wrth asesu lles y plentyn at ddiben rhoi, amrywio neu gyflawni gorchymyn o dan adran 8 y Ddeddf Plant, mae'n rhaid i'r llys ystyried holl amgylchiadau'r achos ac yn benodol y rhestr o ffactorau nad yw'n gyflawn yn adran 1(3) y Ddeddf Plant, a elwir yn rhestr wirio lles. Mae'r rhestr wirio lles yn cynnwys y ffactorau canlynol:

¹⁴ Ers 2014, nid yw Rhan III Deddf Plant 1989 yn gymwys yng Nghymru ac mae wedi cael ei ddisodli gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ond mae'r darpariaethau yma yn berthnasol i ddyletswyddau Awdurdodau Lleol tuag at blant mewn angen a phlant sydd yn wynebu risg o niwed yn hytrach nag achosion plant cyfraith breifat.

¹⁵ Noder bod achosion plant cyfraith breifat eraill (FPR 12.2), yn cynnwys gorchmynion adran 8 eraill (camau gwaharddedig a gorchmynion materion penodol).

- dymuniadau a theimpladau canfyddadwy y plentyn (o ystyried eu hoedran a'u dealltwriaeth);
- anghenion corfforol, emosiynol ac addysgol y plentyn;
- yr effaith debygol arno ac unrhyw newid mewn amgylchiadau;
- eu hoedran, rhyw, cefndir ac unrhyw nodweddion y mae'r llys yn credu sydd yn berthnasol;
- unrhyw niwed maent wedi ei ddioddef neu maent yn wynebu risg o'i ddioddef;
- i ba raddau y mae y rhieni yn debygol o allu (ac unrhyw berson arall y mae'r llys yn credu sydd yn berthnasol) bodloni eu hanghenion;
- yr ystod o bwerau sydd ar gael i'r llys yn yr achosion.

Diffinnir niwed yn adran 31(9) y Ddeddf Plant fel "cam-drin neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad, yn cynnwys , er enghraifft, amhariad a ddioddefwyd o ganlyniad i weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin." Mae'r adran yma hefyd yn egluro bod ystyriaethau anghorfforol yn cael eu cynnwys yn y termau 'datblygiad', 'iechyd' a 'chamdriniaeth'.¹⁶

Mae'n rhaid i'r llysoedd hefyd ystyried adran 1(2) y Ddeddf Plant sydd yn nodi bod unrhyw oedi yn debygol o effeithio ar les y plentyn; ac i 'egwyddor dim gorchymyn' sydd yn gynwysedig yn adran 1(5), sydd yn nodi na ddylai'r llys roi gorchymyn dim ond os bydd yn ystyried y byddai gwneud hynny yn well i'r plentyn na pheidio rhoi gorchymyn o gwbl.

3.1.3 Rhagdybiaeth statudol o gyfranogiad rhieni

Nid oes yna unrhyw hawl awtomatig i gyswllt rhwng plentyn a rhiant. Ond, mae adran 1(2A) y Ddeddf Plant yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ragdybio y bydd cyfranogiad y ddau riant ym mywyd y plentyn yn well i les y plentyn, oni bai fod yna dystiolaeth sydd yn awgrymu y byddai cyfranogiad y rhiant hwnnw ym mywyd y plentyn yn golygu y byddai'r plentyn yn wynebu risg o niwed.¹⁷ Mae 'cyfranogiad' yn cael ei ddiffinio yn adran 1(2B) fel "cyfranogiad o ryw fath, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ond nid unrhyw raniadau penodol o amser y plentyn." Mae'r rhagdybiaeth hon yn gymwys mewn rhai achosion plant cyfraith breifat, yn cynnwys pan fo'r llys yn ystyried rhoi, amrywio neu gyflawni gorchymyn adran 8.¹⁸ Cyn cyflwyno'r rhagdybiaeth statudol yn 2014, sefydlwyd eisoes mewn cyfraith achos y bydd cyfranogiad y ddau riant ym mywyd y plentyn fel arfer

¹⁶ Gall achosion plant cyfraith breifat fod yn gysylltiedig â niwed neu risg o niwed i blant sydd yn deillio o amrywiol fathau o ymddygiad rhieni. Mae'r alwad am dystiolaeth a'r adroddiad yma yn canolbwyntio ar niwed a risgiau o niwed o ganlyniad i gam-dri domestig a throeddau difrifol eraill gan riant yn erbyn plentyn neu y rhiant arall, er y gallai y rhain ddigwydd ochr yn ochr a chael eu gwaethygu gan risgiau eraill a honiadau o niwed.

¹⁷ Deddf Plant 1989, s1(2A); s1(6).

¹⁸ Deddf Plant 1989, s1(4)(a); s1(7).

yn gwella lles y plentyn, a bod rhaid dangos rhesymau argyhoeddiadol er mwyn i'r llys atal cyswllt.¹⁹

3.1.4 Hawliau dynol a chyfraith ryngwladol

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol, yn cynnwys y llysoedd, gydymffurfio â'r hawliau sydd wedi eu deddfu yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Hefyd rhoddodd Deddf Hawliau Dynol 1998 fwy o rym i'r hawliau yma mewn cyfraith ddomestig drwy osod mwy o ymrwymadau penodol ar lysoedd ac awdurdodau cyhoeddus eraill, a thrwy ddarparu datrysiadau i unigolion am dorri eu hawliau dynol. Mae'r hawl i barchu bywyd teuluol, o dan Erthygl 8 ECHR yn benodol berthnasol i achosion plant cyfraith breifat. Gall 'bywyd teuluol' gynnwys y berthynas rhwng rhiant a phlentyn, ac ni ddylai'r llys ymyrryd â'r hawl yma, er enghraifft drwy roi gorchymyn o ddim cyswllt, oni bai bod hynny yn angenrheidiol ac yn gymesur, er enghraifft i amddiffyn plentyn neu oedolyn sydd yn ddiodefwr camdriniaeth ddomestig rhag niwed difrifol. Mae Erthygl 6 hefyd yn berthnasol, sydd yn gwarchod yr hawl i gael gwrandawriad teg wrth benderfynu ar "hawliau sifil" unigolion. Mae hynny yn cynnwys anghydfodau mewn perthynas â threfniadau plant ac achosion plant cyfraith breifat eraill. Hefyd, gall Erthyglau 2 a 3 fod yn berthnasol mewn achosion sydd yn datgan honiadau o gam-drin domestig a throeddau difrifol eraill. Mae Erthygl 2 yn ymwneud â'r hawl i fywyd ac mae Erthygl 3 yn ymwneud â'r hawl i fod yn rhydd o artaith neu driniaeth annynol neu ddiraddiol arall. Mae'r Llys hawliau Dynol Ewropeaidd wedi pwysleisio bod gan Wladwriaethau (yn cynnwys llysoedd) ymrwymiad cadarnhaol i ddarparu gwarchodaeth effeithiol pan fônt yn ymwybodol bod unigolyn yn dioddef, neu yn wynebu risg o ddiodefwr y mathau difrifol yma o niwed.²⁰

Mae'r Deyrnas Unedig hefyd yn barti gwladwriaethol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), sydd yn golygu bod raid i lysoedd a llywodraethau cenedlaethol roi sylw dyledus i'w ddarpariaethau. Mae'r UNCRC yn cynnwys 54 erthygl sydd yn ymwneud â phob agwedd o fywyd plentyn. Mae Erthygl 9 yn darparu'r hawl i gadw cysylltiad gyda'r ddau riant pan fo'r rhieni wedi gwahanu, oni bai fod hynny yn groes i les y plentyn. Mae Erthygl 12 yn darparu'r hawl i ddymuniadau a theimladau'r plentyn gael eu clywed a'u hystyried yn ystod unrhyw faterion sydd yn effeithio arnynt. Mae Erthygl 19 yn darparu'r hawl i'r plentyn hwnnw gael ei warchod rhag pob math o drais corfforol neu feddyliol, anaf, camdriniaeth, yn cynnwys camdriniaeth rywiol, tra eu bod yng ngofal rhieni. Mae'r hawliau yma yn cael eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth ddomestig, fel yn y rhestr wirio lles a'r rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni yn Neddf Plant 1989 a amlinellir uchod. Yng Nghymru maent wedi eu deddfu o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.²¹

¹⁹ Gweler, er enghraifft *Re C (A Child)* [2011] EWCA Civ 521; and *Re W (Children)* [2012] EWCA Civ 999.

²⁰ Gweler *Opuz v Turkey* (app no 3340/02, 9/6/09) – achos sydd yn ymwneud â methiant y llysoedd troeddol i warchod diodefwrwr camdriniaeth ddomestig rhag torri eu hawliau Erthygl 2 ac Erthygl 3. Gweler hefyd *Bevacqua and S v Bulgaria* (cais rhif 71127/01, 12/6/08), a ganfu bod llys teulu wedi torri hawliau Erthygl 8 plentyn a mam oedd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig gan y tad.

²¹ Gweler <https://gov.wales/childrens-rights-in-wales>

Yn 2012, llofnododd Llywodraeth y DU Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar atal a brwydro yn erbyn trais yn erbyn merched a thrais domestig (Confensiwn Istanbul (IC)), sydd yn darparu, ymysg pethau eraill, ymrwymiad i gymryd camau er mwyn sicrhau nad yw cyswllt plentyn yn peryglu "hawliau a diogelwch y dioddefwr na'r plentyn."²²

3.1.5 Cyfarwyddyd Ymarfer 12B - Rhaglen Trefniadau Plant

Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12B, a elwir yn 'Rhaglen Trefniadau Plant' (CAP) yn ategu'r rheolau gweithdrefnol y mae'n rhai i'r llysoedd teulu eu dilyn ym mhob achos trefniadau plant, sydd i'w canfod yn bennaf yn FPR Rhan 12. Cyflwynwyd y fersiwn gyfredol o CAP yn 2014, ac fe'i dyluniwyd i gynorthwyo teuluoedd i sefydlu trefniadau diogel sydd yn canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer eu plentyn, a hynny y tu allan i'r llys pan fo hynny'n bosibl. Mae'r CAP yn disgrifio pedwar cam achos trefniadau plentyn fel; porthgadw a dyrannu (pan fo'r llys yn penderfynu i ba haen o'r Llys Teulu y dylid dyrannu'r achos iddo), Apwyntiad Datrys Anghydfodau Gwrandawriad Cyntaf (FHDRA), Apwyntiad Datrys Anghydfodau (DRA) a Gwrandawriad Terfynol. Ar bob cam mae'n rhaid i'r llys annog a chynorthwyo'r partïon i ddatrys materion yr anghydfod rhyngddynt eu hunain pan fo'n ddiogel a phriodol gwneud hynny. Mae'r CAP hefyd yn darparu cyfarwyddiadau i'r llysoedd o ran delio â cheisiadau i orfodi gorchmynion trefniadau plant. Ni fydd yr holl achosion yn mynd trwy'r holl gamau oherwydd bod cyfran sylweddol yn setlo yn ystod yr FHDRA neu'r DRA.

3.1.6 Cam-drin domestig a Chyfarwyddyd Ymarfer 12J

Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J (PD12J),²³ a gyflwynwyd i ddechrau yn 2008, yn nodi beth sydd yn ofynnol i'r Llys Teulu neu'r Uchel Lys ei wneud ym mhob achos trefniadau plant pan fo cam-drin domestig yn fater. Mae'n gymwys p'un a chyfaddefir neu yr honnir y gamdriniaeth, neu os oes yna unrhyw reswm arall i gredu bod y plentyn neu barti wedi dioddef camdriniaeth ddomestig a gyflawnwyd gan barti arall, neu bod yna risg o gamdriniaeth o'r fath.

Cyn cyflwyno PD12J, cyflwynwyd canllawiau i'r llys ynghylch delio'n benodol â mater cam-drin domestig gan y Llys Apêl yn achos arwyddocaol *Re L, V, M, H (Contact: Domestic Violence)* [2001].²⁴ Roedd yr achos hwnnw yn dynodi newid tuag at "ymwybyddiaeth gynyddol o ganlyniadau amlygiad i drais domestig", a chydnabyddiaeth y bu hyd hynny "dueddiad i'r llysoedd beidio mynd i'r afael â honiadau..." na gwerthfawrogi bod camdriniaeth rhwng rhieni yn ymwneud â "methiant sylweddol o ran rhiantu - methiant i warchod gofalwr y plentyn a methiant i warchod y plentyn yn emosiynol."²⁵

²² Confensiwn Istanbul, Erthygl 31(2).

²³ Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J diwygiedig - Trefniadau Plant a Gorchmynion Cyswllt: Cam-drin Domestig a Niwed, ar gael yma: https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_12j

²⁴ *Re L, V, M, H (Contact: Domestic Violence)* [2001] Fam 260.

²⁵ *Re L, V, M, H (Contact: Domestic Violence)* [2001] Fam 260.

Ers ei gyflwyno, mae PD12J wedi cael ei ddiweddarau ddwywaith er mwyn adlewyrchu'r ddealltwriaeth sydd yn datblygu o effaith cam-drin domestig ar blant a rhieni, a newidiadau perthnasol yn y gyfraith. Yn 2014, fe'i diweddarwyd er mwyn addasu'r diffiniad bryd hynny o 'drais domestig'; er mwyn darparu canllawiau cliriach i'r llys ar gymhwyso'r Cyfarwyddyd Ymarfer; er mwyn darparu mwy o eglurder mewn perthynas â gwrandawiaidau canfod ffeithiau, ac er mwyn darparu rheolau mwy caeth mewn perthynas â rhoi gorchmynion trefniadau plant dros dro. Fe'i diweddarwyd eto yn 2017 er mwyn egluro ei natur orfodol; er mwyn newid y derminoleg o 'drais' domestig i 'gam-drin'; er mwyn ehangu'r diffiniad o gam-drin domestig er mwyn cynnwys mathau diwylliannol penodol o gam-drin; er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelwch rhieni nad ydynt yn gamdriniol yn ogystal â'r plentyn; ac er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ystyried yn ofalus a yw'r rhagdybiaeth o gyfranogiad rheini yn gymwys ym mhob achos.

At ddibenion gorchmynion trefniadau plant, diffinnir cam-drin domestig yn y PD12J cyfredol ym mharagraff 3 fel a ganlyn:

“unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o achosion o ymddygiad o reoli, gorfodi a bygwth, trais neu gam-drin rhwng rhai sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd yn, neu wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau teulu beth bynnag fo'u rhywedd neu rywioldeb. Gall hynny gwmpasu, ond nid yw'n gyfyngedig i, gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol. Mae cam-drin domestig hefyd yn cynnwys mathau diwylliannol benodol o gam-drin yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, briodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd, cam-drin cysylltiedig â gwaddol a gadael priodas traws-genedlaethol.”

‘Mae ymddygiad gorfodol yn cael ei ddiffinio yn PD12J fel “gweithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, sarhau a chodi ofn a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu i ddychryn y dioddefwr.” ‘Mae ymddygiad rheoli yn cael ei ddisgrifio fel “gweithred neu batrwm o weithredoedd a ddyluniwyd i sicrhau bod person yn israddol a/neu'n ddibynnol drwy eu hynysu oddi wrth ffynonellau cymorth, ecsbloetio eu hadnoddau a'u gallu i gael enillion personol, eu hamddifadu o'r gallu sydd ei angen i gael annibyniaeth, i ymwrthod ac i ddianc, a rheoli eu hymddygiad dyddiol.”

Pan fo PD12J yn gymwys, mae'r weithdrefn a nodir yn y CAP yn cael ei ymestyn mewn nifer o ffyrdd. Os bydd y llys yn penderfynu bod angen cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau er mwyn penderfynu ar honiadau o gam-drin domestig sydd yn cael eu herio, bydd hynny fel arfer yn digwydd ar ôl yr FHDRA a chyn y DRA. Os canfyddir bod cam-drin domestig wedi digwydd, gall y llys gyfarwyddo'r rhiant camdriniol i fynychu rhaglen cyflawnwyr camdriniaeth ddomestig (DAPP) a/neu gall roi cyfarwyddyd i baratoi asesiad risg arbenigol. Mae PD12J hefyd yn nodi ystyriaethau ychwanegol pan fo'r llys yn rhoi gorchmynion interim a gorchmynion terfynol. Eglurir mwy am y rhain isod.

3.1.7 Troseddau difrifol eraill

Roedd yr alwad yma am dystiolaeth hefyd yn ceisio tystiolaeth ynghylch achosion pan fo 'troseddau difrifol eraill' yn cael eu datgan. Nid yw'r term yma wedi cael ei ddiffinio yn y gyfraith, ond yr amgylchiadau allweddol, fel y nodwyd hynny yng nghylch gorchwyl y panel ac yn yr alwad am dystiolaeth oedd honiad neu dystiolaeth arall bod y drosedd ddifrifol yn achosi risg o niwed i'r plentyn a/neu'r rhiant. Felly byddai hynny yn cynnwys amgylchiadau pan fo un rhiant wedi cyflawni, neu yr honnir ei fod wedi cyflawni, trosedd megis cam-drin plentyn, yn cynnwys cam-drin yn rhywiol, llofruddiaeth neu geisio llofruddio, treisio neu ymosodiad rhywiol neu unrhyw drosedd arall sydd yn achosi neu allai achosi risg o niwed i'r plentyn a/neu riant. I'r graddau nad yw y rhain yn fathau o gam-drin domestig, mae'r cysyniad y tu allan i gwmpas Cyfarwyddyd Ymarfer 12J; ond, bydd yr egwyddorion sydd yn gynwysedig yn y Ddeddf Plant, PD12B, y Ddeddf Hawliau Dynol a'r UNCRC yn dal yn gymwys. Y fecanwaith sylfaenol ar gyfer ystyried y mathau yma o droseddau at ddibenion achosion plant cyfraith breifat yw cyfeirio at eu heffaith ar les y plentyn o dan adran 1 y Ddeddf Plant; yn benodol, unrhyw niwed y mae'r plentyn wedi ei ddioddef neu y mae'n wynebu risg o'i ddioddef o ganlyniad i'r troseddau, fel bod risg o niwed yn berthnasol i p'un a ddylid peidio â chymhwyso'r rhagdybiaeth statudol o gyfranogiad rhieni yn Adran 1(2A).

3.1.8 Yr amcan bwysicaf

Mae'r FPR yn darparu cyfarwyddyd ynghylch amcan bwysicaf y llys wrth ddelio ag achosion yn gyfiawn drwy ystyried unrhyw faterion lles sydd yn gysylltiedig, yn cynnwys sicrhau bod y partïon yn cael tegwch cyfartal, a bod cyfran briodol o adnoddau'r llys yn cael ei ddyrannu i bob achos yn ddibynnol ar ffactorau megis galw, natur a chymhlethdod. Mae'n rhaid i'r llys amcanu at roi grym i'r amcan pwysicaf pan fo'n defnyddio unrhyw bŵer a roddir iddo gan y FPR, neu'n dehongli unrhyw reol, ac mae'n ofynnol i'r partïon helpu'r llys i ymestyn yr amcan pwysicaf.²⁶

3.1.9 Gwneud cais i'r llys am orchymyn trefniadau plant

Mae Adran 10 y Ddeddf Plant yn nodi y gall mam, tad, gwarchodwr, neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, a nifer o bobl eraill dan amgylchiadau penodol, wneud cais am orchymyn trefniadau plant heb ofyn am ganiatâd gan y llys. Gall pobl eraill hefyd, er enghraifft neiniau a theidiau, wneud cais, ond fel arfer bydd angen iddynt ofyn am ganiatâd gan y llys cyn gwneud hynny. Yn ymarferol, gellir gwneud hynny ar yr un pryd ag y cwblheir y ffurflen gais.

Mae Adran 10 Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i berson fynychu Cyfarfod Cyfryngu Gwybodaeth ac Asesu (MIAM) cyn gwneud "cais teulu perthnasol", er mwyn ystyried addasrwydd cyfryngu neu ffyrdd eraill o ddatrys eu hanghydfod. Manylir ar "geisiadau teulu perthnasol" yn FPR 3.6 A Chyfarwyddyd Ymarfer 3A, ac maent yn cynnwys ceisiadau am orchymyn trefniadau plant ac achosion plant cyfraith breifat eraill.

²⁶ FPR 1.1; 1.2; 1.3.

Yn y cyfarfod yma bydd cyfryngwr teulu awdurdodedig yn darparu gwybodaeth am gyfryngu ac yn ystyried a yw cyfryngu yn briodol ar gyfer datrys yr achos. Mae FPR 3.8 yn nodi rhai eithriadau penodol i'r gofyniad MIAM, yn cynnwys os oes yna dystiolaeth o drais domestig neu os yw'r plentyn yn destun cynllun amddiffyn gofal gwasanaeth cymdeithasol neu ymholiadau.²⁷

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod, pan fo yna dystiolaeth o gam-drin domestig, na ddylid cymell dioddefwyr i fynychu MIAM cyn gallu cael mynediad i'r llys teulu, a'u bod yn gymwys am esemptiad rhag mynychu MIAM ac i dderbyn cymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth yn y llys. Mewn achosion pan honnir cam-drin domestig, ond nad oes gan yr ymgeisydd y math o dystiolaeth sydd yn ofynnol ar gyfer esemptiad MIAM, mae yna safonau proffesiynol wedi eu sefydlu y mae'n rhaid i gyfryngwyr achrededig gadw atynt, er mwyn sefydlu a yw'n briodol dechrau neu barhau â chyfryngu mewn achosion o gam-drin honedig. Gall cyfryngwr sydd yn cynnal MIAM o dan amgylchiadau o'r fath esemptio'r ymgeisydd eu hunain rhag rhoi mwy o ystyriaeth i gyfryngu ar y sail nad yw "cyfryngu yn addas fel arall fel ffordd o ddatrys yr anghydfod" - FPR 3.8(2)(c).

Efallai na fydd nifer o unigolion sydd yn mynychu cyfryngu wedi datgelu eu camdriniaeth ddomestig cyn hynny, neu efallai na fyddant mewn gwirionedd yn ymwybodol bod eu profiadau yn gam-drin domestig. Felly mae canllawiau polisi ac ymarfer cyfredol yn egluro bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol gael eu hyfforddi'n dda o ran adnabod arwyddion cam-drin domestig, a gallu delio â hynny yn briodol, gan beidio â drysu cam-drin domestig a gwrthdaro rhieni, a sicrhau bod gwarchod goroeswyr sydd yn agored i niwed yn bwysicach na dim.

Er mwyn gwneud cais am orchymyn trefniadau plant, mae'n rhaid i'r person sydd yn gwneud y cais (yr ymgeisydd) gwblhau ffurflen llys C100 a chyflwyno honno i'r llys. Yn y broses ymgeisio ar-lein, mae'r C100 a'r ardystiad MIAM neu ffurflenni esemptio wedi eu cyfuno. Mae yna hefyd ffurflen wybodaeth ategol, ffurflen C1A, ellir ei chwblhau gan yr ymgeisydd er mwyn darparu manylion bras am unrhyw honiad o gam-drin domestig.

Ar ôl i gais am orchymyn trefniadau plant gael ei wneud, mae'n rhaid i'r llys anfon copi o'r C100 ac unrhyw C1A i'r rhiant arall. Yna gall y rhiant arall gwblhau ac anfon i'r llys ffurflen C1A eu hunain os byddant yn dymuno gwneud hynny.

3.1.10 Cymorth Cyfreithiol

O dan rai amgylchiadau, gellir darparu cymorth cyfreithiol er mwyn helpu gyda chostau cyfreithiol, megis cost cyngor cyfreithiol neu gynrychiolaeth yn y llys gan gyfreithiwr neu fargyfreithiwr, a threuliau cysylltiedig. Ers 2013, mae darpariaeth cymorth cyfreithiol wedi cael ei reoli gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO). Mae penderfyniadau ynghylch cymorth cyfreithiol yn cael eu gwneud gan yr

²⁷ Mae FPR 3.8 yn cyfeirio'r llys at PD3A sydd yn esbonio'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn arddangos esemptiad. Mae FPR 3.8 a PD3A yn cyfeirio at 'drais domestig' yn hytrach na 'cam-drin domestig'.

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. O dan LASPO nid yw cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer achosion plant cyfraith breifat ac eithrio pan fo parti yn ddioddefwr camdriniaeth ddomestig neu yn ceisio amddiffyn plentyn rhag camdriniaeth, neu pan fo plentyn yn cael ei wneud yn barti i'r achos (pan delir am gynrychiolaeth y plentyn gydag arian cyhoeddus, ond nid cynrychiolaeth y parti'on eraill oni bai eu bod yn gymwys eu hunain).

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol mewn achosion plant cyfraith breifat ar sail cam-drin domestig neu gam-drin plant, i ddechrau mae'n rhaid i'r person sydd yn gwneud cais ddarparu tystiolaeth o gamdriniaeth neu risg o gamdriniaeth ar ffurf a ragnodir gan Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) 2012. Mae'r gofynion o ran tystiolaeth yn rheoliadau 2012 wedi cael eu haddasu nifer o weithiau, a fwyaf diweddar yn Ionawr 2018, oedd yn ymestyn cwmpas y dystiolaeth o gam-drin domestig neu gam-drin plant y gallai dioddefwyr ei darparu, a thynnu terfynau amser o'r dystiolaeth, oedd yn ei gwneud yn haws i ddioddefwyr neu rai oedd yn wynebu risg o gam-drin domestig fodloni meini prawf cymorth cyfreithiol. Mae ceisiadau am a dyfarniadau cymorth cyfreithiol wedi cynyddu ers y newidiadau yma,²⁸ ond nid yw'n hysbys i ba raddau y mae hynny wedi deillio o'r newidiadau. Mae mathau o dystiolaeth sydd yn dderbyniol yn cynnwys tystiolaeth o euogfarn, rhybudd, neu achos sydd yn mynd rhagddo am drosedd cam-drin domestig neu gam-drin plant, gwaharddiad gwarchodol neu lythyr gan weithiwr camdriniaeth ddomestig proffesiynol priodol yn cadarnhau y gofynnwyd am wasanaethau ganddynt gan y sawl sydd wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol.

Fel yn achos pob cais am gymorth cyfreithiol, mae'n rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r prawf modd a'r prawf teilyngdod. Mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn ariannol gymwys o dan y meini prawf a nodir yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thalu am Wasanaethau) 2013. Yn y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2019, cyhoeddodd MoJ y byddai yn adolygu'r prawf modd cymorth cyfreithiol. Fel rhan o'r adolygiad yma bydd ystyriaeth benodol yn cael ei roi i sut mae'r prawf modd yn cael ei gymhwysu i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Mae'n rhaid iddynt hefyd ddangos bod y math o gymorth cyfreithiol a ddarperir iddynt (e.e. cynrychiolaeth gyfreithiol) yn ddigon teilwng i warantu cymorth cyfreithiol. Mae yna wahanol brofion teilyngdod yn ddibynnol ar y math o gymorth cyfreithiol fydd yn cael ei ddarparu, ac mae'r rhain wedi eu nodi yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Teilyngdod) 2013. Os nad yw parti yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol ac nad yw'n caffael ei gynrychiolaeth gyfreithiol ei hun, gallent gynrychioli eu hunain yn ystod yr achos, a chyfeirir atynt fel 'ymgyfreithiwr drostynt eu hunain' (LIP).

3.1.11 Cymorth yn y llys

Mae gan y llys y pŵer i ganiatáu ystod o drefniadau a elwir yn 'gyfarwyddiadau cyfranogi' er mwyn cefnogi pobl sydd yn agored i niwed (parti'on a thystion) yn ystod achosion teulu. Gall y rhain gynnwys trefnu i dystiolaeth gael ei rhoi o du ôl i sgrin warchodol, neu drwy

²⁸ <https://www.gov.uk/government/statistics/legal-aid-statistics-quarterly-october-to-december-2019>

gyswllt fideo; a darparu ardaloedd aros ar wahân, neu drefniadau arbennig ar gyfer cyrraedd a gadael adeilad y llys.

Cyflwynwyd y rheolau a'r canllawiau mewn perthynas â chyfranogiad pobl sydd yn agored i niwed mewn achosion ar ddiwedd 2017 ac maent yn ymddangos yn Rhan 3A yr FPR a'r Cyfarwyddyd Ymarfer 3AA (PD3AA) ategol. Mae'r Rheolau yn rhoi dyletswydd ar y llys i ystyried a yw cyfranogiad parti yn yr achos a/neu ansawdd y dystiolaeth a roddir yn debygol o gael ei wanhau oherwydd eu natur fregus; ac os felly, a oes angen rhoi unrhyw gyfarwyddiadau cyfranogi.²⁹ Hefyd mae gan y llys ddyletswydd i ystyried cyfarwyddiadau o'r fath ar gyfer 'partïon gwarchoddedig' - unigolion nad oes ganddynt y capasiti o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2005. Hefyd, mae PD3AA yn egluro dyletswydd y llys i adnabod natur fregus cyn gynted â phosibl, ac i weithio gyda'r partïon er mwyn sicrhau y gall pob parti neu dyst gyfranogi yn yr achos heb deimlo ofn neu drallod oherwydd eu natur fregus.³⁰

Wrth ystyried a yw person yn agored i niwed neu beidio, mae Rheol 3A.3 yn nodi bod rhaid i'r llys ystyried yn benodol restr o faterion yn cynnwys ystyried effaith unrhyw' fgygythiad gwirioneddol neu ganfyddiadol' ac unrhyw bryderon mewn perthynas â chamdriniaeth.³¹ Ymhelaethir ar ystyr camdriniaeth yn PD3AA ac mae'n cynnwys cam-drin domestig (fel y diffinnir hynny yn PD12J), ac amrywiaeth o fathau eraill o gamdriniaeth megis cam-drin rhywiol, masnachu pobl, a mathau penodol o gamdriniaeth ar sail gwahaniaethu.³² Ond nid oes dim yn y rheolau sydd yn rhoi'r pŵer i'r llys gyfarwyddo bod rhaid i arian cyhoeddus fod ar gael er mwyn darparu mesur arbennig.³³

Hefyd, mae gan ymgyfreithiwr drosto ei hun, fel arfer yr hawl i gael cymorth rhesymol gan leygwr - a elwir ar brydiau yn 'Gyfaill McKenzie'. Yn 2010 cyhoeddodd Llywydd yr Adran Deulu a Meistr y Roliau Ganllawiau Ymarfer³⁴ er mwyn atgoffa llysoedd ac ymgyfreithwyr o'r egwyddorion mewn perthynas â Chyfeillion McKenzie, yn cynnwys cwmpas y cymorth y gallent ei ddarparu.

3.1.12 Croesholi

Os nad oes gan un parti neu'r ddau batri gynrychiolaeth gyfreithiol, efallai bydd yn ofynnol iddynt groesholi y parti arall yn ystod achosion plant cyfraith breifat. Mae PFD3AA yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ystyried rhoi cyfarwyddiadau cyfranogi mewn perthynas â chroesholi parti neu dyst sydd yn agored i niwed, a gall hynny gynnwys cwestiynau yn cael

²⁹ FPR 3A.4 a 3A.5.

³⁰ PD3AA, paragraffau 1.3 a 1.4.

³¹ Mae'r rhestr o faterion wedi eu nodi yn FPR 3A.7, paragraffau (a) i (j) ac (m).

³² PD3AA, paragraff 2.1.

³³ FPR3A.8(4).

³⁴ Mae Canllawiau Ymarfer: Cyfeillion McKenzie (Llysoedd Sifil a Theulu) ar gael yma: <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/Guidance/mckenzie-friends-practice-guidance-july-2010.pdf>

eu gofyn gan y barnwr yn hytrach na'r cyflawnydd neu'r cyflawnydd honedig. Mae PD12J yn nodi y dylai'r barnwr fod yn barod i gwestiynu'r tyst ar ran y partïon pan fo hynny yn angenrheidiol a phriodol, ac mae'n darparu y gall y llys ddefnyddio dull holgar.³⁵ Mae'r Bil Cam-drin Domestig sydd ar hyn o bryd gerbron y senedd yn cynnwys darpariaeth fydd yn awtomatig yn gwahardd croesholi yn bersonol pan fo un parti wedi cael ei euogfarnu am, neu wedi derbyn rhybudd am, neu ei gyhuddo o droseddau penodol yn erbyn y parti arall neu dyst (neu vice versa), pan fo gwaharddiad gwarchodol mewn grym rhyngddynt neu pan ellir dwyn tystiolaeth o gam-drin domestig fel y nodir hynny yn y rheoliadau. Hefyd bydd y darpariaethau yn rhoi disgrisiwn i'r llys roi cyfarwyddyd sydd yn gwahardd croesholi yn bersonol pan fyddai hynny yn debygol o wanhau ansawdd tystiolaeth y tyst neu achosi trallod sylweddol i'r tyst, a phan na fyddai rhoi'r cyfarwyddyd yn effeithio ar les cyfiawnder. Mae'r darpariaethau hefyd yn rhoi pŵer i'r llys o dan amgylchiadau penodol i benodi cynrychiolydd cyfreithiol cymwys wedi ei ariannu gydag arian cyhoeddus i groesholi'r tyst er lles y parti.

3.2 Ystyried ceisiadau am orchmynion trefniadau plant pan fo yna honiadau o gam-drin domestig neu droseddau difrifol eraill

3.2.1 Honiadau gaiff eu herio

Pan fo yna honiadau o gam-drin domestig gaiff eu herio neu droseddau eraill allai achosi risg o niwed i blentyn neu riant, gall y llys benderfynu bod angen cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau er mwyn sefydlu a oedd yr ymddygiad a honnir wedi digwydd.

Mae PD12J yn nodi y dylai'r llys benderfynu, cyn gynted â phosibl, a oes angen cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau mewn perthynas â honiadau o gam-drin domestig gaiff eu herio pan mae'n ystyried rhoi gorchymyn trefniadau plant neu asesiad risg o niwed sydd yn gysylltiedig â chyswllt. Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hefyd yn nodi'r ffactorau y dylai'r llys eu hystyried wrth wneud y penderfyniad yma.³⁶ Mae'r ffactorau ddylid eu hystyried yn cynnwys a oes tystiolaeth ar gael i'r llys sydd yn darparu sail ffeithiol ddigonol ar gyfer bwrw ymlaen (yn cynnwys cyflwyniadau a thystiolaeth sydd eisoes wedi eu darparu er mwyn caffael cymorth cyfreithiol); y dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn datrys yr honiadau; a fyddai'r honiadau, os profir eu bod y wir, yn berthnasol i'r mater gerbron y llys; a safbwyntiau y partïon a Cafcass/Cymru; ac a yw gwrandawriad yn angenrheidiol a phriodol o dan holl amgylchiadau'r achos.

³⁵ Ymhelaethwyd ar y ddarpariaeth hon yng nghyfraith achos - gweler yr adolygiad o gyfraith achos yn PD12J, adran 5.3.

³⁶ PD12J, paragraffau 17 ac 18.

Nid oes yna set gyfatebol o ddarpariaethau sydd yn gysylltiedig â throseddau difrifol eraill; ond mae'r CAP yn cyfarwyddo'r llys i gynnal gwrandawriad canfod ffeithiau yn unol â PD12J, ble mae'n canfod bod gwrandawriad o'r fath yn angenrheidiol.³⁷

3.2.2 Gorchmynion ar gyfer cyswllt dros dro

Gall y llys benderfynu rhoi gorchmyn trefniadau plant cyn sefydlu ffeithiau pwysig. Gelwir hyn yn 'orchmyn dros dro'. Mae darpariaethau mewn perthynas â gorchmynion dros dro yn PD12J yn egluro na ddylai'r llys roi gorchmyn trefniadau plant oni bai ei fod yn fodlon bod hynny er lles y plentyn, fel na fyddai'r gorchmyn yn amlygu'r plentyn neu riant i 'risg o niwed na ellir ei reoli' (gan gofio yr effaith y gall camdriniaeth ddomestig ei gael ar les emosiynol y plentyn, diogelwch y riant arall, a'r angen i amddiffyn yn erbyn camdriniaeth ddomestig yn cynnwys ymddygiad o reoli a gorfodi). Wrth asesu hynny, mae'n rhaid i'r llys ystyried pob agwedd o diogelwch y plentyn a'r riant, yn cynnwys amddiffyn rhag niwed emosiynol, a goblygiadau ymarferol y cyswllt a gynigir; er enghraifft, a ddylai cyswllt gael ei oruchwylion eu ei gefnogi, ac a fyddai cyswllt anuniongyrchol yn fwy priodol. Nid oes yna unrhyw hawl awtomatig i gyswllt, ac mae'r egwyddorion lles a 'dim gorchmyn' yn gymwys drwy gydol y broses. Mae PD12J yn egluro na ddylai'r llys roi gorchmyn trefniadau plant oni bai ei fod yn fodlon bod hynny er lles y plentyn, fel na fyddai'r gorchmyn yn amlygu'r plentyn neu riant i 'risg o niwed na ellir ei reoli' (gan gofio yr effaith y gall camdriniaeth ddomestig ei gael ar les emosiynol y plentyn, diogelwch y riant arall, a'r angen i amddiffyn yn erbyn camdriniaeth ddomestig yn cynnwys ymddygiad o reoli a gorfodi).³⁸ Wrth asesu hynny, mae'n rhaid i'r llys ystyried pob agwedd o ddiogelwch y plentyn a'r riant, yn cynnwys amddiffyn rhag niwed emosiynol, a goblygiadau ymarferol y cyswllt a gynigir; er enghraifft, a ddylai cyswllt gael ei oruchwylion eu ei gefnogi, ac a fyddai cyswllt anuniongyrchol yn fwy priodol. Nid oes yna unrhyw hawl awtomatig i gyswllt, ac mae'r egwyddorion lles a 'dim gorchmyn' yn gymwys drwy gydol y broses.

3.2.3 Cafcass a Cafcass Cymru

Mae'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) yn gorff statudol a ffurfiwyd yn 2001 ar ôl pasio Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000. Cafodd ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru eu datganoli yn 2005 ac maent yn cael eu gweithredu gan Cafcass Cymru.³⁹ Mae swyddogaethau a phwerau Cafcass yn cael eu nodi yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys ac maent yn cynnwys diogelu a hyrwyddo lles plant mewn achosion llys teulu; rhoi cyngor i'r llys ynghylch unrhyw gais a wneir; gwneud darpariaethau er mwyn i blant gael eu cynrychioli mewn achosion; a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i'r plant sydd yn gysylltiedig â'r achosion a'u teuluoedd. Un o rolau allweddol Cafcass a Cafcass Cymru hefyd yw cyfathrebu dymuniadau a theimladau'r plentyn yn ystod yr achos. Yn ychwanegol

³⁷ PD12B, para 20.1.

³⁸ PD12J, paragraffau 25, 26, 27.

³⁹ Gweler Deddf Plant 2004, Rhan 4 a paragraff 13 Atodlen 3 y Ddeddf honno.

at y dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf hon, mae yna hefyd rolau penodol wedi eu pennu i Cafcass a Cafcass Cymru yn y Ddeddf Plant, FPR a Chyfarwyddiadau Ymarfer.

Ar ôl gwneud cais am orchymyn trefniadau plant, bydd Cafcass neu Cafcass Cymru yn gwneud gwiriadau diogelwch neu ymholiadau er mwyn canfod unrhyw risgiau i'r plentyn y dylai'r llys fod yn ymwybodol ohonynt.⁴⁰ Ym mhob achos mae'r ymholiadau yma yn cynnwys gwiriadau er mwyn gweld a oes gan y naill riant neu'r llall gofnod heddlu neu droseddol perthnasol ac a yw'r plentyn neu'r teulu wedi dod i sylw gwasanaethau plant yr Awdurdod Lleol neu ofal cymdeithasol plant. Hefyd bydd Cafcass neu Cafcass Cymru yn ymdrechu i wneud cyswllt ffôn gyda phob riant (neu barti arall) er mwyn ennyn unrhyw bryderon ynghylch diogelwch na fydd efallai yn amlwg yn y cais neu na ddatgelwyd gan yr heddlu neu wiriadau Awdurdodau Lleol. Yna adroddir ar ganlyniadau'r ymholiadau yma gan Cafcass neu Cafcass Cymru drwy baratoi adroddiad diogelwch neu lythyr y dylid ei ddarparu i'r llys cyn y FHDRA. Hefyd bydd copi yn cael ei ddarparu i'r partïon cyn FHDRA oni bai bod Cafcass neu Cafcass Cymru yn cynghori'r llys y byddai gwneud hynny efallai yn golygu y byddai'r plentyn neu barti yn wynebu risg, ac mewn achosion felly bydd y llys yn ystyried mater datgelu yn y FHDRA.⁴¹ Mae PD12J yn nodi na ddylai'r llys yn gyffredinol roi unrhyw orchymynion cyswllt yn absenoldeb gwybodaeth am ddiogelwch.⁴² Bydd yr adroddiad neu lythyr diogelwch yn aml yn cynnwys argymhellion i'r llys ynghylch sut y dylai'r achos fynd rhagddo ac a oes angen gwrandawriad canfod ffeithiau neu beidio. Hefyd, bydd swyddog Cafcass neu Cafcass Cymru yn bresennol yn aml yn yr FHDRA a gall gyfarfod â'r partïon naill ai ar wahân neu gyda'i gilydd, yn ystod neu ar ôl y gwrandawriad, er mwyn archwilio ffyrdd o ddatrys materion yr anghydfod.

3.2.4 Adroddiadau lles

Mae Adran 7 y Ddeddf Plant yn rhoi pŵer i'r llys gyfarwyddo swyddog Cafcass neu Cafcass cymru i adrodd i'r llys mewn perthynas â lles plentyn sydd yn gysylltiedig ag achosion plant cyfraith breifat. Mae'r FPR a Chyfarwyddiadau Ymarfer yn darparu mwy o fanylion ar ddyletswyddau'r llys yn y cyswllt yma, a dyletswyddau Cafcass a Cafcass Cymru, yn cynnwys dyletswydd y llys i ystyried a oes angen adroddiad mewn perthynas â lles y plentyn, a'r camau y dylid eu cymryd gan Cafcass a Cafcass Cymru wrth adnabod unrhyw bryderon ynghylch lles.⁴³ Mae PD12J yn nodi y dylai'r llys ystyried cyfarwyddo adroddiad o'r fath mewn unrhyw achos pan fynegir unrhyw risg o niwed i blentyn o ganlyniad i gamdriniaeth ddomestig, oni bai bod y llys yn fodlon nad oes angen gwneud hynny er mwyn diogelu lles y plentyn. Fel arfer dylid gofyn am yr adroddiad adran 7 ar ôl cynnal unrhyw wrandawriad canfod ffeithiau, a dylai'r cais am adroddiad nodi'n glir pa faterion mae'r llys yn ystyried sydd angen delio â nhw,⁴⁴ yn cynnwys unrhyw asesiad i risg

⁴⁰ PD12B para 13.1-13.7.

⁴¹ PD12B, para 14.13(a)

⁴² PD12J, para 12.

⁴³ FPR 12.6; PD12B, para 13.1 a 14.13.

⁴⁴ PD12J, para 21, 22, 23.

i'r dyfodol i'r plentyn a/neu y rhiant sydd yn ddiodefwr. Fel dewis amgen i Cafcass, gall adroddiadau adran 7 gael eu paratoi gan weithiwr cymdeithasol awdurdod lleol os yw'r teulu eisoes yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol i blant. Os bydd pryderon am les plentyn yn codi yn ystod yr achos, gall y llys orchymyn i'r awdurdod lleol wneud ymholiadau o dan adran 37 y Ddeddf Plant er mwyn ystyried a ddylid cymryd camau ychwanegol er mwyn diogelu'r plentyn.

3.2.5 Cynrychiolaeth ar wahân i'r plentyn

Yn ddibynnol ar ddifrifoldeb yr honiadau a wnaed a chymhlethdod yr achos, mae'n rhaid i'r llys ystyried a yw'n briodol i'r plentyn sydd yn destun y cais gael ei wneud yn barti i'r achos a chael ei gynrychioli ar wahân.⁴⁵ Mewn achosion pan fo'r plentyn yn ymuno fel parti, gall y plentyn fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol, yn ddibynnol ar brawf teilyngdod a modd. Dylai'r llys fod yn wylidwrus er mwyn gallu enwi'r achosion pan ddylai gwarchodwr y plentyn gael ei benodi yn unol â Rheol 16.4 yr FPR. Mae pwerau a dyletswyddau gwarchodwr plentyn yn cael eu nodi yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 16A - Cynrychioli Plant.

3.2.6 Gorchmynion terfynol

Wrth ystyried gorchymyn trefniadau plant ar ôl canfod bod cam-drin domestig wedi digwydd, mae'n rhaid i'r llys sicrhau bod unrhyw orchymyn a wna er mwyn cwblhau'r achos er lles y plentyn ac na fydd yn amlygu'r plentyn i risg o niwed na ellir ei reoli.⁴⁶ Wrth ystyried hynny, dylai'r llys yn benodol gymhwyso'r ffactorau unigol ar y rhestr wirio lles gan gyfeirio at y gamdriniaeth ddomestig sydd wedi digwydd ac unrhyw asesiadau risg arbenigol sydd wedi eu derbyn.⁴⁷ Yn benodol, dylai'r llys ystyried unrhyw niwed y mae'r plentyn a'r rhieni y mae'r plentyn yn byw gyda nhw wedi ei ddiodef, ac unrhyw niwed y mae'n wynebu risg o'i ddiodef, os rhoddir gorchymyn trefniadau plentyn. Dylai'r llys ystyried ymddygiad y ddau riant tuag at ei gilydd a thuag at y plentyn, ac effaith yr ymddygiad hwnnw.⁴⁸

Mae PD12J yn egluro bod raid i'r llys nid yn unig ystyried niwed i'r plentyn, ond hefyd unrhyw niwed i'r rhiant y mae'r plentyn yn byw gyda nhw wedi ei ddiodef, ac unrhyw niwed y mae'n wynebu risg o'i ddiodef, os rhoddir gorchymyn trefniadau plentyn. Dylai'r llys ond rhoi gorchymyn cyswllt os bydd yn fodlon y "gellir sicrhau diogelwch corfforol ac emosiynol y plentyn a'r rhiant y mae'r plentyn yn byw gyda nhw, cyn belled â phosibl, cyn, ac ar ôl cyswllt, ac na fydd y rhiant y mae'r plentyn yn byw gyda nhw yn diodef mwy o gamdriniaeth ddomestig."⁴⁹

⁴⁵ PD12J, para 24.

⁴⁶ PD12J, para 35.

⁴⁷ Mae'r Ddeddf Plant, a16A yn nodi y dylid cynnal asesiad risg a darparu hynny i'r llys pan fo gan swyddog achos le i amau bod y plentyn dan sylw yn wynebu risg o niwed.

⁴⁸ PD12J, para 36.

⁴⁹ PD12J, para 36.

Mae PD12J yn cyfarwyddo'r llys i egluro yn ei ddyfarniadau sut mae unrhyw ganfyddiadau ynghylch camdriniaeth ddomestig wedi dylanwadu ar ei benderfyniad ynghylch trefniadau ar gyfer y plentyn. Yn benodol, os bydd y llys yn rhoi gorchymyn ar gyfer cyswllt gyda chyflawnydd camdriniaeth ddomestig, mae'n rhaid i'r llys bob amser egluro ei safbwynt bod y gorchymyn y mae wedi ei roi er lles y plentyn ac na fydd yn amlygu'r plentyn i risg o niwed.⁵⁰

3.2.7 Ceisiadau camdriniol

Os bydd camdriniaeth ddomestig yn cael ei sefydlu a bod y llys yn ystyried rhoi gorchymyn ar gyfer trefniadau plant, mae PD12J yn egluro y dylai'r llys ystyried a yw'r rhiant sydd yn gwneud y cais yn cael ei gymell gan awydd i hyrwyddo lles y plentyn neu a yw'n defnyddio'r broses i barhau math o gamdriniaeth ddomestig yn erbyn y rhiant arall.⁵¹

Hefyd mae gan y llys bŵer o dan adran 91(14) y Ddeddf Plant i roi gorchymyn er mwyn atal unigolyn rhag gwneud mwy o geisiadau heb gael caniatâd gan y llys yn gyntaf, pan fo'n canfod bod angen gwneud hynny. Ar brydiau cyfeirir at orchmynion o'r fath fel 'gorchmynion gwahardd', ac maent ar gael pan fo'r llys yn ymdrin â chais am orchmynion o dan y Ddeddf Plant. Fel yn achos pob cais mewn perthynas â magwraeth plentyn, mae'n rhaid i les y plentyn fod yn brif ystyriaeth y llys wrth benderfynu rhoi gorchymyn neu beidio o dan yr adran yma.

Sefydlodd achos Llys Apêl *Re P (A Child)* [1999]⁵² ganllawiau ar orchmynion adran 91(14), gan nodi bod rhoi gorchmynion o'r fath yn gyfystyr ag "ymyrryd â hawliau anghyfyngedig y parti i ddwyn achos", bod yn rhaid ystyried bod y pŵer yn eithriad, ac nid yn rheol; a'i fod yn arf i'w ddefnyddio'n olaf er mwyn atal ceisiadau mynych ac afresymol. Os bydd parti yn dymuno gwneud cais am ganiatâd pan fo gorchymyn 91(14) mewn grym, y cwestiwn i'r llys yw a oes yna 'achos y gellir ei ddadlau' neu beidio. Ond mae'n annhebygol y bydd y llys yn rhoi caniatâd oni bai y bu newid gwirioneddol a sylweddol yn yr amgylchiadau a arweiniodd at roi'r gorchymyn.⁵³

⁵⁰ PD12J, para 40.

⁵¹ PD12J, para 37(c).

⁵² *Re P (A Child)* [1999] EWCA Civ 1323.

⁵³ Gweler mwy am yr adolygiad cyfraith achos yn adran 91(14) 'gorchmynion gwahardd'.

4. Heriau wrth fynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig a risgiau eraill o niwed

4.1 Pa mor effeithiol yw'r llysoedd wrth fynd i'r afael â chamdriniaeth?

Roedd yr alwad am dystiolaeth yn gyfle i edrych ar sut mae'r teulu o lysoedd yn delio â chamdriniaeth ddomestig a risgiau eraill o niwed, gan fanteisio ar yr adolygiad o gyfraith achos ac ymchwil, a safbwyntiau a phrofiadau gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr llysoedd teulu. Mae ymchwil blaenorol ac ystadegau swyddogol wedi dangos anghydnewydd rhwng niferoedd uchel o honiadau o gamdriniaeth mewn achosion plant cyfraith breifat ar y naill law, a nifer isel o orchmynion dim cyswllt, cyswllt dan oruchwyliaeth neu ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr ar y llaw arall.⁵⁴ Er bod y panel wedi canfod peth arfer dda a bwriadau da eang, mae wedi datgelu problemau dwfn a systematig ynghylch sut mae'r llysoedd yn adnabod, asesu ac yn rheoli risg i blant ac oedolion, ac mae hynny yn helpu i egluro'r anghysondeb.

Roedd y dystiolaeth yn codi nifer o bryderon ynghylch sut y mae llysoedd teulu yn mynd i'r afael â cham-drin domestig a cham-drin plant yn rhywiol mewn achosion plant cyfraith breifat.

Derbyniwyd nifer o honiadau bod camdriniaeth ddomestig yn cael ei fychanu, ei anwybyddu, ei rhoi i'r neilltu neu na chredir ei fod yn digwydd. Roedd ymatebwyr yn adrodd am anawsterau o ran gwneud honiadau o gamdriniaeth ddomestig (pennod 5) a sicrhau bod yr honiadau hynny yn berthnasol i ystyriaethau'r llys mewn perthynas â threfniadau plant (pennod 7). Thema gref yn y cyflwyniadau oedd nad oedd lleisiau plant oedd yn dioddef camdriniaeth ddomestig a chamdriniaeth rywiol yn cael eu clywed yn ddigonol gan y llysoedd (pennod 6).

Roedd nifer o gyflwyniadau yn adrodd nad oedd achosion llys wedi darparu gwarchodaeth rhag mwy o niwed i blant neu rieni sydd yn ddi-doddefwyr camdriniaeth, ond bod hynny wedi gwneud pethau yn waeth, a bod camdriniaeth yn parhau drwy drefniadau cyswllt a orchmynnwyd gan y llys (penodau 9,10). Adroddodd rhai dioddefwyr camdriniaeth eu bod

⁵⁴ Gweler Pennod 9 isod.

nhw a'u plant wedi dioddef niwed corfforol, seicolegol, emosiynol ac ariannol hirdymor (pennod 10).

Hyd yn oed pan roedd ymatebwyr yn adrodd am ddeiliant cadarnhaol, themâu cyffredin oedd bod dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn ystyried bod achosion yn y llys teulu yn achosi mwy o drawma (pennod 8). Roedd rhai wedi cael profiad o gael eu galw'n ôl i'r llys yn fynych o ganlyniadau i geisiadau newydd dros gyfnodau hir, ond yn anaml iawn yr oedd hynny yn cael ei gydnabod fel math o gamdriniaeth nac yn cael ei wahardd.

4.2 Rhwystrau rhag taclo camdriniaeth yn effeithiol

Nid yw'r problemau a enwir yn rhai newydd. Cydnabuwyd ers nifer o flynyddoedd bod y llysoedd yn cael anhawster sefydlu cydbwysedd priodol rhwng lles y plentyn mewn perthynas â chyfranogiad parhaus y ddau riant yn eu bywydau ar y naill law, ac amddiffyn rhag y niwed a achoswyd gan gamdriniaeth ddomestig ar y llaw arall. Mae'r uwch farnwriaeth wedi arwain nifer o fentrau er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chamdriniaeth ddomestig yn effeithiol, gan ddechrau gydag adroddiad a chanllawiau sylweddol yn 2001,⁵⁵ penderfyniad yn y Llys Apêl oedd yn garreg filltir yn achos *Re L*,⁵⁶ Cyfarwyddyd Ymarfer 12J⁵⁷ ac adolygu'r Cyfarwyddyd Ymarfer yn 2014 a 2017. Er y gweithgaredd yma, mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad yma yn dangos bod y llysoedd yn dal i gael anhawster cydnabod neu fynd i'r afael â chamdriniaeth yn effeithiol. Yn yr adran yma rydym yn defnyddio'r dystiolaeth er mwyn deall pam fod y problemau hynny yn parhau. Rydym yn nodi pedwar rhwystr sydd yn ei gwneud yn anodd adnabod a mynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig: cyfyngiadau ar adnoddau, diwylliant y llys o blaid cyswllt, diffyg dull cydlynol (y llys teulu yn gweithio mewn seilo), a'r broses wrthwynebol.

Mae'r pedwar rhwystr yn faterion systematig. Maent yn rhan o sut mae'r system cyfiawnder teulu yn gweithio yn hytrach na theimladau unigolion. Mae'n bwysig nodi hefyd bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y pedwar ffactor a enwir yn tynnu i'r un cyfeiriad, ac yn atgyfnerthu ei gilydd o ran ei gwneud yn anoddach mynd i'r afael â chamdriniaeth yn effeithiol. Felly nid yw'n syndod bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y ffactorau yma yn effeithio ar bawb sydd yn gweithio yn y system cyfiawnder teulu, yn cynnwys barnwyr ac ynadon, Cafcass/Cymru, gweithwyr awdurdodau lleol, cyfreithwyr ac arbenigwyr yn y maes.

Mae'n bwysig nodi na fydd pob achos yn profi'r un anawsterau. Derbyniodd y panel dystiolaeth o arfer dda ac adroddiadau o ddeilliannau cadarnhaol. Ond, mae'r pedwar ffactor yma yn siapio ac yn cyfyngu ar gapasiti y system cyfiawnder teulu i fynd i'r afael â

⁵⁵ Bwrdd yr Arglwyd Ganghellor ar Gyfraith Teulu: Is-bwyllgor Deddf Plant, *Making Contact Work: A Report to the Lord Chancellor on the Facilitation of Arrangements for Contact Between Children and their Non-Residential Parents and the Enforcement of Court Orders for Contact* (2002).

⁵⁶ *Re L, V, M, H (Contact: Domestic Violence)* [2001] Fam 260.

⁵⁷ PD12J 2008/9

chamdriniaeth ddomestig yn ei gyfanrwydd. Hefyd, gall rhai nodweddion achosion penodol wneud i'r profiad fod yn hyd yn oed gwaeth neu heriol i bartïon; yn benodol, stereoteipiau hiliol a diwylliannol, daearyddiaeth (yn arbennig byw mewn ardaloedd gwledig) a diffyg cynrychiolaeth gyfreithiol.

4.2.1 Adnoddau cyfyngedig

Roedd yna lefel uchel o gonsensws, ymysg defnyddwyr proffesiynol yn arbennig, bod adnoddau cyfyngedig yn amharu ar allu'r system i adnabod a mynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig ym mhob cam o'r broses, o'i adnabod, i ddyfarnu ac ymyrryd.

Roedd cyflwyniadau i'r alwad am dystiolaeth yn pwyntio at ddau ffactor sydd yn achosi i bwysau ar adnoddau ymddangos yn arbennig o aciwt. Y cyntaf yw lefel uchel o alw ar y system gyfiawnder teulu. Mae hynny yn deillio o'r cynnydd mewn achosion cyfraith breifat yn ystod y degawd ddiwethaf, ⁵⁸ yn ogystal â bod nifer yr achosion cyfraith breifat wedi dychwelyd i'r lefel a welwyd cyn y newidiadau i gymorth cyfreithiol yn 2013.⁵⁹ Yr ail ffactor yw'r adnoddau sydd ar gael. Er gwaethaf peth cynnydd mewn gwariant ar gyfiawnder teulu yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r adnoddau sydd ar gael ym mhob rhan o'r system, yn cynnwys Cafcass/Cymru a gwasanaethau allanol, wedi cael anhawster bodloni'r galw cynyddol. Mae hynny wedi golygu bod llai o adnoddau ar gael ar adeg pan fo'r galw ar ei uchaf. Y consensws proffesiynol oedd ei bod yn anodd cynnal y system gyfiawnder ar yr adnoddau sydd yn bodoli. Mynegwyd hynny ar ei gryfaf gan farnwr i'r cyfarfod bord gron barnwrol a ddywedodd "mae'r system yn dadfeilio nawr, ni allwn ymdopi."

Mae'r panel yn credu bod y prinder adnoddau yn effeithio ar y system gyfan, ond bod hynny yn achos mwy o bryder mewn achosion o gam-drin domestig, sydd yn debygol o ddefnyddio mwy o adnoddau nag achosion pan nad oes camdriniaeth. Mae diogelu yn golygu bod angen amser ac adnoddau er mwyn cynnal asesiad risg manwl a gofalus; mae'r angen am fesurau arbennig yn golygu bod angen cyfleusterau digonol yn y llys, mae gwrandawiadau canfod ffeithiau yn golygu bod angen amser barnwrol ychwanegol; ac efallai y bydd angen gwneud ymyriadau ychwanegol er mwyn sicrhau bod unrhyw drefniadau plant yn ddiogel. Mae hyn i gyd yn costio arian. Mae'r prinder adnoddau yn golygu ei bod yn anodd i'r system fynd i'r afael â'r galwadau ychwanegol sydd yn deillio o achosion cam-drin domestig:

⁵⁸ Care Crisis Review, *Options for Change* (2018)

⁵⁹ Ystadegau Chwarterol y Llys Teulu <https://www.gov.uk/government/collections/family-court-statistics-quarterly>

Nid ydym yn darparu gwasanaeth da. Ym mhob agwedd. Rydym yn ymdrechu, ond yn syml ni allwn wneud hynny oherwydd yr adnoddau sydd gennym a'r adnoddau sydd yn cael eu darparu i ni, ni allwn ddarparu gwasanaeth digon da i'r bobl sydd ei angen, boed y bobl hynny yn gyflawnwyr neu'n honwyr. **Barnwr, Bord gron barnwrol**

Mae lleihau adnoddau ar gyfer cymorth cyfreithiol yn benodol wedi cyflwyno problem arall - y cynnydd sylweddol yn nifer yr ymglyfreithwyr drostynt eu hunain ers y newidiadau i gymorth cyfreithiol yn 2013. Mae hynny yn golygu bod cyflawnwyr honedig a rhai dioddefwyr camdriniaeth na allant fforddio talu am gyfreithiwr yn ceisio datrys trefniadau plant gaiff eu herio a llywio drwy brosesau llys cymhleth heb gyngor na chynrychiolaeth gyfreithiol.

4.2.2 Y diwylliant o blaid cyswllt a lleihau camdriniaeth

Yr ail rwystr rhag i'r llysoedd fynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig yn effeithiol yw'r flaenoriaeth a roddir gan y system cyfiawnder teulu i sicrhau y bydd cyswllt rhwng y plentyn a'r rhiant nad yw'n breswlydd yn digwydd. Mae llenyddiaeth flaenorol wedi cyfeirio at 'ddiwylliant o blaid cyswllt' y llysoedd teulu⁶⁰ a rydym wedi mabwysiadu'r derminoleg yma fel un sydd yn briodol ar gyfer cyfleu natur systematig a threiddiol ymrwymiad y llysoedd o ran cynnal cyswllt rhwng plant a rhieni nad ydynt yn breswylwyr. Mae 'diwylliant' yn disgrifio set benodol o gredoau ac ymddygiadau (weithiau yn rhai diarwybod neu'n rhai a gymerir yn ganiataol) grŵp o bobl. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn datblygu diwylliant neilltuol gyda threigl amser, ac nid yw'r llysoedd teulu yn eithriad. Nid yw hynny yn golygu bod pob aelod o'r sefydliad yn cytuno o reidrwydd nac yn cydymffurfio â phob agwedd o'r diwylliant hwnnw. Ond mae'n golygu bod yna bwysau cryf i gydymffurfio, ac nad yw newid diwylliannol yn digwydd yn hawdd.

Gellir gweld datganiadau pwerus ynghylch diwylliant o blaid cyswllt y llysoedd teulu yn nyfarniadau y Llys Apêl. Er bod y Llys wedi cadarnhau mai lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth, mae wedi diffinio lles fel rhywbeth sydd bron yn ddieithriad yn golygu bod angen cyswllt gyda'r rhiant nad yw'n breswlydd. Yn *Re C*, Sir James crynhodd Munby y gyfraith achos fel hyn:

- "Mae cyswllt rhwng rhiant a phlentyn yn elfen sylfaenol o fywyd teuluol ac mae hynny bron bob amser er lles y plentyn.
- Mae cyswllt rhwng rhiant a phlentyn i'w derfynu dim ond dan amgylchiadau eithriadol, pan fo yna resymau cymhellol dros wneud hynny a phan nad oes dewis arall. Bydd cyswllt yn cael ei derfynu dim ond os bydd hynny yn niweidiol i les y plentyn.

⁶⁰ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 7.1, 7.2 a 7.3.

- ...Mae gan y barnwr ddyletswydd gadarnhaol i hyrwyddo cyswllt. Mae'n rhaid i'r barnwr ystyried yr holl ddewisiadau eraill cyn diystyru unrhyw obaith o greu rhyw fath o gyswllt.”⁶¹

Yn yr un modd yn 2012 nododd Syr Andrew MacFarlane, Llywydd presennol Yr Adran Deulu, bod “cyswllt bron bob amser er lles y plentyn”.⁶²

Mae'r eithriadau yn ymestyn i sicrhau bod cyswllt yn digwydd wyneb yn wyneb yn hytrach na dim ond yn 'anuniongyrchol', a heb oruchwyliaeth os yn bosibl. Hefyd nododd Syr Andrew MacFarlane yn 2012, os na fyddai cyswllt uniongyrchol yn bosibl, bod cyswllt anuniongyrchol yn “ddymuno iawn”, a chyswllt uniongyrchol yn cael ei adsefydlu maes o law.⁶³ Cafodd yr egwyddor gyffredinol o blaid cyswllt, a amlinellir yn yr awdurdodau Llys Apêl yma, yn ogystal ag eraill, ei atgyfnerthu mewn deddfwriaeth yn 2014. Diwygiwyd Deddf Plant 1989 er mwyn nodi y dylai'r llys dybio, oni ddangosir yn wahanol, y bydd cyfranogiad y dau riant ym mywyd y plentyn dan sylw yn gwella lles y plentyn.

Roedd yna thema gyson yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r panel bod partïon i achosion plant cyfraith breifat yn teimlo bod gorfodi cyswllt yn elfen gref yn eu hachosion. Roedd Cymdeithas Cyfreithwyr Plant a'r Prosiect Tryloywder yn ystyried bod llysoedd teulu yn cydbwysu dymunoldeb cyswllt a rheoli risg mewn ffordd briodol. Ond roedd ymatebwyr proffesiynol ac unigol eraill yn mynegi pryderon bod blaenoriaethu cyswllt yn atal y llys rhag cynnal asesiad eang a holistig o les y plentyn. Yn benodol, roedd dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol, yn cynnwys arbenigwyr camdriniaeth ddomestig, elusennau plant a rhai gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn canfod bod y pwyslais ar gyswllt yn rhwystro ystyriaethau eraill mewn perthynas â lles, yn cynnwys angen y plentyn am ddiogelwch rhag camdriniaeth, neu deimladau neu ddymuniadau'r plentyn. Mae'n ymddangos mai sefydlu cyswllt fu'r ystyriaeth bwysicaf yn yr achosion a ddisgrifiwyd.

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r panel yn awgrymu bod y diwylliant o blaid cyswllt yn arwain at batrwm o fychanu a pheidio credu honiadau o gam-drin domestig a cham-drin plant yn rhywiol. Er enghraifft, mewn penodau dilynol rydym yn dadansoddi'r dystiolaeth sydd yn awgrymu y gellir ymdrin â chamdriniaeth ddomestig fel rhywbeth 'hanesyddol' er mwyn galluogi i gyswllt ddigwydd, yn hytrach nag ystyried a oes gan gamdriniaeth berthnasedd barhaus i les y plentyn a'r rhiant nad yw'n gamdriniol. Rydym hefyd yn archwilio'r dystiolaeth ynghylch sut y gall honiadau o gamdriniaeth ddomestig gael ei ail ffurfio weithiau fel 'gwrthdaro mawr' o'r dwy ochr, neu yn gynyddol, fel rhywbeth a ddefnyddir gan y rhiant arall fel dystiolaeth o 'elyniaethu rhieni'.⁶⁴ Er bod rhieni oedd yn

⁶¹ *Re C (Direct Contact: Suspension)* [2011] EWCA Civ 521, per Munby P, para 47.

⁶² *Re W (Children)* [2012] EWCA Civ 999.

⁶³ *Re W (Children)* [2012] EWCA Civ 999.

⁶⁴ Mae'r panel yn cydnabod bod 'gelyniaeth rhieni' yn gysyniad sydd yn cael ei herio. Ond, cyfeiriwyd at hynny yn eang mewn cyflwyniadau ac oherwydd hynny mae'n cael ei ddefnyddio yn yr adroddiad yma er mwyn adlewyrchu'r materion a godwyd yn y cyflwyniadau. Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 7.2.

honni camdriniaeth ddomestig wedi dweud wrth y panel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hystyried fel rhywbeth rhwystrol, roeddent hefyd yn teimlo bod rhieni camdriniol yn gyffredinol yn derbyn mantais yr amheuaeth ac yn cael cyswllt heb dystiolaeth o newid. Ym mhennod 9 rydym yn trafod y dystiolaeth bod y llysoedd yn aml yn rhoi gorchmynion heb oruchwyliaeth heb unrhyw neu fawr ddim dystiolaeth o newid ymddygiad ar ran y cyflwynydd camdriniaeth, a bod hynny yn methu ag amddiffyn plant rhag mwy o niwed nac yn cefnogi rhieni nad ydynt yn gamdriniol.

4.2.3 Y broblem o weithio mewn seilo

Mae mynd i'r afael â'r her o daclo camdriniaeth ddomestig yn golygu bod angen i bob asiantaeth a holl elfennau'r system gyfiawnder, gwasanaethau statudol a'r sector camdriniaeth ddomestig ddefnyddio dull cydlynol. Mae ymchwil blaenorol wedi canfod ei bod yn ymddangos bod gwahanol rannau o'r system yn gweithio mewn seilos, sydd yn methu â chydlynu neu sydd hyd yn oed yn gweithio mewn ffyrdd sydd yn groes i'w gilydd.⁶⁵

Roedd cyflwyniadau yn nodi bod gwahanol rannau o'r system yn mabwysiadu gwahanol ddulliau, nad oeddent bob amser yn rhannu gwybodaeth, ac y gallent wneud penderfyniadau oedd yn groes a chyferbyniol. Oherwydd hynny, gallai'r un rhiant, mam fel arfer, gael ei thrin yn eithaf gwahanol gan y gwahanol systemau, gyda chanlyniadau gwahanol iddi hi a'i phlentyn. Yn y system cyfiawnder troseddol, byddai'n disgwyl cael ei thrin gyda chydymdeimlad fel dioddefwr trosedd ddifrifol, a'i diogelwch hi a'i phlentyn yn bwysicach na dim. Mewn achos cyfraith gyhoeddus, byddai'r ffocws yn symud at amddiffyn y plentyn, gyda'r fam yn warchodwr posibl ond hefyd yn cydgyllwynio o bosibl gyda'r camdriniwr. Mewn achos cyfraith breifat, byddai'n fwy tebygol i'r un fam gael ei thrin, nid fel dioddefwr neu warchodwr, ond gydag amheuaeth o fod yn fygythiad i berthynas y camdriniwr gyda'r plentyn ac o bosibl yn rhywun sydd yn creu gelyniaeth.

Mae'r ymagweddau croes yna yn arwain at benderfyniadau gwrthgyferbyniol rhwng gwahanol rannau y system gyfiawnder. Derbyniodd y panel enghreifftiau lu pan fo safiad gwarchodol rhannau eraill o'r system yn cael ei danseilio gan achosion cyfraith teulu preifat. Roedd enghreifftiau yn cynnwys cael eu trin fel dioddefwr camdriniaeth risg uchel gan MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth), ond yr asesiad hwnnw yn cael ei anwybyddu gan y llys teulu; gofal plant cymdeithasol yn bygwth achos gofal pe na bai'r fam yn gwahanu oddi wrth ei phartner camdriniol, ond yna yn cefnogi cais am drefniadau plentyn gan y tad; ac achosion pan orchmynnwyd i famau wneud trosglwyddiadau gyda chamdriniwr er bod gorchmynion peidio ag ymyrryd wedi cael eu rhoi gan yr un llys teulu.

⁶⁵ Gweler, yn benodol, y 'model tair planed' a enwyd gan M Hester (2011) 'The three planet model: Towards an understanding of contradictions in approaches to women and children's safety in contexts of domestic violence', *The British Journal of Social Work*, 41: 837–53 ac a drafodir yn yr adolygiad o lenyddiaeth.

I'r gwrthwyneb, dywedwyd wrth y panel hefyd bod yr heddlu wedi gwrthod gweithredu ar unrhyw gamdriniaeth oedd yn gysylltiedig â chyswllt oherwydd bod hynny yn gysylltiedig â gorchymyn llys teulu.

Mae set arall o broblemau a achosir gan ddiffyg cydlyniant yn ymwneud â chyfnewid gwybodaeth rhwng rhannau o'r system. Derbyniodd y panel nifer o gyflwyniadau oedd yn cyfeirio at achosion pan na ddefnyddiwyd gwybodaeth ac asesiadau a gasglwyd neu a gynhaliwyd gan asiantaethau dibynadwy eraill gan lysoedd teulu er mwyn hysbysu penderfyniadau. Felly mae'r panel yn bryderus bod tystiolaeth sydd ar gael o gamdriniaeth ddomestig ac effaith hynny ar blant yn cael ei anwybyddu gan y llysoedd teulu, a bod prosesau asesu risg yn methu ag ystyried dangosyddion ac asesiadau risg sydd wedi cael eu gwneud yn rhywle arall, o ystyried y prinder adnoddau y mae'r system cyfiawnder teulu sydd dan bwysau yn gallu eu neilltuo i achosion unigol.

Mae peryglon cyfathrebu gwael a diffyg rhannu gwybodaeth rhwng asiantau, allai fod yn peryglu bywydau, wedi cael eu hailadrodd dro ar ôl tro mewn adolygiadau amddiffyn plant ac adolygiadau o ddynladdiadau domestig.⁶⁶ I'r gwrthwyneb, mae Ofsted wedi nodi bod gwelliannau ym mhrofiadau plant sydd yn dioddef camdriniaeth ddomestig yn ganlyniad fel arfer i waith amlasiantaeth effeithiol.⁶⁷

4.2.4 Y broblem gyda system wrthwynebol

Y pedwerydd rhwystr systematig rhag mynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig yw'r broses llys wrthwynebol. Fel theori gall cyfiawnder teulu fod yn broses ymchwiliol gyda'r llys yn cynnal ymchwiliad eang yn rhagweithiol er mwyn sefydlu pa drefniadau fyddai'n hyrwyddo lles y plentyn orau.⁶⁸ Mewn gwirionedd, mae achos yn cael ei ddwyn gan un rhiant, ac yn arbennig pan fo honiadau o gamdriniaeth ddomestig neu gam-drin plant yn rhywiol yn cael eu gwadu, maent yn cael eu cynnal ar sail wrthwynebol pan fo'r llys yn gorfod dyfarnu rhwng dau riant sydd yn erbyn ei gilydd, a phob un yn ceisio ennill yr achos. Mae'r pwyslais yma ar rieni yn yr achosion yn cael ei waethygu gan y ffaith nad oes gan y rhan fwyaf o blant ddim neu fawr ddim cyfranogiad yn y broses, a dim ond nifer fechan gaiff eu cynrychioli yn uniongyrchol yn yr achosion. Mae hynny yn ei gwneud yn anodd iawn canolbwyntio ar les y plentyn.

Mae natur wrthwynebol y broses yn codi problemau ychwanegol ar gyfer achosion o gam-drin domestig. Conglfaen y dull gwrthwynebol yw mai rôl y swyddog barnwrol yw sicrhau bod yna degwch rhwng y partïon, p'un a bod y partïon yn cael eu cynrychioli neu beidio. Mae hynny yn llawer mwy heriol pan fo'r deinameg pŵer rhwng y cyflawnydd a'r dioddefwr yn debygol o effeithio ar degwch y broses. Mae hynny yn ei gwneud yn ofynnol i'r llysoedd

⁶⁶ Child Safeguarding Practice Review Panel, *Annual Report 2018–2019* (2020); Home Office, *Domestic Homicide Reviews: Key Findings from Analysis of Domestic Homicide Reviews* (2016).

⁶⁷ Y Stanley (2020) 'Domestic abuse: Keeping the conversation going' yn <https://socialcareinspection.blog.gov.uk/2020/01/07/domestic-abuse-keeping-the-conversation-going/>

⁶⁸ Gweler para 28 PD12J.

sicrhau bod yr holl ddiodefwr sydd wedi dioddef camdriniaeth yn gallu cyfranogi yn llawn, heb fygythiad na rheolaeth. Ond eto, fel yr ydym yn ei archwilio ym mhennod 8, mae'n ymddangos bod llysoedd teulu yn cael trafferth deall a mynd i'r afael â'r ddeinameg pŵer yma. Er enghraifft, derbyniwyd tystiolaeth y gallai ceisiadau i ddefnyddio mesurau arbennig yn y llys er mwyn i ddiodefwr gael cefnogaeth gweithiwr cymorth cam-drin domestig gael ei wrthod gan y llys oherwydd y byddai hynny yn cyflwyno yn hytrach na chywiro anghydraddoldeb rhwng y partïon.

4.2.5 Anfanteision strwythurol croestoriadol

Mae anfanteision strwythurol croestoriadol yn digwydd pan fo profiad unigolyn yn cael ei greu o ganlyniad i groestoriad gwahanol ffactorau strwythurol systemig. Ni fydd y ffordd y bydd y pedwar rhwystr systemig a nodir uchod yn gweithredu mewn achosion unigol yr un fath i bawb. Yn hytrach, bydd gwahanol ffurfiau mantais ac anfantais strwythurol yn dylanwadu ar y rhwystrau yma. Y mathau o anfantais strwythurol yn croestorri â phrofiadau achosion plant cyfraith breifat a fynegwyd yn fwyaf cyffredin mewn cyflwyniadau oedd anfantais economaidd yn arwain at ddiffyg cynrychiolaeth gyfreithiol, boed hynny o gefndir du neu leiafrifoedd ethnig, a byw mewn ardal wledig. Ychydig o dystiolaeth, o'i gymharu, a gyflwynwyd i'r panel ynghylch sut oedd anabledd yn croestorri â phrofiadau yn y llysoedd. Ond, mae ymchwil blaenorol yn awgrymu y gallai hynny hefyd waethygu anawsterau i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain a diodefwr camdriniaeth ddomestig.⁶⁹

Y math pwysicaf o anfantais strwythurol ac y cyfeiriwyd ato amlaf oedd diffyg mynediad i gynrychiolaeth gyfreithiol. Yn dilyn diwygio cymorth cyfreithiol yn 2013, erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o achosion cyfraith breifat yn ymwneud ag o leiaf un ymgyfreithiwr drosto ei hun.⁷⁰ Mae ymchwil wedi canfod pa mor heriol yw hi i unrhyw ymgyfreithiwr drosto ei hun lywio drwy achosion y llys teulu ar ei ben ei hun.⁷¹ Mae'r heriau yma yn arbennig o amlwg mewn achosion o gam-drin domestig a cham-drin plant yn rhywiol, pan fo hunan-gynrychiolaeth yn croestorri â diwylliant o blaid cyswllt a'r system wrthwynebol. Roedd nifer o gyflwyniadau gan rieni unigol a gweithwyr proffesiynol yn adrodd bod cyfranogiad cydradd yn anodd i'w sicrhau pan fo'n rhaid i ddiodefwr camdriniaeth sydd yn ceisio amddiffyn plentyn rhag camdriniaeth gynrychioli eu hunain. Roedd diodefwr camdriniaeth a rhieni gwarchodol oedd yn ymddangos fel ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn adrodd eu bod yn teimlo'n ddi-rym, dryslyd, diymadferth ac wedi eu heithrio, a bod hynny yn gwaethygu'r lefelau gorbryder, straen, ofn a thrawma yr oeddent eisoes yn ei deimlo.

⁶⁹ L Trinder et al, *Litigants in Person in Private Family Law Cases* (2014).

⁷⁰ Ystadegau Chwarterol y Llys Teulu <https://www.gov.uk/government/collections/family-court-statistics-quarterly>

⁷¹ L Trinder et al, *Litigants in Person in Private Family Law Cases* (2014).

Roedd y problemau a achoswyd gan ddiffyg cynrychiolaeth yn mynd yn llawer ehangach hefyd. Pan fo dioddefwr camdriniaeth ddomestig neu riant gwarchodol yn cael ei gynrychioli a bod y cyflawnydd yn LIP, roedd cyfranogwyr yn y grŵp ffocws o weithwyr proffesiynol yn adrodd ei bod yn ymddangos bod barnwyr yn 'gweud popeth posibl' er mwyn cynorthwyo'r LIP i gael achos teg, gydag enghreifftiau o ymddygiad camdriniol yn cael eu dehongli a'u hesgusodi fel methiant i ddeall y broses. I'r gwrthwyneb, roedd cyflwyniadau unigol yn amlygu'r teimlad treiddiol o anghyfiawnder a deimlwyd gan dadau ynghylch eu hanallu i gael cymorth cyfreithiol pan fo cyn-bartneriaid sydd yn honni camdriniaeth yn gallu gwneud hynny, a bod hynny yn gwaethygu natur wrthwynebol y system ac yn arwain at anawsterau penodol mewn perthynas â chroesholi a safbwynt y ddau barti.

Er bod cymorth cyfreithiol yn dal ar gael i ddiodefwyr camdriniaeth ddomestig all ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol o gamdriniaeth, mae'n rhaid i ddiodefwyr ddal fodloni'r prawf modd. Gall hynny gosbi diodefwyr yn ariannol sydd efallai ag ecwiti mewn tŷ, neu yn rhywle arall, ond dim ond ychydig iawn o arian parod er mwyn gallu fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol. Gall hynny waethygu camdriniaeth economaidd a brofir gan ddiodefwyr os bydd eu hasedau yn cael eu rheoli gan y camdriniwr sydd yn atal mynediad atynt. Derbyniwyd cyflwyniadau gan ddiodefwyr a ail-forgeisiodd eu cartref, a ddatganodd fethdaliad ac a ysgwyddodd ddyled sylweddol mewn ymdrech i sicrhau cynrychiolaeth gyfreithiol er mwyn profi eu honiadau o gamdriniaeth ddomestig.

Derbyniodd y panel dystiolaeth bwerus, yn cynnwys gan Southall Black Sister a grwpiau ffocws BAME, ynghylch natur fregus a diymadferthedd yr oedd merched BAME oedd wedi diodef camdriniaeth ddomestig yn ei deimlo. Roedd y rhain yn cynnwys disgwyliadau teuluol a chymunedol, a phwysau neu flacmel i beidio â riportio neu siarad am gamdriniaeth ddomestig oherwydd ofn o ddwyn gwarth ar y teulu neu'r gymuned. Adroddodd cyfranogwyr hefyd y gallai diodefwyr fod yn ysgwyddo pwysau cymdeithasol a diwylliannol sylweddol i gymodi a chytuno ar gyswllt. Merched oedd â statws mewnfudo ansicr oedd yn wynebu'r risg mwyaf o hynny, oherwydd efallai y byddai'n rhaid iddynt ddewis aros mewn sefyllfa gamdriniol neu fod mewn perygl o gael eu hallfudo a cholli eu plant yn barhaol o bosibl. Amlygodd cyfranogwyr eraill y gall diodefwyr eraill gael trafferthion ieithyddol hefyd, eu bod yn teimlo'n ynysig ac nad oes ganddynt y ffynonellau cymorth cymdeithasol a diwylliannol ar gyfer rhiantu, ac efallai bod y llys yn eu hystyried fel tystion llai credadwy. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo tra bod cyn-bartneriaid wedi elwa o freintiau hiliol yn y llysoedd, roeddent hwy yn teimlo eu bod wedi cael eu 'diystyru' i raddau aciwt ac wedi cael eu bychanu gan y llys ac wedi canfod bod eu profiadau yn hiliol.

Un math arall o anfantais strwythurol a godwyd yn aml oedd pan fo partion yn byw mewn ardal wledig ac yn wynebu rhwystrau penodol oherwydd diffyg gwasanaethau ac oherwydd eu bod wedi eu hynysu. Roedd cyflwyniadau yn pwysleisio nad yw'r system gyfiawnder yn fonolithig, ond ei bod yn amrywio yn sylweddol o un llys i'r llall a rhwng ardaloedd, ac roeddent yn mynegi pryderon ynghylch mynediad i gyngor cyfreithiol, yn


arbennig drwy gyfrwng cymorth cyfreithiol, ac anawsterau o ran mynediad at ystod o wasanaethau cymorth ac ymyriadau mewn ardaloedd gwledig. Mae ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr yn gyffredinol yn brin, ond mae'r cyflwyniadau yn awgrymu bod darpariaeth a mynediad mewn ardaloedd gwledig yn arbennig o broblemus. Derbyniodd y panel dystiolaeth am achosion pan ei bod yn ymddangos bod camdrinwyr yn defnyddio ynysu gwledig fel ffordd o ddwysau eu rheolaeth. Roedd y cyflwyniadau yma yn amau a oedd y llys wedi cydnabod y dacteg honno neu wedi ystyried natur fregus fwy dwys dioddefwyr mewn cymunedau gwledig.

Mewn penodau dilynol, rydym yn archwilio sut mae'r diwylliant o blaid cyswllt, y dull gwrthwynebol o wneud penderfyniadau, adnoddau cyfyngedig mewn perthynas ag achosion cyfraith breifat, a'r llys teulu yn gweithio mewn seilo yn arwain at brosesau llys sydd yn anfoddhaol a deilliannau sydd o bosibl yn annigol i blant ac oedolion.

5. Datgan a thystiolaethu am gam-drin domestig

5.1 Cyflwyniad

Roedd cyflwyniadau dioddefwyr yn dangos bod nifer yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i beidio gwneud honiadau o gamdriniaeth ddomestig. Un o'r rhwystrau arwyddocaol rhag datgan camdriniaeth oedd effaith y gamdriniaeth ei hun, ynghyd â diffyg dealltwriaeth o hynny ymysg gweithwyr proffesiynol sydd yn gweithio yn y system cyfiawnder teulu. Tan yn diweddar ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd wedi bod yn y system gyfreithiol ynghylch rheolaeth dan orfodaeth fel elfen o gamdriniaeth ddomestig. Mae'r system cyfiawnder troseddol yn benodol wedi canolbwyntio'n sylweddol ar ddigwyddiadau unigol o drais corfforol, heb fod yn ymatebol i fathau eraill o gamdriniaeth. Ond, realiti camdriniaeth ddomestig i nifer o ddioddefwyr yw'r micro-reoli ar eu bywydau mewn nifer o ffyrdd sydd yn eu gadael mewn cyflwr parhaus o ofn a gorbryder. Gall gymryd amser maith i ddioddefwyr sylweddoli eu bod yn dioddef camdriniaeth ddomestig a mynd i chwilio am help. Er bod y system gyfreithiol yn canolbwyntio ar gamdriniaeth gorfforol, mae dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn dweud yn rheolaidd nad dyna'r math gwaethaf o gamdriniaeth maent wedi ei ddioddef; y gamdriniaeth seicolegol ac emosïynol parhaus, yr orfodaeth a'r rheoli, sydd yn effeithio arnynt fwyaf. Yn y bennod hon, bydd y rhwystrau rhag datgan a thystiolaethu am gamdriniaeth ddomestig yn cael ei archwilio. Mae'r rhwystrau yma yn cael eu crynhoi ar ffurf diagram isod:



5.2 Diffyg dealltwriaeth o gamdriniaeth ddomestig

Mae herio paradeim 'trais domestig' a chael gweithwyr proffesiynol i gydnabod yr ystod lawn o gamdriniaeth a'r effeithiau parhaus yn rhwystr cyffredin i ferched a dynion sydd wedi cael eu cam-drin mewn achosion plant cyfraith breifat. Yn y cyflwyniadau roedd yna nifer o gyfeiriadau at weithwyr proffesiynol yn dangos diffyg dealltwriaeth o gymhlethdod camdriniaeth domestig ac effeithiau hynny ar ôl gwahanu ar y rhiant, y fam fel arfer, a'r plant. Dywedwyd wrth y panel bod y diffyg dealltwriaeth yma o gamdriniaeth ddomestig a thrawma parhaus yn golygu yr ystyrir bod honiadau yn amherthnasol i gyswllt.

Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod yna ganfyddiad ymysg rhai gweithwyr proffesiynol bod mamau mewn achosion trefniadau plant yn gwneud ffug honiadau o gamdriniaeth ddomestig fel rhan o ymarferiad 'chwarae gêm' er mwyn oedi neu amharu ar gyswllt. Ond mae ymchwil yn awgrymu bod y gyfran o honiadau 'ffug' o gamdriniaeth ddomestig yn fychan iawn.⁷² Er bod mesur ffug honiadau yn ymarferiad anodd iawn, mae'n rhaid i'r syniad bod merched yn ffugio honiadau er mwyn amharu ar gyswllt gael ei ddeall yng nghyd-destun y profiadau negyddol y mae merched wedi eu profi wrth geisio dweud wrth weithwyr proffesiynol am y gamdriniaeth. Fel mae'r bennod hon yn ei ddangos, roedd y cyflwyniadau i'r alwad am dystiolaeth gan famau dro ar ôl tro y dweud eu bod wedi cael eu hannog i beidio gwneud honiadau neu nad oeddent yn cael eu credu oherwydd nad oeddent wedi ymddwyn mewn ffordd y byddai 'stereoteip' o ddiodefwr yn ymddwyn. Roedd mamau a gweithwyr proffesiynol a sefydliadau oedd yn eu cefnogi yn canfod mai

⁷² Yr adolygiad o lenyddiaeth, adran 7.2.

safbwynt ragosodedig nifer o'r gweithwyr proffesiynol, yn cynnwys gofal cymdeithasol plant, Cafcass/Cymru a'r llysoedd mewn achosion trefniadau plant, oedd delio â honiadau gyda lefel uchel o amheuaeth. Dywedodd nifer o famau wrth y panel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cyhuddo o ddweud celwydd. Roedd honiadau o gam-drin plant yn rhywiol yn codi materion penodol mewn perthynas ag amheuaeth a chanfyddiad o anghrediniaeth.

Mae'r 'stereoteipiau' all weithio yn erbyn datgan camdriniaeth ddomestig yn cynnwys; peidio riportio camdriniaeth i'r heddlu neu ofal cymdeithasol plant, neu oedi o ran riportio i drydydd parti, aros mewn perthynas gyda'r camdriniwr yn hytrach na cheisio help neu adael y camdriniwr, a naill ai ymddangos yn 'or-emosiynol' neu 'ddim yn ddigon emosiynol' wrth roi tystiolaeth yn y llys. Hefyd, roedd rhieni oedd yn dioddef ag afiechyd meddwl, yn aml o ganlyniad i drawma camdriniaeth, yn teimlo bod hynny yn cael ei ddefnyddio i danseilio unrhyw honiadau yr oeddent yn ei ddatgan. Mae'r stereoteipiau yma yn dangos diffyg dealltwriaeth o gamdriniaeth ddomestig a thrawma, yn arbennig effeithiau parhaus rheolaeth drwy orfodi. Yn olaf, roedd yna nifer fechan o gyflwyniadau gan ddiodefwyr gwrywaidd a sefydliadau sydd yn eu cefnogi yn nodi eu bod wedi dod ar draws rhwystrau penodol rhag cael eu credu.

5.2.1 Dim riportio neu oedi o ran riportio i drydydd partiön

'Efallai na fydd rhieni yn cydnabod bod camdriniaeth ddomestig neu fathau eraill o niwed yn berthnasol, neu efallai nad ydynt yn cydnabod eu bod yn ddiodefwyr neu'n oroeswyr camdriniaeth eu hunain. Yr her y gall hynny ei achosi mewn achosion yw y gall y llys wneud penderfyniadau ynghylch lles heb wybodaeth lawn am yr holl ffeithiau perthnasol, oherwydd nad yw rhiant wedi gallu cyflwyno'r holl wybodaeth berthnasol fel tystiolaeth.'

Cymdeithas Cyfreithwyr Plant (ALC)

Gall fod yna nifer esboniadau pam nad yw diodefwyr camdriniaeth ddomestig yn riportio eu profiadau i'r llys neu Cafcass/Cafcass Cymru neu unrhyw asiantaeth allanol arall. Dywedodd rhai mamau wrth y panel nad oeddent yn gyfforddus o ran dweud wrth weithwyr proffesiynol am gamdriniaeth ddomestig oherwydd profiadau gwael blaenorol gyda'r system; cadarnhawyd hynny mewn cyflwyniadau gan Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr, Cymorth i Ferched Cymru a sefydliadau eraill sydd yn cefnogi diodefwyr. Hefyd dywedodd rhai merched wrth y panel, pan fu iddynt oedi o ran riportio, eu bod yn ddiweddarach wedi cael eu cyhuddo o ddweud celwydd, ac roedd hwnnw hefyd yn sylwad a adlewyrchwyd yn y cyflwyniadau gan sefydliadau sydd yn cefnogi diodefwyr. Dywedodd y Prosiect Tryloywder nad yw diodefwyr efallai yn gwerthfawrogi pwysigrwydd datgan honiadau yn gynnar a'u bod yn wynebu beirniadaeth mewn perthynas â'u hygredd pan fo honiadau yn cael eu datgan yn 'hwyr'. Derbyniodd yr alwad am dystiolaeth gyflwyniadau gan ferched nad oedd ar y cychwyn yn llawn werthfawrogi bod rhai mathau o ymddygiad yn gamdriniaeth, yn arbennig felly mewn perthynas ag ymddygiadau rhywiol a gorfodol ac ymddygiad o reoli. Dywedodd Cymdeithas Cyfreithwyr Plant bod angen gweithwyr

proffesiynol sgiliedig (gweithwyr camdriniaeth ddomestig proffesiynol, therapyddion neu gyfreithwyr) i gefnogi'r dioddefwyr yma i gydnabod y berthynas gamdriniol ac i ddatgan a thystiolaeth hynny yn y llys.

Felly mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r panel yn awgrymu bod angen dealltwriaeth fwy cyflawn ymysg ystod eang o weithwyr proffesiynol mewn achosion plant cyfraith breifat ynghylch y rhesymau pam nad oes yna riportio neu pam fod yna oedi o ran riportio.

5.2.2 Peidio â gadael y camdriniwr yn gynharach

Mae'r 'stereoteip' na fyddai 'gwir' ddiodefwyr camdriniaeth yn aros gyda'i chamdriniwr ac yn mynd â'i phlant oddi wrth y camdriniwr yn llawer cynt yn arbennig o broblemus i ferched sydd yn dioddef camdriniaeth ddomestig. Fel yr amlygwyd ym mhennod 4, mewn achosion cyfraith gyhoeddus neu achosion amddiffyn plant, gall y fam gael ei beirniadu am aros gyda phartner camdriniol oherwydd gellid ystyried bod hynny yn dystiolaeth o fethiant i amddiffyn y plant. Dywedodd mamau wrth y panel eu bod wedi aros gyda'r camdriniwr oherwydd eu bod yn ofni y byddai'r gamdriniaeth yn gwaethygu petaent yn ceisio gadael. Mae ymchwil yn dangos bod hwn yn ofn gwirioneddol; mae camdriniaeth yn aml yn gwaethygu ar adeg gwahanu. Hefyd, nododd rhai cyflwyniadau gan famau eu bod yn teimlo eu bod yn gallu amddiffyn eu plant rhag camdriniaeth i ryw raddau tra eu bod yn dal gyda'u camdriniwr, a'u bod yn ofni na fyddent yn gallu gwneud hynny petai cyswllt yn cael ei orchymyn wedi iddynt adael y cartref. Roedd cyflwyniadau gweithwyr proffesiynol sydd yn cefnogi merched gaiff eu cam-drin yn pwysleisio na ddylai aros gyda chamdriniwr gael ei ystyried fel tystiolaeth na ddigwyddodd y gamdriniaeth, ond mewn gwirionedd roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn tybio bod hynny yn wir. Eto, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r panel yn awgrymu bod angen gwell dealltwriaeth o ddeinameg camdriniaeth ddomestig a'r penderfyniadau a wneir gan ddiodefwyr er mwyn ceisio amddiffyn eu plant.

5.2.3 Ymddangos yn 'rhy' neu 'ddim digon' emosiynol

Rhwyrstr arall mewn perthynas â hygrededd a nodwyd yn y cyflwyniadau i'r alwad am dystiolaeth oedd sut yr oedd yn diodefwyr yn cyflwyno eu hunain i'r llys. Nododd cyflwyniadau gan unigolion a rhai gweithwyr proffesiynol ei bod yn ymddangos bod asesiadau yn cael eu gwneud ar sail ymddangosiad y diodefwyr o ran bod yn 'rhy emosiynol' neu 'ddim digon emosiynol' wrth roi tystiolaeth. Yn ôl y cyflwyniadau yma, tybiwyd bod gan rai diodefwyr ddiffyg hygrededd oherwydd eu bod yn ymddangos eu bod yn ddi-emosiwn neu'n gallu rheoli eu hemosiynau, tra bod eraill yn cael eu barnu fel rhai llai dibynadwy oherwydd eu hymddygiad 'afreolus'. Yn gyffredinol, nododd gweithwyr proffesiynol sydd yn cynnig cymorth arbenigol i ferched sydd yn dioddef camdriniaeth ddomestig bod yna ddiffyg dealltwriaeth o effeithiau trawma a bod hynny yn effeithio ar asesiad o hygrededd diodefwyr. Cynhaliodd Refuge, darparwr gwasanaeth camdriniaeth ddomestig mawr, arolwg o staff a goroeswyr ym mis Awst 2019 a hysbysodd eu hymateb i'r panel. Roedd eu cyflwyniad yn amlygu nifer o faterion mewn perthynas â sut y gallai ymddangosiad diodefwyr effeithio ar asesiadau o hygrededd:

'Roedd rhai aelodau staff yn cyfeirio at achosion pan roedd barnwyr yn cwestiynu geirwiredd datganiadau pan nad oedd groeswyr yn cyfateb i stereoteipiau o oroeswyr trais domestig 'nodweddiadol'. Er enghraifft, dywedodd un barnwr nad oedd y dioddefwyr yn 'edrych fel dioddefwr' oherwydd ei bod yn gwisgo colur yn y llys...Yn eu profiad nhw, dywedodd staff, pan oedd goroeswyr yn cael anhawster cyfathrebu eu camdriniaeth, gan dorri i lawr neu wylo ar brydiau, bod y llys yn ystyried bod hynny yn negyddol. Roedd rhai aelodau staff yn tybio bod agweddau rhai barnwyr tuag at oroeswyr megis 'mae hon yn ddynes emosiynol anwadal' yn hytrach na 'mae hon yn ddynes sydd wedi cael ei cham-drin ac sydd wedi dioddef trawma', yn diystyru naill ai'r honiadau neu eu perthnasedd'. **Refuge**

Mae'r datganiad yma yn cyfateb i raddau i'r llenyddiaeth ar 'fythau' treisio yn y system cyfiawnder troseddol. Os tybir bod merched yn or-emosiynol gall hynny gael ei farnu yn negyddol fel 'gorwneud er mwyn creu effaith', neu i'r gwrthwyneb, os nad ydynt yn dangos llawer o emosiwn neu ddim o gwbl, gall hynny hefyd gael ei ddehongli fel rhywbeth sydd yn tanseilio eu hygrededd.⁷³ Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r panel yn awgrymu y gall fod yna waith defnyddiol ellid ei wneud er mwyn dileu 'mythau' am gam-drin domestig a hyrwyddo dealltwriaeth y gall emosiynau amlwg iawn neu guddiedig iawn fod yn symptomau o drawma.

Mae agwedd arall o hygrededd a amlygwyd yn y cyflwyniadau yn gysylltiedig ag ymddangosiad y dioddefwr, pan gymharir hynny ag ymddangosiad ac ymddygiad y camdriniwr honedig. Mae'r ddeinameg pŵer anghytwys mewn perthynas gamdriniol wedi ei ddogfennu yn helaeth yn y llenyddiaeth. Un thema oedd yn codi'n fynych yng nghyflwyniadau mamau oedd sut yr oedd camdrinwyr yn gallu cyfleu delwedd o barchusrwydd, a bod hynny yn rhoi hygrededd iddynt a oedd wedyn yn eu helpu i ddarbwylllo gweithwyr proffesiynol nad oedd camdriniaeth yn digwydd neu bod hynny wedi cael ei orliwio. Darparodd dioddefwyr enghreifftiau lu o'u canfyddiadau bod pob math o weithwyr proffesiynol, gofal cymdeithasol plant, Cafcass/Cymru a barnwyr, wedi cael eu 'seboni' gan y camdriniwr ac wedi defnyddio eu statws i argyhoeddi gweithwyr proffesiynol nad oeddent yn gamdrinwyr. Er enghraifft, dywedodd un fam wrth y panel bod ei chyn-bartner yn gweithio i'r heddlu, a'i fod felly yn ei barn hi yn 'cyflwyno ei hun yn dda yn y llys' a'i fod hefyd yn gwybod sut oedd y broses yn gweithio, gan ddefnyddio hynny i'w fantais ei hun. Dywedodd mam arall: 'Weithiau mae penderfyniad y barnwr yn seiliedig ar y berthynas rhyngddo a'r camdriniwr yn unig, mae ei ddyfarniad yn seiliedig ar sut maent yn siarad neu'n gwisgo neu yn syml drwy gredu'r persona y mae'r camdriniwr yn ei gyflwyno i'r llys'.

⁷³ L Ellison and V Munro (2009) 'Reacting to rape: Exploring mock jurors' assessments of complainant credibility', *British Journal of Criminology* 49(2): 202-19.

Efallai ei bod yn hawdd gweld sut y gallai llysoedd a gweithwyr proffesiynol eraill ganfod bod camdriniwr yn fwy credadwy pan maent yn ymddangos yn dawel eu tymer ac yn cyflwyno eu hunain yn dda ac yn 'rhesymol'. Dywedodd rhai o'r cyflwyniadau gan famau sut yr oeddent yn teimlo eu bod dan anfantais ddifrifol oherwydd eu bod yn ymddangos yn emosiynol ac anhrefnus, a hynny yn gyferbyniol i ymddangosiad dan reolaeth a threfnus eu camdrinwyr. Ond, fel yr amlygwyd gan rai o'r cyflwyniadau proffesiynol i'r panel, efallai bod ymddygiad 'anhrefnus' y fam yn deillio o effeithiau parhaus camdriniaeth a'r ffaith eu bod yn agos i'r camdriniwr, yn arbennig yn absenoldeb mesurau gwarchodol.

Hefyd datgelodd y cyflwyniadau proffesiynol yma y sefyllfa o fethu ennill y gall merched a gam-driniwyd ei hwynebu. Felly, nododd cyflwyniadau gan Gymorth Merched Cymru, mewn achosion pan fo'r fam yn dawel ei thymer, yn glir a huawdl yn y llys, nad oeddent yn dal i gael eu credu gan farnwyr. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru bod hynny, yn eu barn nhw, yn cael ei danategu gan stereoteipiau ynghylch sut y dylai merched ymddwyn pan fônt mewn trallod. Ategwyd yr asesiad yma mewn cyflwyniadau gan famau a gweithwyr proffesiynol eraill, sef bod yna elfen o rywiaeth a rhagfarn o ran dosbarth yn yr asesiad seiliedig ar stereoteip o ddiodefwyr a chamdrinwyr. Tybiwyd bod hynny yn wir mewn achosion pan dybiwyd bod galwedigaethau a statws dosbarth canol rhai tadau yn arwain at roi pwys diangen i'w tystiolaeth.

Er bod camdrinwyr yn aml yn cyflwyno ymarweddiad tawel ac argyhoeddiadol i weithwyr proffesiynol, nid yw hynny yn wir bob amser. Roedd y cyflwyniadau yn cynnwys rhai enghreifftiau o gamdrinwyr yn bod yn eiriol a chorfforol ymosodol yn adeilad y llys a hyd yn oed yn ystafell y llys ei hun. Mewn rhai achosion dywedwyd bod barnwyr a staff y llys wedi 'gwneud esgusion' am ymddygiad o'r fath. Dywedwyd wrth y panel bod ymddygiad camdriniol yn cael ei 'gyfiawnhau' fel canlyniad dealladwy i rwystredigaeth oherwydd diffyg cyswllt ac agwedd elyniaethus ganfyddiadol y fam tua at gyswllt mewn rhai achosion.

5.2.4 Anawsterau iechyd meddwl

Yn eu cyflwyniadau, cyfeiriodd nifer o ddiodefwyr camdriniaeth ddomestig, yn ddynion a merched at effaith negyddol camdriniaeth ddomestig ar eu iechyd meddwl eu hunain a iechyd meddwl eu plant. Cyfeiriwyd at ddiodef anhwylder straen ôl drawma (PTSD) ac iselder. Ond, dywedodd rhai diodefwyr eu bod yn credu bod eu anawsterau iechyd meddwl yn ffactor arwyddocaol o ran pam eu bod yn teimlo nad oedd y llys yn eu credu. Er enghraifft, dywedodd un fam mai un effaith camdriniaeth ar ei iechyd meddwl oedd methu â chyfleu ei phrofiadau mor eglur ag y byddai'n gallu fel arall. Dywedodd mai ofn anghrediniaeth oedd y 'rhwystr mwyaf' rhag riportio camdriniaeth a bod: 'merched yn cael eu hystyried yn ansefydlog oherwydd eu bod yn delio â chanlyniadau gadael perthynas gamdriniol'. Dywedodd mam arall bod y PTSD yr oedd ei phlentyn wedi ei ddiodef o ganlyniad i gamdriniaeth ddomestig wedi cael ei briodoli yn hytrach i 'riantu gwael' ganddi hi. Dywedodd na fyddai'r llys yn ymchwilio i'r honiadau o gamdriniaeth ddomestig, ac yn hytrach roedd yn 'teimlo bod y barnwr yn fy meio i am iechyd meddwl fy merch'. Ategwyd y

sylwadau yma yn rhai o'r cyflwyniadau proffesiynol gan sefydliadau sydd yn cefnogi dioddefwyr.

Mae'n bwysig nodi, er mai dim ond cymharol ychydig o gyflwyniadau a dderbyniodd y panel gan ddynion a ddiodeffodd gamdriniaeth ddomestig, roedd afiechyd meddwl yn faes ble yr oeddent hwy hefyd yn gweld bod stereoteipiau yn rhwystr i hygredd a chael eu credu.

5.2.5 Dioddefwyr gwrywaidd

Cyfeiriodd sefydliadau sydd yn cefnogi dynion sydd yn dioddef camdriniaeth ddomestig at y rhwystrau ychwanegol sydd yn gysylltiedig â normau diwylliannol a stereoteipiau na allai dynion fod yn dioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Arsylwodd Mankind, sefydliad sydd yn cynrychioli dioddefwyr gwrywaidd, bod yr anawsterau i ddiodeffwyr gwrywaidd sydd yn gwneud honiadau yn: 'cael eu gwaethygu gan normau cymdeithasol a stereoteipiau cysylltiedig â rhywedd ynghylch bodolaeth dioddefwyr gwrywaidd... Mae hynny yn golygu bod dynion yn pryderu na fyddant yn cael eu credu, bod unrhyw honiad a wneir ganddynt yn cael eu hystyried fel rhai maleisus gan y Llys Teulu/Ynadon, neu pan fyddant yn dweud eu bod yn dioddef camdriniaeth ddomestig, mae'n rhaid iddynt fodloni trothwy 'tystiolaeth/credadwy' uwch na dioddefwyr benywaidd'. Nododd sefydliad arall sydd yn cefnogi dioddefwyr gwrywaidd, Families Need Fathers: Both Parents Matter: 'Mae'r anghysondeb rhwng y cymorth i ddynion a merched er mwyn eu cynorthwyo i gydnabod y gamdriniaeth maent yn ei ddiodeff a'u cynorthwyo i wneud honiadau o gamdriniaeth yn rhwystr arall rhag i ddynion gael eu clywed a'u credu'.

5.3 Ffocws ar ddigwyddiadau camdriniaeth corfforol diweddar.

Yn gysylltiedig â diffyg dealltwriaeth o gam-drin domestig, yn arbennig rheolaeth drwy orfodi, mae'r ffocws ar ddigwyddiadau o drais corfforol unigol diweddar. Nododd nifer o gyflwyniadau'r mamau a gam-driniwyd a rhai o'r tadau a gam-driniwyd yr anhawster a gafwyd wrth ddatgan camdriniaeth nad oedd yn gorfforol. Efallai ei bod wedi cymryd amser maith i'r dioddefwyr eu hunain gydnabod a siarad am y gamdriniaeth anghorfforol yr oeddent wedi ei ddiodeff fel y gamdriniaeth fwyaf perthnasol, ac y dywedwyd wrthynt wedyn, pan roeddent yn ceisio datgan hynny, i ganolbwyntio ar y digwyddiadau trais corfforol gwaethaf a mwyaf diweddar. Dywedodd un fam: 'mae'r holl weithwyr proffesiynol yn chwilio am gamdriniaeth gorfforol cyn maent yn ystyried gwneud dim. Mae'r effaith emosiynol a seicolegol yn cael ei anwybyddu yn llwyr'. Cafodd y datganiad yma ei ategu yn rheolaidd yng nghyflwyniadau'r mamau. Dywedodd un fam: 'Nid oedd gan y barnwyr yr wyf wedi dod ar eu traws (5 ohonynt) fawr o ddealltwriaeth o gamdriniaeth ddomestig ac mae yna dal ffocws ar niwed corfforol (a ydych yn ofni y bydd yn neidio arnoch ac yn ymosod arnoch) yn hytrach na'r effaith seicolegol ac ymddygiad parhaus o reoli.' Mae'r crynodeb o'r cyflwyniad yn manylu mwy ar y broblem hon:

Crynodeb o Gyflwyniad

Cyfaddefodd y cyflawnydd i gamdriniaeth ddomestig a dogfennwyd y rhain mewn adroddiad Cafcass. Ond pan wrandawodd yr ynadon ar yr achos, dywedodd y fam nad oedd gan y llys ddiddordeb yn y gamdriniaeth gan geisio 'diystyru'r gamdriniaeth oherwydd nad oedd gennyf esgyrn wedi eu torri nac anafiadau corfforol i ddangos iddynt.' Yn ei barn hi roedd y llys yn 'frawychus a pheryglus o ddiystyriol o bryderon difrifol am gamdriniaeth ddomestig.' Dywedodd, ar un pwynt yn ystod y gwrandawriad ei bod wedi arsylwi ei bod yn ymddangos bod un o'r ynadon yn ochri gyda'r cyflawnydd drwy 'gilwenu' arno. Yn gyffredinol, nododd bod yr ynadon wedi: 'dilysu a normaleiddio ymddygiad camdriniol fy nghyn wŷr...[gan ddiystyru]....anghysonderau amlwg yn ei dystiolaeth'. O ganlyniad, roedd yn teimlo bod y llys 'i bob pwrpas wedi gwneud i'r camdriniwr deimlo ei fod yn cael ei gefnogi gan y llys ac yn cael ei warchod rhag mwy o ganlyniadau'.

Ystyriwyd bod tystiolaethu am gamdriniaeth anghorfforol yn broblemus yn rhai o'r cyflwyniadau problemus:

'Gall fod yn bwysig dangos patrwm o ymddygiadau, yn arbennig os na fu fawr neu ddim trais corfforol'...[ond]...'amlygodd ein haelodau pa mor heriol y gall darparu tystiolaeth gydnerth fod mewn achosion o gamdriniaeth ddomestig, oherwydd, yn unol â'r diffiniad, mae digwyddiadau yn debygol o ddigwydd pan nad oes tystion yn bresennol ac eithrio plant.' **Cymdeithas yr Ynadon**

Mae'n ymddangos bod y ffocws ar gamdriniaeth gorfforol yn rhannol yn ganlyniad i system sydd yn cael anhawster tystiolaethu am gamdriniaeth seicolegol ac yn rhannol yn ganlyniad i broses wrthwynebol. Gall tystiolaethu am gamdriniaeth fod yn arbennig o anodd pan ddigwyddodd camdriniaeth ariannol:

Crynodeb o Gyflwyniad

Dywedodd un fam wrth y panel bod ganddi dystiolaeth o gamdriniaeth emosiynol ac ariannol ond bod hynny wedi cael ei anwybyddu gan y barnwyr. Dywedodd ei bod yn cytuno gyda'r penderfyniad i beidio â chynnal Gwrandawriad Canfod Ffeithiau oherwydd nad oedd yna gamdriniaeth gorfforol ond roedd eisiau helpu y llys i stopio'r gamdriniaeth seicolegol. Ond, ond fel ymglyfreithiwr drosti ei hun yn erbyn ei chyn-bartner oedd â chynrychiolaeth gyfreithiol roedd yn teimlo 'nad oedd yn cael ei chlywed ac yn cael ei hanwybyddu'. Aeth ei hachos gerbron tri gwahanol farnwr a phob amser roedd yn teimlo ei bod yn ymddangos bod y barnwyr yn 'anwybodus ynghylch camdriniaeth seicolegol'. Dywedodd bod un barnwr yn 'anghwrtais' ac un arall yn 'ddifriol'.

Roedd yr anghysondeb o ran adnoddau rhwng y dioddefwr a'i chyn-bartner yn y crynodeb o gyflwyniad uchod, oedd yn eironig yn dilyn y gamdriniaeth ariannol yn y berthynas, yn ei gadael mewn sefyllfa wannach mewn perthynas â chynnal yr achos teulu oherwydd na allai fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol tra ei fod ef yn gallu gwneud hynny. Cafodd yr anghysondeb yma o ran adnoddau ei adlewyrchu yng nghyflwyniadau rhai o'r tadau oedd yn ddiodefwyr camdriniaeth a ddywedodd nad oeddent yn gallu fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol wrth wynebu eu cyn-bartner oedd â chynrychiolaeth. Yn yr achosion hyn, efallai y byddai cynrychiolaeth gyfreithiol wedi darparu 'cydraddoldeb arfau' ffurfiol, er ni ellir bod yn sicr y byddai hynny wedi galluogi i'r gamdriniaeth seicolegol ac ariannol gael ei glywed. Roedd y cyflwyniadau i'r panel yn awgrymu bod llawer hefyd yn dibynnu ar ansawdd y cyngor cyfreithiol a'r gynrychiolaeth a'r mathau o dystiolaeth y bydd y llysoedd yn gwrando arnynt.

Thema gyffredin oedd yn ymddangos yng nghyflwyniadau'r mamau oedd bod yr holl asiantaethau, yn arbennig Cafcass/Cymru a'r llysoedd, ond â diddordeb mewn digwyddiadau o gam-drin domestig oedd wedi digwydd yn ystod yr wythnosau neu fisoedd diweddar. Roedd honiadau 'hanesyddol' yn cael eu trin yn llai perthnasol ac roedd diodefwyr ar brydiau yn cael eu hannog i beidio neu eu hatal rhag siarad am effaith gronol camdriniaeth oedd yn mynd yn ôl nifer o flynyddoedd.

Crynodeb o Gyflwyniad

Dywedodd un fam wrth y panel 'Cefais yr un barnwr ddwy waith, a gododd fraw ofnadwy arnaf. Nid oedd ganddo ddiddordeb darllen ein hanes na ein hachos. Yn hytrach chwifiai ein papurau atom yn y llys gan ddweud nad oedd wedi eu darllen a fy mod i yn anghywir'. Gorchynnodd y barnwr gyswllt gyda'r tad ond yna dywedodd y tad nad oedd yn gallu gwneud hynny oherwydd ei ymrwymadau eraill. Roedd y fam yma yn credu petai'r barnwr wedi darllen yr hanes y byddai wedi gallu gweld y tu hwnt i'r 'rhith' a gweld nad oedd gan ei chamdriniwr wir diddordeb mewn sicrhau cyswllt, dim ond mewn defnyddio'r broses fel ffordd o barhau i gam-drin a rheoli. Yn ei barn hi nid oedd gan y barnwr 'DDIM SYNIAD am gamdriniaeth drwy orfodaeth, camdriniaeth ariannol ac emosiynol o gwbl'.

Mae'r ffocws ar ddigwyddiadau 'diweddar' yn gysylltiedig â'r pryder am ddiffyg dealltwriaeth o gamdriniaeth ddomestig; cydnabod patrwm o ymddygiad dros gyfnod hir, nid canolbwyntio ar ddigwyddiadau unigol sydd yn digwydd yn agos i'r achos llys. Mae diystyru honiadau sydd yn mynd yn ôl fwy nag ychydig fisoedd fel 'hanes yn unig' yn golygu camddeall natur y broblem yn ddifrifol, yn arbennig y ffordd y gall rheolaeth drwy orfodaeth ddwysau a thanseilio personoliaeth ac annibyniaeth y ddiodefwr yn systematig dros nifer o fisoedd neu flynyddoedd. Fel y dywedodd un fam:

"Dywedodd fy nghyfreithiwr y byddai'r barnwr yn meddwl bod 'camdriniaeth ddomestig yn hanesyddol ar ôl i'r tad adael y cartref'. Nid yw camdriniaeth ddomestig fyth yn hanesyddol- mae'n parau a pharhau am flynyddoedd ar ôl i'r cyflwynydd adael y cartref."

Mam

A mewn gwirionedd, hyd yn oed os bydd camdriniaeth ddomestig yn dod i ben, mae'n debygol y bydd ei effeithiau seicolegol yn cael ei deimlo am hyd yn oed fwy o amser.

5.4 Mathau o dystiolaeth sydd ei angen a materion eraill ynghylch prosesau

Mae'r ymchwili yn dangos mai dim ond lleiafrif o ddiodefwr camdriniaeth ddomestig (llai na 20%) sydd yn dweud wrth yr heddlu am y gamdriniaeth.⁷⁴ Mae yna nifer o resymau am hyn, ond roedd y cyflwyniadau yn dangos yn glir ei bod yn broblemus i weithwyr proffesiynol dybio bod peidio â riportio i'r heddlu yn golygu na ddigwyddodd y gamdriniaeth mewn gwirionedd. Nododd cyflwyniadau gan famau i'r panel eu bod wedi cael eu cwestiynu ynghylch pam nad oeddent wedi riportio'r honiadau i'r heddlu, a dywedwyd

⁷⁴ Swyddfa Ystadegau Gwladol, Camdriniaeth Ddomestig yng Nghymru a Lloegr (2018).

wrthynt, neu roeddynt wedi cael argraff bendant, nad oeddent yn cael eu credu oherwydd nad oeddent wedi ffonio'r heddlu.

Dim ond cyfran fechan o ddiodefwr camdriniaeth ddomestig sydd yn ceisio help gan weithwyr iechyd proffesiynol, hyd yn oed pan fyddant yn dioddef anafiadau corfforol.⁷⁵ Mae'r rhan fwyaf o ddiodefwr yn riportio effeithiau anghorfforol camdriniaeth i weithwyr iechyd proffesiynol, a'r rhai hynny yn 'broblemau meddyliol neu emosiynol' yn amlach na pheidio. Ond, dim ond tua un rhan o dair o'r rhai sydd yn dioddef anafiadau corfforol neu rai effeithiau eraill sydd yn derbyn sylw meddygol, yn bennaf gan feddyg teulu, ond mewn rhai achosion gan wasanaethau iechyd meddwl neu seiciatrig arbenigol, neu adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn achlysurol.⁷⁶ Mae'r ymchwil yma yn awgrymu na ddylai diffyg tystiolaeth ategol gan feddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall fod yn rhwystr rhag credu rhywun. Ond, fel yn achos diffyg tystiolaeth ategol gan yr heddlu, roedd diodefwr yn cael yr argraff nad oeddent yn cael eu credu yn absenoldeb tystiolaeth gadarnhaol gan drydydd partion 'annibynnol'. Mae hynny yn broblemus, yn arbennig oherwydd pan fo meddygon teulu yn gallu rhoi tystiolaeth, bydd hynny fel arfer ond yn gysylltiedig â'r anafiadau maent wedi eu trin neu eu gweld, ni allant roi tystiolaeth ynghylch sut yr achoswyd yr anafiadau neu'r effeithiau hynny. Dywedodd un o'r diodefwr gwrywaidd mewn grŵp ffocws:

'Roedd y broses llys yn teimlo fel lle ble gall unrhyw un ddweud beth bynnag maent eisiau ei ddweud, ac roeddwn yn teimlo fy mod yn ceisio gwrthbrofi honiadau yn fy erbyn i yn hytrach na phrofi fy achos...nid oedd yna unrhyw ymchwiliad, roeddwn yn ymdrechu'n galed i gael tystiolaeth, cefais lythyr gan ddeintydd ond nid oeddent eisiau bod yn gysylltiedig mewn gwirionedd a'r cwbl yr oeddent yn gallu ei ddweud oedd fy mod wedi colli daint ond nid sut y digwyddodd hynny.' **Dioddefwr Gwrywaidd, Grŵp Ffocws**

Adroddodd mamau yn un o'r grwpiau ffocws eu bod wedi ceisio cyflwyno tystiolaeth ar wahân i adroddiadau'r heddlu i sylw'r llys, ond bod y dystiolaeth honno, megis gan weithwyr cymorth, wedi cael ei diystyru fel tystiolaeth amherthnasol. Ond, hyd yn oed mewn achosion pan roedd yna dystiolaeth gan yr heddlu, nid oedd hynny bob amser yn cael ei hystyried yn berthnasol. Dywedodd nifer o famau wrth y panel eu bod wedi riportio digwyddiadau i'r heddlu, ond pan roeddent wedi ceisio cyflwyno hynny fel tystiolaeth yn y llysoedd teulu, cafodd hynny ei ddiystyru:

⁷⁵ Swyddfa Ystadegau Gwladol, Camdriniaeth Ddomestig yng Nghymru a Lloegr (2018).

⁷⁶ Swyddfa Ystadegau Gwladol, Camdriniaeth Ddomestig yng Nghymru a Lloegr (2018).

Crynodeb o Gyflwyniad

Roedd y tad nad oedd yn preswyllo yn destun ymchwiliad am dreisio a throeddau rhywiol eraill, ac roedd yr heddlu wedi trefnu mesurau gwarchodol, yn cynnwys larymau. Ond, dywedodd y fam bod y llys wedi 'diystyru hynny heb asesu'r dystiolaeth o gwbl'. Roedd y fam yma wedi bod i'r llys ar dri achlysur, a'r tro olaf gwnaeth ei chynbartner honiadau ffug mai ei phartner newydd oedd wedi bod yn dreisgar tuag ati (yr oedd ei chynbartner yn honni yr oedd wedi ei riportio i'r heddlu). Nid oedd hynny yn wir; dywedodd y fam nad oedd wedi cael ei cham-drin gan ei phartner newydd ac nad oedd wedi gwneud cwynion o'r fath (a gallai'r heddlu fod wedi gwirio hynny). Dywedodd y fam wrth y panel, er nad oedd y gwrth-honiadau a wnaethpwyd gan ei chyn-bartner wedi cael eu cadarnhau, nad oedd y llysoedd yn rhoi ystyriaeth i hynny. Dywedodd ei bod wedi cael ei gorfodi i wneud trosglwyddiadau ar gyfer cyswllt, pryd yr oedd yr heddlu, ar yr un adeg, wedi trefnu mesurau er mwyn ceisio ei diogelu rhag dioddef mwy o gamdriniaeth.

Mae'r crynodeb o gyflwyniad yma yn dangos peryglon gweithio mewn seilo. Mae hefyd yn enghraifft o sefyllfa o 'ddim ennill' i ddiodefwyr camdriniaeth. Ar y naill law, dywedyd wrth y panel bod yna werth uchel i dystiolaeth gan yr heddlu yn y llysoedd teulu, sydd yn golygu y bydd absenoldeb tystiolaeth gan yr heddlu yn cael ei ddehongli yn negyddol. Ond ar y llaw arall, dywedwyd wrth y panel nad yw tystiolaeth gan yr heddlu bob amser yn cael ei rhannu neu ddim yn cael ei hystyried pan fo ar gael. Dywedodd tad un fam a gam-driniwyd am y blynyddoedd niferus a'r gost sylweddol yr oedd y teulu wedi ei ysgwyddo wrth ymdrech i gyflwyno camdriniaeth ddomestig i'r llysoedd teulu. Roedd cyflawnydd y gamdriniaeth yn yr achos yma yn gweithio i'r heddlu, sydd, fel mae ymchwil yn ei ddangos, yn gallu bod yn rhwystr arall rhag i ddiodefwyr gael help a chael eu credu.⁷⁷ Dywedodd y tad yma wrth y panel am ei rwystredigaeth: 'Ar hyn o bryd nid oes yna system wedi ei sefydlu er mwyn rhannu gwybodaeth o'r llysoedd teulu i'r llysoedd troseddol a vice versa'.

Mae'r diffyg cyfnewid gwybodaeth yma rhwng y systemau yn fater sydd wedi cael ei ystyried yn broblem ers peth amser. Mae wedi bod yn un o'r ffactorau sydd, yn y gorffennol, wedi bod yn sail i ymdrechion i gyflwyno llys trais domestig integredig, ond er hynny mae wedi bod yn rhwystr rhag i integreiddio lwyddo.⁷⁸

Mae gan weithwyr proffesiynol mewn gwahanol systemau safbwyntiau gwahanol ynghylch y rhwystrau rhag rhannu gwybodaeth. Mewn cyflwyniadau barnwrol i'r panel, nodwyd bod yr amser y mae'n ei gymryd i gaffael datgeliad gan yr heddlu yn gallu ychwanegu oediad ac nid oes gan y llysoedd adnoddau i adolygu ffeiliau yn rheolaidd a mynd ar ôl datgeliadau hwyr rhwng gwrandawiadau. Efallai bod hwn yn broblem adnoddau i'r

⁷⁷ HMIC, *Everyone's Business: Improving the Police Response to Domestic Abuse* (2014).

⁷⁸ M Hester, J Pearce and N Westmarland, *Early Evaluation of the Integrated Domestic Violence Court, Croydon* (2008).

systemau cyfiawnder troseddol a theulu, yn ogystal â phroblem mewn perthynas â themâu diwylliant o blaid cyswllt a gweithio mewn seilo.

Nodwyd nifer o rwystrau 'proses' eraill rhag datgan camdriniaeth ddomestig yn y cyflwyniadau i'r alwad am dystiolaeth. Roedd cyflwyniadau mamau yn amlygu'r anawsterau yr oeddent wedi eu cael o ran anfon a chwblhau y ffurflen C1A, er mwyn darparu gwybodaeth ategol wrth wneud neu ymateb i gais am orchmynion trefniadau plant. Yn absenoldeb cymorth priodol, nid oedd rhai mamau hyd yn oed yn ymwybodol o'r ffurflen oedd angen ei llenwi.⁷⁹ Hyd yn oed pan oeddent yn ymwybodol, roedd dystiolaeth rhai merched yn y grŵp ffocws yn dangos eu bod yn betrusgar ynghylch llenwi'r ffurflen oherwydd eu bod yn poeni y gallai hynny wneud pethau yn waeth. Roedd cyflwyniadau gan famau a rhai gweithwyr proffesiynol oedd yn eu cefnogi yn nodi nad yw dyluniad y ffurflen yn addas ar gyfer cyflwyno naratif o'r gamdriniaeth. Mae'r ffurflen yn cynnwys pum blwch sydd yn gofyn am ddisgrifiad byr o beth ddigwyddodd, gan ddatgan (tua) pryd y dechreuodd yr ymddygiad ac am ba hyd y parhaodd, ac mae lle ar y ffurflen yn gyfyngedig. Mae p'un a bod hynny yn cofnodi'n deg y profiadau mae dioddefwyr camdriniaeth wedi byw drwyddynt wedi cael ei godi fel mater yn y cyflwyniadau. Mae hynny yn gorgyffwrdd â phryderon y cyfeiriwyd atynt ynghylch Amserlenni Scott, yr ymdriniwyd â nhw ym mhennod 7: mae lleihau hanes hir a chymhleth o gamdriniaeth i ddisgrifiadau taclus yn heriol ac ynddo ei hun gall arwain at leihau'r gamdriniaeth.

Mater arall a godwyd yn gyson mewn cyflwyniadau oedd yr amser byr a roddwyd i gaffael cofnod o'r gamdriniaeth yn y cyfweiliad diogelu Cafcass/Cymru. Roedd cyflwyniadau mamau yn nodi eu bod ond wedi cael hanner awr i siarad â dieithryn llwyr ac y disgwyliid iddynt roi cofnod o gamdriniaeth heb unrhyw gymorth ar gael yn ystod y broses. Ar brydiau roedd cyfweiliadau yn cael eu cynnal dros y ffôn yn hytrach na wyneb yn wyneb, ac roedd dioddefwyr camdriniaeth yn teimlo nad oedd y dull hwnnw yn eu hysgogi i roi cofnod llawn o'u profiadau a phrofiadau eu plant. Yn un o'r grwpiau ffocws, adroddodd mamau am yr anawsterau yr oeddent yn eu wynebu pan ofynnwyd iddynt 'feddwl am enghreifftiau yn y fan a'r lle' a datgelu eu pryderon a'u teimladau heb berson cyfarwydd y gellid ymddiried ynddo i'w cefnogi. Roeddent yn dweud bod y dull yn ansensitif, annigonol ac anfoesol. Ategwyd y safbwynt hwnnw gan rai o'r gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio yn y system cyfiawnder teulu. Er enghraifft, dywedodd un o'r barnwyr yn y cyfarfod bord gron barnwrol nad yw ymgyfreithwyr o reidrwydd eisiau dweud wrth Cafcass am y gamdriniaeth dros y ffôn oherwydd ei bod yn ofynnol iddynt siarad yn aml am brofiadau difrifol a thrallodus. O ganlyniad i hynny, daw hynny allan yn y llys yn hytrach nag yn y gwaith papur.

Mae cyfyngiadau'r cyfweiliad diogelu Cafcass yn awgrymu bod yna broblemau sylweddol o ran adnoddau yn y cyfarfod bord gron yn Lloegr, dywedodd cyfranogwyr bod gan Cafcass adnoddau cyfyngedig a'u bod o dan bwysau i flaenoriaethu achosion cyfraith gyhoeddus.

⁷⁹ Mae'r panel yn nodi bod y ffurflen C1A erbyn hyn wedi cael ei hintegreiddio i'r gwasanaeth C100 ar-lein.

O ganlyniad i hynny dywedodd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol bod Cafcass 'yn aml yn ddiamynedd neu'n rhy barod' i ddweud nad yw camdriniaeth ddomestig yn berthnasol i gyswllt heb roi rhesymau neu gynnal asesiad priodol. Derbyniodd Cafcass Cymru adborth ychydig mwy ffafriol ar ei berfformiad yn gyffredinol gan ymarferwyr, ond nid yw hynny yn dweud nad oes ganddynt unrhyw broblemau adnoddau. Hefyd denodd natur annigonol y cyfweiliad diogelu feirniadaeth gan grwpiau ffocws goroeswyr Cymru.

5.5 Atgyfnerthu camdriniaeth fel perthynas o wrthdaro mawr

Dylid gwahaniaethu perthnasoedd 'gwrthdaro mawr' yn bendant oddi wrth berthnasoedd sydd yn cynnwys camdriniaeth ddomestig gan y naill barti tuag at y llall. Mewn nifer o achosion bydd effeithiau rheolaeth drwy orfodaeth yn golygu na fydd dioddefwr camdriniaeth wedi herio unrhyw beth y mae'r camdriniwr wedi ei wneud ers blynnyddoedd. Gall gymryd nifer o flynyddoedd i'r dioddefwr siarad am y gamdriniaeth ac, fel y nodwyd uchod, gall gweithwyr proffesiynol ystyried bod yr oedi o ran gwneud hynny yn arwydd o ddiffyg hygrededd. Os a phan fydd y dioddefwr yn ymdrechu i dorri'n rhydd o reolaeth camdriniwr, nid yw eu hymwrthodiad yn seiliedig ar gydraddoldeb yn y berthynas. Ond, er gwaetha'r gwahaniaeth clir rhwng perthnasoedd 'gwrthdaro mawr' a chamdriniaeth ddomestig, dywedodd dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol wrth y panel eu bod wedi cael profiad o gamdriniaeth ddomestig yn cael ei ail fframio i dystiolaeth o 'wrthdaro mawr' neu berthynas gamdriniol o'r ddwy ochr, ac ystyriwyd mai'r ateb i hynny oedd lleihau'r gwrthdaro o'r ddwy ochr ac annog cydweithredu yn hytrach na diogelu'r plentyn a'r oedolyn oedd yn ddiodeffwr rhag camdriniaeth y rhiant arall. Fel yr oedd rhai o'r dioddefwyr yn ofni, ac fe'u cynghorwyd yn gyfreithiol ynglŷn â hynny, ystyriwyd bod codi unrhyw bryderon am gyswllt gyda phartner camdriniol yn dystiolaeth o wrthwynebiad i riantu ar y cyd.

Dywedodd un fam: 'Fi yw'r un sydd yn wynebu honiadau ffug o elyniaethu fel rhiant a chyflyru... nid yw'r gweithwyr proffesiynol yn gwybod sut mae adnabod gwir ddiodeffwr ac maent yn cael eu rheoli yn hawdd gan y cyflawnydd'.

Dywedodd un arall: Yn aml dywedir wrth ferched os byddant yn crybwyll camdriniaeth y byddant yn colli gofal y plant i'w camdriniwr'.

Derbyniodd y panel dystiolaeth gan ddiodeffwyr a gweithwyr proffesiynol nad yw camdriniaeth yn cael ei ystyried yn aml fel rhywbeth sydd yn berthnasol i p'un a yw'r partner camdriniol yn rhiant 'digon da', ac o ganlyniad i hynny, gall cymhellion diodeffwyr sydd yn cyfeirio at gamdriniaeth gael eu hamau. Dywedodd gweithwyr proffesiynol a diodeffwyr wrth y panel y tybiwyd bod diodeffwyr yn cael eu hysgogi gan ddyhead i droi y plentyn yn erbyn y rhiant arall, yn hytrach na cheisio amddiffyn y plentyn rhag canlyniadau camdriniaeth.

Os nad yw'r plentyn eisiau cyswllt gyda'r camdriniwr, gall y cyflawnydd a'r gweithwyr proffesiynol dybio bod hynny yn deillio o elyniaeth rhwng y rhieni yn hytrach nag o ganlyniad i gamdriniaeth. Fel y byddir yn gweld ym mhennod 6, un o ganlyniadau methu â gwrando'n effeithiol ar y plentyn yw nad yw'r rhesymau pam nad yw'r plentyn eisiau cyswllt gyda'r camdriniwr yn cael eu deall yn iawn neu ddim yn cael eu hystyried. Gall gwrando'n fwy gofalus ar y plentyn arwain at well dealltwriaeth o p'un a oes yna unrhyw wirionedd neu beidio yn yr honiadau o elyniaethu.

5.6 Ofni gwrth-honiadau a chanlyniadau negyddol eraill

Dangosodd y cyflwyniadau gan ddiodefwyr camdriniaeth ddomestig nad oedd rhai wedi datgelu camdriniaeth oherwydd pryderon ynghylch canlyniadau negyddol, yn seiliedig ar brofiadau blaenorol, yn cynnwys pryderon y byddai'r camdriniwr yn datgan honiadau ffug yn eu herbyn, yn cynnwys honiadau ffug o gamdriniaeth, gelyniaethu rhwng rhieni, ansefydlogrwydd neu riantu annigonol.

Dywedodd rhai mamau wrth y panel pa mor bell yr oedd eu camdrinwyr yn mynd yn eu hymdrechion i'w tanseilio a chreu tystiolaeth ffug yn eu herbyn.

Crynodeb o Gyflwyniad

Dywedodd un fam, ar ôl iddi gael gorchymyn peidio ag ymyrryd a gorchymyn meddiannaeth yn erbyn ei chyn-bartner, aeth ef â'i phlentyn i'r ysbyty yn ystod ymweliad cyswllt gyda haint ffug gan honni wrth y gweithwyr proffesiynol ei bod hi yn cam-drin y plentyn yn emosiynol, ac arweiniodd hynny at adroddiad meddygol ac atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd y fam yma bod ei gŵr yn weithiwr proffesiynol oedd wedi cael addysg dda a'i fod yn gallu rheoli'r arbenigwyr yn hawdd. Dywedodd ei chyfreithiwr ei hun wrthi am beidio siarad am y gamdriniaeth mewn achosion cyswllt plentyn. 'Dywedodd fy nghyfreithiwr wrtha i bod y system yn cefnogi tadau, a phetawn yn datgan yr holl faterion ynglŷn ag ef y byddwn yn disgyn i'w drap gan ymddangos fy mod yn gelyniaethu ac yn wrthwynebus'. Yn dilyn profiadau cynnar o geisio datgan camdriniaeth, dywedodd y'i cynghorwyd i fod yn dawel, caredig a chydymffurfiol'. Dywedodd ei bod yn cael ei hannog i beidio â gwneud honiadau oherwydd y byddai 'unrhyw beth y byddai'n ei ddatgan yn cael ei ddifrio, rydych yn cael eich darlunio fel rhywun ymosodol a chas yn hytrach na rhywun sydd yn wirioneddol bryderus am ei phlentyn'.

Mae'r crynodeb o gyflwyniad uchod yn un enghraifft o gyflwyniadau i'r panel o ddiodefwyr yn cael eu cynghori gan weithwyr proffesiynol, yn cynnwys eu cyfreithwyr eu hunain, i beidio â chyfeirio at gamdriniaeth ddomestig oherwydd y byddai'r llysoedd yn ystyried hynny yn negyddol ac y gellid defnyddio hynny yn eu herbyn fel tystiolaeth o elyniaethu rhwng rhieni neu wrthwynebiad i gydweithredu.

'Mynegodd bron i bob un goroeswr a ymatebodd i'r arolwg [Refuge] bryderon am honiadau ffug neu wrth-honiadau fel atalrym rhag datgan camdriniaeth ddomestig. Dywedodd un goroeswr bod y cyflawnydd wedi bygwth gwneud cyhuddiad ffug am y goroeswr yn y llys o fod yn alcoholig a chamddefnyddio sylweddau petai yn datgelu camdriniaeth yn y llys. Roedd goroeswyr yn gyffredinol yn ofni y byddai gwrth-honiadau yn gallu arwain at golli cyswllt gyda'u plant. Hefyd bu bron i bob aelod staff fynegi pryderon am wrth-honiadau fel rhesymau pam fod rhai goroeswyr yn gwrthod datgelu camdriniaeth yn y llys'. **Refuge**

Roedd rhai o gyflwyniadau gweithwyr proffesiynol yn ategu profiadau'r mamau yn y cyswllt yma. Roedd nifer o'r sefydliadau sydd yn gweithio ar gefnogi merched sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig yn cadarnhau bod y merched yr oeddent wedi gweithio gyda nhw wedi cael eu hannog i beidio â chyfeirio at eu camdriniaeth oherwydd eu bod yn ofni canlyniadau negyddol.

Gall cynrychiolaeth gyfreithiol dda helpu i ddiodefwyr wneud honiadau o gamdriniaeth a'u helpu i adnabod ymddygiadau camdriniol. Ond mae ymchwil a wnaethpwyd cyn yr alwad yma am dystiolaeth yn awgrymu bod toriadau i gymorth cyfreithiol gan LASPO wedi golygu bod nifer o gwmnïau cyfreithiol yn rhoi'r gorau i ddarparu gwaith cymorth cyfreithiol, sydd yn golygu bod yna gyflenwad cyfyngedig o gyfreithwyr profiadol a gwybodus ar gael i roi'r cymorth cyfreithiol y mae diodefwyr ei angen mewn achosion cyfraith teulu.⁸⁰ Yn un o'r astudiaethau yma, bu i gyfreithwraig oedd yn ymateb i gais am gyngor cyfreithiol gan ddiodefwr camdriniaeth ddomestig mewn achos trefniadau plentyn, ailadrodd ei anghrediniaeth ynghylch methu â chynghori o ran pwy i droi ato oherwydd argaeledd cyfyngedig darpariaeth arbenigol. Cadarnhawyd hynny gan gyflwyniadau i'r panel gan unigolion ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol; mae absenoldeb arian cyhoeddus ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol wedi arwain at fynediad cyfyngedig i gyngor cyfreithiol arbenigol gan gyfreithwyr teulu sydd yn deall camdriniaeth ddomestig.

Nid oedd rhai grwpiau oedd yn cynrychioli cyfreithwyr yn gweld unrhyw broblem gyda lefel y cymorth cyfreithiol oedd ar gael. Er enghraifft, roedd y Gymdeithas Cyfreithwyr Plant yn

⁸⁰ Amnesty International, *Cuts that Hurt: The Impact of Legal Aid Cuts in England and Wales on Access to Justice* (2016), p.22. Canfu arolwg gan Rights of Women bod bron i draean y merched a atebodd arolwg wedi cael anhawster canfod cyfreithiwr cymorth cyfreithiol yn eu hardal, a bod toriadau i gymorth cyfreithiol wedi golygu nad oedd cyfreithwyr arbenigol mwyach ar gael neu ddim yn hygyrch: S Shah, 'The impact of legal aid cuts on access to justice in the UK' in *Contemporary Challenges in Securing Human Rights* (2015), 99–104. Mae'r panel yn nodi bod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), yn dilyn yr ymchwil yma, wedi cynnal tendr cymorth cyfreithiol sifil, sydd wedi arwain at gynydd o 11% yn nifer y swyddfeydd darparu sydd yn cynnig y cyngor yma ar ddechrau'r contract newydd. Mae nifer y bobl sydd yn derbyn cyngor mewn achosion camdriniaeth domestig ac achosion cam-drin plant wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod yr un cyfnod - yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16 rhoddodd LAA 5,935 o dystysgrifau ar gyfer cynrychiolaeth sifil yn yr achosion yma, ac erbyn 2018-19 roedd hynny wedi cynyddu i 10,400. Ond, nid yw'n hysbys a yw lefel y profiad, gwybodaeth ac arbenigedd ymysg darparwyr wedi cael ei adfer.

gyffredinol gadarnhaol ynghylch lefel yr arbenigedd sydd yn cael ei darparu mewn achosion camdriniaeth ddomestig, gan ddweud: 'Mae cyfreithwyr sydd â phrofiad mewn achosion teulu yn gallu gofyn cwestiynau perthnasol i bartïon posibl i'r achos a'u helpu i ddeall y materion fydd y llys yn eu hystyried.' Ond, ni all nifer o ddiodefwyr camdriniaeth fforddio talu am hynny ac nid oes ganddynt fynediad fel arall i gynrychiolaeth gyfreithiol, ac roedd swm y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r panel yn nodi bod angen i nifer o gyfreithwyr gael gwell dealltwriaeth o gamdriniaeth ddomestig ac effeithiau trawma ar y rhiant a'r plentyn.

Derbyniodd y panel nifer o gyflwyniadau gan gyfreithwyr unigol ynghylch eu profiadau mewn achosion ynghylch cyswllt plant. Roedd rhai o'r cyflwyniadau yma yn dangos bod cyfreithwyr wedi cynghori eu cleientiaid i beidio â datgan camdriniaeth ddomestig oherwydd y byddai hynny yn 'cythruddo' y llysoedd neu y gallai fod yn 'rhwystrol'. Mae'r dystiolaeth yma yn awgrymu bod rhai cyfreithwyr yn annog eu cleientiaid i setlo mewn ffyrdd sydd yn lleihau neu'n diystyru camdriniaeth ddomestig. Er enghraifft, dywedodd un cyfreithiwr a anfonodd gyflwyniad i'r panel: 'Yn aml mae diodefwyr yn cael eu perswadio gan eu cyfreithwyr i beidio â chyfeirio at gamdriniaeth, a dywedir wrthynt na fydd y llysoedd yn hoffi hynny ac y byddai hynny yn niweidio eu hachos. Os bydd hynny yn cael ei ddatgan, yn aml bydd y llysoedd yn dweud wrth y diodefwyr bod 'hynny i gyd yn y gorffennol', neu mewn un achos roeddwn wedi bod yn 'rhy ddadleuol', neu nid yw'n berthnasol. Yn aml dywedir wrth famau eu bod yn dweud celwydd pan fyddant yn siarad am eu camdriniaeth a'u bod yn ceisio gelyniaethu eu plant drwy wneud honiadau ffug. Oherwydd bod nifer o famau yn colli eu preswylfa i'r tad camdriniol, mae hynny yn rhwystr mawr rhag iddynt ddatgan camdriniaeth'.

Yn amlwg, mae ofni honiadau ffug o elyniaethu rhwng rhieni yn rhwystr i ddiodefwyr camdriniaeth ddweud wrth y llysoedd am eu profiadau. Roedd rhai o gyflwyniadau'r tadau yn nodi bod honiadau o gamdriniaeth ddomestig yn ffug neu wedi eu gorliwio gan famau oedd yn ceisio gelyniaethu eu plant oddi wrthynt ac ymyrryd ar gyswllt. Roeddent yn teimlo nad oedd y llysoedd yn ddigon cadarn wrth ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth ddomestig y dywedwyd wrthynt oedd yn ffug neu wedi eu gorliwio.

Dywedwyd wrth y panel bod cyflawnwyr ar brydiau yn cael gwneud gwrth-honiadau o elyniaethu rhwng rhieni a bod y rhain yn cael eu hystyried o ddifri, hyd yn oed pan nad oedd yna ddim neu fawr ddim tystiolaeth ategol. Roedd yna ganfyddiad bod yna drothwy is ar gyfer gwneud honiadau o elyniaethu rhwng rhieni na sydd yna ar gyfer datgan camdriniaeth ddomestig neu gam-drin plant yn rhywiol. Fel mater cyfreithiol, mae'r baich profi ar y person sydd yn gwneud yr honiadau ac mae safon y dystiolaeth yr un peth beth bynnag fo natur yr honiadau neu pwy sydd yn eu gwneud, ond mae'r cyflwyniadau yn dangos nad oedd diodefwyr yn canfod bod hynny yn wir yn ymarferol. Yn un o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gan ddiodefwyr benywaidd, rhoddodd cyfranogwyr enghreifftiau o wrth-honiadau o elyniaethu rhwng rhieni a arweiniodd at ddiddymu honiadau o gamdriniaeth ddomestig a phreswylfiad yn cael ei throsglwyddo i'r camdriniwr honedig.

Dywedodd mamau yn y grŵp ffocws yma, a chyflwyniadau mamau yn fwy cyffredinol, eu bod yn teimlo bod gwrth-honiadau yn golygu eu bod yn cael eu trin fel pobl gelwyddog ac y bygythiwyd colli preswyliaeth arnynt.

Cyfeiriodd Cymdeithas Bar Cyfraith Deuluol, yn ystod y cyfarfod bord gron broffesiynol yn Lloegr, at yr heriau a gyflwynwyd gan nifer fechan o achosion pan fo'r llys yn fodlon bod plant wedi cael eu cam-drin yn emosiynol gan riant sydd wedi gwneud honiadau ffug o gamdriniaeth yn erbyn y riant arall. Ond, fel mae'r adolygiad o lenyddiaeth yn ei ddangos, mae'r achosion yma mewn gwirionedd yn fychan o ran nifer o'u cymharu â'r nifer fawr o achosion pan fo mamau yn ofni honiadau ffug o elyniaethu rhwng rhieni. Hefyd cyfeiriodd mamau a rhai gweithwyr proffesiynol at fater tystiolaeth 'arbenigol' mewn perthynas â gelyniaethu rhwng rhieni. Roeddent yn teimlo nad oedd cymwysterau 'arbenigwyr' o'r fath yn cael eu harchwilio neu eu herio bob amser gan y llys, er bod Cymdeithas Cyfreithwyr Plant yn anghytuno'n gryf â hynny. Nododd Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr, eu bod yn creu bod yna anghysondeb dull mewn perthynas â thystiolaeth arbenigwyr, gan fod y llysoedd yn caniatáu tystiolaeth arbenigol ynghylch gelyniaethu rhwng rhieni ond ddim yn caniatáu tystiolaeth arbenigol ynghylch camdriniaeth ddomestig. Dangosodd cyflwyniadau gan rai mamau a sefydliadau cymorth eu bod yn teimlo bod ymagwedd y llysoedd at honiadau o gamdriniaeth ddomestig a gwrth-honiadau o elyniaethu rhwng rhieni yn rhywiaethol a gwahaniaethol.

Cynhaliwyd pedwar grŵp gyda chyflawnwyr gwrywaidd at ddibenion yr alwad yma am dystiolaeth. Ar brydiau roedd cyflawnwyr gwrywaidd oedd yn mynychu'r grwpiau yma yn cydnabod eu bod wedi ymddwyn yn gamdriniol, er ei bod yn ymddangos mai gwerthfawrogiad cyfyng oedd gan rai o effaith y gamdriniaeth ar y fam a'r plentyn. Fel mae'r adolygiad o lenyddiaeth yn ei ddangos, bydd cyflawnwyr yn aml yn lleihau camdriniaeth, yn ei gyfiawnhau iddyn nhw eu hunain drwy feio'r dioddefwr, a beio amharodrwydd y plentyn i gael cyswllt ar ddylanwad y fam yn hytrach na gweld bod hynny yn ganlyniad i'w hymddygiad eu hunain.⁸¹ Ond, clywsom gan ddynion oedd i ryw raddau yn gallu gwerthfawrogi effaith eu camdriniaeth ac a oedd yn gallu, ar ôl cwblhau rhaglen cyflawnwyr, cydnabod yr angen i warchod merched a phlant rhag eu hymddygiadau. Roedd y dynion yma, yr oedd rhai ohonynt yn nodi eu bod wedi goroesi camdriniaeth ddomestig eu hunain, yn gefnogol i waith addysgu cynnar yn ystod y broses llys a'r cwricwlwm cenedlaethol, gan ddweud y gallai hynny fod wedi eu helpu i werthfawrogi a chydabod eu hymddygiad camdriniol yn gynharach yn hytrach na beio'r dioddefwr.

5.7 Honiadau o gam-drin plant yn rhywiol

Dywedodd nifer o famau wrth y panel am yr anawsterau yr oeddent yn ei gael wrth geisio datgan cam-drin plant yn rhywiol mewn achosion trefniadau plant, ac roedd hynny yn cael ei ategu gan gyflwyniadau gan elusennau sydd yn cefnogi merched a phlant sydd wedi

⁸¹ Adran adolygiad o lenyddiaeth 6.3; L Harne, *Violent Fathering and the Risks to Children* (2011).

dioddef troseddau rhywiol. Dywedodd elusennau plant, megis Barnardos, wrth y panel mai ychydig iawn o ddealltwriaeth oedd yn bodoli o'r trawma parhaus sydd yn gysylltiedig â throseddau rhywiol, ac o ganlyniad i hynny gwnaethpwyd asesiadau negyddol o ddiodefwr a hygredd eu tystiolaeth mewn achosion trefniadau plant.

Roedd y cyflwyniadau yma i'r panel yn dangos diffyg dealltwriaeth ymysg rhai gweithwyr proffesiynol ynglŷn â'r ffyrdd y mae plant yn ymateb i gamdriniaeth. Nododd gwasanaethau arbenigol y byddai plant yn aml iawn yn amharod i ddatgelu camdriniaeth rywiol i drydydd partiön annibynnol. Ond, roedd cyflwyniadau unigol a gan sefydliadau yn mynegi pryderon os byddai'r datgeliad dim ond i'r rhiant preswyl nad oedd yn gamdriniol, na fyddai hynny yn cael ei gredu. Awgrymwyd ganddynt ei bod yn ymddangos bod diffyg datgeliad annibynnol i drydydd parti yn rhwystr i'r llysoedd ystyried cam-drin plant yn rhywiol o ddifri. Dywedodd merched a gam-driniwyd eu bod wedi cael eu cyhuddo o 'fyw ffantasi' ynghylch cam-drin plant yn rhywiol.

Ym marn rhai o'r cyflwyniadau, mae gofal plant cymdeithasol yn canolbwyntio'n drwm ar effaith uniongyrchol camdriniaeth ddomestig ar y plentyn a'i bod yn ymddangos bod ganddynt ddiffyg gwerthfawrogiad o effaith camdriniaeth ddomestig ar yr oedolion sydd yn dioddef, effaith anuniongyrchol hynny ar y plentyn ac arwyddocâd hynny mewn achosion trefniadau plant. Hefyd, roedd cyflwyniadau i'r panel yn cyfeirio at effaith cam-drin rhywiol fel plentyn a chamdriniaeth gronol yn ddiweddarach yn eu bywydau ar allu oedolion sydd yn ddiodefwr i ddatgelu camdriniaeth ddomestig ac i gael ffydd y bydd y system yn eu credu. Er enghraifft, cyfeiriodd Cymorth i Ferched Cymru at fater peidio datgelu camdriniaeth ddomestig ymysg oedolion sydd yn ddiodefwr cam-drin plant yn rhywiol oherwydd profiadau blaenorol o gael eu hanwybyddu.

5.8 Anfanteision strwythurol croestoriadol

5.8.1 Dioddefwyr BAME

Mae'r rhwystrau i ferched BAME rhag datgan camdriniaeth ddomestig yn cael eu lluosu gan stereoteipiau diwylliannol, ac yn y cyswllt hwnnw, fel mewn rhai eraill, mae'r cyflwyniadau i'r alwad am dystiolaeth yn cael eu hategu gan yr adolygiad o lenyddiaeth.⁸² Dywedodd Southall Black Sisters wrth y panel eu bod yn credu bod yna: 'ddiwylliant treiddiol parhaus o anghrediniaeth, difaterwch a gelyniaeth tuag at ddiodefwr camdriniaeth'. Amlygodd merched BAME nifer o ffactorau oedd yn benodol i'w profiadau nhw, yn cynnwys cael eu cymdeithasu i gamdriniaeth ddomestig barhaus a pheidio â dweud wrth bobl o'r tu allan a chael eu hynysu yn y teulu (gyda nifer o aelodau'r teulu yn arddel ac yn cyfrannu at y gamdriniaeth) ac ofn allfudo. Gall y rhwystrau gael eu

⁸² Adolygiad o lenyddiaeth adran 5.2.1; R Thiara and A Gill, *Domestic Violence, Child Contact, Post-Separation Violence: Experiences of South Asian and African-Caribbean Women and Children* (2012).

gwaethygu pan fo dioddefwr BAME mewn perthynas gamdriniol gyda chyflawnydd sydd yn wyn.

Crynodeb o Gyflwyniad

Adroddodd un fam am hanes maith o gamdriniaeth ddomestig a gyflawnwyd gan ei phartner. Dywedodd ei bod o gefndir BAME ac nad Saesneg oedd ei iaith gyntaf. I'r gwrthwyneb, roedd ei phartner yn wyn, wedi cael addysg dda ac yn ariannol gyfforddus. Roedd wedi galw ar yr heddlu nifer o weithiau ond roedd ei phartner bob amser wedi gwneud gwrth-honiadau. Ei phrofiad o'r system gyfreithiol oedd na fyddai hi'n cael ei gwarchod. Ar ôl ceisio help gan y system cyfiawnder troseddol a'r achos trefniadau plant, roedd yn teimlo dan orfodaeth i ddychwelyd i gartref y teulu. Dywedodd, 'nid yw'r system yn eich credu', cafodd ei dadrithio gan 'ofni'r posibilrwydd na fydd dim yn cael ei wneud i'ch amddiffyn ac y bydd y chyflawnydd yn eich cosbi hyd yn oed mwy'. Dywedodd bod y llys wedi dangos ychydig iawn o ddealltwriaeth o'i diwylliant ac anghenion ei phlant i fod yn ymwybodol o'r ddwy ochr i'w treftadaeth ddiwylliannol.

Mae'r crynodeb o gyflwyniad yma yn dangos nifer themâu croestoriadol a nodwyd yn y bennod yma, yn cynnwys tystiolaeth o un system ddim yn cael ei rhannu mewn system arall, a stereoteipio yr oedd y dioddefwyr yma yn teimlo oedd yn cael ei waethygu gan hiliaeth, rhywiaeth a rhagfarn ar sail dosbarth. Fel merch o gefndir lleiafrifol ethnig oedd heb dderbyn addysg, roedd yn teimlo dan anfantais difrifol. Dim ond un enghraifft yw hon; roedd nifer o gyflwyniadau unigol eraill a'r grŵp ffocws gyda merched BAME, yn cynnig straeon tebyg.

5.8.2 Dioddefwyr yn byw mewn cymunedau gwledig

Derbyniodd y panel dystiolaeth bod gan ddiodefwyr sydd yn byw mewn lleoliadau ynysig lai o fynediad at wasanaethau cymorth neu gapasiti i ddianc o berthynas gamdriniol. Mae hynny yn gwaethygu'r anawsterau y gallent eu wynebu mewn achosion cyswllt plant pan, er enghraifft, y defnyddir stereoteipiau ynghylch pam y bu iddynt aros mewn perthynas gamdriniol neu oedi o ran rïortio yn eu herbyn. Er bod rhai o'r un math o stereoteipiau sydd yn effeithio ar bob dioddefwr yn amlwg ymysg y grŵp penodol yma o ddiodefwyr sydd yn byw mewn lleoliadau gwledig, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r panel yn awgrymu y gall effaith y stereoteipiau gael ei waethygu gan ddiffyg dealltwriaeth ymysg rhai o'r gweithwyr proffesiynol o'r rhwystrau penodol sydd yn wynebu diodefwyr camdriniaeth mewn lleoliadau ynysig.

5.9 Casgliad

Un o'r rhwystrau cyntaf rhag datgan camdriniaeth ddomestig yw bod raid i'r sawl sydd yn dioddef camdriniaeth werthfawrogi eu hunain eu bod wedi dioddef camdriniaeth. Yn aml

mae'n cymryd amser maith i ddiodefwyr camdriniaeth anghorfforol gydnabod eu bod wedi dioddef camdriniaeth.

Pan fo camdriniaeth yn cael ei gydnabod, mae'n fuddiol iawn iddynt deimlo nad ydynt ar eu pennau eu hunain pan maent yn ceisio datgan y gamdriniaeth i ofal cymdeithasol plant, Cafcass/Cymru a'r llys. Mae ofni anghrediniaeth yn ffactor sylweddol sydd yn rhwystro diodefwyr rhag gwneud honiadau. Ond, gall yr ofn hwnnw gael ei liniaru gan gymorth priodol a chynghor cyfreithiol.

Roedd tystiolaethu am gamdriniaeth ddomestig yn broblemus i nifer o ddiodefwyr. Roedd y ffocws ar ddiogyddiadau diweddar o gamdriniaeth gorfforol, lleihau honiadau 'hanesyddol' yn rhwystr sylweddol i ddarparu darlun cyflawn o gamdriniaeth, yn arbennig rheolaeth drwy orfodaeth. Roedd diffyg rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol systemau yn creu mwy o rwystrau, er y dywedwyd wrth y panel, hyd yn oed pan oedd tystiolaeth gan y system cyfiawnder troseddol ar gael, nad oedd hynny o reidwydd yn cael ei ystyried.

Cyfeiriodd mamau a sefydliadau sydd yn eu cefnogi at gael eu hannog i beidio gwneud honiadau o gamdriniaeth ddomestig oherwydd eu bod yn ofni gwrth-honiadau o elyniaethu rhieni neu wrthwynebiad i riantu ar y cyd. Dywedwyd wrth y panel bod cyfreithwyr y mamau eu hunain ar brydiau wedi eu cynghori i beidio â gwneud honiadau am y rhesymau yma. Roedd yna dystiolaeth o gamdriniaeth ddomestig yn cael ei ail-labelu fel perthnasodd 'gwrthdaro mawr'.

Mae nifer o'r materion a drafodir yn y bennod hon yn cael eu tanategu gan y ffaith nad oes gan amrywiol weithwyr proffesiynol ddealltwriaeth ddigonol o gamdriniaeth ddomestig ac effeithiau hynny.⁸³ Tybiwyd bod stereoteipio mathau penodol o ymddygiadau, a 'mythau' posibl ynghylch 'gwir' ddiodefwyr camdriniaeth ddomestig, yn rhwystr i ddatgan camdriniaeth a thystiolaethu amdano. Mewn rhai cyflwyniadau canfuwyd bod y stereoteipiau yma yn seiliedig ar rywiaeth, hiliaeth a rhagfarn seiliedig ar ddsbarth. Roedd yna achosion pan roedd diodefwyr gwrywaidd yn teimlo dan anfantais oherwydd stereoteipio, ond yn yr alwad yma am dystiolaeth, daeth y cyflwyniadau yn bennaf gan ferched.

Roedd rhai diodefwyr wedi cael profiadau mwy cadarnhaol pan fo barnwyr wedi caniatáu iddynt gymryd eu hamser, ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth. Ond, yn gyffredinol roedd profiadau diodefwyr benywaidd a gwrywaidd yn negyddol, ac roedd profiadau cadarnhaol yn ddibynnol ar y 'loteri' o ddod ar draws swyddogion Cafcass/Cymru a barnwyr mwy gwybodus. Ym mhennod 11 mae'r panel yn rhoi cyfres o argymhellion er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag datgan camdriniaeth ddomestig a'r

⁸³ Gall diffyg dealltwriaeth o'r fath arwain at effeithiau difrifol; er enghraifft, canfuwyd methiannau proffesiynol i adnabod a deall camdriniaeth ddomestig fel ffactor barhaus ac amlwg mewn dynladdiadau domestig: Home Office, *Domestic Homicide Reviews: Key Findings from Analysis of Domestic Homicide Reviews* (2016).

rhwystrau mewn perthynas â hygrededd a nodwyd yn y bennod hon, yn cynnwys argymhellion mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, argaeledd gwasanaethau cymorth, hyfforddiant proffesiynol, cydlynu â'r system cyfiawnder troseddol ac ymagwedd gyffredinol y llysoedd teulu at achosion trefniadau plant.

6. Lleisiau plant

6.1 Cyflwyniad

Mae pwysau'r dystiolaeth o ymchwil a chyflwyniadau yn awgrymu bod llais y plentyn yn rhy aml ddim yn cael ei glywed yn ystod y broses llys neu ei fod yn cael ei dawelu mewn gwahanol ffyrdd. Canfu'r panel nad ymgynghorwyd â nifer sylweddol o blant sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig ynglŷn â'u safbwyntiau a phrofiadau yn ystod y broses llys. Roedd nifer o gyflwyniadau yn dweud pan fo hynny wedi digwydd, bod ymgynghoriadau yn gryno, a bod plant ond yn cael eu 'clywed' pan fônt yn mynegi dymuniad i gael cyswllt. Hefyd canfu'r panel mai ar adegau prin iawn yr ymgynghorir â phlant ynglŷn â sut mae'r trefniadau yn gweithio iddyn nhw ar ôl rhoi gorchymyn.

Mynegodd y rhan fwyaf o'r grwpiau, yn arbennig gweithwyr ym maes cyfreithiol a gwaith cymdeithasol/camdriniaeth ddomestig, bryderon ynghylch y broses o gaffael lleisiau plant a'r broses o'u hymgorffori i'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r pryderon yma yn gyson â chanfyddiadau ymchwil blaenorol.⁸⁴

I'r gwrthwyneb, roedd rhai cyflwyniadau gan grwpiau tadau a rhai therapyddion yn awgrymu y rhoddwyd gormod o sylw i leisiau plant, gan ddadlau y gellir dylanwadu yn hawdd ar blant a bod y broses o annog iddynt fynegi eu teimladau a'u dymuniadau yn eu gosod yng nghanol gwrthdaro teuluol. Mynegodd Families Need Fathers:

“Er bod gweithwyr proffesiynol ym maes teuluoedd sy'n gwahanu yn annog rhieni i beidio â rhoi plant yng nghanol gwrthdaro teuluol, mae'n eironig bod yr un gweithwyr proffesiynol yn gwneud hynny yn union drwy ofyn i blant pwy y maent yn dymuno byw gyda nhw, ac yn rhoi gormod o rym iddynt”. **Families Need Fathers**

6.2 Pam fod lleisiau plant yn bwysig?

Mae Erthygl 12 Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) 1989 yn deddfu i'w safbwyntiau gael eu cynnwys a'u hystyried mewn achosion cyfreithiol sydd yn effeithio arnyn nhw. Mae Adran 1(3) Deddf Plant 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i'r llysoedd ystyried “dymuniadau a theimladau canfyddadwy y plentyn dan sylw (gan ystyried hynny ar sail ei oedran a'i ddealltwriaeth)” mewn achosion plant. Mae cyfranogiad uniongyrchol pobl ifanc a phlant mewn achosion wedi cael ei bwysleisio ers amser maith mewn cyfraith achos yng

⁸⁴ Gweler adolygiad o lenyddiaeth adrannau 7.3 a 7.5.

Nghymru a Lloegr.⁸⁵ Hefyd, mae paragraff 18 PD12B a pharagraffau 24 a 10 PD12J yn pwysleisio y dylai'r llys ystyried a ddylai'r plentyn gael cynrychiolaeth ar wahân ac y dylai sicrhau bod mesurau arbennig ar gael pan fo angen er mwyn amddiffyn plentyn sydd yn mynychu unrhyw wrandawriad. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo saith Safon Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed mewn prosesau fydd yn effeithio arnynt.

Roedd cyflwyniadau i'r panel yn cyflwyno dadleuon grymus ynghylch cyfranogiad uniongyrchol plant a phan fo hynny yn hanfodol, o ran sicrhau bod y penderfyniad cywir yn cael ei wneud ac er mwyn hyrwyddo lles y plentyn. Mae'r cyflwyniadau yma hefyd yn mynegi'r safbwynt na fydd rhieni/gofalwr bob amser yn cynrychioli lles y plentyn yn ddigonol. Nododd Nagalro a'r NSPCC er enghraifft, nad yw profiadau, anghenion a buddiannau plant o reidrwydd yn cyd-daro â rhai eu rhieni, ac felly mae angen eu clywed ar wahân.

Roedd cyflwyniadau unigol gan oedolion oedd wedi cael profiad o achosion fel plant, a grŵp ffocws FJYPB yn dangos bod plant eisiau i'w llais gael ei glywed, hyd yn oed os nad ydynt o reidrwydd yn dylanwadu ar ganlyniad yr achos. Mae hynny yn ategu'r ymchwil bod plant a phobl ifanc eisiau bod yn rhan o'r broses, a'u bod eisiau i'w safbwyntiau gael eu hystyried o ddifri, ond nad ydynt o reidrwydd eisiau gwneud y penderfyniad terfynol.⁸⁶ Gallai hynny fod yn arbennig o bwysig mewn achosion camdriniaeth ddomestig.⁸⁷

Mae'n bwysig nodi, mae ymgysylltu â phlant yn uniongyrchol yn rhoi syniad mwy cywir o beth allai plant unigol fod yn ei ddymuno. Mae ymchwil yn dangos bod gan blant deimladau a safbwyntiau amrywiol iawn am eu tadau ac am dreulio amser gyda nhw mewn achosion camdriniaeth ddomestig.⁸⁸ Mae'r dystiolaeth yn dangos mai'r flaenoriaeth i bron yr holl blant, hyd yn oed rhai sydd eisiau perthynas â'u tadau, yw diogelwch, iddyn nhw eu hunain, eu mamau a gweddill eu teuluoedd.⁸⁹ Roedd plant a gyfwelwyd mewn astudiaeth yn 2012 a adroddodd bod ymddygiad eu tadau wedi newid mewn gwirionedd yn teimlo yn gadarnhaol iawn am eu gweld.⁹⁰ Roedd ansawdd yr amser a dreuliwyd gyda thadau oedd wedi cyflawni camdriniaeth ddomestig yn bwysig iawn hefyd i blant. Os oedd plant yn canfod diffyg ymrwymiad neu wir ddiddordeb ynddynt gan eu tadau, yn cynnwys bod yn anghyson ac annibynadwy, treulio ychydig iawn o amser gyda nhw yn ystod y sesiynau yma, neu fethu ag ymgysylltu â nhw o ddifri, roeddent yn canfod bod yr amser a dreuliwyd gyda nhw yn brofiad anfuddiol.⁹¹

⁸⁵ *Mabon v Mabon* [2005] EWCA Civ 634.

⁸⁶ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 7.5.

⁸⁷ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 7.5.

⁸⁸ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 6.4.

⁸⁹ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 6.4.

⁹⁰ J Fortin, J Hunt and L Scanlan, *Taking a Longer View of Contact: The Perspectives of Young Adults Who Experience Parental Separation in their Youth* (2012).

⁹¹ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 6.4.

O ystyried yr amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiadau sydd yn bodoli ymysg plant, mae'r panel yn ystyried ei bod yn hanfodol bod y llysoedd yn deall safbwyntiau plant unigol ac yn teilwra trefniadau fel eu bod yn addas iddynt fel unigolion. Gall hynny hefyd fod yn fuddiol o ran cywiro tybiaethau diwylliannol eraill. Nododd cyfrannwr i grŵp ffocws FJYPB bod siarad â phlant yn uniongyrchol am eu profiadau yn bwysig er mwyn cywiro tueddiad diarwybod mewn perthynas â diwylliant ac ethnigrwydd, a thybiaethau am ddynion du yn eu hachos nhw.

Ar wahân i helpu i wneud penderfyniadau mwy priodol, mantais arall i gynnwys plant yw y gall hynny wella teimlad plentyn o gael eu grymuso a theimlad o hunan-effeithiolrwydd. Mewn achosion o gam-drin domestig, mae ymchwil wedi canfod bod gwranddo ac ymateb i ddatganiadau plant ynghylch trais yn dilysu y profiadau hynny, a thrwy hynny mae diogelwch a lles plant yn cael ei hyrwyddo.⁹²

6.3 Ymgynghori cyfyngedig â phlant

Gellir ceisio safbwyntiau plant mewn nifer o ffyrdd er mwyn helpu i hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau mewn achosion plant cyfraith breifat:

- adroddiad Adran 7 a gynhyrchir gan Cafcass, Cafcass Cymru neu weithiwr cymdeithasol awdurdod lleol
- cynrychiolaeth ar wahân dan Reol 16.4
- rhoi tystiolaeth uniongyrchol mewn achosion
- ysgrifennu at neu gyfarfod â'r swyddog barnwrol

Y ffordd fwyaf cyffredin i blant gyfranogi yw pan fo adroddiad Adran 7 yn cael ei gorchymyn gan y llys. Yn yr achosion hynny, os bydd swyddog Cafcass neu Cafcass Cymru yn paratoi'r adroddiad, fel arfer byddant yn cyfarfod â'r plentyn. Ond, mae adroddiadau Adran 7 ond yn cael eu gorchymyn mewn traean yn unig o holl achosion cyfraith breifat.⁹³ Mae cyflwyniadau gan Gymdeithas yr Ynadon ac ALC yn awgrymu bod adroddiad Adran 7 yn fwy tebygol o gael ei orchymyn mewn achos o gam-drin domestig. Ond o ystyried bod un astudiaeth ymchwil ar ôl y llall wedi canfod bod o leiaf hanner yr achosion yn cynnwys honiadau o gam-drin domestig, mae yna arwydd clir yma na fydd nifer o blant sydd yn gysylltiedig ag achosion cam-drin domestig yn cael cyfle i fynegi eu safbwyntiau yn y broses llys.

⁹² M Eriksson and E Nasman (2008) 'Participation in family law proceedings for children whose father is violent to their mother', *Childhood* 15(2): 259–75; S Holt (2018) 'A voice or a choice? Children's views on participating in decisions about post-separation contact with domestically abusive fathers', *Journal of Social Welfare and Family Law* 40(4): 459–76; G Macdonald (2017) 'Hearing children's voices? Including children's perspectives on their experiences of domestic violence in welfare reports prepared for the English courts in private family law proceedings', *Child Abuse and Neglect* 65: 1–13

⁹³ Yn Lloegr, roedd 65,378 o bobl ifanc yn destun ceisiadau yn 2018-2019, ond mewn 35% o'r achosion yn unig y gorchymynnwyd adroddiadau, oedd yn gysylltiedig â thua 20,000 o blant (Adroddiad Blynyddol Cafcass 2018–2019, t. 10).

Mae nifer fechan o blant yn cael eu cynrychioli ar wahân mewn achosion plant cyfraith breifat. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 16A yn egluro bod cynrychiolaeth ar wahân yn cael ei gyfyngu i achosion sydd yn ymwneud â “mater o anhawster sylweddol ac a fydd oherwydd hynny ond yn digwydd yn y lleiafrif o achosion”, allai gynnwys “honiadau difrifol o gam-drin corfforol neu rywiol, neu gamdriniaeth arall mewn perthynas â'r plentyn”. Yn 2018-19, trefnwyd apwyntiadau Rheol 16.4 mewn 2,595 o achosion yn Lloegr yn ôl data Cafcass. Mae hynny yn cynrychioli dim ond 7% o'r achosion a agorwyd y flwyddyn honno a 17% o'r achosion yr oedd yn ofynnol i Cafcass wneud gwaith arnynt ar ôl y gwrandawriad cyntaf.

Mewn nifer fechan iawn o achosion pan fo plant yn gwneud honiadau neu pan fônt yn dystion i'r honiadau, bydd tystiolaeth y plentyn a gafwyd drwy gyfweiliadau ABE a gynhaliwyd gan yr heddlu neu ganolwr, y cael ei chyflwyno i'r llys. Nid oes yna unrhyw ddata ar nifer y plant sydd yn rhoi tystiolaeth neu sydd yn ysgrifennu at neu sydd yn gweld swyddog barnwrol, ond mae'n debygol y bydd y nifer yn fychan iawn,⁹⁴ ac wedi eu cyfyngu i'r lleiafrif o achosion gaiff eu barnu, yn hytrach na'r nifer fawr pan fo rhieni yn cytuno i orchmynion caniatáu (gweler pennod 9). Yn 2015, dadleuodd Gweithgor Tystion a Phlant sydd yn Agored i Niwed, a benodwyd gan Lywydd yr Adran Deulu, bod y Llys Teulu yn llusgo y tu ôl i'r llysoedd troseddol o ran ei ymagwedd at dystiolaeth plant, a bod angen “dull ffres o ymdrin â thystiolaeth plant a phobl ifanc, yn cynnwys mynegiant o'u dymuniadau a theimladau...ers amser maith”.⁹⁵ Gwnaeth y Gweithgor gyfres o argymhellion er mwyn cryfhau cyfranogiad plant mewn achosion sydd yn gysylltiedig â nhw, ond mae'r panel yn nodi nad yw'r rhain hyd yma wedi cael eu rhoi ar waith, oherwydd disgwylir am ddiwygio'r system yn ehangach.

Hefyd, mae'n bwysig nodi mai bwriad cyfarfod â'r barnwr yw helpu plant ddeall proses y llys. Ni ellir defnyddio hynny gan y barnwr i gasglu tystiolaeth ynghylch dymuniadau a theimladau'r plentyn. Cyfarfu plant un ymatebwr â'r barnwr, ac aethpwyd â nhw ar daith o gwmpas y llys, ac roedd yn credu bod hynny wedi bod yn fuddiol i'r plant, gan nodi “mae'n ymddangos bod hynny yn fuddiol iawn i'r plentyn o ran gofyn cwestiynau a chael atebion priodol.” Ond, fel a nodwyd gan Weithgor Tystion a Phlant Agored i Niwed, “ni fydd cyfarfod â barnwyr yn unig yn darparu'r rôl gynyddol y dylid gael ei chwarae gan bobl ifanc a phlant nawr bod y llysoedd teulu wedi cyrraedd yr 21ain ganrif”.⁹⁶

6.4 Yr heriau o glywed plant yr ymgynghorir â nhw yn y broses

Yn achos plant mewn achosion o gam-drin yr ymgynghorwyd yn uniongyrchol â nhw, cafwyd beirniadaeth mewn nifer o gyflwyniadau unigol a chyflwyniadau gan sefydliadau

⁹⁴ Gweler Vulnerable Witnesses and Children Working Group, *Report of the Vulnerable Witnesses and Children Working Group, February 2015* (2015), para 5.

⁹⁵ Vulnerable Witnesses and Children Working Group, *Report of the Vulnerable Witnesses and Children Working Group, February 2015* (2015), para 25.

⁹⁶ Vulnerable Witnesses and Children Working Group, *Report of the Vulnerable Witnesses and Children Working Group, February 2015* (2015), para 21.

ynghylch sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriadau hynny. Nododd Nagalro, ymysg eraill, yr heriau mewn perthynas â meithrin perthynas gyda phlant sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig a'r angen i gael digon o amser i wneud hynny.

“Mae plant sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig yn cael anhawster siarad am hynny oherwydd eu ffyddlondeb, aliniad ag un rhiant, ofn rhoi loes i'r naill riant neu'r llall, neu'r rhiant preswyl yn arbennig. Efallai eu bod wedi bod yn dystion i'r gamdriniaeth ac efallai eu bod yn teimlo ofn a theimladau cymysg am y ddau riant...Efallai na fydd plant yn teimlo bod ganddynt y caniatâd angenrheidiol gan y rhiant preswyl i fynegi yr hyn fyddant yn wirioneddol yn poeni amdano o ran eu diogelwch eu hunain a diogelwch y naill riant neu'r llall neu'r ddau riant, neu o ran gweld y rhiant sydd wedi dieithrio. Yn yr un modd, os bydd yr honiadau yn ffug, efallai y byddir yn dylanwadu arnynt i ailadrodd yr honiadau a gwrthod gweld y rhiant arall.” **Nagalro**

Ond, nododd Nagalro a nifer o gyflwyniadau eraill mai amser cyfyngedig oedd gan swyddogion Cafcass gyda phob plentyn, a bod hynny yn aml wedi ei gyfyngu i un cyfarfod, a dim ond am hanner awr o bosibl. Adroddodd Harrogate Family Law, CARA a Southall Black Sisters, ynghyd â nifer o ymatebwyr proffesiynol eraill a nifer o rieni, bod yr amser a ddyrannir yn annigonol. Dadleuodd Nagalro hefyd bod adroddiadau Adran 7 yn “arwynebol oherwydd diffyg amser. Mynegodd mamau bryder bod dyfodol eu plant yn dibynnu ar awr o gyfarfod â dieithryn, ac nad oedd cofnodion o safbwyntiau plant yn cael eu diweddarau mewn achosion hir.

Mae Cafcass wedi datblygu nifer o apiau digidol ar gyfer gweithio gyda phlant a theuluoedd, yn cynnwys Llais y Plentyn. Mae This Much! a Backdrop yn ddau ap arall sydd ar gael i swyddogion Cafcass ar gyfer gwaith uniongyrchol â phlant. Mae'r rhain wedi cael eu graddio fel 'rhagorol' gan Ofsted, ond ni chyfeiriwyd at yr un o'r apiau mewn unrhyw un o'r cyflwyniadau i'r panel.

Hefyd mynegwyd pryderon am sut yr oedd cyfweiliadau â phlant yn cael eu cynnal. Polisi Cafcass yw y dylid cyfweld â phlant ym mhresenoldeb rhiant dim ond o dan amgylchiadau eithriadol, a dylai'r rhesymau am hynny gael eu cofnodi yn ffeil yr achos. Er hynny mynegodd Barnardos a Rights of Women bryderon bod cyfweiliadau gyda phlant ond yn cael eu cynnal pan fo rhiant yn bresennol, a gall hynny amharu ar allu'r plentyn i fynegi ei safbwyntiau. Nododd gweithiwr cam-drin domestig y gallai asesiad o blentyn gyda chamdrinwyr honedig roi argraff ffug, oherwydd efallai bod y plentyn yn cydymffurfio ac yn aml yn rhyngweithio gormod er mwyn rheoli'r camdriniwr ac osgoi cosb. Nododd rhieni hefyd bod plant yn rhy ofnus i siarad, yn arbennig ym mhresenoldeb neu yna agos iawn i riant camdriniol, gan adrodd bod y broses gyfweld wedi bod yn drawmatig i'w plant. Nododd PSU bod cyfweiliadau Cafcass wedi amlygu plant i'r risg o fwy o gamdriniaeth ac yn eu gwahodd i leddfu trawma blaenorol heb gymorth arbenigol. Hefyd, roedd rhai mamau yn beirniadu yr hyn yr oeddent yn ei alw yn ddull cyffredinol Cafcass o archwilio

teimladau plant yn uniongyrchol drwy chwarae, hyd yn oed pan oedd plant yn ddigon hen i ofyn iddynt ac i ateb cwestiynau yn uniongyrchol.

Yn fwy cyffredinol, roedd yna feirniadaeth o ddiffyg empathi tuag at brofiadau plant pan fo camdriniaeth wedi digwydd. Nododd cyfrannydd i grŵp ffocws FJYBP y dylid rhoi mwy o feddwl i ddyrannu FCA er mwyn sicrhau y gallent sefydlu perthynas o ymddiriedaeth gadarnhaol gyda'r person ifanc. Yn achos y person ifanc hwnnw, roedd "dyn cydnerth" tal iawn wedi cael ei ddyrannu fel FCA, heb ystyried a fyddai hynny yn achosi pryder o ystyried profiad y plentyn o gam-drin domestig gan y tad.

Derbyniwyd rhai sylwadau cadarnhaol gan famau a thadau ynghylch sut mae plant yn cael eu cynnwys yn y broses. Mewn grŵp ffocws o ddyinion oedd yn mynychu rhaglen cyflawnwyr, roedd rhai yn credu y gwrandawyd ar safbwyntiau eu plant.

Hefyd roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn awyddus i annog cynrychiolaeth ar wahân i fwy o blant. Dywedodd un barnwr y byddai yn penodi gwarchodwr mewn pob achos petai'n gallu gwneud hynny. Hefyd dadleuodd Cymdeithas Cyfreithwyr Plant y byddai cynrychiolaeth ar wahân yn galluogi i fwy o blant gael eu clywed, yn arbennig pan fo'r ddau riant yn ymglyfreithwyr drostynt eu hunain. Ond, nododd rhai gweithwyr proffesiynol a mamau eraill bod gwarchodwyr hefyd dan bwysau amser ac y gall yr ymgysylltu â'r plant fod yn gyfyngedig.

6.5 Y pwys cyfyngedig a roddir i safbwyntiau plant

Y mater a ddenodd y rhan fwyaf o sylwadau a beirniadaeth yn y cyflwyniadau oedd y pwys a roddwyd i safbwyntiau plant. Thema gref iawn mewn nifer o gyflwyniadau oedd bod safbwyntiau plant yn aml yn cael eu diystyru, yn bennaf mewn achosion pan fo plant yn nodi nad ydynt eisiau treulio amser gyda rhiant camdriniol. Mae astudiaethau ymchwil blaenorol wedi canfod patrwm o 'wrando dethol' pan fo Cafcass a'r llysoedd yn ymateb yn gadarnhaol pan fo plant yn mynegi dymuniad i dreulio amser gyda rhiant, ond yn trin rhai nad ydynt fel rhywbeth problemus a rhwystrol, hyd yn oed pan fônt wedi mynegi eu bod ofn eu rhiant oherwydd profiadau o drais neu gamdriniaeth.⁹⁷

Roedd cyflwyniadau gan Barnardos, Refuge, PSU, CARA, Mosac, Women's Aid Federation of England, Cymorth i Ferched Cymru a SafeLives, yn ogystal â channoedd o gyflwyniadau unigol yn mynegi pryderon bod dymuniadau a fynegwyd gan blant yn erbyn treulio amser gyda rhiant camdriniol yn cael eu diystyru a'u hanwybyddu. Hefyd nododd rhai gweithwyr proffesiynol bod plant oedd yn byw gyda thad camdriniol yn cael eu hanwybyddu pan oeddent yn dweud eu bod eisiau gweld eu mam yn amlach, neu eisiau byw gyda hi.

⁹⁷ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 7.3.

Derbyniodd y panel dystiolaeth y gallai Cafcass/Cymru anwybyddu, diystyru neu weithiau gam-gynrychioli neu ystumio safbwyntiau plant:

“Rwyf yn cofio un cyswllt ac fe aethant [FCA] â fi i un ochr a gofyn nifer o gwestiynau i mi. Yn eithaf ailadroddus. Ac roedd yn gofyn “faint o amser wyt ti eisiau ei dreulio gyda dy dad?” Felly, [dywedais] “Nid wyf eisiau ei weld”. [Ateb] Wyt ti'n siŵr am hyn? Mae wedi dod yr holl ffordd yma”... Felly roeddwn yn teimlo bod rhaid i fi ddweud ie, felly dywedais “hanner awr te”. Felly bu iddynt ddweud “lawn te, felly rwyf ti eisiau ei weld”...Felly aeth hynny i'r adroddiad fy mod unwaith wedi dweud hynny, dywedais fy mod eisiau ei weld. Ac rwyf yn gwybod nad fi yw'r unig un y mae'r math yna o beth wedi digwydd iddynt.” **Person Ifanc, Grŵp Ffocws**

Nid digwyddiad ynysig oedd hwn ymysg y cyflwyniadau, yn cynnwys cyflwyniadau gan blant oedd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig, ac mae'n gyson â chanfyddiadau ymchwil y gall swyddogion Cafcass wneud ymdrechion sylweddol i berswadio plant i dreulio amser gyda rhiant, neu i gynyddu yr amser maent eisoes yn ei dreulio gyda nhw.⁹⁸

Ond y canlyniad yw y gall profiadau plant o gamdriniaeth gael eu hanwybyddu, eu diystyru neu eu lleihau. Nododd Barnardos bod eu hymchwil wedi dangos bod argymhellion Cafcass “yn aml yn groes” i gyngor gwasanaethau Barnardos oedd wedi bod yn gweithio yn uniongyrchol gyda dioddefwyr. Mae hynny yn achos pryder penodol, fel y nododd Refuge, o ystyried bod argymhellion Cafcass yn debygol o gael eu dilyn yn y rhan fwyaf o achosion.

Roedd dymuniadau a theimladau plant iau yn benodol debygol o gael eu diystyru os nad oeddent eisiau treulio amser gyda rhiant camdriniol. Nododd Refuge bod yna “anawsterau penodol” yn achos pobl ifanc oedd yn ofni'r cyflawnydd ac a ddywedodd wrth Cafcass nad oeddent eisiau treulio amser gyda nhw.

“Mae rhieni yn adrodd po ieuengaf yw plentyn, y lleiaf tebygol yw y bydd eu llais yn cael ei glywed. Yn ôl adroddiadau gan rieni y mae Mosac yn eu cefnogi, yn anaml iawn y bydd llais neu ddymuniadau plant yn cael eu hystyried, oni bai bod y plentyn wedi cyrraedd oedran pryd na all mwyach eu tywys neu eu gorfodi'n gorfforol i gael cyswllt gyda rhiant camdriniol honedig.” **Mosac**

Hefyd, nododd cyflwyniadau yn achos plant ifanc iawn na ellir ond clywed llais y plentyn drwy eu gofalwr sylfaenol, ond bod gwybodaeth y rhiant am y plentyn yn tueddu i gael ei ddiystyru neu ei wrthod yn awtomatig. Yn ogystal ag anawsterau yn achos plant ifanc,

⁹⁸ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 7.3.

nododd British Autism Advocate anawsterau i blant gydag anawsterau dysgu o ran sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed mewn achosion llys.

Yn olaf, aeth nifer o gyflwyniadau i'r afael â'r senario pan fo dymuniad y plentyn i beidio â threulio amser gyda'i riant camdriniol yn cael ei adlewyrchu yn gywir mewn adroddiad Cafcass/Cymru neu Awdurdod Lleol, ond nad oedd y llys wedi gweithredu ar y dymuniadau hynny a'r argymhellion cysylltiedig. Nododd cyflwyniad gan un swyddog Cafcass:

“Ar brydiau bydd y Llysoedd yn ystyried effaith [cam-drin domestig] ar y plentyn. Ar adegau eraill, mae'n ymddangos bod y llys yn anwybyddu fy mhryderon yn ei ymgais i ddatrys problemau cyswllt rhwng y riant nad yw'n preswyllo a'r plentyn mor gyflym â phosibl...” **gweithiwr FCA proffesiynol**

6.6 Adolygiad cyfyngedig a dilyniant

Y pedwerydd maes ble roedd cyflwyniadau un awgrymu nad yw plant yn cael eu clywed yn ddigonol yw mewn perthynas â chymorth ôl-orchymyn. Mae paragraff 38 PD12J yn nodi pan fo'r llys yn penderfynu y bydd treulio amser gyda riant yn ddiogel a buddiol i'r plentyn, dylai'r llys ystyried hefyd a fydd “ yn angenrheidiol, er lles y plentyn, i adolygu'r broses o weithredu'r gorchymyn hwnnw”.

Yn ymarferol, mae'n ymddangos bod adolygu trefniadau plant yn anghyffredin, hyd yn oed mewn achosion cam-drin domestig. Mae hynny er gwaethaf yr holl ymchwil sydd yn dangos y gall treulio amser gyda riant camdriniol arwain at gam-drin y plentyn yn barhaus a/neu'r riant nad yw'n gamdriniol.⁹⁹ Hefyd nododd Cymorth i Ferched Cymru y gall dymuniad plentyn i dreulio amser gyda riant camdriniol fod yn seiliedig ar gael ei warchod yn sylweddol rhag effeithiau camdriniaeth gan y riant nad yw'n gamdriniol, ond gall y profiad o dreulio amser gyda nhw heb oruchwyliaeth a heb y warchodaeth honno fod yn wahanol i'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl.

Heb adolygiad, ac yn absenoldeb mwy o geisiadau, gall y plentyn gael ei adael gyda threfniadau nad ydynt yn gweithio iddynt. Rhoddodd cyfranogwr yn y grŵp ffocws FJYPB fewnwelediad argyhoeddiadol i'r teimlad o ddiymadferthedd ymysg plant a phobl ifanc na ofynnir iddynt sut mae pethau ar ôl i'r llys roi gorchymyn terfynol.

⁹⁹ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 6.3.

Nes yr oeddwn yn 18 oed, roedd raid i mi ddilyn yr un gorchymyn llys ag oedd yn bodoli pan oeddwn yn 7. ...Petai rhywun wedi gofyn imi byddwn wedi dweud "Ydi, mae ef [tad] yn hyrddio fy mreichiau i lawr ac yn sgrechian arnaf". Gallwn fod wedi dweud hynny, ond ni ofynnodd neb... Gadawsom y llys, ac yn y bôn dyna oedd fy mywyd am ddeng mlynedd. Yn llythrennol. Ni chlywais ddim gan neb wedyn. Dim byd, ac nid oes neb yn gwirio dim, yn arbennig os oes yna gamdriniaeth yn yr achos. Hyd yn oed os yw hynny ddim ond unwaith y flwyddyn, gallech fynd yn ôl a gofyn "A yw hyn yn iawn? Wyt ti angen newid hyn? Ac a oes angen i unrhyw beth arall ddigwydd? **Person Ifanc, Grŵp Ffocws**

Nododd cyfranogwr arall i'r grŵp ffocws ei fod wedi ysgrifennu llythyr at y barnwr yn yr achos, ond nad oedd wedi derbyn unrhyw ymateb.

6.7 Effaith peidio gwrando ar blant (i raddau helaeth)

Roedd y cyflwyniadau y nodi amrywiaeth o faterion oedd yn deillio o dawelu neu beidio â gwrando ar leisiau plant.

Y cyntaf oedd bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu tanseilio a'u siomi. Cyfeiriodd ALC at y risg o blant ddim yn cael eu clywed petai'r llys yn methu â gwneud canfyddiadau. Nododd cyfranogwyr yn y grŵp ffocws a gynhaliwyd gan Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr bod profiadau o achosion wedi golygu bod gan eu plant ddifffyg ymddiriedaeth difrifol o awdurdodau, oherwydd nad oedd datgeliadau o gamdriniaeth a mynegiannau clir o'u safbwyntiau ddim yn cael eu clywed ac nad oedd camau yn cael eu cymryd i'w cadw yn ddiogel. Yn yr un modd, cyfeiriodd SafeLives at effaith negyddol gadael plant heb allu deall pam y'u bod yn cael eu gorfodi i dreulio amser gyda rhywun oedd wedi eu cam-drin a/neu y rhiant arall. Hefyd cyfeiriodd FCA at y risg i hyder y plentyn ym mhroses y llys os ydynt yn teimlo bod y llys heb wrando arnynt. Cafwyd sylwadau difrifol gan gyfranogydd i grŵp ffocws FJYPB a ddywedodd:

"Nid oeddwn wedi teimlo bod Cafcass wedi gwrando arnaf o gwbl....Nid oeddwn yn teimlo bod unrhyw un ohonynt yn fy mharchu, teimlais mai dim ond un rhif achos arall yr oeddwn, dim ond un robot arall y gallent ei reoli, ac i ystumio beth oedd eu disgwyliadau mewn perthynas â'r rhagdybiaeth o gyswllt. Yr unig berson yr oeddwn yn teimlo a wrandawodd arnaf mewn gwirionedd oedd y pennaeth yn fy ysgol gynradd. Gwnaeth bwynt o ddweud wrthynt beth yr oeddwn wedi ei ddweud wrthi. Ond ni chafodd hynny ei gynnwys mewn unrhyw adroddiad... i'r llys". **Person Ifanc, Grŵp Ffocws**

Canlyniad arall i beidio â gwrando ar safbwyntiau a phrofiadau plant yw y gall hynny danseilio ansawdd penderfyniadau'r llys ac arwain at orchmynion nad ydynt yn hyrwyddo,

neu sydd yn tanseilio lles y plentyn, ac roedd honno yn broblem a godwyd mewn nifer o gyflwyniad.

6.8 Rhwystrau rhag clywed plant - adnoddau

Fel mewn meysydd eraill, roedd adnoddau cyfyngedig yn rheswm pwysig dros rai o'r problemau a nodwyd uchod mewn perthynas â gwrando ar leisiau plant. Cyfeiriodd nifer o gyflwyniadau at brinder adnoddau oedd yn cyfyngu ar gyfranogiad plant yn y broses ac yn amharu ar allu gweithwyr cyfiawnder teulu proffesiynol i gyflawni'r dasg sgiliedig iawn o annog a dehongli lleisiau plant.

Cyfeiriodd nifer o gyflwyniadau at adnoddau cyfyngedig oedd yn cyfyngu ar gyfranogiad Cafcass neu Cafcass Cymru o ran faint o blant oedd yn cael eu gweld, am ba hyd a'r diffyg adolygiadau ar ôl rhoi gorchmynion. Roeddent yn nodi bod Cafcass a Cafcass Cymru ond yn ymwneud â'r cam diogelu cychwynnol pan nad ydynt yn cyfarfod â phlant nac yn siarad â nhw. Hefyd mynegodd gyfreithwyr bryderon bod cyn lleied o blant yn cael eu cynrychioli ar wahân. Nododd gwasanaeth cymorth LIP na fyddai llysoedd yn penodi gwarchodwyr oni bai y gofynnwyd yn benodol iddynt wneud hynny, ac nid oedd gan LIP unrhyw syniad y gallent wneud cais o'r fath.

Roedd yna hefyd bryderon bod adnoddau cyfyngedig yn golygu bod ymgynghoriadau gyda phlant yn fyr iawn. Nododd IDVA "disgwylir i blant fynegi eu hunain i Cafcass neu weithiwr cymdeithasol sydd yn rhy brysur i dreulio digon o amser i feithrin perthynas ac ymddiriedaeth" er gwaethaf sensitifwydd y materion dan sylw. Nododd FCA unigol bod swm y gwaith yn golygu nad oedd ganddynt ddigon o amser fel arfer ond i weld plentyn unwaith yn ystod achos cyfraith breifat, ac efallai ddwy waith. Nodwyd nad oedd hynny yn caniatáu meithrin "unrhyw fath o ymddiriedaeth neu berthynas".

Hefyd roedd cyfyngiadau adnoddau yn sail i feirniadaeth o ddiffyg dealltwriaeth neu hyfforddiant. Amlygodd Prosiect Tryloywder pa mor bwysig yw i lunwyr adroddiadau fod â gwybodaeth drylwyr am gam-drin domestig, tra bod eraill yn feirniadol o ysgrifenydd a gwarchodwyr yn y cyswllt yma.

"Nid oes gan [weithwyr Cafcass a gweithwyr cymdeithasol] ddigon o hyfforddiant a gwybodaeth o DA ac mae hynny yn arwain at argymhellion a disgwiliadau megis rhieni yn gweithio gyda'i gilydd i drefnu trefniadau cyswllt, trosglwyddiadau etc. sydd yn gwbl amhriodol ar gyfer DA". **IDVA**

Dadleuodd Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr, Hawliau Merched a sawl un arall, yn cynnwys unigolion, bod angen gwneud llawer mwy er mwyn sicrhau bod Cafcass/Cymru a gweithwyr llyso teulu proffesiynol yn deall effaith cam-drin domestig ar blant a'u bod yn gallu adnabod gwir ofn a phryderon, boed hynny yn cael ei fynegi ar lafar neu drwy

ymddygiadau eraill. Roedd cyfranogwyr mewn un o'r grwpiau ffocws yng Nghymru yn ystyried bod gan swyddogion Cafcass Cymru safbwyntiau seiliedig ar stereoteip ynghylch sut y dylai plant ymateb petaent wedi gweld neu ddioddef camdriniaeth, a phe na baent yn ymddwyn yn unol â'r stereoteip, nid oedd eu honiadau o gam-drin yn cael eu credu.

Hefyd, mynegodd sefydliadau a mamau bryderon ynghylch y methiant i ymgynghori'n ddigonol â phlant iau. Mae'r llenyddiaeth ymchwil yn dangos po hynaf y plentyn, y mwyaf tebygol yw y bydd eu safbwyntiau yn ddiffiniol.¹⁰⁰ Ond, mae rhai ymchwilwyr wedi canfod bod plant ifanc iawn yn gallu deall, cyfranogi a mynegi safbwynt os darperir iddynt amgylcheddau ac offer sydd yn briodol i'w hoedran er mwyn bodloni eu hanghenion cyfathrebu.¹⁰¹

6.9 Rhwystrau rhag clywed plant - y diwylliant o blaid cyswllt.

Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd ynghylch pam bod lleisiau plant ddim yn cael eu clywed mewn achosion cam-drin domestig yw'r diwylliant o blaid cyswllt. Roedd dau ffactor penodol yn cael eu nodi dro ar ôl tro yn y cyflwyniadau: y syniad bod y llys eisoes yn gwybod beth oedd ei angen ar blant a honiadau o elyniaethu rhieni. Roedd y ddau yn golygu na cheisiwyd clywed am ddymuniadau na theimladau plant, ac nid oeddent y cael eu clywed dim ond os oeddent yn mynegi dymuniad i gael cyswllt.

6.9.1 Dibyniaeth ar syniadau cyffredinol ynghylch beth mae plant ei angen neu ei eisiau

Nododd ystod eang iawn o grwpiau proffesiynol, yn ogystal â mamau, plant a rhai tadau bod cryfder y diwylliant o blaid cyswllt yn golygu y rhoddwyd pwys cyfyngedig yn unig i safbwyntiau plant unigol, os o gwbl. Nododd Barnardos bod yr holl grwpiau sydd yn ymwneud â phroses trefniadau plant yn dechrau gyda safbwynt o blaid cyswllt gan "wneud ymdrechion sylweddol i wireddu hynny".

Roedd cyfranogwr yn y grŵp ffocws FJYPB yn bryderus y gallai'r syniadau cyffredinol yma ynghylch beth mae plant ei angen weithredu ar draul dymuniadau a lles plant:

"Nid yw'r rhagdybiaeth o gyswllt yn fuddiol o gwbl. Mae'n rhoi hawliau rhieni o flaen plant. Yn y pen draw, oni bai y gall plant edrych ar ôl eu hunain ac amddiffyn eu hunain, mae'n eu rhoi mewn sefyllfa ble maent yn wynebu risg o niwed, yn emosiynol a chorfforol". **FJYPB**

¹⁰⁰ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 7.3.

¹⁰¹ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 7.3.

Roedd y safbwyntiau hynny yn cael eu hadlewyrchu gan rai gweithwyr proffesiynol a therapyddion a ddywedodd:

“Mewn rhai achosion mae'n ymddangos bod yna ragdybiaeth bod hawliau'r tad fel riant yn drech na dymuniadau a theimladau'r plentyn. Mewn nifer o achosion, mae'n ymddangos bod gweithwyr Cafcass a gweithwyr cymdeithasol wedi ystyried mai eu rôl yw perswadio'r plentyn i gytuno i gael cyswllt gyda'u tadau, beth bynnag fo ymddygiad y tad (mae hynny yn cynnwys achosion pan fo'r tad wedi cael ei euogfarnu am droseddau sydd yn gysylltiedig â cham-drin domestig) a dymuniadau'r plentyn.” **Therapydd**

Yn yr un modd dywedodd Hawliau Merched:

“Rydym wedi cael ein hysbysu [gan ddefnyddwyr gwasanaeth] bod swyddogion Cafcass yn gwneud argymhellion o gyswllt heb oruchwyliaeth gyda chyflawnydd camdriniaeth nad ydynt yn barod i eistedd yn yr un ystafell â nhw oherwydd eu bod yn achosi risg i'r gweithwyr Cafcass.” **Hawliau Merched**

Roedd y grwpiau tadau wedi eu rhannu i raddau ynglŷn â'r mater yma. Er enghraifft, nododd Mankind bod ei IDVA yn credu nad oedd gweithwyr cymdeithasol a swyddogion Cafcass yn gwrando ar nac yn ystyried dymuniadau plant. Ond, roedd grwpiau tadau eraill yn fwy tebygol o gyffredinoli yn yr un modd ynghylch beth mae plant ei eisiau a'i angen, ac yn ffafrio peidio ag ymgynghori yn uniongyrchol â phlant.

“Mae'r rhan fwyaf o'r plant sydd wedi cael perthnasoedd da gyda'r ddau riant cyn y gwahanu yn syml eisiau i bopeth fynd yn ôl fel ag yr oeddent cyn gynted â phosibl - neu o leiaf cyn agosed i sut yr oedd pethau yn ymarferol pan fo'u rhieni yn byw mewn gwahanol gartrefi. Ni ddylai plant gyfranogi oni bai fod eu tystiolaeth yn bwysig, mae'n debyg ar ôl canfyddiadau cychwynnol sydd yn ymwneud â'r oedolion...” **Families Need Fathers**

6.9.2 Diwylliant o blaid cyswllt a gelyniaethu

Mae 'gelyniaethu rhieni'¹⁰² y seiliedig ar syniad y dylanwadwyd ar ddymuniadau a theimladau plant gan y rhiant sydd yn 'gelyniaethu', ac felly dylid diystyru hynny.¹⁰³ Roedd nifer o gyflwyniadau yn dadlau y gallai'r defnydd cynyddol o 'elyniaethu rhieni'¹⁰⁴ dawelu plant. Os bydd plant wedi cael eu gelyniaethu, ystyrir bod eu dymuniadau a'u teimladau wedi cael eu llygru. Roedd cyflwyniadau hefyd yn nodi bod cyhuddiad o 'elyniaethu rhieni' yn golygu y bydd y rhiant sydd yn destun yr honiad yn cael ei drin fel 'un sy'n gelyniaethu', yn hytrach na rhiant gwarchodol sydd ag ofnau dilys ynghylch herwyddio neu drais. Mae hynny o bosibl yn gadael plant sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig mewn sefyllfa sydd yn agored iawn i niwed, oni bai fod yna beth tystiolaeth 'gwrthrychol' o'r gamdriniaeth neu asiantaeth annibynnol sydd â dylanwad. Er enghraifft dyfynnodd Cymorth i Ferched Cymru un o'u defnyddwyr gwasanaeth oedd wedi cael y profiad hwnnw:

“Nid oedd neb eisiau gwrando ar lais fy mhlentyn oherwydd eu bod wedi eu hargyhoeddi fy mod wedi dylanwadu ar y plant i beidio bod eisiau eu tad. Nes bod y plant wedi datgelu i'r ysgol y niwed yr oedd eu tad wedi bod yn ei wneud tra yr oeddwn dan orchymyn i anfon fy mhiant neu risgio mynd i garchar neu eu colli.” **Cymorth i Ferched Cymru**

Roedd nifer o gyflwyniadau yn mynegi pryder am weithwyr proffesiynol yn llunio casgliadau byrbwyll bod plentyn sydd yn gwrthod treulio amser gyda rhiant camdriniol wedi cael ei elyniaethu, yn hytrach nag ystyried bod y gwrthodiad yn ganlyniad i ymddygiad camdriniol y rhiant. Roedd Refuge yn dadlau bod swyddogion Cafcass yn blaenoriaethu'r risg o elyniaethu'r tad o bosibl ar draul effaith cam-drin domestig ar les y goroeswr a'u plant.¹⁰⁵ Nododd eraill bod gweithwyr proffesiynol yn barod i weld arwyddion o elyniaethu, ac oherwydd hynny yn tawelu'r plant yn hytrach nac asesu mwy o beth allai'r plentyn fod wedi ei weld neu ei ddioddef. Roedd hynny yn amlwg iawn pan fo honiadau o gam-drin rhywiol wedi cael eu gwneud.

¹⁰² Nid yw'r diffiniad yma o elyniaethu rhieni yn cael ei gydnabod fel un gaiff ei ddefnyddio, neu ei gymhwyso gan y Llys Teulu, gan yr holl aelodau panel, yn arbennig y rhai hynny o'r Cymdeithas Cyfreithwyr Plant ac aelodau barnwrol y panel.

¹⁰³ Gweler, e.e. y papur a ddyfynnir yn eang gan K Weir (2011) 'High conflict contact disputes: Evidence of the extreme unreliability of some children's ascertainable wishes and feelings', *Family Court Review* 49(4): 788.

¹⁰⁴ Gweler A Barnett (2020) 'A genealogy of hostility: parental alienation in England and Wales', *Journal of Social Welfare and Family Law* 42(1): 18–29; adolygiad o lenyddiaeth, adran 7.2.

¹⁰⁵ Mae'r panel yn nodi bod Cafcass a Cafcass Cymru wedi mabwysiadu canllawiau ymarfer gwahanol mewn perthynas â gelyniaethu rhieni. Gweler Cafcass, Child Impact Assessment Framework: <https://www.cafcass.gov.uk/grown-ups/professionals/ciaf/>; Cafcass Cymru, Children's resistance or refusal to spend time with a parent: practice guidance: <https://gov.wales/childrens-resistance-or-refusal-spend-time-parent-cafcass-cymru-practice-guidance>. Mae Cafcass Cymru hefyd wedi comisiynu adolygiad o ymchwil a chyfraith achos ar elyniaethu rhieni: J Doughty, N Maxwell and T Slater, *Review of research and case law on parental alienation* (2018).

“Mewn achosion pan fo plant wedi datgelu camdriniaeth rywiol neu wedi arddangos ymddygiad allai fod yn arwydd o gam-drin rhywiol gan y tad, dim ond ychydig iawn o ffocws sydd yna ar gaffael llais y plentyn mewn achosion llys teulu. Mae'n ymddangos bod y ffocws sylfaenol ar y rhieni, ac yn aml bydd craffu dwys ar gymhelliant y fam i wneud honiadau o gam-drin rhywiol. Mewn achosion roeddem yn ymwybodol bod plant wedi gwneud datgeliadau, graffig ar brydiau, o gam-drin rhywiol i weithwyr proffesiynol a/neu rieni a gofalwyr, ond er hynny, mae'r Barnwr wedi barnu na ddigwyddodd y cam-drin rhywiol.” **CARA**

I'r gwrthwyneb, roedd nifer o gyflwyniadau gan dadau yn gwahaniaethu rhwng gwir dymuniadau a theimladau'r plentyn a fynegwyd gan ddadlau na ddylai dymuniadau a fynegir yn erbyn cyswllt gael eu hystyried yn llythrennol. Dywedodd rhai tadau yn y grŵp ffocws DVIP eu bod hefyd wedi tybio ei bod yn rhaid bod safbwyntiau eu plant wedi cael eu dylanwadu gan eu mamau, oherwydd nad oedd y safbwyntiau hynny yn cydweddu â'r naratif yr oedd ganddynt yn eu meddyliau (e.e. roedd y plant yn eu gwely, heb glywed dim, yn ifanc iawn, ni fyddant yn cofio...). Roeddent yn cyfaddef nad oeddent wedi deall effaith eu camdriniaeth ar eu plant cyn hynny, ond bod mynd ar y cwrs wedi eu helpu i ddeall y trawma a achoswyd hyd yn oed i'r plant ieuengaf o ganlyniad i fyw gyda chamdriniaeth.

Felly, er bod 'gelyniaethu' efallai wedi dod yn wrth-honiad cyffredin, roedd cyflwyniadau yn amlygu'r peryglon gwirioneddol o dderbyn hynny fel yr eglurhad rhagosodedig pam nad yw plant eisiau cyswllt.

6.9.3 Anawsterau wrth gadarnhau dymuniadau a theimladau

Roedd cyflwyniadau yn cydnabod bod cadarnhau dymuniadau a theimladau plant, yn arbennig plant iau, yn broses heriol. Roedd rhai cyflwyniadau gan therapyddion yn nodi'r anawsterau yr oedd rhai plant yn eu hwynebu “o ganlyniadau i ffyddlondeb yn cael ei rwygo” a ffactorau cymhleth eraill (e.e. emosiynol, seicolegol)”.

“Mae'n amlwg yn fy asesiadau a gwaith therapiwtig gyda phlant eu bod yn aml yn cael anhawster mynegi eu dymuniadau a theimladau oherwydd eu bod yn ofni'r canlyniadau. Maent yn ofni achosi loes i'r naill riant neu'r llall. Yn ddibynnol ar eu sefyllfa, efallai y byddant yn rhoi ymatebion cyferbyniol yn ddibynnol ar y cyd-destun a'r amgylchedd ble ceisir caffael eu safbwyntiau. Mewn rhai amgylchiadau gall plant fod yn anghydweiddol - nid yw'r safbwyntiau maent yn eu mynegi yn cyfateb i iaith y corff a'r gweithredoedd a welir. Mae angen archwilio mwy i unrhyw anghysonder o'r fath.” **Seicolegydd Cwnsela, galwad am dystiolaeth**

Yn yr un modd, nododd Cymorth i Ferched Cymru, pan fo plentyn wedi profi rheolaeth drwy orfodaeth gan riant camdriniol “efallai bod y llais a glywir ar y dechrau gan weithwyr

proffesiynol wedi cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan y cyflawnydd, yn hytrach na'i fod yn mynegi gwir ddymuniadau a theimladau'r plentyn".

Awgrymodd rhai grwpiau tadau na ddylid ymgynghori â phlant o ystyried yr anawsterau yma:

"NID YW mwyafrif helaeth o blant yn dymuno cymryd rhan mewn achosion llys. Pan fônt yn dymuno hynny, mae eu llais fel arfer yr un fath â llais y rhiant maent yn dymuno byw gyda hi/ef. Yn gyffredinol, maent eisiau i benderfyniad gael ei wneud am eu dyfodol gan oedolyn sydd yn pryderu am beth sydd yn digwydd iddynt. Yn gyffredinol nid ydynt yn gallu nac yn dymuno ymgysylltu â thystiolaeth a chymryd ochrau." **Cymdeithas Genedlaethol Rhieni a Elyniaethwyd**

Er hynny, mae ymchwil a thystiolaeth grŵp ffocws FJYPB Cafcass yn awgrymu bod plant eisiau cael eu hymgyngori, ac na ddylai eu lleisiau gael eu diystyru fel lleisiau sydd yn adlewyrchu safbwyntiau y rhiant preswyl yn unig. Ymateb cyffredin yn yr alwad am dystiolaeth oedd amlygu yr angen am asesiadau sgiliedig ar y cychwyn gyda meddwl agored, yn hytrach na damcaniaethau pendant ynghylch beth sydd yn digwydd, allai arwain at gasgliadau hollol amhriodol. Dylai'r asesiad sgiliedig hwnnw asesu holl amgylchiadau achos unigol er mwyn helpu'r llys i benderfynu beth sydd er lles y plentyn, ond wrth gwrs mae i hynny oblygiadau o ran adnoddau.

6.10 Rhwystrau rhag clywed plant - diffyg cydlyniant a gweithio mewn seilo

Thema gyson ymysg sefydliadau cam-drin domestig a gwaith cymdeithasol a phobl ifanc oedd ei bod yn ymddangos bod y llysoedd yn gweithredu heb gyfeirio at asiantaethau nac awdurdodaethau eraill, a'u bod felly yn methu â chasglu neu werthfawrogi tystiolaeth gan y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o weithio â'r plant neu'r teulu. Nododd sefydliadau yn cynnwys Barnardos, Safelives, Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr a Cymorth i Ferched Cymru bod y broses llys, yn arbennig wrth baratoi adroddiadau Adran 7, yn methu â manteisio ar arbenigedd staff gwasanaethau plant arbenigol oedd yn gyfarwydd â'r teulu. Nid yn unig mai cysylltiad cyfyngedig oedd gan FCA Cafcass/Cymru a gwarchodwyr gyda gweithwyr proffesiynol eraill, ond hefyd arsylwyd bod barnwyr yn rhoi mwy o bwys ar safbwyntiau swyddogion Cafcass/Cymru oedd wedi treulio amser cyfyngedig iawn, yn hytrach na'r gweithwyr proffesiynol hynny oedd wedi gweithio â'r un plant ac wedi datblygu perthynas gyda nhw dros gyfnod o amser estynedig. Roedd Barnardos yn dadlau yn gryf bod angen i lysoedd teulu weithio yn agosach gyda sefydliadau sydd wedi bod yn gweithio yn uniongyrchol â phlant ac oedolion sydd yn ddiodefwyr er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau, ac roeddent yn cynnig y

dylai Cafcass a'r llysoedd fod yn ymwybodol o asiantaethau neu elusennau cam-drin domestig a/neu blant oedd wedi bod yn cefnogi'r teulu.

Hefyd mynegodd mamau bryderon bod adroddiadau Adran 7 yn cael eu paratoi heb gyfeirio at wasanaethau eraill.

Mae fy meddyg yn fy adnabod i, yn credu beth wyf wedi mynd drwyddo. Mae ef [cynbartner] yn fy mygwth drwy ddod i fy ngwaith, a maent yn gwybod am hynny. Mae fy nghyflogwr a fy meddyg yn gefnogol. Mae'r heddlu yn gwybod. A ofynnwyd iddynt? Roedd gan fy mhlentyn swyddog lles yn yr ysgol [oherwydd y gamdriniaeth] ac ni ofynnwyd dim iddynt." **Mam, galwad am dystiolaeth**

Ond, roedd yna enghreifftiau cadarnhaol o hynny yn digwydd. Dywedodd un fam:

"Gwrandawodd y llys ar fy merch ac mae'r gorchymyn yn seiliedig ar ei dymuniadau a'i theimladau hi, ac mae hi bron yn 10 oed. Roedd Cafcass, ei hysgol a'r meddyg teulu yn gefnogol iddi hi a minnau." **Cyfranogwr Grŵp Ffocws Goroeswyr**

Roedd grŵp ffocws FJYPB yn cymeradwyo'r angen i gasglu gwybodaeth yn ehangach a mwy o gydlynw ag asiantaethau eraill.

"Rwy'n credu bod angen iddynt fod yn fwy agored i dystiolaeth gan bobl sydd yn agos i'r plentyn, gan bobl broffesiynol mewn manau fel yna sydd yn adnabod y teulu ac yn adnabod y plant. Mae ysgolion yn gwybod yn dda iawn.... Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o ysgolion yn gwybod beth sydd yn digwydd. Gall y rhan fwyaf o'r athrawon weithio allan beth sydd yn poeni'r plentyn a beth yw sefyllfa'r teulu". **Grŵp Ffocws Pobl Ifanc**

Ond, roedd y grŵp hefyd yn pwysleisio'r angen i ymholiadau ehangach ynghylch dymuniadau a theimladau plant gael eu harwain gan y plentyn. Nododd un cyfranogwr bod athro yr oedd plentyn wedi ymddiried ynddo wedi ffonio'r rhiant camdriniol yn syth i ddweud beth oedd wedi cael ei ddweud. Roedd yna gytundeb cyffredinol yn y grŵp mai gofyn i'r plentyn gyda phwy y dylai'r swyddog Cafcass siarad â nhw fyddai'r ffordd orau o gael darlun mwy cyflawn.

6.11 Rhwystrau rhag clywed plant- y broses wrthwynebol

Y pwynt olaf yw bod y broses wrthwynebol, yn ôl ei ddiffiniad, yn eithrio plant rhag chwarae rôl, ac eithrio mewn achosion prin pan fônt yn barti i'r achos. Hyd yn oed yn yr achosion mwyaf prin pan fo plant yn ymwneud yn uniongyrchol yn yr achos, mae natur y broses o ganolbwyntio ar yr oedolion yn hyd yn oed mwy amlwg. Derbyniodd y panel

y chydig iawn o dystiolaeth am achosion o'r fath, oherwydd eu prinder. Ond, amlygodd un gweithiwr camdriniaeth ddomestig pa mor amhriodol y gall y broses fod mewn perthynas â phlant yn rhoi tystiolaeth. Adroddwyd am achos pan gafodd y gamdriniaeth honedig ei ddiddymu oherwydd tystiolaeth anghywir neu gyferbyniol oherwydd bod "proses y llys wedi ei gwneud yn anodd ac wedi creu straen i'r plentyn wrth geisio adrodd beth a ddigwyddodd". Adroddodd y gweithiwr y gadawyd y plentyn ag "euogrwydd mawr am eu bod wedi 'gwneud hynny yn anghywir' yn y llys a bod y tad wedi osgoi cael ei gosbi am gam-drin ei fam a'i [brawd/chwaer] yn gorfforol ac emosiynol".

6.12 Casgliad

Mae Deddf Plant 1989 ac UNCRC yn egluro y dylid ystyried dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc mewn achosion sydd yn ymwneud â nhw. Mae ymchwil a chyflwyniadau i'r panel, yn fwyaf nodedig gan y bobl ifanc eu hunain, wedi amlygu pa mor bwysig yw bod llais plant yn cael eu clywed, er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud. Ond, mae'r dystiolaeth a adolygwyd gan y panel yn dangos na ymgynghorir yn uniongyrchol â chyfran fawr o'r plant mewn achosion cyfraith breifat sydd yn ymwneud â cham-drin domestig a cham-drin plant, a bod safbwyntiau y rhai sydd yn eu mynegi ddim yn cael eu clywed yn aml iawn.

Rhodddwyd amrywiaeth o resymau pam fod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu heithrio neu eu tawelu. Mae'r rhain yn cynnwys diwylliant o blaid cyswllt sydd yn golygu y tybiwyd y byddai plant yn elwa o gyswllt hyd yn oed pan fo gan blant resymau amlwg a chyfiawn dros ddymuno osgoi cyswllt â rhiant camdriniol. Roedd cyflwyniadau hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd cyfyngiadau ar adnoddau oedd yn cyfyngu ar nifer y plant y gellid ymgynghori â nhw yn uniongyrchol, yn ogystal â gallu Cafcass/Cymru i neilltuo digon o amser i feithrin perthynas â'r plentyn. Roedd cyflwyniadau hefyd yn cyfeirio at ddiffyg ymgynghori ag asiantaethau eraill. Yn benodol, roedd elusennau cam-drin domestig ac elusennau plant yn nodi bod Cafcass/Cymru a'r llysoedd wedi methu â manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd gweithwyr plant arbenigol oedd eisoes yn gweithio â theuluoedd.

Nodwyd nifer o ganlyniadau sydd yn deilio o beidio â chlywed safbwyntiau plant a phobl ifanc. Roedd y rhai yn cynnwys plant yn teimlo eu bod yn cael eu siomi, ac efallai mai'r pryder mwyaf oedd canfyddiad bod y llys yn methu â gwarchod plant rhag niwed yn y dyfodol drwy beidio â gwrando ar adroddiadau plant o ofni niwed gan rieni camdriniol.

Un o amcanion allweddol y diwygiadau a argymhellir gan y panel i achosion trefniadau plant ym mhennod 11 yw hyrwyddo anghenion a dymuniadau plant sydd yn dioddef camdriniaeth ddomestig neu droseddau difrifol eraill. Mae argymhellion penodol ar gyfer cryfhau llais y plentyn yn yr achosion yma ar gael yn adran 11.6.

7. Sut yr ymdrinnir â honiadau

7.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn trafod y weithdrefn a ddefnyddir gan y llysoedd teulu wrth ymateb i honiadau o gam-drin domestig mewn achosion trefniadau plant. Yn y bennod hon mae'r panel yn edrych ar y dystiolaeth a dderbyniwyd ynghylch sut mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J (PD12J) yn cael ei roi ar waith yn ymarferol.

Roedd y dystiolaeth yn mynegi pryderon nad yw PD12J yn gweithio yn ôl y bwriad. Roedd yna bryderon ei fod yn cael ei roi ar waith yn anghyson, ac nad yw'n effeithiol o ran gwarchod plant ac oedolion sydd wedi dioddef camdriniaeth rhag dioddef mwy o niwed.

Mae'r dystiolaeth hon yn gyson â chanfyddiadau ymchwil blaenorol ar PD12J, cyn ac ar ôl ei ddiwygio yn 2014.¹⁰⁶ Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwil empirig systematig i ddiwygiadau 2017 i PD12J.¹⁰⁷ Derbyniwyd dystiolaeth amrywiol ynghylch effeithiau adolygiadau 2017. Er enghraifft, roedd cyfranogwyr i gyfarfod bord gron Hawliau Merched yn awgrymu bod mwy o wrandawliadau canfod ffeithiau yn cael eu cynnal ers 2017. Ar y llaw arall, adroddodd Cymorth i Ferched Cymru: "Mae nifer o weithwyr cymorth arbenigol wedi dweud wrthym nad ydynt wedi gweld Cyfarwyddyd Ymarfer 12J yn cael ei gymhwyso'n gyson ers yr adolygiad yn 2017, ac ni allant roi unrhyw enghreifftiau o sut mae wedi gwella deilliannau ers y newidiadau." Yn gyffredinol, roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan rieni, yr oedd eu profiad yn y llysoedd teulu yn ystod 2018-19 yn unig, yn amlwg yn wahanol i'r dystiolaeth sydd yn gysylltiedig â chyfnodau cynharach.

Mae'r rhwystrau tanategol a nodir ym mhennod 4 yn helpu i egluro pam nad yw adolygiadau dilynol o PD12J wedi gwneud llawer o wahaniaeth efallai yn ymarferol. Roedd

¹⁰⁶ M Coy et al, *Picking up the Pieces: Domestic Violence and Child Contact* (2012); R Hunter and A Barnett, *Fact-finding Hearings and the Implementation of the President's Practice Direction: Residence and Contact Orders: Domestic Violence and Harm* (2013); A Barnett (2014) 'Contact at all costs? Domestic violence and children's welfare', *Child and Family Law Quarterly* 26: 439–62; A Barnett (2015) "Like gold dust these days": Domestic violence fact-finding hearings in child contact cases', *Feminist Legal Studies* 23: 47–78; M Harding and A Newnham, *How do County Courts Share the Care of Children Between Parents? Full Report* (2015); Women's Aid Federation of England, *Nineteen Child Homicides* (2016); J Birchall and S Choudhry, *What About My Right Not to be Abused? Domestic Abuse, Human Rights and the Family Courts* (2018); R Hunter, A Barnett and F Kaganas (2018) 'Introduction: Contact and domestic abuse', *Journal of Social Welfare and Family Law* 40(4): 401–25; J Harwood, *Child Arrangements Orders (Contact) and Domestic Abuse – an Exploration of the Law and Practice* (PhD thesis, Warwick University, 2019); see literature review section 9.

¹⁰⁷ Mae ymchwil a wnaethpwyd ers adolygiadau 2017 yn cynnwys M Lefevre and J Damman, *Practice Direction 12J: What is the Experience of Lawyers Working in Private Law Children Cases?* (2020), yn seiliedig ar arolwg o ymarferwyr yn Sussex; ac IDAS, *Domestic Abuse and the Family Courts* (2020), yn seiliedig ar arolygon, grwpiau ffocws a gweithdai gyda dioddefwyr/goroeswyr, gweithwyr cymorth a darparwyr gwasanaeth, yn cynnwys y farnwriaeth a Cafcass.

y dystiolaeth a dderbyniodd y panel yn nodi sut mae'r rhwystrau tanategol hynny yn gweithio i danseilio effeithiolrwydd PD12J. Roedd pryderon am adnoddau cyfyngedig yn benodol amlwg mewn perthynas â hynny. Roedd ymatebwyr barnwrol ac ymarferwyr yn unfrydol o ran cytuno bod adnoddau cyfyngedig yn rhwystr mawr i weithredu PD12J yn effeithiol, yn cynnwys yr anallu i ddarparu dilyniant barnwrol, a'r nifer fawr o LIP sydd nawr yn ymddangos mewn achosion plant cyfraith breifat. Hefyd roedd ymatebwyr unigol yn dweud nad oes gan lysoedd ddigon o amser ar gyfer pob achos, gan brosesu achosion yn unig heb ymgysylltu â'r partïon, dim digon o amser yn cael ei ddyrannu ar gyfer gwrandawiadau, barnwyr ac ynadon ddim yn darllen dogfennau sydd wedi eu ffeilio cyn gwrandawiadau, ac anawsterau cyfathrebu rhwng y llysoedd ac ymglyfreithwyr. Roedd y dystiolaeth hefyd yn dangos sut mae diwylliant y llys o blaid cyswllt, y broses wrthwynebol o ran canfod ffeithiau a gweithio mewn seilo mewn perthynas â'r llysoedd teulu yn cyfyngu ar effeithiolrwydd PD12J. Os nad eir i'r afael â phroblem adnoddau cyfyngedig a'r rhwystrau tanategol eraill, byddant yn parhau i gael effaith negyddol ar weithredu'r Cyfarwyddyd Ymarfer.

7.2 Arsyllwadau cyffredinol ar PD12J

Mae PD12J yn nodi'n fanwl beth ddylai llys ei wneud pan fo honiadau o gam-drin domestig yn cael eu gwneud mewn achos trefniadau plant. Roedd y rhan fwyaf o'r cyflwyniadau yn rhoi tystiolaeth ynghylch agweddau penodol y broses PD12J yn hytrach na'r cyfarwyddyd ymarfer at ei gilydd. Roedd y rhai a roddodd sylwadau cyffredinol am PD12J yn mynd i'r afael â thair elfen: drafftio PD12J, effeithiolrwydd PD12J pan gaiff ei gymhwyso, a rhoi PD12J ar waith yn ymarferol.

Cafwyd nifer cymharol fychan o sylwadau ar ddrafftio PD12J. Roedd rhai ymatebwyr proffesiynol yn dadlau bod PD12J wedi cael ei ddrafftio yn wael, ei fod yn rhy hir a chymhleth, yn agored i gael ei ddehongli mewn ffyrdd amrywiol, ac nad oedd yn hawdd ei ddefnyddio i rai nad ydynt yn gyfreithwyr. Roedd rhai tadau yn mynegi pryder ynglŷn â'r ffaith ei fod wedi ei fframio fel mai'r rhiant nad yw'n preswyllo yw'r camdriniwr honedig a'r rhiant preswyl yw'r dioddefwr honedig. Mae hynny yn methu â chynnwys y sefyllfa pan mai'r rhiant y mae'r plentyn yn byw gydag ef/hi yw'r camdriniwr honedig. Ond, nid oedd y rhan fwyaf o'r pryderon ynghylch PD12J yn ymwneud â'r drafftio.

Roedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr proffesiynol a ymatebodd yn credu bod PD12J yn effeithiol, cyn belled â'i fod yn cael ei ddilyn. Er enghraifft, dywedodd Nagalro: "Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J, pan gaiff ei roi ar waith, yn effeithiol iawn o ran amddiffyn plant a dioddefwyr camdriniaeth. Ond mae Nagalro yn deall bod y diffyg adnoddau yn y llysoedd a diffyg cyngor cyfreithiol sydd ar gael i'r rhieni yn amharu ar y broses o'i weithredu."

Fel mae'r dyfyniad yma yn ei ddangos, thema allweddol y cyflwyniadau oedd bod yna ddiffygion difrifol yn y broses o weithredu PD12J. Mae ymatebwyr yn canfod bod yna fwlc

sylweddol rhwng y 'gyfraith yn y llyfr' o ran y Cyfarwyddyd Ymarfer a'r 'gyfraith ar waith' ynghylch sut mae'n cael ei weithredu ar lawr gwlad.

Rhoddodd nifer o bartïon unigol dystiolaeth ynghylch cymhwyso PD12J yn eu hachos neu ddisgrifio gweithdrefnau oedd yn dangos bod PD12J wedi cael eu cymhwyso. Ond roedd nifer o bartïon unigol yn honni na chyfeiriwyd at PD12J, ac na chafodd ei ddwyn i'w sylw, neu y'i diystyrwyd gan farnwyr a chyfreithwyr. Cyfeiriodd ymatebwyr unigol a rhai gweithwyr proffesiynol at ddiffyg ymwybyddiaeth neu gynefindra â PD12J ar ran rai Ymadon, swyddogion Cafcass a gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol yn benodol.. Ond roedd yn ymddangos bod pryderon ynghylch peidio cymhwyso PD12J yn llai cysylltiedig â diffyg ymwybyddiaeth farnwrol neu broffesiynol, ond yn fwy â chanfyddiad yr ymatebwyr bod y llys wedi anwybyddu, gwrthod gwrando neu ddiystyru honiadau o gam-drin domestig yr oeddent wedi eu datgan, ac wedi gwrthod gorchymyn gwrandawriad canfod ffeithiau. Er enghraifft, adroddodd un fam: "Bu i mi atgoffa'r barnwr am 12J a gofyn iddo pam nad oedd wedi gorchymyn canfod ffeithiau, ac fe ddywedodd, ac rwy'n dyfynnu, gwrandewch ferch ifanc, peidiwch chi â dweud wrtha i am y gyfraith. Ac fe'i hanwybyddodd". Mae'r achos canlynol yn enghraifft mwy estynedig:

Gofynnwyd i mi fynychu gwrandawriad llys FHdra ym Mawrth 2019. ...[Fel] rhiant sengl ar incwm isel, oedd â thystiolaeth o gam-drin domestig a gyflawnwyd gan dad fy mhlentyn ers 2016, roedd gen i hawl cael cymorth cyfreithiol. Ond, oherwydd na roddwyd dim ond un mis o rybudd, nid oedd digon o amser i drefnu'r arian, felly fe'm gorfodwyd i gynrychioli fy hun fel Ymgyfreithiwr Dros fy Hunan. ...Yn ystod [cymodi] gyda'r swyddog Cafcass, dywedais fy mod yn gwneud cais am ymchwiliad canfod ffeithiau i'r honiadau yn fy erbyn i [o 'elyniaethu rhieni' a herwydio plentyn] a fy honiadau fy hun o gam-drin domestig ynghyd ag Adran 7, a bod fy mab yn dymuno cael llais mewn perthynas â'r penderfyniadau fyddai'n cael eu gwneud ar ei ran. Trodd y swyddog Cafcass ataf a dweud mewn llais dirmygus "Ie, tydi hynny ddim yn mynd i ddiwydd". ...Cafodd y wybodaeth a'r dystiolaeth yr oeddwn wedi eu darparu i'r llys mewn perthynas â cham-drin domestig, yn cynnwys hanes o ymddygiad o reoli a gorfodi, cam-drin a dylanwadu seicolegol a difrodi fy eiddo personol, a bygythiadau emosiynol a cham-drin corfforol tuag ataf i a fy mab, eu hanwybyddu yn llwyr gan y swyddog Cafcass a'r llys - eu hanwybyddu, eu diystyru a'u hysgubo o dan y carped, fel pe na baent yn arwyddocaol o gwbl ac nad oeddent yn bwysig. Roeddwn hefyd wedi cyfeirio at alcoholiaeth y tad, ac anwybyddwyd hynny yn yr un modd. Ond eto, dywedodd Ymgyngorydd y llys a'r Ynadon sylwadau megis "Beth am weld beth allwn ei wneud i Dad". **Mam, galwad am dystiolaeth**

Adroddodd nifer fechan o ymatebwyr am brofiadau cadarnhaol gyda'r Cyfarwyddyd Ymarfer:

“Rwyf yn ffodus bod gen i farnwr sydd wedi deall cyfarwyddyd 12J yn arbennig o dda ac mae wedi bod yn rhyfeddol tuag ataf, ond mae hefyd wedi rhoi llawer gormod o gyfleoedd i fy nghamdriniwr oherwydd nad yw'n darparu'r dogfennau y mae'n gorchymyn iddo eu darparu! Efallai y byddai'n farnwr da ar gyfer helpu barnwyr eraill i ddeall, oherwydd rwyf yn gwybod 100% fy mod yn un o'r ychydig rai lwcus a dderbyniodd hynny.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Ond, roedd ymatebion cadarnhaol o'r fath yn lleiafrif o blith y rhai a ddarparodd dystiolaeth i'r panel.

7.3 Rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni

Ychwanegwyd rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni i Ddeddf Plant 1989 yn 2014. Ar un lefel ni ychwanegodd lawer i'r gyfraith achos oedd yn bodoli sydd yn hyrwyddo cyfranogiad parhaus y ddau riant ym mywydau'r plant ar ôl gwahanu.¹⁰⁸ Ond ar lefel arall, roedd yn rhoi sylfaen statudol i hynny oedd yn cyfyngu ar y posibilrwydd o ddatblygu cyfraith achos mewn ffordd sydd yn newid pwyslais, gan atgyfnerthu'r cysyniad y dylai unrhyw eithriadau i'r norm o gyswllt fod yn gyfyngedig. Mae paragraff 7 PD12J yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ym mhob achos ystyried yn ofalus a yw rhagdybiaeth yn gymwys, gan ystyried yn benodol unrhyw honiadau neu dystiolaeth o niwed neu risg o niwed o gam-drin domestig.

Mynegodd ymatebwyr proffesiynol safbwyntiau amrywiol iawn ynghylch effaith y rhagdybiaeth. Roedd rhai yn cytuno â hynny ac yn tybio ei fod yn ffordd ddefnyddiol o atgoffa; dywedodd eraill ei fod yn ddiystyr ac na chyfeiriwyd ato fyth. Dywedodd British Autism Advocate ei fod wedi bod yn drychinebus: “Gall roi 18 mlynedd o ryddid i gyn-bartner camdriniol i gam-drin/rheoli nid yn unig y cyn-gymar ond hefyd y plant eu hunain heb warchodaeth”.

Roedd mamau hefyd yn teimlo ei fod yn rhoi pŵer i'r rhiant camdriniol dros y rhiant nad yw'n gamdriniol a'r plant, ac yn arf cyfreithiol y gallai'r camdriniwr ei ddefnyddio fel y mynno. Roeddent yn teimlo bod y rhagdybiaeth yn rhoi pwys amhriodol ar hawl y plentyn i gael perthynas â'r ddau riant a hawl y tad i gael bywyd teuluol, ar draul lles y plentyn a'i hawl i gael ei ddiogelu rhag camdriniaeth ac effeithiau hynny:

¹⁰⁸ F Kaganas (2018) 'Parental involvement: A discretionary presumption', *Legal Studies* 38: 549-70; adolygiad o lenyddiaeth, adran 7.1.

“Mae hwn yn ddarn peryglus iawn o ddeddfwriaeth. Mae tad fy mhlentyn yn ddyn bygythiol, niweidiol sydd yn rheoli. ...Mae angen edrych yn ofalus ar hynny. Nid yw'n briodol tybio, cyn ymchwiliad, y bydd rhywun yn gwella lles plentyn dim ond oherwydd eu bod yn rhannu yr un genynnau” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Roedd mamau yn dadlau bod y rhagdybiaeth yn golygu bod achosion yn cael eu barnu ar sail generig yn hytrach nac ar sail y plentyn unigol, ac nad oedd llysoedd yn edrych ar y ffeithiau a bod llais y plentyn yn cael ei gollu. Dywedodd mamau yn un o'r grwpiau ffocws y dywedwyd wrthynt gan eu cyfreithwyr y byddid yn caniatáu cyswllt i'w camdrinwyr ac nad oedd yna ddim y gallent ei wneud am hynny.

“Roedd fy nghyfreithiwr yn cydymdeimlo yn llwyr gan ddweud ei fod yn deall yn iawn, ond mai dyma sut oedd y system yn gweithio, a byddai'n rhaid i dy ŵr fod yn llofruddiwr er mwyn peidio â chael cyswllt â'i blant...Roeddwn yn hyderus oherwydd ABH blaenorol na fyddant yn caniatáu cyswllt a dywedodd “Nid wyf yn bod yn ddoniol, ond rwyf wedi gweld tadau sydd â chofnodion lu o ABH sydd yn cael cyswllt dan oruchwyliaeth, nid wyt ti'n mynd i ennill yr achos yma heddiw.” **Cyfranogwr grŵp ffocws goroeswyr**

Roedd tadau yn mynegi safbwyntiau amrywiol ar y rhagdybiaeth, ac yn cwyno nad oedd wedi cael ei gymhwyso yn eu hachos nhw pan y dylid fod wedi gwneud hynny, a'i fod wedi cael ei gymhwyso er budd y fam pan na ddylai hynny fod wedi digwydd. Adroddodd un cyfranogwr grŵp ffocws dynion:

“Dywedodd y fy nghyfreithiwr wrtha i: y naill ffordd neu'r llall, os byddaf yn cyfaddef neu yn gwadu, rwyf yn dal i fynd i gael gweld fy mhlentyn. Dywedodd fy nghyfreithiwr nad ydw i yn risg mawr o ran gweld fy mhlentyn, felly y naill ffordd neu'r llall maent yn mynd i adael i mi weld fy mhlentyn.”

Mewn perthynas â'r cwestiwn ynghylch yr amgylchiadau ar gyfer cymhwyso'r rhagdybiaeth, roedd ymatebwyr proffesiynol eto yn amrywio ar draws y sbectwm, o ddweud nad oedd yn cael ei gymhwyso mewn achosion priodol, ei gymhwyso yn anghyson, ond yn cael ei gymhwyso mewn achosion eithafol neu fyth yn cael ei gymhwyso. Adroddodd nifer o weithwyr proffesiynol y byddai'r rhagdybiaeth yn cael ei chymhwyso oni bai bod gwaharddiad yn bodoli, bod yna bryderon difrifol ynghylch diogelu neu bod yna ganfyddiad pendant o gam-drin domestig. Dywedodd Surviving Economic Abuse bod dioddefwyr a goroeswyr angen cyngor a chynrychiolaeth er mwyn gwrthbrofi'r rhagdybiaeth yn effeithiol.

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y panel yn awgrymu bod y rhagdybiaeth yn cael ei rhoi ar waith yn anghyson ac nad yw yn cael ei datgymhwyso yn aml iawn. I'r graddau bod diwylliant o blaid cyswllt y llysoedd yn gweithredu fel rhwystr i fynd i'r afael â cham-drin domestig, mae'n atgyfnerthu'r diwylliant hwnnw.

7.4 Camau cynnar yr achos a phenderfynu ar ganfod ffeithiau

Mae'r weithdrefn a nodir gan PD12J yn rhannu yn ddwy ran. Mae'r adran yma yn trafod camau cynnar achos, yn cynnwys ystyried cyfryngu a chymodi, y penderfyniad ynghylch a yw cam-drin domestig honedig yn 'berthnasol' ac a ddylid cynnal gwrandawriad canfod tystiolaeth. Mae'r adrannau canlynol yn delio gyda gwrandawriadau canfod tystiolaeth, a'r weithdrefn ar ôl canfod ffeithiau, ar wahân.

7.4.1 Cyfryngu a Chymodi

Mae PD12J yn nodi, pan fo unrhyw wybodaeth yn cael ei darparu i'r llys sydd yn dangos bod yna faterion o gam-drin domestig allai fod yn berthnasol i benderfyniad y llys, mae'n rhaid i'r llys sicrhau nad yw'n ddisgwyliedig i'r partion ymgysylltu â chymodi neu fathau eraill o ddatrys anghydfod nad ydynt yn addas a/neu diogel.¹⁰⁹ Mae yna risg y gallai cymodi neu gyfryngu mewn achosion o'r fath gynnal neu ymestyn perthnasoedd o bŵer anghyfartal, achosi niwed seicolegol ac emosiynol i'r dioddefwr ac achosi atgofion trawmatig.

Adroddodd nifer o famau a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth eu bod wedi cael eu cynghori a'u bod yn teimlo ei bod yn ofynnol iddynt neu eu bod yn cael cyfarwyddyd i ymgysylltu â chymodi gan Cafcass/Cymru yn y llys neu i fynychu cyfryngu, a'u bod yn cael eu beirniadu am beidio â rhoi cynnig ar gyfryngu, er eu bod wedi darparu gwybodaeth am y cam-drin domestig. Mae'n ymddangos bod hynny yn groes i baragraff 9 y Cyfarwyddyd Ymarfer. Er enghraifft, gofynnwyd i'r fam a disgrifiwyd ei hachos ar ddechrau'r bennod yma, i gymodi yn y llys gyda'r parti arall a'r swyddog Cafcass.

“Pan ddwedais wrth y swyddog CAF/CASS ar ddiwedd [y sesiwn cymodi] ei bod wedi bod yn eithriadol o anodd eistedd mewn ystafell gyda chyn-bartner camdriniol, roedd yn edrych mewn syndod fel pe na bai ganddi unrhyw syniad am y gamdriniaeth - a oedd hi hyd yn oed wedi darllen y ceisiadau?” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Adroddodd mam arall oedd wedi bod mewn perthynas o'r un rhyw:

¹⁰⁹ PD12J, para 9.

“Ni chynigwyd unrhyw warchodaeth i mi a rhoddwyd dau ddewis i mi - mynd i gyfryngu gyda fy nghyn-bartner camdriniol neu gael fy mhlentyn yn byw gyda fy nghyn-bartner nad yw'n perthyn i fy mhlentyn”;

a dywedodd tad:

“Cefais fy ngorfodi i gyfryngu gyda fy nghyn-wraig gamdriniol. Nid oedd hynny byth yn mynd i weithio, ond cefais gyngor bob amser bod barnwr yn edrych yn ffafriol ar hynny. Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i fy amgylchiadau, dim ond oherwydd fy mod yn ceisio rhoi fy mhlant yn gyntaf ar bob cam.” **Tad, galwad am dystiolaeth**

Derbyniodd y panel dystiolaeth gan elusennau cam-drin domestig ynghylch cyfryngu ac arferion datrys anghydfodau cymunedol anniogel, a phwysigrwydd y system gyfreithiol ffurfiol ar gyfer amddiffyn hawliau dynol goroeswyr camdriniaeth sydd yn agored i niwed.

O ystyried bod cymodi a chyfryngu yn cael eu hystyried fel arfer - a bod paragraff 9 PD12J yn cael ei roi ar waith - yn y gwrandawriad cyntaf cyn penderfynu ar honiadau o gam-drin domestig, dylai'r llys ddefnyddio ymagwedd ragofalus oni bai bod yna dystiolaeth gadarnhaol bod camdriniaeth honedig wedi cael ei gydnabod ac y deliwyd â hynny a bod y partïon yn gallu siarad a negodi yn rhwydd ar eu rhan eu hunain.

7.4.2 Penderfynu cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau neu beidio

Mae PD12J yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys gadarnhau cyn gynted a phosibl a yw cam-drin domestig wedi ei ddatgan fel mater sydd yn debygol o fod yn berthnasol i unrhyw benderfyniad y llys mewn perthynas â lles y plentyn.¹¹⁰ Dim ond os bydd y cam-drin honedig yn berthnasol i'r math o orchymyn y gall y llys ei roi y mae'n rhaid i'r llys ystyried cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau mewn perthynas â honiadau gaiff eu herio.

Roedd cyflwyniadau unigol i'r panel yn gyffredinol yn disgrifio profiadau o gam-drin domestig difrifol. Ond rydym yn cydnabod bod y llys yn wynebu sbectrwm o ymddygiadau wrth wneud penderfyniadau ynghylch perthnasedd a chanfod ffeithiau. Pwysleisiodd rhai gweithwyr cyfreithiol proffesiynol bod y llysoedd yn gwneud y penderfyniadau cywir a bod gwrandawriadau canfod ffeithiau yn cael eu cynnal pan ddylid gwneud hynny, tra bod eraill yn credu bod gwrandawriadau canfod ffeithiau yn cael eu cynnal yn rhy aml. Ond roedd y rhan fwyaf o'r cyflwyniadau naill ai'n dweud bod penderfyniadau ar berthnasedd neu'r angen i ganfod ffeithiau yn anghyson ac yn anrhagweladwy o un barnwr i'r llall ac o un fainc o ynadon i'r llall, neu'n dweud bod llysoedd yn methu â chynnal gwrandawriadau canfod ffeithiau pan ddylid gwneud hynny. Mae hynny yn gyson â'r ymchwil cyfyngedig ar

¹¹⁰ PD12J, para 14.

amledd y gwrandawiadau canfod ffeithiau cyn diwygiadau 2017 i'r PD12J.¹¹¹ Fel y nodwyd ar ddechrau'r bennod yma, roedd rhai ymatebwyr yn ystyried bod yna gynnydd wedi bod yn nifer y gwrandawiadau canfod ffeithiau yn dilyn y diwygiadau yma, ond nid oed y rhan fwyaf o'r cyflwyniadau gan unigolion proffesiynol a sefydliadau yn rhoi teimlad bod gwrandawiadau canfod ffeithiau wedi cynyddu. Ymatebodd aelod teulu dioddefwr camdriniaeth ddomestig yr oedd ei brofiad o'r llysoedd teulu wedi pontio'r blynyddoedd 2016-19 i'r cwestiwn yn yr alwad am dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd PD12J:

“Aneffeithiol, ar ôl 3 blynedd o ymgyfreitha y clywsom gyntaf am y cyfarwyddyd yma, a phan godwyd hynny, gofynnodd y barnwr ble mae'r dystiolaeth, a pham na chynhaliwyd gwrandawriad canfod ffeithiau? Cwestiwn da oherwydd cyfeiriwyd at gam-drin domestig drwy gydol hanes achos y fam” **Aelod teulu, galwad am dystiolaeth**

Mae PD12J yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys gofnodi ar wyneb gorchymyn llys beth yw'r rhesymau dros benderfynu nad oes angen gwrandawriad canfod ffeithiau. Hyd yma, ni chynhaliwyd unrhyw adolygiad o orchmynion llys er mwyn dadansoddi a roddir rhesymau gan y llysoedd a beth ydynt. Ond roedd ymatebwyr yn cynnig amrywiaeth o esboniadau pam y gallai'r llysoedd benderfynu nad yw honiadau o gam-drin domestig yn berthnasol, ac nad oes angen gwrandawriad canfod ffeithiau oherwydd hynny.

Nododd rhai ymarferwyr cyfreithiol ei bod yn ofynnol ar farnwyr ar brydiau i benderfynu ar berthnasedd ar ddechrau achos gyda dim ond tystiolaeth gyfyngedig ar gael. Os bydd y barnwr yn penderfynu ar yr adeg honno nad yw'r honiadau yn berthnasol, bydd y cyfle i gyflwyno mwy o dystiolaeth yn gyfyngedig hefyd. Yn fwy cyffredinol, nododd ymatebwyr amrywiaeth o resymau a roddwyd gan y llysoedd am beidio â chynnal gwrandawiadau canfod ffeithiau, yr oeddent yn ystyried oedd yn systematig yn lleihau perthnasedd honiadau.¹¹² Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cymhwyso tybiaethau cyffredinol ynghylch difrifoldeb yr honiadau yn hytrach nag asesu gwir effaith y cam-drin honedig ar y plentyn a'r rhiant nad yw'n gamdriniol; er enghraifft diystyru honiadau o gam-drin 'emosiynol' (nid corfforol), cam-drin 'hanesyddol', cam-drin na ddigwyddodd ym mhresenoldeb y plant, cam-drin pan fo cyswllt wedi digwydd ers y 'digwyddiad' diwethaf, neu gam-drin nad oedd mor ddifrifol fel y byddai'n debygol o arwain at gyswllt anuniongyrchol neu ddim cyswllt o gwbl.
- Diystyru honiadau oherwydd tystiolaeth annigonol heb unrhyw gyfle i ganfod ffeithiau

¹¹¹ Roedd astudiaethau o ffeiliai achos yn canfod yn gyson bod gwrandawiadau canfod ffeithiau yn cael eu cynnal mewn llai na 10% o achosion. J Hunt and A McLeod, *Outcomes of Applications to Court for Contact Orders after Parental Separation or Divorce* (2008), M Harding and A Newnham, *How do County Courts Share the Care of Children Between Parents? Full Report* (2015), Cafcass & Women's Aid Federation of England, *Allegations of domestic abuse in child contact cases* (2017); adolygiad o lenyddiaeth adran 9.4.

¹¹² Hefyd gweler adolygiad o lenyddiaeth adran 9.5 i weld rhesymau cyffelyb a ganfuwyd mewn ymchwil cyn 2017 ar y mater yma.

- Diystyru neu beidio credu tystiolaeth a ddarparwyd i gadarnhau camdriniaeth
- Cyfyngu ar y deunydd y byddai'r llys yn ystyried wrth benderfynu ar berthnasedd; er enghraifft dilyn argymhelliad Cafcass/Cymru yn y llythyr diogelu heb edrych ar dystiolaeth arall
- Derbyn cyflwyniadau cyfyngedig er mwyn osgoi'r angen am wrandawriad canfod ffeithiau
- Dirprwyo'r penderfyniad ar berthnasedd neu a oedd cam-drin wedi digwydd i Cafcass/Cymru neu arbenigwr
- Anwybyddu neu wrthod delio â honiadau a priori, oherwydd na fyddent yn gwneud unrhyw wahaniaeth oherwydd y byddai cyswllt yn digwydd beth bynnag.

Roedd ymatebwyr hefyd yn awgrymu y gallai'r llysoedd ystyried bod gwrandawiadau canfod ffeithiau yn ddiangen mewn nifer o achosion oherwydd mai dim ond canfyddiadau o gam-drin domestig difrifol iawn fyddai yn gorbwysu'r dybiaeth o gyswllt uniongyrchol.

“Dywedodd y barnwr a'r bargyfreithiwr ar yr ochr arall nad oes gan fy achos fawr o siawns o lwyddo. Dywedwyd wrtha i bod fy nhystiolaeth yn “wan” a dim ond yn “gadwyn o ddigwyddiadau ynysig”. Wedi ei gynnwys yn y Gorchymyn Trefniadau Plentyn roedd yna linell oedd yn nodi, hyd yn oed petai'n cael ei brofi, na fyddai unrhyw un o fy honiadau o gam-drin domestig gyda thystiolaeth ategol a datgeliad yr heddlu, yn arwain at gyfyngu ar gyswllt, yn cynnwys cyswllt heb oruchwyliaeth a thros nos.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Mae ail esboniad am yr amharoddrwydd i gynnal gwrandawiadau canfod ffeithiau yn gysylltiedig â'r rhwystr adnoddau a nodwyd gan y panel. Roedd ymatebwyr barnwrol ac ymarferwyr yn unfrydol yn cytuno bod adnoddau cyfyngedig yn rhwystr mawr i weithredu PD12J yn effeithiol, yn cynnwys oedi a achoswyd gan bwysau rhestru a'r llys yn methu â neilltuo amser priodol i achosion unigol. Mae gwrandawiadau canfod ffeithiau yn defnyddio llawer o amser ac adnoddau. Yn syml, byddai'n amhosibl i'r llys gynnal gwrandawriad canfod ffeithiau ym mhob achos pan honnir cam-drin domestig gyda'r adnoddau presennol. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr oedi maith os caiff gwrandawiadau canfod ffeithiau eu hamserlennu, yn cynnwys gweithdrefnau rhagarweiniol wrth baratoi ar gyfer y gwrandawriad, cael dyddiad gwrandawriad, y gwaith sydd yn gysylltiedig ar ôl y gwrandawriad, ac amserlennu mwy o wrandawiadau os na fydd yn mater yn cael ei setlo.

Roedd rhai cyflwyniadau yn cynnig trydydd esboniad: efallai nad yw barnwyr yn penderfynu cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau oherwydd y byddai gwneud hynny yn gwaethygu'r drwg-deimlad rhwng y partïon. Mae hynny yn gysylltiedig â'r rhwystr gwrthwynebol a nodwyd gan y panel. Mae gwrandawriad canfod ffeithiau yn wrthwynebol iawn, a gall niweidio neu ddifetha'r posibiliadau ar gyfer perthynas gydweithredol rhwng y partïon o ran cyd-riantu eu plant. Mae'r sail resymegol yn tybio y gall cyswllt diogel

ddigwydd a bod perthynas o gyd-riantu cydweithredol yn dal yn bosibl er gwaethaf y camdrin domestig honedig, yn hytrach nag ymchwilio i p'un a yw hynny yn wir neu beidio. Ond mae hynny yn pwyntio at un anfantais arall sydd yn gysylltiedig â'r broses canfod ffeithiau, allai ddylanwadu ar benderfyniadau'r llysoedd.

“Roedd y barnwr a ddeliodd â fy ngwrandawriad cyntaf yn wych - gorchmynnodd gyfarfod canfod ffeithiau a phrofi cyffuriau ac alcohol, ac yna fe'm cynghorodd i wneud cais am ail orchymyn peidio ag ymyrryd”. **Mam, galwad am dystiolaeth**

Nid oedd y cyflwyniadau yn awgrymu y dylai gwrandawriadau canfod ffeithiau fod yn orfodol ym mhob achos neu y dylid diddymu disgrisiwn y llys. Ond, roeddent yn amlygu pwysigrwydd cyfiawnder gweithdrefnol i ymgyfreithwyr, yn arbennig yr angen i deimlo eu bod yn cael eu clywed. Roedd yna enghreifftiau o arfer dda yn y dystiolaeth.

I'r gwrthwyneb, roedd nifer o famau yn teimlo nad roddwyd ystyriaeth o ddifri i'w pryderon, tra bod tadau hefyd wedi mynegi pryderon nad oeddent wedi cael cyfle i brofi yr honiadau yn eu herbyn. Roedd rhai cyfreithwyr a barnwyr hefyd yn credu os na fydd honiadau yn 'cael eu datrys' drwy ganfod ffeithiau yn gynnar, byddant yn parhau i 'fud-ferwi' o dan yr wyneb ac yn dychwelyd i achosi problemau yn ddiweddarach. I'r gwrthwyneb, dywedodd tadau yn y grŵp ffocws DVIP, er bod y broses canfod ffeithiau wedi bod yn galed iddynt, fe greodd effaith gadarnhaol fel ffordd o'u gorfodi i wynebu eu hymddygiad ac i roi'r gorau i wadu bod yn gamdriniol.¹¹³

7.5 Gwrandawriadau canfod ffeithiau

Fel y nodwyd eisoes, mae gwrandawriad canfod ffeithiau yn broses dechnegol, wrthwynebol a strwythuredig iawn. Mae'n ofynnol i'r parti sydd yn honni camdriniaeth ddarparu digon o fanylion am yr honiadau fel bod y parti arall yn gwybod pa achos y mae'n rhaid ei ateb, a darparu tystiolaeth i ategu'r honiadau. Mae'n ofynnol i'r parti arall ymateb i'r honiadau a darparu eu tystiolaeth eu hunain sydd yn cefnogi eu fersiwn nhw o'r ffeithiau. Yna bydd tystiolaeth y ddau barti yn cael ei phrofi yn y gwrandawriad drwy groesholi. Roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yn awgrymu nad yw strwythur y gwrandawriad canfod ffeithiau a'r strategaethau mae'r llysoedd wedi eu mabwysiadu er mwyn rheoli gwrandawriadau canfod ffeithiau o fewn eu hadnoddau cyfyngedig, yn addas ar gyfer penderfynu ar honiadau o gam-drin domestig, yn arbennig cam-drin hirdymor, cam-drin emosiynol, rheoli drwy orfodaeth, a cham-drin plant yn rhywiol. Ac yn ôl y fam yma, nid ydynt ychwaith yn addas ar gyfer arenwi'r cyflawnydd sylfaenol neu ganfod honiadau ffug yn gywir:

¹¹³ Rydym yn nodi bod DAPP a ddarparwyd gan DVIP yn canolbwyntio ar gyfranogwyr yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hymddygiad. Nid yw pob DAPP yn rhannu'r ffocws yma. Nid oedd tadau mewn grŵp ffocws yma oedd wedi ymgymryd â DAPP gan ddarparwr gwahanol yn cydnabod hynny.

“Mae canfod ffeithiau bron yn ddiwerth, os caiff ei ddefnyddio o gwbl, i'r rhiant cyfrifol. Roedd unrhyw beth negyddol a godwyd yn cael ei gyflwyno fel mater i rieni, neu os amlygwyd bod un rhiant yn achosi problem, yna roedd rhywbeth arall yn cael ei ganfod, hyd yn oed rhywbeth bach, i'w gyflwyno yn erbyn y rhiant arall. Roedd difrifoldeb unrhyw weithred yn cael ei dawelu, a mân bethau yn cael eu hamlygu.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

7.5.1 Atodiadau Scott

Mae Atodiadau Scott yn fecanwaith a ddefnyddir gan lysoedd teulu er mwyn cynorthwyo'r broses ganfod ffeithiau. Mae'n gwneud yn ofynnol i'r person sydd yn gwneud yr honiadau i eitemeiddio pob un o'r honiadau unigol, er mwyn darparu manylion cryno am bob honiad a nodi'r canfyddiadau a geisir. Mae mwy o fanylion am yr honiadau yn cael eu darparu yn natganiad tyst y parti. Mae'r Atodlen yn cael ei hanfon i'r parti arall sydd yn gryno yn nodi eu hymateb i bob honiad ac eto yn darparu mwy o fanylion yn eu datganiad tyst. Mae'r Atodiadau Scott yn galluogi i'r llys adnabod cwmpas yr honiadau, y pwyntiau anghydfod rhwng y partiön a beth fydd angen i'r parti sydd yn gwneud yr honiadau ei brofi. Roedd cyflwyniadau i'r panel yn codi nifer o bryderon difrifol am y defnydd o Atodiadau Scott ar gyfer gwrandawiadau canfod ffeithiau.¹¹⁴

I ddechrau mae Atodiadau Scott yn adnoddau a ddyluniwyd i gael eu defnyddio gan gyfreithwyr. Roedd ymatebwyr proffesiynol yn arsylwi bod ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn cael cryn anhawster eu deall a chydymffurfio â nhw, sydd yn golygu nad ydynt yn gallu cynrychioli eu profiadau o gam-drin yn llawn neu'n gywir. Mae PD12J yn ymdrechu i ymdrin â hynny i ryw raddau drwy awgrymu y dylai'r llys ystyried a fyddai'n ymarferol cwblhau'r atodiad yn y gwrandawriad cyntaf (FHDRA) gyda chymorth y barnwr.¹¹⁵ Ond, mae'n ymddangos mai yn anaml iawn y defnyddir yr opsiwn hwnnw, a nododd un grŵp rhanbarthol o gyfreithwyr ei bod yn amhosibl gwneud hynny pan fo FHDRA yn cael ei gynnal gan Gyngorydd Cyfreithiol yn unig.

Yn ail, dyluniwyd Atodiadau Scott gyda ffocws ar ddigwyddiadau ar wahân yn hytrach na phatrymau o ymddygiad. Pan ddiwygiwyd y diffiniad o gam-drin domestig yn PD12J yn 2014 er mwyn ymgorffori ymddygiad o orfodi a rheoli, ni roddwyd sylw cyfatebol i sut y gellid sefydlu hynny er boddhad y llys. Yn syml, mae PD12J yn dweud y dylai'r llys, wrth gyfarwyddo gwrandawriad canfod ffeithiau, ystyried “pa dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn penderfynu ar fodolaeth ymddygiad o orfodi, rheoli a bygwth, neu unrhyw fath arall o gam-drin domestig”.¹¹⁶ Yn ymarferol, mae Atodiadau Scott yn parhau i gael eu defnyddio, gyda dim ond ychydig o addasu neu ddim o gwbl er mwyn hwyluso tystiolaeth o gam-drin emosiynol neu reolaeth drwy orfodi. Er enghraifft, cyfeiriodd Hawliau Merched at amrywiol

¹¹⁴ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 9.8.

¹¹⁵ PD12J, para 19(c).

¹¹⁶ PD12J, para 19(d).

arferion barnwrol mewn perthynas â beth allai gael ei honni mewn Atodiad Scott a'r datganiadau ategol, gyda rhai barnwyr yn caniatáu honiadau o weithrediadau dros gyfnod o amser a naratif ynghylch ymddygiad reoli y cyflawnydd. Ond roedd eraill yn llym iawn ac yn mynnu bod yr honiadau ond yn gysylltiedig â digwyddiadau ar wahân.

Yn drydydd, fel ymateb i argaeledd cyfyngedig adnoddau barnwrol ac amser gwrandawiadau, mae'n ymddangos mai Atodiadau Scott yw'r fecanwaith sylfaenol ar gyfer cyfyngu ar gwmpas gwrandawiadau canfod tystiolaeth. Gellir cyfarwyddo rhieni sydd yn gwneud honiadau i gyfyngu eu Hatodiad Scott i nifer cyfyngedig o honiadau (mae'n ymddangos mai 4-6 honiad sydd yn cael eu nodi yn gyffredinol). Neu, ar ôl ffeilio'r Atodiad Scott, gall y llys roi cyfarwyddyd y bydd ond yn gwrando ar dystiolaeth mewn perthynas â nifer fechan o'r honiadau a eitemeiddiwyd. Mae hynny yn arbed amser i'r llys, ond mae'n cyfyngu canfod ffeithiau i nifer fechan o honiadau yn fympwyol ac yn tansilio pwrpas canfod ffeithiau. Nid yw'n galluogi i'r llys sefydlu sylfaen ffeithiol gywir ar gyfer bwrw ymlaen â'r achos, nac i adnabod yn iawn beth yw'r risgiau o gam-drin sydd yn wynebu'r plentyn a'r rhiant nad yw'n gamdriniol yn y dyfodol. Ac nid yw'n darparu cyfiawnder gweithdrefnol i'r partion.

Roedd nifer o ymatebwyr yn nodi effeithiau negyddol cyfyngiadau o'r fath. Roeddent yn nodi bod canfod ffeithiau yn canolbwyntio dim ond ar y digwyddiadau unigol hynny y tybir sydd yn fwyaf 'difrifol', sydd fel arfer yn cynnwys trais corfforol, neu y rhai sydd yn fwyaf anllad neu milain. Mae hynny yn hepgor y mathau mwyaf di-nod ac ailadroddus o gam-drin, fyddai efallai wedi effeithio fwyaf yn seicolegol ar y dioddefwr a/neu'r plant. "Y stwff gwirioneddol niweidiol yw'r stwff na allwch ei roi ar yr Atodiad Scott" (cyfranogwr grŵp ffocws goroeswyr). Hefyd mae'n hepgor y cyd-destun ehangach ar gyfer y digwyddiadau mwyaf 'difrifol' hynny, sydd yn gwneud iddynt ymddangos yn ynysig ac yn haws eu diystyru fel 'allan o gymeriad' neu ddigwyddiad 'untro' heb unrhyw arwyddocâd parhaus.

Adroddodd un cyfranogwr grŵp goroeswyr bod ei holl brofiad o gam-drin wedi cael ei ddiystyru fel rhywbeth oedd yn 'ormodol', na allai'r llys ei ystyried o gwbl, ac felly roedd holl ddyfodol ei phlentyn a'i ddiogelwch yn dibynnu ar bedwar honiad dethol. Roedd un arall yn nodi bod yr ynadon wedi cyfeirio at ei Hatodiad Scott fel hyn: "Mae hwn ychydig yn rhy hir. Rwyf wedi cyfrif 15 pwynt! Roeddent yn chwerthin arnaf." Darparodd Southall Black Sisters y crynodeb o gyflwyniad canlynol o brofiad un o'r defnyddwyr gwasanaeth y rhoddwyd y ffug enw 'Salma' iddi:

Crynodeb o Gyflwyniad

Yn y gwrandawriad llys cyntaf mewn perthynas â'r plant yn 2018, dywedwyd wrth Salma i gyfyngu ei 'Atodiad Scott' i chwe digwyddiad yn unig ac fe'i cynghorwyd gan y llys i beidio â mynd i ormod o fanylion. Hefyd dywedwyd wrth Salma 'plis paid â'i wneud yn emosiynol'. ...Roedd Salma yn teimlo ei bod wedi cael ei sarhau yn ofnadwy drwy gwtogi ei hanes o gam-drin i chwe digwyddiad yn unig nad oedd yn ei galluogi i arddangos i ba raddau yr oedd ei gŵr yn rheoli ac yn dylanwadu arni hi a'i phlant. Roedd profiadau difrifol, megis ymdrechion i'w llindegu, yn cael eu cwtdogi neu eu diystyru. ...[Ar adeg y gwrandawriad canfod tystiolaeth] "Penderfynodd yr ynadon pa un o'r chwech y dylent ei ddiystyru gan anwybyddu unrhyw beth oedd yn hŷn na blwyddyn. Tynnwyd allan unrhyw beth oedd yn ymwneud â'r plant. 'Felly roeddech wedi'ch cam-drin yma, a'r plant hefyd, felly mae'n rhaid i ni dynnu hynny allan oherwydd nad yw'r plant yma'."

Hefyd derbyniwyd cyfeiriadau at ddiodefwyr yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau a osodwyd ar y nifer o honiadau a hyd y datganiadau, ac yna yn cael eu beirniadu am beidio darparu digon o fanylion, a dywedodd un cyfranogwr grŵp ffocws goroeswyr ei bod wedi derbyn gorchymyn costau o £1,000 oherwydd bod ei Hatodiad Scott yn rhy hir.

Effaith arall a arsylwyd arni gan ymarferwyr o ganlyniad i ddefnyddio Atodiadau Scott a chyfyngu ar nifer yr honiadau yw nad yw'r llys yn gyffredinol yn dod i gysylltiad â'r patrymau ymddygiad mwy cynnil a pharhaus sydd yn rhan o reoli drwy orfodaeth, aflonyddu ac ystelcian. O ganlyniad i hynny, nid yw llysoedd teulu yn cael ymwybyddiaeth lawn o faint a'r natur allai fod yn bresennol mewn achosion a ddaw ger eu bron.

7.5.2 Y baich profi a deilliannau deuaidd

Y person sydd yn gwneud yr honiad sydd yn ysgwyddo'r baich o'i brofi. Ond, roedd rhieni oedd yn gwneud honiadau o gam-drin domestig neu gam-drin plant yn rhywiol yn canfod bod y baich hwnnw yn rhy heriol. Yn ogystal â'r problemau o dystiolaethu am reolaeth drwy orfodaeth a cham-drin emosiynol a ddisgrifiwyd, roedd yn ymddangos o nifer o ymatebion bod y llysoedd yn aml yn edrych am dystiolaeth gadarnhaol er mwyn canfod y profwyd honiadau. Gall hynny fod yn rhwystr na ellir ei oresgyn mewn nifer o achosion o gam-drin domestig - yn arbennig cam-drin oedolion a phlant yn rhywiol ac ymddygiad o orfodi a rheoli - pan fo cam-drin yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig ac yn aros yn anweledig i'r byd y tu allan. Mewn cyd-destunau eraill, pan nad oes tystiolaeth gadarnhaol ar gael, mae llysoedd yn gallu asesu hygrededd y partiön a phenderfynu stori pa barti maent yn ei ffafrio. Roedd cyflwyniadau gan bartiön a sefydliadau mewn perthynas â honiadau o gam-drin plant yn rhywiol yn awgrymu bod y llysoedd yn gosod gofynion cadarnhau hyd yn oed uwch, ac nad ydynt yn derbyn barn arbenigol rhai sydd wedi gweithio gyda phlant, ac ar brydiau maent angen euogfarn droseddol er mwyn canfod bod honiad wedi ei brofi.

Hefyd, roedd rhieni a sefydliadau oedd yn eu cefnogi yn teimlo eu bod yn cael eu rhwystro gan ddiwylliant y llys o blaid cyswllt.¹¹⁷ Mae'r dyfyniad canlynol yn gysylltiedig â gwrandawriad canfod ffeithiau a gynhaliwyd yn 2018-19:

“Er y cynhaliwyd cyfarfod Canfod Ffeithiau yn fy achos i, roedd yn warthus. Roedd gan Ynadon y Llys Teulu ragfarn yn erbyn mamau ac roeddent yn anwybodus ynghylch cam-drin domestig. Er yr holl dystiolaeth corfforol [lluniau, cofnodion meddygol, adroddiadau gwasanaethau cymdeithasol, cofnodion yr heddlu, Gorchymyn Peidio Ymyrryd] roedd yn well ganddynt gredu nad oedd cam-drin yn digwydd. Ni chefais fy nhrin â pharch nac fel tyst agored i niwed. Nid oedd gan fy ngŵr unrhyw dystiolaeth ac eto derbyniwyd ei air ar draul yr holl dystiolaeth a PHOB barn broffesiynol. ...Roedd yr Ynadon wedi rhagfarnu'r achos ac ni chefais wrandawriad teg na chyfiawnder.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Mae'r gallu i brofi honiadau yn arbennig o bwysig oherwydd bod y broses wrthwynebol yn arwain at ddeilliannau du a gwyn; nid oes yna le i arlliwiau llwyd. Mae cyfraith achos yn cyfarwyddo bod raid i lysoedd teulu ganfod bod honiadau naill ai wedi eu profi neu heb eu profi - os cânt eu profi, derbynir bod y ffeithiau wedi digwydd; ond os na cânt eu profi, cymerir nad yw'r ffeithiau wedi digwydd.¹¹⁸ Yna bydd yr achos yn mynd rhagddo ar sail camdriniaeth (neu beth camdriniaeth) a ganfuwyd neu na chanfuwyd. Os na canfyddir camdriniaeth, ni fydd unrhyw asesiad risg yn cael ei gynnal, a bydd y gorchmynion a roddir yn cynnig dim gwarchodaeth rhag cam-drin yn y dyfodol. Roedd nifer o gyflwyniadau unigol yn mynegi braw ynglŷn â deilliannau o'r fath.

Gallai hynny ddigwydd nid yn unig pan gynhaliwyd gwrandawriad canfod ffeithiau, ond hefyd pan fo'r rhiant sydd yn gwneud yr honiadau wedi dewis peidio â chael gwrandawriad canfod ffeithiau. Mewn rhai achosion, dywedodd mamau eu bod wedi cael eu cynghori gan eu cyfreithwyr i beidio â bwrw ymlaen â gwrandawriad canfod ffeithiau, ond na roddwyd cyngor iddynt mai'r canlyniad fyddai trin eu hachos fel pe na bai'r cam-drin honedig wedi digwydd. Roedd cyflwyniadau eraill yn nodi os na all dioddefwr camdriniaeth wynebu gwrandawriad canfod ffeithiau oherwydd y byddai hynny yn golygu mwy o gamdriniaeth, trawma a gwrth-honiadau, bydd y llys yn casglu na ddigwyddodd y gamdriniaeth ac yn rhoi gorchmynion yn unol â hynny.

Fel y trafodwyd ym mhennod 5, roedd nifer o'r cyflwyniadau gan famau oedd yn honni camdriniaeth ddomestig neu gam-drin plant yn rhywiol yn cyfeirio at y ffaith nad oedd gwrth-honiadau o elyniaethu rhieni wedi cael eu gwneud yn eu herbyn. Penderfynir ar y

¹¹⁷ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 9.8.

¹¹⁸ *Re B (Children) (Care Proceedings: Standard of Proof)* [2008] UKHL 35 per Lord Hoffman: “Os bydd rheol gyfreithiol yn ei gwneud yn ofynnol i ffaith gael ei phrofi...mae'n rhaid i farnwr...benderfynu a yw wedi digwydd neu beidio. Nid oes lle i ganfod bod hynny efallai wedi digwydd. Mae'r gyfraith yn gweithredu system ddeuaidd, pan mai'r unig werthoedd yw 0 a 1. Mae'r ffaith naill ai wedi digwydd neu ddim wedi digwydd.”

gwrth-honiadau yma hefyd yn y gwrandawriad canfod ffeithiau. Felly, mae yna risg, os nad yw'r fam yn gallu profi ei honiadau o gamdriniaeth, y bydd y llys nid yn unig yn canfod na ddigwyddodd y gamdriniaeth, ond ei bod hi yn fwriadol wedi dweud celwydd am y gamdriniaeth er mwyn amharu ar berthynas y plentyn â'r rhiant arall. Hyd yn oed yn absenoldeb gwrth-honiadau, roedd cyflwyniadau yn dangos bod mamau yn risgio ymateb anffafriol os nad ydynt yn gallu profi eu honiadau ar gydbwysedd tebygolrwydd, oherwydd gallai'r llys gasglu eu bod wedi amharu yn ddiangen ar gyswllt. Mae hynny yn gysylltiedig â'r pryderon a fynegwyd gan famau, a nodwyd ym mhennod 4 a 5 ynghylch beio dioddefwyr, stereoteipiau negyddol a gwahaniaethu ar sail rhyw.

Nid yw PD12J yn ei gwneud yn ofynnol i wrandawriad canfod ffeithiau ar wahân ddelio â honiadau o gam-drin. Mae'n bosibl penderfynu ar hynny fel rhan o'r penderfyniad terfynol ynghylch lles (er bod yna anfanteision i hynny hefyd). Ond roedd cyflwyniadau yn awgrymu arferiad eang o drin y gwrandawriad canfod ffeithiau fel opsiwn popeth neu ddim, sydd yn rhoi dewis di-groeso i rieni sydd yn gwneud honiad o gam-drin. Gallent naill ai ddiodeff trawma gwrandawriad canfod ffeithiau, gyda'r risg o beidio canfod y ffeithiau neu wrth-honiadau yn cael eu hategu, neu dynnu yr honiadau yn ôl gyda'r canlyniad bod yr achos yn mynd rhagddo ar sail dim camdriniaeth. Yn y cyd-destun yma, arsylwodd Nagalro y cytunir ar 'ganfyddiadau' ar brydiau yn y llys, yn benodol gan rieni nad oes ganddynt gynrychiolaeth gyfreithiol, nad ydynt yn debyg o gwbl i realiti, nad ydynt yn aml yn datrys y sefyllfa rhwng y rhieni, ac sydd â gwerth cyfyngedig iddynt o ran asesu niwed a risg i blant a/neu yr oedolyn sydd wedi diodeff camdriniaeth. Ond maent yn ymateb pragmatig i risgiau canfod ffeithiau ac yn osgoi ei effeithiau ennill-colli pendant.

Nid yw'r panel wedi gallu asesu'r prif bryderon a godwyd ynghylch gwrandawriadau canfod data yn erbyn data ar ddeilliannau gwrandawriadau o'r fath, oherwydd nad oes unrhyw ddata systematig ar gael, naill ai gan y llysoedd teulu neu ymchwil blaenorol.¹¹⁹ Nid ydym yn gwybod pa ganran o honiadau o gam-drin domestig, a pha gyfran o wrth-honiadau gaiff eu profi mewn gwrandawriadau canfod ffeithiau. Mae hwn yn faes sydd angen mwy o ymchwil iddo.

7.6 Ar ôl canfod ffeithiau: gwasanaethau cymorth ac asesu risg

Pan fo'r llysoedd wedi gwneud canfyddiadau o gam-drin domestig neu gam-drin plant, roedd ymatebwyr yn aml yn mynegi siom ynghylch beth a ddilynodd. Pan fo cam-drin domestig wedi digwydd, mae PD12J yn darparu y dylai'r llysoedd gaffael gwybodaeth -

¹¹⁹ Hunter and Barnett, *Fact-finding Hearings and the Implementation of the President's Practice Direction: Residence and Contact Orders: Domestic Violence and Harm* (2013) conducted survey research on this question, and a recent survey has also been conducted by M Lefevre and J Damman, *Practice Direction 12J: What is the Experience of Lawyers Working in Private Law Children Cases?* (2020), ond ni chynhaliwyd dadansoddiad graddfa fawr o ffeiliau achos; gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adrannau 9.4, 9.8.

naill ai ei hun neu drwy Cafcass/Cymru neu'r partïon - ynghylch y cyfleusterau sydd ar gael yn lleol (yn cynnwys gwasanaethau cymorth cam-drin domestig) er mwyn cynorthwyo unrhyw barti neu'r plentyn.¹²⁰ Roedd y dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r ddarpariaeth hon yn cael ei chymhwyso. Roedd cyflwyniadau yn adrodd am absenoldeb dilyniant i'r rhai y canfuwyd eu bod yn ddiodefwr camdriniaeth, a dim atgyfeiriadau at wasanaethau cam-drin domestig neu gam-drin plant. Gadawyd diodefwr dan yr argraff bod gan y llys nawr fwy o ddiodeb mewn 'symud ymlaen' ac, yn aml, adfer cyswllt (fel y trafodwyd ym mhennod 9) nag mewn cydnabod y niwed yr oedden nhw neu eu plant wedi ei ddiodef a'u hangen i wella.

Mae PD12J hefyd yn nodi, yn dilyn unrhyw benderfyniad ynghylch natur a maint cam-drin domestig, bod rhaid i'r llys ystyried a yw angen cymorth asesiad diogelwch a risg arbenigol, ac os ydyw, rhaid iddo roi cyfarwyddyd i gynnal asesiad o'r fath.¹²¹ Mae'r Llys Apêl wedi egluro, ym mhob un achos bron pan ganfuwyd cam-drin domestig, bod asesiad risg arbenigol yn debygol o fod yn hanfodol er mwyn deall y risg parhaus i'r plentyn.¹²² Mae penderfyniadau yn seiliedig ar asesiadau risg gwael wedi cael ei ganfod dro ar ôl tro gan adolygiadau o ddiogelwch ac adolygiadau o ddynladdiadau domestig fel ffactor amlwg mewn achosion pan fo plant wedi marw neu wedi cael eu niweidio yn ddifrifol ac mewn ddynladdiadau domestig yn achos oedolion.¹²³

Yn yr achosion niferus pan na chynhaliwyd gwrandawriad canfod ffeithiau neu na phrofwyd honiadau, adroddodd ein ymatebwyr na chynhaliwyd unrhyw asesiadau risg. Mae hon yn enghraifft arall o'r rwystr gwrthwynebol ar waith. Er bod y llys wedi bwrw ymlaen ar y sail nad oedd y gamdriniaeth honedig yn berthnasol neu nad oedd wedi digwydd, ystyriwyd bod hynny yn broblem, oherwydd nad oedd absenoldeb canfyddiadau yn golygu absenoldeb risg. O brofiad ymatebwyr, roedden nhw a'u plant yn dal yn wynebu risg, beth bynnag oedd canfyddiadau neu ddiffyg canfyddiadau'r llys. Roedd diffyg asesiad risg yn gwaethygu'r teimlad nad oeddent yn cael eu clywed na'u credu, ac roedd yn golygu na fyddai'r gorchmynion a roddwyd gan y llys yn mynd i'r afael â'r risg hwnnw (fel y manylir ar hynny ym mhennodau 9-10). Mae Cafcass hefyd yn cydnabod bod hyn yn broblem pan fo'r llys ond wedi gwneud canfyddiadau cyfyngedig mewn perthynas â ffeithiau:

¹²⁰ PD12J, para 32.

¹²¹ PD12J, para 33.

¹²² Gweler *Re P* [2015] EWCA Civ 466 [30] per King LJ; *Re W* [2012] EWCA Civ 528 [19] per Black LJ.

¹²³ Child Safeguarding Practice Review Panel, *Annual Report 2018–2019* (2020); Home Office, *Domestic Homicide Reviews: Key Findings from Analysis of Domestic Homicide Reviews* (2016).

Ar brydiau gall fod yn [anodd] i Cafcass ar ôl y cyfarfod canfod ffeithiau, yn aml pan fo rhai o'r ffeithiau wedi cael eu canfod ond nid rhai eraill. Mae hynny yn clymu ein dwylo o ran asesu oherwydd bod y llysoedd wedi canfod y ffeithiau sydd yn wahanol i brofiadau'r ddynes. Gall Atodiadau Scott ychwanegu at yr anhawster yma. Rwyf yn credu bod yna ffyrdd o fynd o gwmpas hyn ac rydym angen ffyrdd i gefnogi dioddefwyr drwy'r broses yma fel ein bod yn gwybod pa fath o wybodaeth mae'r llysoedd angen ei chael. **Cafcass, bord gron ymarferwyr**

Ond hyd yn oed mewn perthynas â cham-drin sydd wedi cael ei sefydlu drwy ganfod ffeithiau, roedd nifer o ymatebwyr yn ystyried bod y broses asesu risg yn annigonol.¹²⁴ Darparodd ymatebwyr enghreifftiau o lysoedd yn hepgor asesiadau risg yn gyfan gwbl ac yn syml yn gorchymyn cyswllt dan oruchwyliaeth. Disgrifiodd ymatebwyr eraill nifer o ffyrdd yr oeddent yn ystyried bod risg wedi ei leihau er mwyn cynyddu'r posibiladau ar gyfer cyswllt. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Asesu'r risg parhaus i'r plentyn ond nid y risg parhaus i'r rhiant nad yw'n gamdriniol;
- Dim ond risg presennol yn cael ei asesu heb ystyried niwed posibl i'r dyfodol;
- Risg i un plentyn ddim yn cael ei ystyried mewn perthynas â phlant eraill;
- Risg i riant nad yw'n gamdriniol ddim yn cael ei ystyried fel risg i'r plentyn hefyd;
- Dim ymgynghori â phlant yn y broses o reoli risg.

Felly mae'n ymddangos bod y diwylliant o blaid cyswllt yn effeithio ar y broses o asesu risg. Roedd cyflwyniadau yn rhoi'r argraff gyffredinol bod y llys a Cafcass/Cymru yn ymdrechu i asesu'r rhiant y canfuwyd ei fod yn gamdriniol fel rhywun nad oedd yn cyflwyno risg i'w blant, neu o leiaf ddim yn achosi digon o risg i atal cyswllt uniongyrchol (heb oruchwyliaeth yn ddelfrydol). Mewn rhai achosion, adroddwyd nad oedd asesiadau ac argymhellion Cafcass/Cymru ynglŷn â risg ddim wedi cael eu dilyn gan y barnwr, a wnaeth eu hasesiad ei hun bod y rhiant camdriniol yn achosi risg is neu ddim risg, gan orchymyn i gyswllt ddigwydd.

Mae asesiad effeithiol o risg i'r dyfodol er mwyn sicrhau bod gorchmynion yn ddiogel a gwarchod rhag niwed i'r dyfodol yn golygu bod angen amser ac arbenigedd. Ond mae adnoddau cyfyngedig yn effeithio ar yr elfen yma hefyd.¹²⁵ Fel arfer mae asesiadau risg yn cael eu cynnal gan swyddogion Cafcass/Cymru fel rhan o adroddiadau adran 7. Dywedodd nifer o sefydliadau (yn cynnwys Nagalro a PSU) nad oes gan Cafcass ddigon o adnoddau i gynnal asesiadau risg. Roedd yr ymatebwyr yma yn ystyried nad oedd swyddogion Cafcass wedi eu hyfforddi yn ddigonol i asesu risg, nad oes digon o amser yn

¹²⁴ Mae achosion o asesu risg amhriodol neu ddiffyg asesu risg ar ôl canfod ffeithiau wedi bod yn destun nifer o apeliadau llwyddiannus mewn achosion PD12J: gweler adolygiad o gyfraith achos PD12J ac adolygiad o lenyddiaeth adran 9.9.

¹²⁵ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 9.9.

cael ei ganiatáu i ymchwilio i amgylchiadau'r teulu, a bod yr asesiadau risg mewn adroddiadau adran 7 yn rhy gryno ac arwynebol, ac nad ydynt yn adnabod nac yn ymateb yn ddigonol i effeithiau cam-drin domestig ar y plentyn a'r rhiant nad yw'n gamdriniol.

“Prin iawn y gwelais unrhyw ystyriaeth wahanol yn cael ei rhoi i'r math o drais domestig gydag asesiad risg o niwed sydd yn newid pwyslais. Oherwydd hynny, roedd trais domestig o'r ddwy ochr, trais seiliedig ar sefyllfa rhwng cyplau, trais rheolaeth drwy orfodaeth, yn aml yn arwain at orchmynion trefniadau plant cyffelyb - a gall rhai ohonynt adael plentyn yn wynebu risg o niwed oherwydd bod trais yn parhau i gael ei gyflawni, eraill sydd yn gadael plentyn yn wynebu risg o niwed o ganlyniad i berthynas gyda rhiant digon da sydd wedi gwanhau.” **Seicolegydd, galwad am dystiolaeth**

Roedd yna hefyd bryderon ynghylch oedi hir o ran cynhyrchu asesiadau risg gan Cafcass a gan weithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol.

Y dewis arall, ond sydd yn opsiwn asesu risg a dan-ddefnyddir gan Cafcass/Cymru neu'r awdurdod lleol yw i'r llys geisio adroddiad gan dyst cam-drin domestig arbenigol. Mae yna lond llaw o asiantaethau ag enw da sydd yn gwneud y gwaith yma (er enghraifft DVIP, PAI). Dadleuodd rhai ymatebwyr bod angen tystiolaeth arbenigol er mwyn asesu risg o niwed o ganlyniad i reolaeth drwy orfodaeth - ond mae hynny yn gostus, ac mae adnoddau ariannol yn gyfyngedig. Nodwyd yn y cyflwyniadau nad yw asesiad risg arbenigol o gam-drin domestig yn fforddiadwy ar gyfraddau cymorth cyfreithiol, ac mae'n annhebygol hefyd y bydd ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn gallu fforddio talu am asesiad o'r fath. Yn gyffredinol roedd ymatebwyr yn cyfeirio at anallu partïon i fforddio profion cyffuriau ac alcohol ac asesiadau seiciatrig neu seicolegol, a'r diffyg adnoddau i dalu am y costau yma mewn unrhyw ffordd arall.

7.7 Materion cyffredinol ynglŷn â phroses PD12J

Yn y cyflwyniadau nodwyd llond llaw o faterion oedd yn gyffredinol gymwys drwy gydol y broses PD12J. Roedd y rhain yn gysylltiedig â dilyniant barnwrol, LIPau a chymorth cyfreithiol, a diffyg dilyniant rhwng achosion plant cyfraith breifat ac achosion eraill.

7.7.1 Dilyniant barnwrol

Mae argaeledd cyfyngedig amser barnwrol ar gyfer achosion cyfraith breifat, a dibyniaeth y llysoedd teulu ar farnwriaeth rhan amser (ymadon, DDJau a chofnodwyr) yn golygu y gall fod yn anodd iawn cyflawni “amcan” dilyniant barnwrol mewn achosion trefniadau plant.¹²⁶ Mae hynny yn benodol wir yn Haen 1 ble gallai fod yn amhosibl amserlennu yr holl wrandawiadau gerbron yr un fainc o ynadon neu hyd yn oed yr un cadeirydd, ac efallai mai'r unig fath o ddilyniant yw'r Cynghorydd Cyfreithiol. Mae PD12J yn rhoi pwys penodol

¹²⁶ FPR 2010 Practice Direction 12B, para 10.

ar bwysigrwydd dilyniant barnwrol rhwng y gwrandawriad canfod ffeithiau a gwrandawiadau dilynol yn yr achos, ond mae yna eithriad eang iawn yn cael ei ganiatáu pan fo hynny yn gallu arwain at oedi a bydd niwed i les y plentyn (o ganlyniad i'r oedi) yn gorbwysu'r niwed i dreial teg yn yr achos (o ganlyniad i ddiffyg dilyniant barnwrol).¹²⁷ Hyd yn oed os bydd barnwyr yn cadw achosion iddyn nhw eu hunain yn dilyn gwrandawriad canfod ffeithiau, efallai bod yna ddiffyg dilyniant wedi bod cyn canfod ffeithiau. Mae hynny yn bell o'r trosolwg un pen i'r llall, dilyniant rhwng achosion blaenorol a dilynol, neu'r model 'un barnwr un teulu' yr ystyrir sydd yn arfer orau ar gyfer achosion o gam-drin domestig.¹²⁸

Roedd tystiolaeth gan rieni yn gyson yn adlewyrchu diffyg dilyniant barnwrol. Roedd hynny yn arwain at deimlad nad oedd gan neb yn y llys ddealltwriaeth drylwyr o achos.¹²⁹ Roedd hynny hefyd yn golygu nad oedd partion yn gwybod beth na phwy i'w ddisgwyl pan oeddent yn mynychu y gwrandawriad nesaf, fel y dywedodd un fam: "Nid wyf wedi gweld dim sydd yn gyson ynghylch unrhyw un o fy ymweliadau â'r llys ar wahân i'r bygythiad cyson o golli plentyn". Hefyd, roedd dioddefwyr camdriniaeth yn teimlo bod rheidrwydd arnynt i ailadrodd eu straeon ac i ail-fyw trawma camdriniaeth dro ar ôl tro, ac ni nodwyd ymddygiad camdriniol gan y cyflawnydd mewn perthynas ag achos llys, ac ni aethpwyd i'r afael â hynny. Er enghraifft roedd y fam yma yn rhan o achos plant cyfraith breifat am ddwy flynedd o 2017 i 2019:

Mae gan fy nghyn-bartner euogfarnau....yn y llys troseddol am ymosodiad drwy guro [yn fy erbyn i]. Roedd ganddo rybuddion ffrwyno a thorrodd bob un. Yr un peth â gorchymyn peidio ag ymyrryd - 7 ahps a ganlyniad i'w torri ac euogfarn am y 7fed! Yn y llys teulu roedd yn rhai i mi brofi a threulio 2 flynedd mewn achos llys oherwydd ei fod ef wedi eu gollwng ac yna ailafael ynddynt. Roedd yn rhaid i fi gynrychioli fy hun am flwyddyn nes i fy nghymorth cyfreithiol gael ei gymeradwyo.

...

Gwrthodwyd mynediad i fy [nghynorthwydd] Cymorth i Ferched i'r llys ynadon...er y galwyd am swyddogion diogelwch cyn hynny pan fu i fy nghyn-bartner ymosod yn eiriol arnaf i a'r barnwr a bod yn ymosodol iawn! Mae'n ymddangos nad oeddent wedi darllen dim o fy hanes, nid oedd hynny yn angenrheidiol.

...

¹²⁷ PD12J, para 20, 31.

¹²⁸ Gweler R Hunter and S Choudhry (2018) 'Conclusion: International best practices', *Journal of Social Welfare and Family Law* 40(4): 548-62.

¹²⁹ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 9.14.

Roedd yna farnwyr neu ynadon cwbl wahanol yn y rhan fwyaf o'r gwrandawiadau, felly ni chafwyd dim dilyniant na dealltwriaeth drylwyr o'r achos.

...

Drwy'r broses rwyf wedi gorfod ail-fyw atgofion ac egluro pethau i ddieithriaid llwyr dro ar ôl tro oherwydd y broses llys. **Mam, galwad am dystiolaeth**

I'r gwrthwyneb, dywedodd mamau pan gafwyd dilyniant barnwrol, bod y barnwr wedi dod yn gyfarwydd ag ymddygiad y camdriniwr wrth i amser fynd rhagddo gan weld drwy ei ffasâd. Roedd enghreifftiau o arfer dda a nodwyd mewn cyflwyniadau unigol yn aml yn cynnwys sefyllfaoedd pan fo barnwr wedi deall ac wedi cymryd cyfrifoldeb personol dros achos, wedi cadw gwrandawiadau yn y dyfodol iddo ef ei hun, a thrwy hynny wedi darparu cysondeb a dibynadwyedd o ran ymateb, ac roedd hynny yn cael ei werthfawrogi yn fawr. Er enghraifft, roedd y fam yma wedi mynd drwy dair set o achosion maith dros bedair blynedd a hanner o 2015 i 2019, pryd y rhoddwyd dau orchymyn adran 91(14) a gorchymyn costau mawr o'i phlaid hi.

Ein Barnwr ers i ni symud i [leoliad 1] oedd y Barnwr Rhanbarthol [enw]. Cadwodd ein hachos pan gaedd y llys teulu yn [leoliad 1] ac fe aeth â'r achos i [leoliad 2] gydag ef. Mae wedi bod yn ddim llai na rhyfeddol er gwaetha'r adegau niferus yr ydym wedi gorfod ymddangos o'i flaen ac yn delio â fy nghyn-wr sydd yn ddyn cymhleth, anodd, credadwy a dylanwadol iawn. **Mam, galwad am dystiolaeth**

Ar y llaw arall, derbyniwyd tystiolaeth o anfantais posibl i ddilyniant barnwrol, gyda mamau a thadau yn cyfeirio at farnwyr yr oeddent yn teimlo oedd â rhagfarn yn eu herbyn, oedd yn gafael mewn achos ac yn delio ag ef mewn ffordd oedd yn achosi iddyn nhw deimlo na fyddent fyth yn cael gwrandawriad teg.

7.7.2 Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain a mynediad at gymorth cyfreithiol

Fel y nodwyd ym mhennod 4, roedd nifer o gyflwyniadau unigol yn adlewyrchu'r anhawster enfawr wrth geisio cynrychioli eich hunain yn y llys teulu. Roedd y profiadau a adroddwyd gan LIPau yn cynnwys teimlo nad oeddent yn cael eu clywed na'u cefnogi, yn cael eu diystyru a'u bwlio, ac nad oeddent yn gallu dilyn prosesau y llys ac yn hynod ymwybodol o anghydraddoldeb arfau rhyngddyn nhw a'r cyfreithwyr ar yr ochr arall. Yng nghyd-destun PD12J, dywedodd mamau a thadau ei bod bron yn amhosibl darbwyllo'r llys i gynnal gwrandawriad canfod ffeithiau fel ymglyfreithwyr drostynt eu hunain pan nad oedd cyfreithiwr y parti arall eisiau cynnal un.

Cyfeiriodd ymatebwyr proffesiynol yn fwy cyffredinol at yr heriau o ran gweithredu PD12J gydag ymglyfreithwyr drostynt eu hunain.

“Yn ein profiad ni, cyn belled bod y llys yn dilyn y cyfarwyddyd ymarfer yma, yn cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau cyn gynted â phosibl (fel gwrandawriad hollt), yn cynnal asesiad risg cyn gwneud penderfyniadau terfynol a bod y ddau riant yn cael cynrychiolaeth gyfreithiol, mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J yn effeithiol. Ond, mae'r rhan fwyaf o'r partïon yn ymglyfreithwyr drostynt eu hunain nad ydynt mewn sefyllfa i gyflwyno/ymateb i dystiolaeth mewn ffordd sydd yn galluogi i'r llys gynnal yr achos yn deg neu'n briodol. Rydym yn credu bod y toriadau i gwmpas cymorth cyfreithiol, o dan LASPO wedi cyfrannu'n uniongyrchol at blant yn cael eu hamlygu i risg o ganlyniad i ddiffyg cynrychiolaeth gyfreithiol i'r oedolion sydd yn bartïon. Rydym yn credu bod hynny wedi achosi heriau sylweddol i'r llys o ran rheoli'r achosion yma sydd yn aml yn sensitif iawn ac anodd iawn, oherwydd mae yna derfyn i ba raddau y gall ymglyfreithwyr drostynt eu hunain gynorthwyo'r llys yn realistig. **Cymdeithas Cyfreithwyr Plant**

Roedd problemau penodol a nodwyd wrth weithredu PD12J gydag ymglyfreithwyr drostynt eu hunain yn cynnwys:

- Gweithio allan a oes angen gwrandawriad canfod ffeithiau - gydag ymatebwyr yn nodi tueddiad y llysoedd i fwrw ymlaen yn y gobaith na fydd yn angenrheidiol, ac i geisio sefydlu trefniadau cyswllt cyn gynted â phosibl;
- Anallu LIPau i ymdopi â phroses gymhleth a thechnegol canfod ffeithiau, yn cynnwys datganiadau, ymatebion, gwrth-honiadau, Atodiadau Scott, trefnu tystion, datgeliadau trydydd partïon - a wynebu anfantais sylweddol pan fo'r parti arall yn cael ei gynrychioli;
- Anallu partïon i dalu am ddatgeliadau'r heddlu;
- Diffyg amser staff i gynhyrchu bwndeli ymglyfreithwyr drostynt eu hunain;¹³⁰
- Ansawdd y dystiolaeth y mae'r llysoedd yn ei defnyddio i benderfynu ar y ffeithiau yn ddibynnol ar “sut mae [LIPau] yn cyflwyno eu hachos, i ba raddau mae'r broses yn eu dychryn” (bord gron barnwrol).

Cyfeiriodd Mosac at y sefyllfa anodd iawn i rieni y mae eu plant wedi datgelu cam-drin rhywiol gan y riant arall, ond nad oes ganddynt y dystiolaeth 'wrthrychol' sydd ei hangen er mwyn caniatáu cymorth cyfreithiol. Mae'r rhieni yma yn ysgwyddo'r baich llawn o geisio amddiffyn y plentyn drwy gychwyn achos llys, heb gynrychiolaeth gyfreithiol, ac yn aml yn

¹³⁰ Bwndeli yw casgliadau o ddogfennau sydd eu hangen ar gyfer treial. Mae'n rhaid eu crynhoi, mynegeo, copïo a'u darparu i'r partïon eraill a'r llys yn unol â Chyfarwyddyd Ymarfer 27A. Mae Para 3.1 y Cyfarwyddyd Ymarfer hwnnw yn nodi pan fo'r ddau barti yn ymglyfreithwyr drostynt eu hunain, ni fydd yn ofynnol i'r naill na'r llall gynhyrchu bwndel oni bai fod y llys yn cyfarwyddo fel arall. Mewn rhai llysoedd, byddir yn gofyn i staff y llys baratoi y bwndel ar gyfer y llys a'r partïon. Ond nid oes gan lawer o lysoedd yr adnodau i wneud hynny ac maent yn parhau i roi cyfarwyddyd i un parti neu i'r ddau baratoi bwndel treial.

ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig eu hunain, sydd yn arwain at lefelau straen ac ofn na ellir ei ddioddef.

Cyfeiriodd gweithwyr proffesiynol hefyd at ganlyniadau niweidiol gwadu unrhyw fynediad at gymorth cyfreithiol i gyflawnwyr honedig camdriniaeth ddomestig. Arsylwodd bord bron yr ymarferwyr bod diffyg argaeledd cynrychiolaeth gyfreithiol yn arwain cyflawnwyr honedig i lawr llwybr o ymglyfreitha, pan fônt yn teimlo bod rhaid iddynt wadu'r gamdriniaeth a brwydro i gael cyswllt gyda'u plant yn hytrach na chael cymorth i gydnabod eu hymddygiad, cael mewnwelediad ac ymgysylltu â chymorth. Ceisiodd cyfranogwr i sesiwn bord gron farnwrol feintoli buddion i'r llys o ganlyniad i gynrychiolaeth gyfreithiol i gyflawnwyr yn ogystal â dioddefwyr camdriniaeth:

“O ystyried dim ond ffigyrau ar gyfer [sir] mae gennym 900 o geisiadau y flwyddyn...a...hyd yn oed os bydd dim ond traean o'r rhai hynny yn datgan camdriniaeth ddomestig, nid yw hynny yn syndod. Ac mae hynny yn 600, 600 o achosion y flwyddyn pan wneir honiadau o gamdriniaeth. Os bydd yn hynny yn arwain at wrandawiadau canfod ffeithiau...os bydd hynny yn rhestr dau ddiwrnod, mae hynny yn 1200 o ddyddiau Barnwr Rhanbarthol. Mae hynny yn fwy na'r adnoddau Barnwyr Rhanbarthol sydd gennym yn [lleoliad y llys]..wel, ar gyfer bron y [sir] gyfan! ...A gallech haneru'r ffigyrau hynny yn eithaf hawdd drwy roi cyfreithwyr i'r bobl a gyhuddir neu sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig, byddech yn haneru hynny. **Cyfarfod bord gron Barnwrol**

At ei gilydd mae'r cyfyngiadau i adnoddau'r llys a chymorth cyfreithiol yn golygu bod y costau yn cael eu cyfeirio at rieni a phlant. Derbyniwyd nifer o gyflwyniadau oedd yn manylu ar yr effaith emosiynol, corfforol ac economaidd anferthol achosion llys ar ymglyfreithwyr drostynt eu hunain, a'r disbyddu llethol o ran eu hadnoddau personol o ganlyniad i'r ymwneud â'r llys teulu.

7.7.3 Gweithio mewn seilo

Yn olaf, cyfeiriodd cyflwyniadau at rai o'r ffyrdd y mae'r diffyg cydlyniant rhwng y Llysoedd Teulu a'r llysoedd eraill, achosion ac asiantaethau yn effeithio yr ymdrinnir â honiadau o gam-drin domestig a risgiau eraill o niwed.

Er bod gweithwyr cymdeithasol amddiffyn plant awdurdodau lleol yn gyfarwydd â gweithdrefnau cyfraith gyhoeddus yn y llysoedd teulu, roedd yna bryder cyffredinol nad ydynt yn gyfarwydd ag achosion cyfraith breifat. Felly, er enghraifft, maent yn tueddu i beidio bod yn ymwybodol o CAP neu PD12J, o beidio gwybod sut mae argymell gwrandawriad canfod ffeithiau, ac nid ydynt wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol er mwyn cynnal asesiad risg o gam-drin domestig. Mae'r problemau hyn yn codi mewn achosion pan ddarperir mewnbyn gwaith cymdeithasol i'r llys gan yr awdurdod lleol yn hytrach na Cafcass/Cymru.

Roedd nifer o gyflwyniadau yn cyfeirio at ddiffyg cysylltiad rhwng y broses canfod ffeithiau ac achosion eraill. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Os oes yna orchymyn peidio ag ymyrryd mewn grym a bod hynny i bob pwrpas yn gwarchod y dioddefwr a'r plant rhag mwy o gamdriniaeth, bydd y gamdriniaeth yn cael ei ddosbarthu gan y llys teulu fel 'hanesyddol' ac oherwydd hynny ni fydd yn berthnasol i achosion trefniadau plant.
- Mae dioddefwyr camdriniaeth yn profi cyferbyniad dryslyd rhwng y system cyfiawnder troseddol, pan fo'r heddlu yn eu cefnogi, CPS a'r gwasanaeth tystion, a'r llys teulu, ble mae'r baich cyfan o sefydlu'r un gamdriniaeth yn cael ei ysgwyddo gan y dioddefwr.
- Gall y llys teulu ail-ymgyfreitha euogfarnau troseddol.
 - Gall camdrinwyr a blediodd yn euog yn y llys troseddol gael caniatâd i wadu'r gamdriniaeth a mynnu bod y dioddefwr yn profi hynny yn y llys teulu
 - Gall y ffaith bod camdriniaeth wedi cael ei brofi'n flaenorol y tu hwnt i amheuaeth resymol mewn achosion troseddol gael ei anwybyddu yn y llys teulu, ac i bob pwrpas rhoddir ail dreial i'r camdriniwr, ac mae hynny yn atgyfnerthu teimlad y dioddefwr nad ydynt yn cael eu credu.
- Pan fo canfod ffeithiau yn y llys teulu yn cyd-redeg ag ymchwiliadau ac achosion troseddol:
 - Nid yw'r heddlu yn gallu darparu gwybodaeth ategol i'r gwrandawriad canfod ffeithiau oherwydd nad yw eu hymchwiliad yn gyflawn
 - Mae manylion ymchwiliadau troseddol wedi cael eu rhyddhau i gyflawnwyr mewn achosion teulu, sydd yn niweidio'r achos troseddol ac yn atal mynediad i gyfiawnder yn y naill fforwm a'r llall
- Mae prosesau asesu risg yn y llys teulu yn methu ag ystyried dangosyddion ac asesiadau risg a wnaed mewn mannau eraill, megis MARAC, gorchmynion ffrwyno, torri gorchmynion peidio ag ymyrryd, tystiolaeth o gam-drin domestig yn erbyn partneriaid blaenorol a dilynol, datgeliadau o hanes o droseddu drwy'r Cynllun Datgelu Trais Domestig, ac asesiadau risg a wnaed gan swyddogion prawf yn dilyn euogfarnau am gam-drin plant yn rhywiol.

Mae'r crynodeb o gyflwyniad canlynol yn crisialu nifer o'r problemau sydd yn deillio o ddiffyg cydlyniant rhwng y llysoedd teulu a'r awdurdodaeth droseddol:

Crynodeb o Gyflwyniad

Carcharwyd cyn-ŵr i fam am ei threisio ac am droseddau o gam-drin plant. Fe'i disgrifiwyd gan y llys troseddol fel dyn peryglus, ond roedd hi'n teimlo bod "y llys teulu yn ymdrechu i wneud popeth i geisio ei gynorthwyo yn ei ymdrech i weld ei blant". O ystyried ei euogfarnau roedd yn disgwyl i broses y llys teulu fod yn eithaf didrafferth, ond roedd yn gallu ymestyn yr achos am fwy na phum mlynedd, a hynny am gost o dros £50,000 iddi hi mewn ffioedd cyfreithiol. Yn y llys ni roddwyd sgrin iddi yn awtomatig ac roedd yn rhaid iddi ofyn am un bob tro. Disgrifiodd sut yr oedd "nifer o'r gwrandawiadau llys yn cael eu clywed yn yr un llys troseddol ble rhoddais dystiolaeth yn yr achos treisio. Roedd yn amlwg fy mod yn crynu oherwydd hynny ac nid oedd yn ymddangos bod unrhyw un yn y llys yn poeni am hynny." Roedd hi hefyd yn pryderu nad oed yna unrhyw gyfeiriad at yr heddlu na'r llys troseddol er mwyn egluro'r risg yr oedd ei chyn-ŵr yn ei achosi. Roedd yn teimlo "petai'r ddau lys wedi gwneud ychydig o feddwl ar y cyd a rhannu gwybodaeth, fyddai ddim yr angen wedi bod i gynnal llawer o'r gwrandawiadau llys." Roedd hefyd yn teimlo, oherwydd bod ei chyn-ŵr yn "ddosbarth canol a huawdl" ei fod wedi cael mwy o amser gan rai o'r barnwyr. "Rwyf yn credu eu bod yn meddwl na allwn fod yn fawr o ddiodefwr, o ystyried sut yr oedd yn edrych ac yn swnio - ond...petaent wedi cael mynediad at ffeiliau'r heddlu byddent wedi deall yn syth pa mor agored i niwed yr oeddwn mewn gwirionedd." Casglodd "Os gwelwch yn dda meddylwch am liflinio llysoedd troseddol a llysoedd teulu - byddai hynny yn help mawr. Mae'r ddau yn gysylltiedig ac ni ddylem ni fel diodefwr orfod mynd drwy'r pethau yma ddwy waith." **Mam, galwad am dystiolaeth**

I'r gwrthwyneb, nododd Mosac, heb euogfarn am gam-drin plentyn mewn llys troseddol, mae'r llys teulu yn fwy tebygol o ganfod na ddigwyddodd unrhyw gamdriniaeth, er y gwahanol safonau o brawf mewn achosion troseddol a sifil. Mae hynny yn dangos effaith y rhyngweithio rhwng gweithio mewn seilo a'r diwylliant o blaid cyswllt. Mae'r holl enghreifftiau o weithio mewn seilo a nodwyd yn gweithredu er mantais i'r rhiant sydd yn honedig gamdriniol ac o blaid canlyniad fyddai'n galluogi i gyswllt ddigwydd. I'r gwrthwyneb, byddai dull mwy cydlynol yn llai tebygol o ddiystyru camdriniaeth ac yn fwy tebygol o amddiffyn plant ac oedolion sydd yn ddiodefwr rhag mwy o niwed.

7.8 Casgliad

Roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y panel yn nodi nifer o broblemau ac anfodlonrwydd â'r ffordd y mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J yn cael ei roi ar waith yn ymarferol. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon am effaith y rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni, pan fo honiadau o gam-drin domestig yn cael eu hystyried yn berthnasol, cynnal gwrandawiadau canfod ffeithiau, ansawdd asesiadau risg, diffyg dilyniant barnwrol, diffyg cydlyniant rhwng y broses canfod ffeithiau ac achosion eraill, a'r anawsterau a brofwyd

gan ymgyfreithwyr drostynt eu hunain wrth geisio llywio drwy gymhlethdodau PD12J. Yn eu tro mae nifer o'r materion yma yn gysylltiedig â'r pedair thema a amlinellwyd ym mhennod 4: diwylliant y llys o blaid cyswllt, adnoddau cyfyngedig, y system wrthwynebol a gweithio mewn seilos. Mae'n ymddangos bod yr un rhwystrau yma wedi amharu ar ymdrechion blaenorol i atgyfnerthu PD12J.

Roedd nifer o gyflwyniadau ac ymatebion gan grwpiau ffocws yn awgrymu na fyddai mireinio neu addasu yn datrys y problemau a nodwyd, a bod angen ystyried modelau eraill o gyfiawnder teulu a defnyddio dull mwy sylfaenol o ddiwygio er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau tanategol. Mae'r panel yn cytuno. Ym mhennod 11 rydym yn cyflwyno model newydd ar gyfer achosion trefniadau plant ac yn gwneud mwy o argymhellion gyda'r bwriad iddynt fynd i'r afael â'r rhwystrau yma mewn ffordd gynhwysfawr, yn cynnwys dull rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol gan y llysoedd o ymdrin â cham-drin domestig a mathau eraill o risg o niwed i blant, dull ymchwiliol yn hytrach na gwrthwynebol, gwell cydlynad rhwng prosesau cyfiawnder troseddol, yr heddlu, a gwasanaethau statudol a'r trydydd sector sydd yn gweithio â theuluoedd, ac ailgyfeirio adnoddau i ffyrdd mwy effeithiol o weithio.

8. Diogelwch a phrofiadau yn y llys

'Os byddwch yn dod i gytundeb ar gam cynharach oherwydd bod gennych ormod o ofn parhau, nid yw'n ofynnol i'r cyflwynydd roi tystiolaeth na chadarnhau ei honiadau/cael ei groesholi. Mae'n defnyddio'r llys teulu i fygwth ac i'ch cam-drin chi a'ch plentyn eto. Ni fyddaf fyth yn gallu mynegi'r ofn a'r straen annisgrifiadwy o fynd drwy'r broses llys gyda rhywun yr oeddwn yn ei ofni gymaint.' **Mam, galwad am dystiolaeth**

8.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn trafod profiadau partion i achosion plant cyfraith breifat yn y llys. Mae'r dystiolaeth yn dangos yr effeithir ar brofiad ddiodefwr camdriniaeth ddomestig o achosion llys gan bryderon am eu diogelwch corfforol. Hefyd, effeithir ar eu profiadau yn sylfaenol gan y trawma y maent wedi ei brofi o ganlyniad i gam-drin domestig. Mae'r llenyddiaeth yn dangos y gall y trawma yma arwain at effeithiau corfforol, seicolegol a gwybyddol. Gall yr effeithiau gynnwys bod y diodefwr yn barhaus yn ofni'r camdriniwr, yn cael adweithiau corfforol neu emosiynol na ellir eu rheoli o ganlyniad i fod yn agos i'r camdriniwr (neu o ganlyniad i ddisgwyl i hynny ddigwydd), methu adalw neu ddisgrifio digwyddiadau yn glir neu mewn trefn gronolegol, a phrofi ôl-fflachiadau neu drawma am yr eildro wrth adrodd am y gamdriniaeth neu gael eu holi am hynny. Mae'r cyflwyniadau a dderbyniwyd i'r alwad am dystiolaeth yn awgrymu ei bod yn bwysig bod y cyd-destun yma yn cael ei werthfawrogi gan yr holl gyfranogwyr yn y broses llys, fel bod y broses yn ymwybodol o drawma.

Un pwynt allweddol a ymddangosodd o'r cyflwyniadau yw nad yw achosion llys teulu bob amser yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch corfforol diodefwr camdriniaeth ddomestig ac yn aml maent yn diystyru eu lles corfforol. Beth bynnag fo deiliant yr achos, dywedodd nifer o famau a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn y llys a'u bod yn teimlo bod yr achos llys ei hun yn achosi trawma. Yng nghyflwyniadau'r mamau cyfeiriwyd sawl tro at y profiad annymunol yr oedd diodefwr yn mynd drwyddo wrth fynychu'r llys a rhoi tystiolaeth; roedd nifer yn disgrifio hynny fel profiad gwaethaf eu bywydau, gan ddefnyddio termau fel 'erchyll'. Roedd cyflwyniadau'r mamau yn syfrdanol o gyson mewn perthynas â hyn.

Roedd cyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol yn awgrymu bod y llysoedd teulu yn llusgo y tu ôl i'r llysoedd troseddol o ran cydnabod a mynd i'r afael â risgiau i ddiodefwr camdriniaeth a'r rhwystrau rhag i ddiodefwr roi eu tystiolaeth orau. Roedd y gweithwyr proffesiynol yn cytuno, er bod mesurau wedi eu sefydlu i amddiffyn diodefwr, yn ymarferol nad oedd y rhain bob amser ar gael neu ddim yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Weithiau roedd gosodiad logisteg ystafell y llys neu adnoddau yn golygu nad oedd mesurau ar gael ar gyfer diogelu dioddefwyr yn ystafell y llys. Ar brydiau eraill roedd yn ymddangos bod y diwylliant o blaid cyswllt yn atal mynd i'r afael yn briodol â thrawma a natur fregus dioddefwyr. Roedd y dull gwrthwynebol yn nodwedd waethygol o ran amharu ar allu dioddefwyr i roi eu tystiolaeth orau.

Bydd y bennod hon yn archwilio sut y gellir dylanwadu ar brofiadau dioddefwyr gan bresenoldeb neu absenoldeb mesurau arbennig, megis ardaloedd aros ar wahân neu sgrinio yn ystafell y llys. Bydd hefyd yn ystyried effaith argaeledd cefnogwr neu gynrychiolydd cyfreithiol, a'r ffordd y gellir defnyddio ceisiadau mynych i'r llys gan y cyflawnwyr i barhau i gam-drin heb fawr o rwystr. Gellir rhannu'r daith drwy'r llys a'r anawsterau y gall dioddefwyr eu profi mewn rhai achosion yn y ffyrdd canlynol:

- Roedd themâu trawsbynciol o ran diwylliant, seilos, y system wrthwynebol ac adnoddau yn amlwg yn y cyflwyniadau unigol a phroffesiynol mewn perthynas â phrofiadau yn y llys. Hefyd dylid nodi bod y pryderon a nodwyd yn y bennod hon wedi cael eu codi i raddau helaeth yn y cyflwyniadau gan famau a gweithwyr proffesiynol. Roedd cyfran fechan o gyflwyniadau gan dadau yn cyfeirio at argaeledd a'r defnydd o fesurau arbennig, croesholi uniongyrchol a cheisiadau mynych, ond yn gyffredinol nid oedd tadau yn dweud fawr ddim am ddiogelwch yn y llys, ac yn hytrach oeddent yn canolbwyntio ar sut y dylid parchu eu hawliau mewn achosion. Mae hynny yn gyson â'r llenyddiaeth sydd yn dangos bod tadau yn aml mewn achosion cyswllt plant yn adeiladu eu dadleuon yn nhermau eu hawliau, tra mai yn anaml iawn y mae mamau yn gwneud hynny.¹³¹

8.2 Mynd i'r llys

Mae pryderon dioddefwyr ynghylch diogelwch yn dechrau nifer o ddyddiau ac wythnosau cyn y gwrandawriad llys. Roedd cyflwyniadau mamau yn disgrifio eu profiadau wrth arwain at eu hymddangosiad yn y llys yn seiliedig ar beth yr oeddent yn disgwyl ei wynebu. Oherwydd bod gan nifer o famau brofiadau o wrandawriadau llys mynych, sydd yn fater a archwilir yn fanylach isod, roeddent yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ac mewn llawer i achos nid oedd yr hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl yn dda. Roedd cyflwyniadau unigol yn cynnwys manylion am straen, gorbryder a'r ofn yr oedd nifer o famau yn ei brofi cyn gwrandawriadau llys, yn cynnwys ofn llethol, diffyg cwsg, ymosodiadau panig a bod yn gorfforol sâl.

Un o'r ffactorau all achosi i ddioddefwyr deimlo yn anniogel yw'r ofn o gael eu cam-drin wrth deithio i ac o'r llys. Roedd hynny yn arbennig o wir yn achos mamau a gam-driniwyd sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig ble mae cysylltiadau trafndiaeth cyhoeddus yn

¹³¹ C Smart and B Neale, *Family Fragments* (1999); J Birchall and S Choudhry, *What About My Right Not to be Abused? Domestic Abuse, Human Rights and the Family Courts* (2018).

wael. Mae'r anfantais strwythurol croestoriadol yma yn gysylltiedig â thema ehangach adnoddau. Mae cau llysoedd wedi arwain at deithiau hirach i'r llys ac roedd dioddefwyr yn dweud eu bod yn ofni rhannu trenau a bysiau gyda'u camdrinwyr ar y ffordd i'r llys. Mewn cymunedau gwledig gall y llys agosaf fod nifer o filltiroedd i ffwrdd gyda dim ond un neu ddau o drenau neu fysiau y dydd. Hyd yn oed mewn achosion pan fo partïon yn teithio o agos, roedd y syniad o wrthdaro a bygwth y tu allan i adeilad y llys yn achosi ofn a gorbryder.

Gall ofni achos llys yn ystod yr wythnosau sydd yn arwain at wrandawriad gael ei liniaru'n rhannol gan argaeledd mesurau arbennig, ond mae'n ymddangos nad yw llawer o ddiodefwyr yn ymwybodol bod y rhain ar gael neu roeddent yn cael eu hannog i beidio gofyn amdanynt. Adroddodd rhai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain eu bod yn teimlo eu bod dan anfantais yn y cyswllt yma; neb yn egluro iddynt beth yw mesurau arbennig a'u cynghori ynghylch y broses o geisio gwarchodaeth. Eto, mae hynny yn gysylltiedig â thema adnoddau, ond mae hefyd yn gysylltiedig â'r diwylliant o blaid cyswllt, a thueddiad hynny i ddiystyru camdriniaeth ddomestig ac i ddrwgdybio honiadau, ac yn gysylltiedig â hyfforddi staff y llys. Roedd y cyflwyniadau yn adrodd am geisiadau am fesurau arbennig yn cael eu hanwybyddu neu yn cael eu cydnabod, ond bod mamau yn cyrraedd y llys ac yn canfod nad oedd neb yn ymwybodol o'r cais ac nad oedd dim wedi ei drefnu.

'Er bod deddfau wedi eu sefydlu i amddiffyn pobl sydd yn ddiodefwyr cam-drin domestig, yn anffodus nid oes gan y llysoedd ddigon o adnoddau i helpu diodefwyr agored i niwed ar lefel ymarferol. Yn aml nid oes digon o le ar gyfer neilltuo ystafell ar wahân i'r diodefwyr, fel eu bod yn cael eu cadw ar wahân i'r camdriniwr. Dylai hynny fod yn digwydd fel arferiad', **Cyfreithiwr, galwad am dystiolaeth.**

8.3 Diogelwch yn y Llys

Roedd nifer o famau unigol yn eu cyflwyniadau yn nodi eu bod yn poeni am ddod i gysylltiad gyda'u camdrinwyr yn y llys pan oedd yn ofynnol iddynt fod yn yr un adeilad, a chyrraedd a gadael yr adeilad hwnnw ar yr un amser neu adegau tebyg. Nid oes gan bob llys fynedfeydd ac allanfeydd ar wahân; mae'r cyflwyniadau yn awgrymu nad oes gan lawer yr adnoddau hynny. Er bod cau llysoedd wedi arwain efallai at rai llysoedd ag adnoddau gwael yn diflannu o'r seilwaith, nid yw'r rhai sydd ar ôl â digon o adnoddau o reidrwydd i ddelio â'r senario ddelfrydol o fynedfeydd ac allanfeydd ar wahân ac ardaloedd aros ar wahân. Ar brydiau mae'n bosibl sefydlu trefniadau i ddiodefwyr ddefnyddio mynedfa neu allanfa ar wahân, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Teulu, Rhan 3A a drafodir isod. Ond, mae hynny yn golygu bod rhaid i staff y llys fod yn ymwybodol o'r risg posibl a chyfathrebu'n effeithiol er mwyn sicrhau y gellir defnyddio mynedfeydd ar wahân mewn gwirionedd. Roedd mamau yn bryderus, pan fyddent yn gadael adeilad y llys tua'r un adeg â'u partner camdriniol, y byddent efallai yn cael eu dilyn at eu trafndiaeth neu hyd yn oed

yr holl ffordd adref. Mewn rhai achosion roedd hynny yn ei gwneud yn anodd cadw eu cyfeiriad yn gyfrinachol ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i gamdriniaeth barhau.

Roedd y cyflwyniadau unigol a phroffesiynol yn disgrifio achosion o gamdriniaeth yn digwydd tra bod achosion yn aros i gael eu galw. Yng nghyflwyniadau unigol mamau a'u teuluoedd roedd yna nifer o gyfeiriadau at gam-drin llafar ac ymosodiadau ar safleoedd y llysoedd. Nid y merched yn unig oedd yn darged y cyfryw gamdriniaeth; roedd cyfreithwyr y dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol eraill oedd yn ymwneud â'r achos yn cael eu bygwth neu eu cam-drin hefyd ar brydiau, fel yr oedd adroddiadau proffesiynol yn ei gadarnhau. Mae gan y rhan fwyaf o adeiladau llys staff diogelwch sydd yn bresennol y gellid eu defnyddio, ond mae yna adroddiadau o wrthdrawiadau yn digwydd yn yr ardaloedd aros heb unrhyw un ar gael i ymyrryd neu warchod y person agored i niwed neu eu cynrychiolwyr.

Gellir lliniaru peth o'r ofn ynghylch gwrthdaro neu gamdriniaeth yn adeiladau y llys drwy argaeledd ardaloedd aros ar wahân. Er nad yw honiadau wedi cael eu profi yn y llys cyn canfod ffeithiau, mae'n fuddiol i bawb y sicrheir y gall y partïon aros ar wahân ac yn ddiogel cyn galw'r achos. Mewn rhai llysoedd efallai nad oes yna ystafelloedd ar wahân, neu os oes ystafelloedd ar gael, efallai na fyddant yn ddigon preifat i ddarparu sicrwydd. Opsiwn addas fyddai ystafell gyda chlo/pad allwedd nad yw'n weledol nac yn hygyrch o'r prif ardal aros. Roedd cyflwyniadau unigol yn cyfeirio ardaloedd agored neu ystafelloedd gyda ffenestri heb orchudd sydd yn wynebu'r prif ardal aros yn uniongyrchol, heb unrhyw fynediad i gyfleusterau toiled heb groesi y prif ardal aros. Gall bygythiadau ddigwydd drwy gyfrwng edrychiadau neu ystumiau, felly os yw dioddefwyr am deimlo'n wirioneddol ddiogel yn y llys mae angen iddynt gael gofod ble gallent aros heb ofni y bydd eu camdriniwr yn ymddangos ar unrhyw adeg neu'n eu bygwth yn weledol o rywle cyfagos. Mae gwarchodaeth yn yr ardal aros yn fater adnoddau yn rhannol, ond mae hefyd yn fater cyfathrebu a diwylliant; mae angen i staff y llys fod yn ymwybodol o bwysigrwydd amddiffyn partïon wrth iddynt aros i'w hachos gael ei alw ac i ddefnyddio'r cyfleusterau yn effeithiol. Rhoddodd unigolion a gweithwyr proffesiynol dystiolaeth bod presenoldeb gardiau diogelwch oedd yn ymwybodol o'r materion ac argaeledd ardaloedd aros diogel ar wahân, yn fuddiol iawn.

Os oes yna ddigwyddiadau o fygwth neu gam-drin yn adeilad y llys, mae'n bwysig bod y barnwr yn mynd i'r afael â hynny yn briodol. Derbyniodd yr alwad am dystiolaeth gyflwyniadau oedd yn disgrifio digwyddiadau o gam-drin mamau a gweithwyr proffesiynol na fu i'r barnwr delio â nhw yn syth. Er enghraifft, mewn un achos roedd swyddog Cafcass wedi derbyn bygythiadau o gam-drin corfforol pe na bai'r achos yn mynd o blaid y tad, ac yna ymosodwyd yn gorfforol ar gyfreithiwr y fam gan y tad yn y llys. Roedd gardiau diogelwch y llys wedi gweld yr ymosodiad, ond adroddwyd bod y barnwr wedi rhoi'r mater i'r neilltu gan ddweud y gellid 'delio â hynny yn ddiweddarach pe bai angen'. Ar yr wyneb, mae hon yn senario pryd ddylai'r barnwr fod wedi cymryd camau cadarnach yn syth. Os bydd trosedd o ymosod wedi digwydd yn adeilad y llys, mynd i'r afael â hynny ddylai fod

yn flaenoriaeth. Yn y niferoedd o ddigwyddiadau o ymosod a ddisgrifiwyd i'r panel, mae'n ymddangos y gallai'r llys fod wedi dechrau achos traddodi er mwyn dwyn achos o ddirmyg llys yn erbyn y cyflawnydd.

Hefyd dywedodd cyflwyniadau wrth y panel am achosion pan adawyd y partiön ar eu pennau eu hunain gyda'i gilydd am gyfnodau hir yn absenoldeb y Cynghorydd Cyfreithiol, neu y'u rhoddyd mewn ystafell fach gyda'i gilydd i negodi cyn y gwrandawriad llys. Cafwyd adroddiadau o'r math yma am arfer anniogel gan unigolion a gweithwyr proffesiynol. Yn un o'r grwpiau ffocws gyda gweithwyr proffesiynol roedd yna adroddiadau y gofynnwyd i bartiön negodi y tu allan i ystafell y llys, hyd yn oed mewn achosion pan oedd gan y camdriniwr euogfarnau troseddol a gorchymyn ffrwyno mewn grym. Mae hyn yn cyfleu'r thema gyffredinol o lysoedd teulu yn gweithredu mewn seilo. Ym marn y panel, ni ddylai achosion plant cyfraith breifat fyth danseilio gorchymynion y llysoedd troseddol neu orchymynion peidio ymyrryd drwy roi dioddefwyr mewn sefyllfa ble y'u gorfodir i ryngweithio yn anniogel gyda'u camdriniwr.

8.4 Achosion llys: y profiad o adrodd am gamdriniaeth

Roedd nifer o'r cyflwyniadau gan famau unigol yn disgrifio eu profiadau yn yr ystafell llys fel profiad trawmatig. Mae yna nifer o ffactorau, y mae tystiolaeth o'r adolygiad o lenyddiaeth a'r cyflwyniadau yn awgrymu sydd yn gweithio gyda'i gilydd i wneud i'r profiad o wrandawriad llys fod yn un trawmatig i ddiodefwyr, ac mae rhai o'r rhain yn gysylltiedig â'r system wrthwynebol. O dan y dull gwrthwynebol, fel y nodwyd ym mhennod 4, mae'r partiön yn cael eu 'gosod yn erbyn ei gilydd' ac mae'r barnwr yn gweithredu fel penderfynydd niwtral nad yw'n ymostwng i'r 'gwrthdaro'. Mae'r dull gwrthwynebol yn dibynnu ar egwyddor 'cydraddoldeb arfau'; mae'n tybio bod y ddau barti yn gydradd, ac yn benodol bod eu hadnoddau yn gydradd, er enghraifft, mae gan y ddau gynrychiolaeth gyfreithiol a'r modd iddynt allu cyflwyno eu 'tystiolaeth orau'. Realiti achosion trefniadau plant, fel mae'r cyflwyniadau yn ei ddangos, yw bod nifer o'r tybiaethau yma yn ddiffygiol, ac nid yw'r model gwrthwynebol ei hun yn gweithio'n dda er mwyn sicrhau proses ddiogel neu deg.

8.4.1 Effeithiau camdriniaeth ar hygrededd diodefwyr

Derbyniodd yr alwad am dystiolaeth adroddiadau niferus gan unigolion sydd yn dangos bod y profiad o ail-fyw eu camdriniaeth yn y llys wedi bod yn drallodus, sarhaus ac amharchus. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r bennod hon, roedd nifer o famau yn disgrifio'r profiad fel un erchyll, a'r profiad gwaethaf yn eu bywydau. Roedd nifer yn dweud eu bod yn cael anhawster siarad ym mhresenoldeb y camdriniwr. Dywedodd nifer bod ymatebion barnwyr ac ynadon i'w honiadau o gamdriniaeth, ac i'w trallod yn y llys, wedi gwneud iddynt deimlo eu bod wedi cael eu bychanu, eu bradychu a'u sarhau. Cafwyd adroddiadau o wybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu'n amhriodol, er enghraifft gwybodaeth am gwnsela o ganlyniad i ymosodiad rhywiol, a fyddai wedi cael ei wahardd mewn sefydliad

troseddol o dan reolau tystiolaeth. Mae hyn eto yn amlygu dulliau gwahanol y llysoedd teulu a throseddol a'r thema ehangach o weithio mewn seilo.

Adroddodd nifer o famau eu bod dan yr argraff nad oedd y barnwr yn gyfarwydd â'u hachos, ac nad oeddent wedi darllen y ffeil cyn y gwrandawriad. Fel y trafodwyd ym mhennod 7, roedd y cyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol ac unigolion yn amlygu bod gwahanol farnwyr yn delio ag achosion ar wahanol ddyddiau, felly nid oedd yna unrhyw deimlad o ddilyniant barnwrol, sydd, fel y mae ymchwil yn yr adolygiad o lenyddiaeth yn ai atgyfnerthu, yn helpu i liniaru rhai o'r problemau o ran gorfod adrodd ac ail-fyw profiadau bob tro i farnwr y mae'n ymddangos nad oes ganddo fawr o wybodaeth am beth sydd wedi digwydd yn flaenorol. Mae'n amlwg bod dilyniant barnwrol yn broblem adnoddau. Er na fyddai bob amser yn bosibl darparu 'un barnwr i un teulu', mae dadansoddiad cost-budd yn cefnogi'r ymagwedd honno.

Yn anochel, mae adrodd am gamdriniaeth yn golygu bod rhaid i'r dioddefwr ail-fyw peth o'u profiadau mewn ffyrdd allai fod yn boenus. Nododd mamau yn eu cyflwyniadau eu bod yn teimlo eu bod wedi gorfod dioddef hynny er mwyn ceisio sicrhau y byddai eu plant yn ddiogel. Ond, gall y ffordd y mae'n ofynnol i wneud hynny wneud i'r profiad fod yn fwy neu yn llai trawmatig. Roedd darllen adroddiadau mamau unigol a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth yn ddirdynol. Mynegodd rhai o'r mamau y farn nad oedd y barnwr neu'r ynadon wedi credu eu hadroddiadau, ac roeddent yn teimlo nad oedd yna fawr o ddealltwriaeth o beth yw rheolaeth drwy orfodaeth a pha effaith all hynny ei achosi. Roedd nifer o'r gweithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r alwad hon yn amlygu dealltwriaeth dda o gam-drin domestig, yn arbennig rheolaeth drwy orfodaeth, fel rhan o ymatebolrwydd barnwrol yn ystafell y llys.

- Mae effeithiau cam-drin domestig, ar ei holl ffurfiau, wedi cael eu trafod mewn mannau eraill yn yr adroddiad yma ac wedi ei amlygu yn yr adolygiad o lenyddiaeth, sydd yn cyfeirio at waith Stark (2007) ac eraill ar reolaeth drwy orfodaeth yn benodol. Mae dylanwad rheolaeth drwy orfodaeth a thrawma ar allu'r dioddefwr i ymddangos fel tyst credadwy wedi cael ei drafod mewn perthynas â'r system cyfiawnder troseddol, ble cydnabyddir y gallai'r dioddefwr fod angen amrywiaeth o wahanol dulliau er mwyn goresgyn rhai o'r rhwystrau i roi y dystiolaeth orau.¹³² Gall profiad trawmatig rheolaeth drwy orfodaeth effeithio ar gof ac o bosibl effeithio'n arwyddocaol ar allu'r dioddefwr i ymddangos fel tyst credadwy. Efallai bod gan ddioddefwyr sydd wedi dioddef trawma gof am fanylion sydd yn amwys, anghyflawn ac anhrefnus, ac o ganlyniad i hynny mae'n golygu eu bod yn antithesis o'r hyn sydd yn cael ei ystyried fel y stereoteip o 'dyst da'. Gallent hefyd gael pyliau o gofio dim pan fônt dan bwysau i gofio

¹³² C Bishop and V Bettinson (2018) 'Evidencing domestic violence: Including behaviour that falls under the new offence of 'controlling and coercive behaviour', *International Journal of Evidence and Proof* 22(1): 1-27.

digwyddiadau penodol, penodau neu enghreifftiau o gamdriniaeth.¹³³ Mae'r hyn sydd yn wir yng nghyd-destun cyfiawnder troseddol yn berthnasol hefyd yng nghyd-destun cyfiawnder teulu pan fo'r dull gwrthwynebol yn cael ei fabwysiadu.

Roedd cyflwyniadau mamau unigol yn nodi y rhoddwyd pwys mawr ar fanylion y gamdriniaeth a fawr ddim ar effeithiau posibl trawma ar eu gallu i ddarparu y lefel ddisgwyliedig o eglurder a hyder yn eu hymatebion, neu pa mor drawmatig oedd siarad am y gamdriniaeth ym mhresenoldeb y camdriniwr. Dywedodd rhai mamau wrth y panel eu bod yn teimlo bod proses y llys wedi achosi iddynt gollu pob grym oherwydd eu bod yn cael eu cymell i ddweud wrth y camdriniwr am effeithiolrwydd yr amrywiol dechnegau rheoli a ddefnyddiwyd fel rhan o'r gamdriniaeth ddomestig. Yn y cyd-destun yma, mae manylu am y gamdriniaeth y maent wedi ei ddiodefwr a'i effeithiau yn debygol o gynyddu teimlad o ddiymadferthedd y dioddefwr a'r canfyddiad o berygl, ond mae atgyrchion hunanamddiffynol megis bod yn amwys neu ddiystyru'r gamdriniaeth a'i effeithiau yn lleihau eu gallu i ymddangos fel tyst credadwy.

Hyd yn oed pan fo dioddefwyr yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi gallu dweud eu stori, adroddodd nifer o ymatebwyr eu bod wedi teimlo trallod pan nad oedd yn ymddangos bod eu honiadau yn cael eu credu neu'n cael eu diystyru. Roedd cyflwyniadau nifer o famau yn datgelu effaith y teimlad o beidio cael eu credu. Dywedodd un fam: 'Dywedwyd wrthyf bod angen i mi symud ymlaen a dod dros beth a ddigwyddodd. Mae'r math yma o sylwad yn bychanu'r gamdriniaeth ac yn achosi i'r dioddefwr deimlo'n ddiwerth'. Dywedodd un arall ei bod dan yr argraff bod y llys yn credu ei bod yn 'dweud celwydd am y gamdriniaeth', ac mewn perthynas â'r cam-drin meddyliol yr oedd wedi disgrifio, roedd yn 'teimlo nad oedd hynny yn bwysig'.

- Dywedodd un ddynes, yr oedd ei phartner wedi cael ei gyhuddo o droseddau niwed corfforol difrifol, ei bod wedi tynnu ei chwyn yn ôl o ganlyniad i bwysau gan y teulu estynedig i beidio â throeddoli ei chamdriniwr. Pan ddaeth yr achos gerbron y llys teulu, canfu bod y barnwr wedi ail-labelu'r digwyddiad fel 'hunan-anafu'. Mewn nifer o gyflwyniadau roedd dioddefwyr yn disgrifio sut yr oedd y llys yn rhoi eglurhad arall am y gamdriniaeth, gan adael iddynt deimlo nid yn unig nad oeddent yn cael eu credu, ond yng ngeiriau y fam benodol yma, yn 'ddiymadferth' hefyd. Roedd nifer o ferched oedd wedi bod mewn perthnasoedd o reoli drwy orfodaeth yn siarad am bartneriaid yn ceisio tanseilio eu realiti drwy broses o ailddiffinio digwyddiadau, a elwir weithiau yn 'gaslighting'.¹³⁴ Roedd yn arbennig o drallodus i ddioddefwyr weld y profiad yma yn cael ei ailadrodd yn y llys. Fel y dywedodd un fam: 'Fe'm gadawyd yn teimlo nad wyf yn dweud y gwir ac y dylwn aros yn dawel.' Mae hon yn enghraifft benodol, ond roedd

¹³³ I gael disgrifiad defnyddiol o effeithiau trawma ar gof a thystiolaeth, gweler <https://vimeo.com/380211656>; <https://vimeo.com/380211441>.

¹³⁴ Daw'r term 'gaslighting' o'r ffilm *Gaslight* (1944) bel mae dyn yn dylanwadu ac yn rheoli ei wraig i'r pwynt ble mae'n credu ei bod yn colli ei synnwyr.

adroddiadau cyson gan famau yn dangos bod nifer ohonynt yn teimlo trallod mawr o gael eu galw'n 'gelwyddog' neu eu bod yn 'gorliwio' y gamdriniaeth.

Er bod mamau yn deall bod yn rhaid i'r dystiolaeth gael ei phrofi, roeddent hefyd yn teimlo eu bod dan anfantais; bod y camdriniwr yn cael pob cyfle i geisio eu tanseilio, ond nad oedden nhw yn cael cyfle i adrodd eu stori yn llawn, heb ymyrraeth na bygythiad. Roedd mamau yn dweud yn aml bod gan y camdriniwr hygredd yn llygaid y llys a gweithwyr proffesiynol oherwydd eu bod yn ymddangos eu bod yn gwisgo'n dda, yn ymddwyn yn dda a bod ganddynt ar brydiau yrfaoedd da a nodweddion eraill oedd yn ysgogi hygredd. Fel y dywedodd un fam yn ei chyflwyniad: 'Roedd yn ymddangos yn barchus, ond petai'r barnwr wedi gofyn y cwestiynau priodol, byddai wedi gallu gweld y tu hwnt i'r ffasâd'. Dywedodd mam arall ei bod yn credu bod y barnwyr yn ei hachos hi yn hawdd eu 'camarwain' a'u 'hystumio' gan gamdriniwr oedd â statws proffesiynol uchel. Yn wahanol i'r ymchwil sydd yn dangos y gall camdriniaeth ddomestig ddigwydd mewn unrhyw fath o berthynas a'i fod yn trawstorri pob grŵp cymdeithasol a phroffesiwn, roedd rhai o'r mamau yn teimlo bod straeon euartneriaid proffesiynol yn cael eu credu oherwydd yr ymarweddiad caboledig a rheoledig yr oeddent yn gallu ei gyfleu. Roedd mamau oedd yn cael eu cam-drin gan bartneriaid oedd yn weithwyr cyfreithiol eu hunain yn teimlo yn arbennig o agored i niwed a than anfantais. Dywedodd un fam yr oedd ei phartner camdriniol yn gyfreithiwr: 'Defnyddiodd ei wybodaeth gyfreithiol a'i adnoddau i hawlio ei fod yn hunanamddiffyniad'.

Yn fwy cyffredinol, mae'n un elfen o reolaeth drwy orfodaeth a welir yn aml pan fo'r camdriniwr yn cyfleu wyneb hawddgar a dymunol i'r byd y tu allan, fel bod unrhyw honiad gan y dioddefwr yn ymddangos yn gwbl anghredadwy. Roedd nifer o'r mamau yn teimlo eu bod dan anfantais oherwydd bod eu profiadau o gamdriniaeth wedi achosi iddynt fod yn llai credadwy yn llygaid y llys oherwydd eu bod yn dioddef effeithiau parhaus y gamdriniaeth o ran trawma ac oherwydd adnoddau prin. Fel y dywedodd un fam: 'Roedd gen i anhwylder straen ôl-drawma', roedd yn teimlo bod y barnwr yn gorbwysleisio ei iechyd meddwl wrth asesu'r dystiolaeth 'heb edrych ar y cyflawnydd oedd wedi ei achosi.'

Hefyd, roedd themâu anfantais strwythurol croestoriadol yn ymddangos yn amlwg iawn yn y cyflwyniadau gan famau BAME a chyflwyniadau grwpiau proffesiynol sydd yn cefnogi mamau BAME. Roedd nifer o'r cyflwyniadau yma yn dweud sut yr oedd merched BAME yn teimlo bod eu profiadau negyddol o broses y llys yn cael ei waethygu gan hiliaeth. Dywedodd un fam yr oedd ei phartner yn weithiwr cyfreithiol proffesiynol ei fod nid yn unig wedi defnyddio ei statws proffesiynol i'w fantais ei hun, ond ei fod hefyd yn elwa o'r ffaith ei fod yn ddyn gwyn proffesiynol, tra ei bod hi o gefndir BAME, ac oherwydd ei gamdriniaeth ariannol ohoni roedd yn ddibynnol ar fanciau bwyd. Disgrifiodd yr hiliaeth a'r gwahaniaethu ar sail dosbarth yr oedd yn teimlo oedd yn rhan o ymateb digydymdeimlad y llys, oedd yn credu gair ei chamdriniwr ac yn ei thrin hi fel 'niwsans'. Roedd y grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda merched o gefndiroedd BAME yn adlewyrchu y math yma o stori dro ar ôl tro. Dywedodd un ddynes y gofynnwyd iddi yn ystod ei chroesholi, yn seiliedig ar ei chefnidir

ethnig yn unig, a oedd yn 'credu mewn voodoo', a oedd hi yn 'wrach' ac a oedd yn cynnig 'aberth gwaed'. Byddai gofyn y cwestiynau yma, nad oedd yn berthnasol o gwbl i faterion yr achos, heb unrhyw ymyrraeth farnwrol, yn gadael argraff o hiliaeth yn ddiamau, fel a ddigwyddodd yn yr achos yma.

Felly mae'r cyflwyniadau yn awgrymu nifer o rwystrau i hygrededd fel y crynhoir hynny isod:

8.4.2 Mesurau arbennig

'Efallai na fydd dioddefwyr sydd â chynrychiolaeth gyfreithiol yn gwybod y gellir gwneud cais am fesurau arbennig', ond mewn gwirionedd ni ddylent orfod gwybod am hynny. Dylai systemau fod wedi eu sefydlu i warchod y bobl yma. Rwyf wedi cael achosion pan fo'r llys yn gwneud cais am fesurau arbennig, ond nad yw hynny yn cael ei roi ar waith wrth gyrraedd y llys. Er enghraifft, dim ystafell sbâr, a staff y llys wedi anghofio gosod sgrin. Mewn un llys roedd y sgrin wedi torri felly roedd rhaid gosod desg/bwrdd o flaen bloc y tyst oedd yn gweithredu fel sgrin dros dro. Roedd yn embaras, ac nid oedd yn ddigon da o bell ffordd. Mae angen gwneud mwy i amddiffyn dioddefwyr agored i niwed sydd yn mynd drwy system y llys ar lefel ymarferol - mae angen cael mwy o adnoddau a phrosesau awtomatig er mwyn sicrhau bod y profiad mewn llys yn llai anodd i ddiodefwyr.' **Cyfreithiwr**

- Gwrthdaro wyneb yn wyneb yw'r modd nodweddiadol o achos cyfreithiol, ond ers peth amser cydnabuwyd nad dyma'r ffordd orau o reidrwydd o sefydlu'r gwir. Yn y system cyfiawnder troseddol, cyflwynwyd darpariaethau dros ddwy ddegawd yn ôl gan Ddeddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 ar gyfer mesurau arbennig, megis sgriniau a rhoi tystiolaeth drwy gyswllt fideo, er mwyn galluogi tystion i roi eu tystiolaeth orau. Mae cwmpas y mesurau yma a'r cymhwysedd i achosion teulu yn cael eu hystyried yn yr adolygiad o lenyddiaeth.¹³⁵ Mae'r llenyddiaeth yn dangos, er bod mesurau megis sgrinio ar gael yn dechnegol yn y llysoedd teulu, yn aml nid ydynt yn cael eu defnyddio. Er enghraifft, canfu arolwg gan Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr nad oedd gan dros hanner y merched a ymatebodd, oedd wedi bod drwy'r llysoedd teulu, fynediad at fesurau arbennig.¹³⁶

Fel yr amlygwyd ym mhennod 3, addaswyd Rheolau Gweithdrefn Teuluoedd 2010 yn 2017 er mwyn rhoi ystyriaeth i ymchwil sydd yn dangos buddion posibl sgriniau a

¹³⁵ Yr adolygiad o lenyddiaeth adran 8.2.

¹³⁶ Women's Aid Federation of England, *Nineteen Child Homicides* (2016).

chysylltiadau fideo.¹³⁷ Roedd p'un a arweiniodd yr adolygiadau yma i'r rheolau gweithdrefnol at yr effeithiau a ddymunwyd yn un o'r materion penodol y dyluniwyd yr alwad yma am dystiolaeth i'w archwilio. Er y derbyniwyd y cyflwyniadau gan unigolion oedd yn gysylltiedig ag achosion oedd wedi digwydd cyn ac ar ôl y newidiadau i Reolau Gweithdrefn Teuluoedd, fel y nodwyd ym mhennod 2, roedd yna lefel uchel o gysondeb yn yr ymatebion mewn perthynas â gwahanol gyfnodau. O hyn mae'n ymddangos bod y problemau gyda than-ddefnyddio mesurau yn gymwys ar ôl y newidiadau a ddyluniwyd i annog eu defnyddio drwy 'gyfarwyddiadau cyfranogi' (gweler pennod 3). Mae cyfarwyddiadau cyfranogi nid yn unig yn cynnwys sgriniau a chysylltiadau fideo, ond hefyd cyrraedd a gadael yr adeilad ar wahân, ardaloedd aros ar wahân (a drafodir uchod) a chyfarwyddiadau ynghylch croesholi (a drafodir isod).

Roedd rhai o'r cyflwyniadau proffesiynol yn adrodd am fwy o ddefnydd o ystafelloedd aros ar wahân a sgriniau i rai dioddefwyr camdriniaeth, a mwy o ymyrraeth farnwrol er mwyn atal croesholi uniongyrchol ers 2017. Ond, roedd y cyflwyniadau yma hefyd yn pwysleisio diffyg cysondeb, amrywiaeth o ran arferion lleol, adnoddau cyfyngedig a bychanu camdriniaeth ddomestig, a bod hynny yn effeithio ar argaeledd a'r defnydd a wneir o fesurau arbennig megis sgriniau a chysylltiadau fideo. Dywedodd gweithwyr proffesiynol y byddai'r rhan fwyaf o ddiodefwyr yn teimlo y byddai mesurau megis sgriniau yn helpo i leihau ofn a bygythiad wrth roi tystiolaeth yng ngwŷdd y cyflwynydd, ac y byddai hynny yn arwain at effaith gadarnhaol ar ansawdd y dystiolaeth a roddir ganddynt. Roedd rhai cyflwyniadau yn awgrymu bod rhai mesurau yn fwy effeithiol nag eraill. Er enghraifft, roedd Refuge yn teimlo bod cyswllt fideo yn fwy buddiol na sgrinio oherwydd nad oes raid i'r dioddefwr fod yn yr un ystafell â'r camdriniwr. Hefyd, dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol y gall sgriniau ar brydiau fod yn rhai dros dro, ac nad ydynt yn arbennig o effeithiol oherwydd hynny.

Ond, roedd yn amlwg o'r cyflwyniadau, nad oes gan bob llys y cyfleusterau neu nad ydynt ar gael i'w defnyddio yn ôl y galw, hyd yn oed ar eu ffurf mwyaf elfennol. Dywedodd un barnwr wrth y panel, petai cais am sgriniau yn cael ei gyflwyno, y byddai'n rhaid iddo roi'r dioddefwr i eistedd wrth ei ymyl ar y fainc er mwyn gallu defnyddio'r sgrin oherwydd gosodiad ei ystafell llys a phrinder lle. Mae nifer o achosion yn cael eu clywed mewn siambrau mewn ystafelloedd bach iawn ble mae'n rhaid i'r partion eistedd yn agos at ei gilydd; hyd yn oed os defnyddir sgrin, efallai na fydd yn effeithiol iawn o ran gwneud i'r dioddefwr deimlo'n fwy diogel o dan amgylchiadau o'r fath. Roedd cyflwyniadau proffesiynol yn nodi'n fynych bod siambrau Barnwyr Rhanbarthol yn rhy fychan er mwyn gallu defnyddio mesurau arbennig yn effeithiol. Mae hwn yn fater adnoddau, ac roedd cyflwyniadau i'r alwad am dystiolaeth yn adrodd am adnoddau cyfyngedig yn cael eu dogni yn ôl yr angen canfyddadwy am warchodaeth. Er enghraifft, nododd y cyflwyniad gan Hawliau Merched bod y llysoedd yn tueddu i flaenoriaethu y mesura arbennig cyfyngedig

¹³⁷ N Corbett and A Summerfield, *Alleged Perpetrators of Abuse as Litigants in Person in Private Family Law: The Cross-Examination of Vulnerable and Intimidated Witnesses* (2017).

sydd ar gael ar gyfer gwrandawiadau canfod ffeithiau, ond roedd eu cyflwyniadau yn nodi, o safbwynt y dioddefwr, bod y rhan fwyaf o'r gwrandawiadau yn teimlo yn debyg iawn a'i bod yn dal yn eithriadol anodd i'r dioddefwr siarad drostynt eu hunain pan fo'r cyflawnydd yn eistedd hyd braich i ffwrdd.

Roedd hefyd yn amlwg o'r cyflwyniadau proffesiynol bod yna amharodrwydd o hyd i ganiatáu mesurau arbennig, megis sgriniau a chyswllt fideo, hyd yn oed pan fo'r cyfleusterau ar gael yn dechnegol. Mae'n ymddangos bod y cyflwyniadau a dderbyniwyd yn dangos bod ynadon yn benodol yn arddel hynny efallai. Roedd yr amharodrwydd yma yn aml yn gysylltiedig â chanfyddiad bod mesurau arbennig mewn rhyw ffordd yn 'driniaeth ffafriol' ac y gallai greu canfyddiad o duedd neu ragfarn yn erbyn cyflawnydd camdriniaeth honedig. Mae hon yn thema sydd yn amlwg mewn ymchwil blaenorol,¹³⁸ ac a adlewyrchwyd hefyd mewn nifer o gyflwyniadau gan dadau oedd wedi bod yn destun honiadau o gam-drin domestig a nododd eu bod yn teimlo bod defnyddio mesurau arbennig yn dangos tuedd yn eu herbyn. Ond er nad yw'n syndod efallai y gallai tadau arddel y canfyddiad hwnnw, mae'n fwy o syndod clywed gan ymatebwyr proffesiynol bod y llysoedd yn aml yn annog peidio defnyddio mesurau arbennig oherwydd 'credoau y byddai hynny yn creu tuedd annheg yn yr achos' (Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr). Yn amlwg, ni ddylai'r barnwr, fel dyfarnwr niwtral, ystyried bod sgrinio neu gyswllt fideo yn rhagfarnllyd, ac mae gan y barnwr y gallu i unioni unrhyw gamsyniad bod mesurau arbennig yn rhagfarnu'r materion.

Mewn mwy nag un o'r cyfarfodydd bord gron i gyfranogwyr nodwyd y gwnaethpwyd i ddioddefwyr deimlo eu bod yn 'niwsans' am wneud cais am fesurau arbennig, gan adlewyrchu'r cyflwyniadau unigol a dderbyniwyd. Roedd rhai gweithwyr proffesiynol hyd yn oed yn mynegi'r safbwynt y gallai dioddefwyr gael eu 'cosbi' hyd yn oed am wneud cais am fesurau arbennig oherwydd bod hynny yn cael ei ystyried fel arwydd o'u gelyniaeth tuag at y parti arall ac amharodrwydd i gyd-riantu yn gydweithredol. Mae'n ymddangos o'r cyflwyniadau y gall cyngor cyfreithiol waethygu stereoteipiau negyddol bod mesurau arbennig yn rhagfarnllyd tuag at camdrinwyr ac yn arwydd o elyniaeth y mamau. Gan ategu cyflwyniadau unigol, dywedodd merched mewn un grŵp ffocws eu bod hyd yn oed wedi cael eu cynghori gan eu cyfreithwyr eu hunain i beidio â gwneud cais am fesurau arbennig oherwydd byddai hynny yn cael ei ystyried fel drwgdeimlad at y camdriniwr. Ni ddylai dioddefwyr camdriniaeth gael eu hannog i beidio gwneud cais am fesurau arbennig oherwydd y byddai hynny yn cael ei ystyried fel tystiolaeth o ddrwgdeimlad, gelyniaethu rhieni, neu ymdrech i gael mantais dactegol wrth ymglyfreitha.

Pryder arall a fynegwyd gan famau oedd y byddent, drwy ofyn am fesurau arbennig, yn cael eu hystyried fel rhywun 'gwan' neu yn 'agored i niwed' ac y byddent felly yn risgio i dybiaethau negyddol gael eu gwneud ynghylch eu gallu i riantu. Er enghraifft, nododd y

¹³⁸ N Corbett and A Summerfield, *Alleged Perpetrators of Abuse as Litigants in Person in Private Family Law: The Cross-Examination of Vulnerable and Intimidated Witnesses* (2017).

cyflwyniad gan Mosac, bod mamau oedd yn honni bod eu plant wedi cael eu cam-drin yn rhywiol wedi cael eu cymell i beidio â gofyn am fesurau arbennig oherwydd nad oeddent eisiau i dybiaethau negyddol gael eu gwneud am eu iechyd meddyliol a'u gallu i riantu.

Roedd cyflwyniadau hefyd yn cyfeirio at amrywiaeth o resymau eraill dros beidio defnyddio mesurau arbennig. Roedd y rhain yn cynnwys y ffaith nad oedd partïon oedd heb gynrychiolaeth gyfreithiol yn ymwybodol o argaeledd mesurau arbennig ac nad oeddent mewn sefyllfa i ofyn amdanynt, tra nad oedd y llysoedd yn rhagweithiol o ran ystyried a oedd ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn dyst agored i niwed neu beidio. Yn fwy cyffredinol, nododd gweithwyr proffesiynol bod y llysoedd ond yn tueddu i gydnabod bod partïon yn agored i niwed os oedd ganddynt anawsterau dysgu neu nad oeddent yn siarad Saesneg, tra nad oedd dioddefwyr oedd yn honni camdriniaeth ddomestig na rhieni gwarchodol oedd yn honni cam-drin plant yn rhywiol yn cael eu derbyn fel tystion agored i niwed ynddynt eu hunain o fewn cwrpas Rheolau Gweithdrefn Teuluoedd. Hefyd, roedd rhai gweithwyr proffesiynol wedi arsylwi bod y llysoedd wedi gwneud asesiadau anghywir o natur fregus yn seiliedig ar ganfyddiadau seiliedig ar stereoteip o beth yw dioddefwr. Roedd hynny yn cael ei atgyfnerthu gan gyflwyniadau gan nifer fechan o dadau oedd yn mynegi pryderon nad oedd natur fregus dioddefwyr gwrywaidd yn cael ei gydnabod, na chynigir mesurau diogelwch i ddiodesfwr gwrywaidd yn y llys ac na weithredwyd ar geisiadau am fesurau arbennig gan ddiodesfwr gwrywaidd.

Felly at ei gilydd, gellir casglu nad yw sgrinio a chysylltiadau fideo yn cael eu defnyddio mor effeithiol ag y gellid eu defnyddio ac nad yw'r newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Teuluoedd wedi cyflawni'r nod o gynnig gwell gwarchodaeth a rhoi cyfle i ddiodesfwr roi eu 'tystiolaeth orau'. Roedd cyflwyniadau proffesiynol yn dweud wrth y panel bod llawer yn ystyried bod mesurau arbennig yn ddymunol ac yn rhywbeth i'w ddyheu, yn hytrach nag yn orfodol neu yn arferol. Nododd Cymdeithas yr Ynadon yn eu cyflwyniad bod ymchwil a gynhaliwyd gyda 143 o ynadon yn dangos, er bod 68% wedi dweud eu bod yn teimlo yn hyderus iawn neu yn eithaf hyderus wrth ddilyn FPR Rhan 3A a PD3AA, y dywedodd llai na'u hanner (48%) eu bod yn eu dilyn bob amser neu yn rheolaidd. Felly mae swm y dystiolaeth a gyflwynwyd yn awgrymu y gellid gwneud mwy i sicrhau bod mesurau arbennig ar gael i ddiodesfwr mewn achosion plant cyfraith breifat. Bydd hynny yn golygu y bydd angen adnoddau a hyfforddiant er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau o ran agwedd sydd yn dal i fodoli.

8.4.3 Absenoldeb cefnogwr priodol

Roedd rhai o gyflwyniadau mamau a thadau yn adrodd am brofiadau o wrthod ceisiadau i ddod â gweithwyr cymorth i'r llys fel Cyfaill Mckenzie. O'r adolygiad o lenyddiaeth, mae'n hysbys y gall Cyfeillion Mckenzie o'r fath ddarparu cymorth emosiynol i bartïon. Ond dywedwyd wrth y panel am anghysonderau mewn arferion ynghylch a ddylid caniatáu eiriolwyr camdriniaeth ddomestig i'r llys i gefnogi diodesfwr neu beidio, ac am achlysuron pan wrthodwyd mamau a gam-driniwyd rhag cael cefnogaeth gweithwyr cymorth cam-drin domestig oherwydd bod y barnwr yn wrthwynebus neu bod y tad wedi gwrthwynebu

hynny. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru wrth y panel nad oedd gweithwyr cymorth yn aml yn cael caniatâd i fynd gyda merched i ystafell y llys oherwydd bod y barnwr yn teimlo y byddai hynny yn creu canfyddiad o duedd. Hefyd adroddodd cyfarfod bord gron o ymarferwyr am ddrwgdeimlad gan farnwyr tuag at gefnogwyr cam-drin domestig arbenigol oedd yn cael eu cymeriadu yn ddifrifol fel 'rhai oedd eisiau cael eu gweld yn gwneud dsainoni'. Nododd un cyflwyniad gan rai gweithwyr proffesiynol sydd yn cefnogi dioddefwyr eu bod yn credu bod yna gred, o leiaf ymysg rhai ynadon, bod gan gyflawnwr honedig hawl absoliwt i wrthod i ddiodefwyr camdriniaeth honedig gael cwmni gan gefnogwr yn y llys. Mewn gwirionedd, mae hynny yn fater i'r llys benderfynu arno, ac mae'r llys hefyd yn gallu dileu unrhyw ganfyddiad o duedd. Yn hytrach na bod yn barod i dderbyn gwrthwynebiad i bresenoldeb cefnogwyr, yn arbennig IDVA, gallai'r barnwr egluro beth yw swyddogaeth y cefnogwr ac nad oes unrhyw ragfarn yn gysylltiedig â phresenoldeb cefnogwr.

Mae'n ymddangos bod y gwrthwynebiadau yr adroddwyd amdanynt i gefnogwyr mewn llys mewn rhai ffyrdd yn debyg iawn i'r gwrthwynebiadau a adroddwyd amdanynt i fesurau arbennig; maent yn seiliedig ar ganfyddiadau diffygiol bod yr ochr arall yn cael mantais annheg. Ond, yn syml, mae'r cefnogwr yno er mwyn galluogi'r diodefwyr i gyfranogi'n effeithiol yn yr achos. Gall cymorth arbenigol fod yn allweddol i ddiodefwyr camdriniaeth sydd yn cynllunio eu diogelwch y tu mewn a thu allan i'r llys. Gall presenoldeb rhywun sydd yn deall profiad y diodefwyr ac sydd â'r wybodaeth a'r profiad i'w cyfarwyddo i ofyn am yr help sydd ei angen arnynt, er enghraifft mesurau arbennig, wneud gwahaniaeth mawr i'w gallu i deimlo'n ddiogel yn y llys ac i roi eu tystiolaeth orau. Yn y cyd-destun cyfiawnder troseddol, mae argaeledd IDVAu wedi bod yn un o elfennau llwyddiannus llysoedd trais domestig arbenigol. Yn y ffordd yma gall llysoedd teulu ddysgu o brofiad y llysoedd troseddol.¹³⁹

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, roedd hi hefyd yn amlwg o'r cyflwyniadau a dderbyniwyd gan dadau oedd wedi diodef camdriniaeth ddomestig bod ymddangos mewn llys heb gefnogwr priodol yn anodd iddynt. Yn un o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda diodefwyr gwrywaidd, disgrifiodd tad sut y cafodd broblemau iechyd meddwl, ond ni chafodd eiriolwr iechyd meddwl oedd yn fodlon mynychu'r llys gydag ef, groeso yn ystafell y llys. Mae'r rhain yn wasanaethau a ddyluniwyd yn benodol i fodloni anghenion diodefwyr camdriniaeth ddomestig gwrywaidd. Dywedwyd wrth y panel nad oes gan wasanaethau o'r fath ddigon o adnoddau. Ond, pan fônt yn bodoli, mae'r un mor bwysig nad yw cynghorwyd a chefnogwyr o'r gwasanaethau yma yn wynebu gwrthwynebiad i'w presenoldeb, fel yr adroddwyd am hynny gan gefnogwyr o Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr, Cymorth i Ferched Cymru a sefydliadau eraill sydd yn cefnogi diodefwyr benywaidd i'r panel.

¹³⁹ M Burton (2018) 'Specialist domestic violence courts in child arrangements proceedings: Safer courts and safer outcomes?' *Journal of Social Welfare and Family Law* 40(4): 533-47.

Un thema amlwg yn y cyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol sydd yn cefnogi merched BAME a'r mamau eu hunain oedd yr angen am gefnogwr oedd yn sensitif i'w anghenion amrywiol. Ni ddylid diystyru'r anawsterau penodol y mae merched BAME yn ei gael wrth lywio drwy'r broses cyfiawnder teulu. Roedd yr adolygiad o lenyddiaeth yn amlygu rhai o'r problemau yma.¹⁴⁰ Er na all yr holl anawsterau a brofwyd gan ddiodefwyr BAME gael eu lliniaru gan bresenoldeb cefnogwr priodol, mae mewnbwn grwpiau sydd yn cefnogi merched BAME, megis Southall Black Sisters, yn awgrymu y gall cymorth priodol fod yn rhan o'r jigso o ran canfod ffyrdd o liniaru niwed sydd yn deillio o'r broses ei hun.

8.4.4 Croesholi

Yn aml, mae croesholi, fel y amlygwyd uchod, yn brofiad trallodus, sarhaus a thrawmatig i ddiodefwyr camdriniaeth ddomestig. Mae'r anawsterau yn cael eu gwaethygu mewn achosion pan ganiateir i'r camdriniwr gynnal y croesholi ei hun. Mae'r broblem o ran croesholi uniongyrchol wedi cael ei nodi ar nifer o achlysuron cyn yr alwad yma am dystiolaeth. Mae'r adolygiad o lenyddiaeth yn cyfeirio at ymchwil sydd yn dangos bod cael eu croesholi gan y cyflawnydd honedig yn frawychus, a thrawmatig i ddiodefwyr camdriniaeth ddomestig.¹⁴¹ Er enghraifft, nodwyd gan Coy et al (2012, 2015) y gall croesholi uniongyrchol ganiatáu i'r cyflawnydd camdriniaeth defnyddio achos llys i barhau i gam-drin y diodefwr a gofyn cwestiynau amhriodol ac threiddgar am ei ffordd o fyw a gweithgareddau.

Yn y cyflwyniadau unigol i'r panel clywyd gan famau a gam-driniwyd oedd wedi cael eu cwestiynu yn y modd yma, a bod yr holl broses wedi bod yn sarhaus, diraddiol a brawychus. Roedd y profiad o deimlo ofn a sarhad, ac adweithiau trawmatig megis rhewi a methu a meddwl yn glir neu wneud synnwyr wrth ateb, y tanseilio eu gallu i roi tystiolaeth resymegol ac ymddangos fel tyst 'da'. Roedd y syniad o gael eu croesholi gan eu camdriniwr yn ddigon i achosi i rai mamau beidio ymdrechu i ddweud wrth y llysoedd am y gamdriniaeth yr oeddent wedi ei ddiodef, ac mewn achosion eraill roedd mamau a thadau yn nodi bod y bygythiad o groesholi uniongyrchol yn y gwrandawriad terfynol wedi cael ei ddefnyddio i fwlio'r fam i gytuno i orchmynion caniatáu. Er yr adroddiadau gan weithwyr proffesiynol am fwy o ymyrraeth gan farnwyr er mwyn atal croesholi uniongyrchol ers 2017, roedd nifer o gyflwyniadau unigol yn cyfeirio at achosion diweddar o lysoedd yn caniatáu croesholi uniongyrchol gan gamdrinwyr, ac at farnwyr yn methu ag atal cwestiynu oedd yn amlwg yn gamdriniol.

Mae croesholi uniongyrchol gan y camdriniwr yn deillio'n rhannol o ganlyniad i gyfyngu ar gymorth cyfreithiol ar gyfer achosion cyfraith teulu preifat. Yn eu cyflwyniadau dywedodd tadau wrth y panel na allent bob amser fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol a'u bod yn teimlo bod raid iddynt gynnal yr achos eu hunain. Bu i nifer o famau hefyd amlygu bod y cyfyngu ar arian cyhoeddus o ganlyniad i LASPO wedi achosi iddynt fethu â chael cynrychiolaeth

¹⁴⁰ Yr adolygiad o lenyddiaeth adran 6.3.

¹⁴¹ Yr adolygiad o lenyddiaeth adran 8.3.

gyfreithiol allai fod wedi eu gwarchod yn fwy effeithiol yn ystod croesholi. Mae'r system wrthwynebol yn seiliedig ar dybiaeth o gydraddoldeb arfau. Y realiti mewn achosion plant cyfraith breifat yw bod nifer o bartion naill ai wedi eu harfogi yn anghyfartal (mae gan un parti gynrychiolaeth gyfreithiol, ond nid y llall) neu wedi eu diarfogi yn yr un modd (nid oes gan y naill na'r llall gynrychiolaeth, felly nid yw pŵer, bygythiad a rheolaeth yn y berthynas yn cael ei liniaru). Dywedodd mamau a thadau wrth y panel ei bod yn annheg eu bod naill ai wedi gorfod croesholi neu gael eu croesholi eu hunain heb gynrychiolaeth gyfreithiol tra bod gan yr ochr arall gynrychiolaeth gyfreithiol. Roedd cyflwyniadau gan famau a thadau yn amlygu ei bod yr un mor frawychus a thrallodus i ddiodeffwr camdriniaeth orfod cwestiynu eu camdrinwyr ag yw i gael eu cwestiynu ganddynt, a gall hynny olygu nad ydynt yn teimlo eu bod yn gallu eirioli yn ddigonol er mwyn amddiffyn eu plant rhag mwy o gamdriniaeth.

Mae argymhellion er mwyn mynd i'r afael â phroblem croesholi uniongyrchol wedi cael eu canfasio mewn man arall, fel y mae'r adolygiad o lenyddiaeth yn ei amlygu.¹⁴² Un o'r awgrymiadau a gynigiwyd eisoes, ac sydd wedi ei gynnwys yn benodol yn PD12J, yw bod barnwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gwestiynu eu hunain. Ond, mewn ymchwil gan Corbett a Summerfield (2017) mae'n ymddangos bod rhai barnwyr yn amharod i wneud hynny, sydd yn ymarferol wedi dod i olygu bod barnwyr yn syml yn trosglwyddo cwestiynau gan y LIP i'r parti arall. Mae cyflwyniadau i'r alwad yma am dystiolaeth yn dangos nad yw'r dull yma o reidrwydd yn amddiffyn diodeffwyr camdriniaeth rhag effeithiau niweidiol croesholi. Dywedodd mamau hyd yn oed pan fo barnwyr yn darllen y cwestiynau, geiriau y camdriniwr oeddent o hyd. Hefyd, pan alwyd arnynt i ddarparu cwestiynau ysgrifenedig i'r barnwr, dywedodd rhai mamau eu bod wedi cael anhawster gwybod pa gwestiynau y dylent neu y gallent eu gofyn. Yn absenoldeb cyngor cyfreithiol, mae llunio cwestiynau ar gyfer croesholi yn dasg frawychus. Mae'n frawychus i unrhyw un heb hyfforddiant cyfreithiol, ond fel y nododd CLOCK yn eu cyflwyniad, gall y problemau yma fod yn waeth i rai â phroblemau llythrennedd. Roedd cyflwyniadau rhai mamau yn nodi eu bod fel LIP yn teimlo'n ddiymadferth ac nad oeddent yn teimlo y gallent ddarbwylo'r llys bod yr hyn yr oedd y camdriniwr yn ei ddweud yn anwiredd.

Roedd y cyflwyniadau proffesiynol i'r panel yn dangos bod nifer o farnwyr yn teimlo'n anghyfforddus gyda'r cyfrifoldeb y mae nifer uchel o LIPau yn ei roi arnynt mewn achosion cam-drin domestig. Gyda'r dull gwrthwynebol, mae barnwyr wedi arfer â'r cysyniad o faich profi ac maent wedi ymrwymo i'r syniad o beidio ag ymostwng i faes y gwrthdaro. Nododd barnwyr a gymerodd ran yn y cyfarfod bord gron barnwrol yr anawsterau oedd yn eu wynebu. Er enghraifft, pan ofynnwyd iddynt ynghylch croesholi a sut maent yn delio â LIPau mewn achosion o gam-drin domestig, dywedodd un barnwr:

¹⁴² Yr adolygiad o lenyddiaeth adran 8.3.

“Rwyf yn dal i feddwl gyda fy het farnwrol arnaf, mae'n gwbl briodol ein bod yn sicrhau bod y broses o roi tystiolaeth yn iawn...ond mae yna risg os nad oes gennych unrhyw gwestiynu, neu ddim digon o gwestiynu, efallai na fydd y barnwyr yn teimlo y gallent wneud penderfyniad; ni allwn anghofio bod angen i ni brofi honiadau...ar sail cydbwysedd tebygolrwydd...ac ni fyddai'n briodol cael system pan fo rhywun yn gwneud honiad a bod hwnnw yn cael ei gredu yn awtomatig...mae angen system i fynd i'r afael â hynny...os nad ydych yn gofyn unrhyw gwestiynau o gwbl, neu bod y cwestiynau mor amwys, rydych yn teimlo nad ydych yn gallu mynd at y gwirionedd ac nid yw barnwyr yn gallu gwneud canfyddiadau yr ydym angen iddynt eu gwneud...felly mae hyn yn rybudd i beidio ag anghofio am yr angen i gadarnhau y ffeithiau....” **Barnwr**

Yn amlwg mae'n briodol bod angen profi straeon, ond mae'r cyflwyniadau i'r alwad am dystiolaeth yn awgrymu bod y ffordd y mae hynny yn cael ei wneud yn y broses wrthwynebol a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn achosion plant cyfraith breifat yn parhau i fod yn broblemus. Yn y cyflwyniadau drwyddi draw roedd yna lawer iawn o gefnogaeth o bob cwr i wahardd croesholi uniongyrchol. Roedd cyflwyniadau gweithwyr proffesiynol yn ategu cyflwyniadau mamau bod yna ormod o achosion o groesholi yn cael ei ddefnyddio i fwlio dioddefwyr camdriniaeth ddomestig ac i barhau i reoli drwy orfodaeth, ac o farnwyr yn methu ag ymyrryd er mwyn amddiffyn dioddefwyr yn effeithiol er mwyn atal cwestiynu camdriniol. Ar y llaw arall, roedd rhai o gyflwyniadau tadau yn mynnu y dylent gadw'r 'hawl' i groesholi y fam yn uniongyrchol. Roedd y tadau hynny oedd wedi cael y profiad o gwestiynau yn cael eu gofyn ar eu rhan gan y barnwr yn anhapus, ac roedd rhai yn teimlo nad oeddent wedi cael gwrandawriad teg. Felly, er enghraifft, dywedodd tad wrth y panel ei fod yn teimlo bod y barnwr wedi gofyn y cwestiynau yn rhy gwrtais, a bod ystyr a chyddestun y cwestiynau wedi cael ei golli drwy hidlydd barnwrol.

Un o'r atebion posibl i'r broblem bwlio a gorfodaeth drwy groesholi uniongyrchol yw sicrhau bod gan y ddau barti gynrychiolaeth gyfreithiol. Ond, dylid nodi bod cyflwyniadau y mamau wedi adrodd am gael eu bwlio gan gynrychiolwyr cyfreithiol y tadau. Nid yw cael eich croesholi gan gyfreithiwr y golygu bod y broses yn awtomatig yn llai trawmatig. Roedd yna ddigon o adroddiadau yng nghyflwyniadau'r mamau o orfod wynebu cwestiynau difriol a sarhaus gan gyfreithiwr y tad a chael eu gorfodi i edrych ar y camdriniwr yn ystod y croesholi. Hefyd dywedodd rhai cyflwyniadau gan dadau bod cael eu croesholi gan fargyfreithiwr y fam wedi bod yn brofiad erchyll a chamdriniol. Fel y nodwyd uchod, nid yw'r gwaharddiadau ar y math o gwestiynau y gellir eu gofyn mewn achosion troseddol ddim yn bodoli mewn achosion cyfraith teulu. Felly, mewn achosion troseddol pan honnir bod treisio wedi digwydd, mae yna ddarpariaethau tystiolaethol sydd yn atal neu yn gwahardd cwestiynau ellid eu gofyn am hanes rhywiol y dioddefwr; nid yw gwaharddiadau o'r fath yn bodoli yn y llysoedd teulu. Dywedodd mamau a gweithwyr proffesiynol wrth y panel am enghreifftiau o gwestiynau sarhaus ac amherthnasol yn cael eu gofyn iddynt am

eu hanes rhywiol ac ymddygiadau eraill, yn ogystal â gwybodaeth gyfrinachol ynghylch cwnsela.¹⁴³

Creodd yr alwad am dystiolaeth gorff sylweddol o gyflwyniadau gan unigolion a gweithwyr proffesiynol amrywiol, sydd yn cefnogi casgliad y gall y dull gwrthwynebol, hyd yn oed mewn achosion pan fo gan y ddau barti gynrychiolaeth, danseilio gallu y ddau barti i gyflwyno eu hachos yn deg ac mewn ffordd nad yw'n galluogi i fwy o niwed ddigwydd. Roedd rhai o'r awgrymiadau gan weithwyr proffesiynol yn awgrymu mai'r ateb i'r broblem efallai fyddai rhoi'r gorau i ddefnyddio'r dull gwrthwynebol yn gyfan gwbl a mabwysiadu dull mwy ymchwiliol neu holgar. Mae hyn yn rhywbeth fydd yn cael ei ystyried ymhellach yn yr argymhellion a wneir ym mhennod 11.


8.4.5 Absenoldeb cynrychiolaeth gyfreithiol

Yn y bennod hon gellir gweld sut y mae diffyg cynrychiolaeth gyfreithiol yn croestorri â nifer o faterion gwahanol sydd yn effeithio ar brofiadau partïon yn y llys. Er enghraifft, gall cynrychiolwyr cyfreithiol chwarae rôl bwysig o ran sicrhau y gwneir cais am fesurau arbennig a'u bod yn cael eu defnyddio, a dylanwedir hefyd ar groesholi gan p'un a yw un neu'r dau barti yn cael eu cynrychioli.

Fel mae rhai o'r cyflwyniadau a ddyfynnir yn y bennod yma yn ei ddangos, nid yw cynrychiolwyr cyfreithiol bob amser yn cefnogi neu'n gwarchod eu cleientiaid yng nghydestun cam-drin domestig. Roedd cyflwyniadau gan famau a thadau yn dangos anfodlonrwydd â chyfreithwyr unigol. Roedd ymarferwyr yn y grwpiau ffocws ymarferwyr a dioddefwyr yng Nghymru yn amlygu anawsterau penodol yn achos dioddefwyr camdriniaeth sydd yn byw mewn trefi bychan ac ardaloedd gwledig, ble mae'r holl gyfreithwyr yn adnabod y camdriniwr, o ran canfod cynrychiolydd cyfreithiol fydd yn darparu cyngor o ansawdd da ac yn gweithredu er eu lles. Gall hynny hefyd fod yn broblem sydd yn effeithio ar ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig sydd yn byw mewn cymunedau gwledig yn Lloegr.

Ond yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth helaeth yr ydym wedi ei derbyn ynghylch natur fregus bod yn ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn golygu y gall absenoldeb cynrychiolaeth gyfreithiol gael ei ystyried fel un o'r dylanwadau sydd yn bodoli yn y maes, sydd yn golygu bod y profiad o achos llys i famau a gam-driniwyd yn drammatig, fel y dangosir hynny yn y diagram canlynol.

¹⁴³ Mae'r panel yn nodi dyfarniad Russell J in *JH v MF* [2020] EWHC 86 (Fam) sydd yn galw ar i farnwyr dderbyn hyfforddiant penodol ar droseddau rhyw, a'r ffaith bod yr hyfforddiant yma erbyn hyn yn cael ei weithredu gan y Coleg Barnwrol.



8.5 Ceisiadau mynych a defnyddio proses y llys fel camdriniaeth

'Mae'r llys teulu wedi derbyn mwy o geisiadau dro ar ôl tro am wrandawiaidau cyswllt gan fy nghyn-wr ac wedi anwybyddu'r hanes o gam-drin a'r ffaith nad yw fyth yn cadw at unrhyw orchymyn cyswllt y mae'n gofyn amdanynt. Mae fy nghyn-wr wedi mynd â fi yn ôl yn barhaus i'r llys gan wneud cais i newid mymryn ar yr oriau cyswllt er nad oedd yn cadw at yr oriau y gofynnodd amdanynt yn flaenorol.' **Mam**

Mae ceisiadau mynych ar gyfer gorchmynion trefniadau plant sy'n cael eu defnyddio fel math o gamdriniaeth barhaus yn bryder sydd wedi cael ei fynegi gan y farnwriaeth mewn cyfraith achos a adroddwyd mewn cyd-destunau eraill.¹⁴⁴ Roedd Pennod 3 yn disgrifio adran 91(14) Deddf Plant 1989, sydd yn caniatáu i'r llys orchymyn na ellir cyflwyno mwy o geisiadau am orchmynion trefniadau plant heb gael caniatâd gan y llys. Os caiff parti ei 'wahardd' rhag gwneud ceisiadau mynych heb ganiatâd, gallai hynny roi peth llonydd i

¹⁴⁴ B Hale (1999) 'The view from court 45', *Child and Family Law Quarterly* 11(4): 377-86.

ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Mae yna ddarpariaethau eraill y gall y llys eu defnyddio er mwyn atal ceisiadau anheilwng mynych, ond fel mae'r adolygiad o lenyddiaeth yn ei amlygu, adran 91(14) yw'r ddarpariaeth allweddol ar gyfer achosion trefniadau plant. Ond mae cyfraith achos yn dangos, hyd yn oed pan fo cyflawnwyr camdriniaeth yn cael eu 'gwahardd' rhag gwneud mwy o geisiadau, bod y broses o ofyn am ganiatâd i wneud cais yn gallu cael ei ddefnyddio hefyd fel arf i gam-drin. Felly, er enghraifft, yn *Re P and N* (2019) nododd Mr Ustus Cobb, y gall cais anheilwng am ganiatâd i wneud cais ynddo ei hun achosi straen i'r rhiant preswyl os bydd yn ymwybodol o'r cais. Arsylwyd os bydd yn ofynnol i'r holl geisiadau am ganiatâd i wneud cais mewn achosion pan fo gorchymyn adran 91(14) mewn grym gael ymateb gan y parti arall, byddai gan y camdrinwyr arf wedi ei ganiatáu yn gyfreithiol ar gyfer parhau i gam-drin, sef yr union beth y dyluniwyd adran 91(14) i'w atal.

8.5.1 Peidio defnyddio gorchymynion 91(14) er mwyn atal ceisiadau mynych camdriniol

Un o'r materion y sefydlwyd yr alwad am dystiolaeth yma i ymchwilio iddo oedd y defnydd o adran 91(14) ac a yw hynny yn effeithiol o ran atal ceisiadau mynych rhag cael eu defnyddio fel offeryn ar gyfer camdriniaeth barhaus fydd yn niweidiol i adnoddau a chapasiti rhiantu y rhiant nad yw'n gamdriniol, a lles y plant sydd wedi profi ac sydd yn parhau i brofi camdriniaeth ddomestig. Derbyniwyd cyflwyniadau gan unigolion a gweithwyr proffesiynol ynghylch ceisiadau mynych. Ni chafwyd llawer o ymatebion gan famau i'r cwestiynau ar adran 91(14) yn benodol oherwydd nad oedd llawer yn ymwybodol ei bod yn bosibl i'r llysoedd atal ceisiadau mynych rhag cael eu gwneud. Ond, roedd nifer o gyflwyniadau gan famau yn adrodd eu bod wedi cael eu galw yn ôl i'r llys ar nifer o achlysuron, a rhai yn dogfennu blynyddol o ymglyfreitha am gost emosiynol ac ariannol enfawr. Er enghraifft, adroddodd un berthynas i fam sut y bu'n rhaid ail-forgeisio cartref y teulu ac am lefelau dyled yn codi i ddegau o filoedd o bunnau wrth ymateb i geisiadau mynych am gyswllt.

Dywedodd y mamau wrth yr alwad am dystiolaeth bod ceisiadau i'r llys yn cael eu defnyddio gan gamdrinwyr fel ffordd o barhau i gam-drin, rheoli, ystelcian, aflonyddu a'u cam-drin yn ariannol. Roedd cael eu galw yn ôl yn fynych i'r llys yn emosiynol ac ariannol lethol i'r dioddefwyr. Disgrifiodd un fam y ffordd yr oedd yn teimlo fel ysglyfaeth oedd yn cael ei hystelcian, gan gyfeirio at ei chamdriniwr fel 'ysglyfaethwr yn y jyngl'. Dywedodd: "Os ydych yn goroesi, mater o lwc yw hynny, nid yw hynny yn ddim byd i'w wneud gyda'r system", gan ddatgelu effeithiau trawmatig cael ei galw'n ôl i'r llys yn fynych a'r canfyddiad nad yw llysoedd teulu yn gwneud dim i'w atal. Gall y llysoedd ystyried bod y tad yn 'dad da' sydd yn ceisio cael mwy o gyswllt gyda'i blant, yn unol â'r diwylliant o blaid cyswllt. Ond, roedd y mamau yn aml yn gweld nad oedd gan y tad ddim gwir ddiddordeb yn y plant, a'i fod yn defnyddio achosion llys er mwyn parhau i'w cam-drin, a phan y caniatawyd cyswllt iddynt eu bod yn methu â gweithredu ar hynny. Hefyd dywedodd mamau wrth y panel bod ceisiadau mynych o dan Ddeddf Plant 1989 yn aml yn cael eu cyfuno â mathau

eraill o aflonyddu drwy achosion cyfreithiol, megis achosion ariannol estynedig a gwrthod cydymffurfio â gorchmynion ariannol. Hefyd amlygwyd yr adroddwyd am eu profiadau i wasanaethau cymdeithasol gyda honiadau ffug o esgeuluso a cham-drin eu plant i ofal cymdeithasol plant. Mae'r darlun ehangach yma o weithredu mynych ac aflonyddu mewn amryw systemau yn dangos sut y mae ystyried achosion trefniadau plant o safbwynt 'seilo' yn gamsyniad. Byddai darlun mwy holistig yn galluogi i'r llysoedd wneud penderfyniad mwy cywir ar sail gwybodaeth mewn perthynas â niwed parhaus a'r angen am orchymyn adran 91(14).

Mae yna amgylchiadau pan allai dioddefwyr camdriniaeth ddomestig wneud ceisiadau mynych ar gyfer rhoi neu amrywio gorchmynion trefniadau plant, os ydynt yn ystyried bod gorchmynion cyswllt yn anniogel ac yn golygu niwed parhaus i'w plant ac iddyn nhw eu hunain, neu os mai nhw yw'r rhiant di-breswyl a bod y rhiant preswyl camdriniol yn gwrthod iddynt gael cyswllt. Mewn gwirionedd roedd rhai o'r mamau a roddodd dystiolaeth i'r panel wedi bod yn destun gorchmynion adran 91(14) yn eu herbyn. Mae eu hadroddiadau yn awgrymu mai ffocws adran 91(14) erbyn hyn yw ceisiadau mynych fel ffaith yn unig yn hytrach na'r cymhellion neu'r pryderon sydd yn eu tanategu.

Yn eu cyflwyniadau dywedodd tadau eu bod wedi gwneud ceisiadau mynych i'r llys fel ymateb i achosion mynych o dorri gorchmynion cyswllt gan famau, neu oherwydd eu bod eisiau newid trefniadau cyswllt yr oeddent yn credu oedd yn rhy waharddol. Roeddent yn credu nad oedd ganddynt ddewis ond gwneud ceisiadau mynych, am gost enfawr, oherwydd nad oedd mamau yn caniatáu cyswllt yr oedd y llys wedi ei orchymyn yn flaenorol. Dywedwyd hefyd wrth y panel bod raid iddynt wneud ceisiadau oherwydd nad oedd y llysoedd yn cymryd camau priodol i orfodi cyswllt. Ym marn rhai tadau, roedd mamau yn cael torri gorchmynion cyswllt heb eu cosbi.

Yn wahanol i'r mamau a roddodd gyflwyniadau, roedd tipyn go lew or tadau a wnaeth hynny wedi cael profiad o achosion adran 91(4). Dywedodd rhai yr oedd wedi derbyn gorchmynion 'gwahardd' o dan adran 91(14) yn eu herbyn ei bod yn hawdd iddynt wrthod y ceisiadau yma yr oeddent yn eu hystyried fel gêm dactegol a chwaraewyd gan gyfreithiwr y fam. Mewn achosion pan oeddent wedi eu gwahardd rhag gwneud mwy o geisiadau heb ganiatâd y llys, nid yw'n syndod eu bod yn teimlo bod y llys wedi gwneud y penderfyniad anghywir ac y dylid eu caniatáu i wneud ceisiadau mynych anghyfyngedig er mwyn cael neu orfodi cyswllt.

Mae sylwadau y mamau a thadau yn ategu'n gryf y cyflwyniadau a dderbyniwyd gan weithwyr proffesiynol bod ceisiadau a gorchmynion o dan adran 91(14) yn brin. Mewn arolwg o 143 o ynadon gan Gymdeithas yr Ynadon, dywedodd dros 90% mai prin oedd ceisiadau am orchmynion o'r fath neu nad oeddent yn cael eu gwneud o gwbl. Fel yr amlygwyd uchod, gallai hynny fod oherwydd nad yw mamau yn gwybod am y posibilrwydd, efallai oherwydd nad oes ganddynt gyngor cyfreithiol, neu oherwydd bod eu cyfreithwyr yn ymwybodol o'r anawsterau o ran caffael gorchymyn. Nododd Nagalro bod

ceisiadau mynych yn cael eu gwneud oherwydd bod gorchmynion terfynol yn cael eu gwneud heb ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth o anghenion y teulu a deinameg y teulu, felly mae'r gorchmyn yn annigonol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion y partïon neu'r materion sylfaenol (gweler hefyd pennod 9). Roedd nifer o weithwyr proffesiynol yn ystyried y gellid osgoi ceisiadau mynych petai'r llysoedd yn gallu dal eu gafael ar achosion am ddigon o amser er mwyn sicrhau bod y gorchmynion yn gweithio fel y dylent (hefyd gweler penodau 6 a 9). Roedd yna safbwynt bod yna bwysau ar y llysoedd i gau achosion mor fuan â phosibl yn hytrach na chadw rheolaeth ar faterion o'r fath nes bod ateb ymarferol a brofwyd wedi ei sefydlu. Ond, roedd rhai o'r gweithwyr proffesiynol yn teimlo nad oedd y cymhellion y tu ôl i geisiadau mynych yn canolbwyntio ar y plentyn bob amser; gallai camdrinwyr geisio cael cyswllt drwy achosion maith a mynych pan yr oeddent wedi arfer dangos dim ond ychydig o ddiddordeb yn y plant neu ddim o gwbl tra yr oeddent yn byw gyda'r fam, ac nad oedd ganddynt unrhyw wir fwriad o feithrin perthynas ofalgar gyda'r plentyn i'r dyfodol.

8.5.2 Yr anhawster o ran caffael gorchmyn adran 91(14)

Nododd nifer o'r cyflwyniadau proffesiynol yr anawsterau o ran gwneud cais o dan adran 91(14). Mae'n annhebygol y byddai gan bartïon heb gynrychiolaeth gyfreithiol y wybodaeth na'r gallu i wneud cais llwyddiannus. Gall barnwyr roi gorchmynion a gynigir ganddyn nhw eu hunain, ond nid oedd unrhyw un a roddodd dystiolaeth i'r panel yn ymwybodol bod hynny yn digwydd. Yn fwy nodweddiadol, mae angen cais ffurfiol gyda datganiadau ac oedi maith cyn y gwrandawriad, sydd yn golygu bod y broses yn un faith, beichus a chostus.

Er yr awgrymwyd yn y cyfarfod bord gron barnwrol y gellid rhoi gorchmynion pan gafwyd dau gais neu ragor yn agos i'w gilydd, roedd yr ymglyfreithiwr yn hunan-gynrychioli ac nid oedd dim wedi newid, mae'n amlwg mai'r realiti yw bod yna drothwy uchel cyn rhoi gorchmyn 'gwahardd'. Roedd cyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol eraill yn awgrymu y byddai angen pum cais neu ragor cyn y byddai gorchmyn yn cael ei ystyried. Dywedodd Mosac nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw orchmynion adran 91(14) yn cael eu rhoi mewn achosion o gam-drin plant yn rhywiol yr oeddent wedi eu cefnogi, hyd yn oed pan fu euogfarn a bod y rhiant camdriniol wedi gwneud ceisiadau mynych am orchmynion trefniadau plant neu amrywiadau. Yn yr un modd, dywedodd Refuge eu bod ond yn ymwybodol o lond llaw o achosion pan roddwyd gorchmynion, a phob un wedi eu nodweddu gan gamdriniaeth rywiol a chorfforol barhaus a difrifol.

Nododd gweithwyr proffesiynol bod y llysoedd yn dilyn canllawiau'r Llys Apêl yn briodol wrth fod yn amharod i roi gorchmynion adran 91(14).¹⁴⁵ Oherwydd pryderon am dramgwyddo'r hawl i fywyd teuluol a hawl i gael treial teg, dylai fod yna drothwy uchel ar gyfer cyfiawnhau atal rhiant rhag cael mynediad i'r llysoedd, a dylai gorchmynion gael eu hategu gan dystiolaeth gref a dylid ond eu rhoi dan amgylchiadau eithafol. Ond, roedd rhai

¹⁴⁵ Gweler yr adolygiad o gyfraith achos ar adran 91(14) 'gorchmynion gwahardd'.

cyflwyniadau yn ystyried bod faint o berswâd oedd ei angen yn dibynnu ar y tribiwnlys, tra bod eraill yn cwestiynu pam fod y trothwy ar gyfer rhoi gorchymyn o'r fath mor uchel oherwydd y ffaith nad yw yn 'orchymyn gwahardd' mewn gwirionedd ond dim ond gorchymyn sydd yn ei gwneud yn ofynnol i gael caniatâd. Felly awgrymwyd mewn rhai cyflwyniadau y dylai'r diwylliant efallai symud tuag at fwy o barodrydd i roi gorchmynion adran 91(14) er mwyn atal defnyddio ceisiadau mynych fel math o gamdriniaeth.

Hefyd, hyd yn oed pan roddir gorchmynion, efallai mai am gyfnod cyfyngedig yn unig fo hynny. Nid yw gorchymyn sydd yn para 6 mis yn ddigon hir i roi llonydd i'r rhiant nad yw'n gamdriniol a'r plant rhag defnyddio achosion fel math o gamdriniaeth. Rhoddodd Southall Black Sisters enghraifft o ddefnyddiwr gwasanaeth oedd yn wynebu 18 mis o geisiadau cyswllt mynych. Yna cymerodd 6 mis i wneud penderfyniad ar ei chais am orchymyn adran 91(14), ac fe'i caniatawyd am 12 mis yn unig, ac ar ôl y cyfnod hwnnw roedd disgwyl iddo fod yn destun mwy o geisiadau, ac yna byddai'n rhaid iddi ail-ymgeisio am orchymyn arall.

8.5.3 Rhwyddineb cael caniatâd i wneud cais

Yn gyferbyniol i'r trothwy uchel ar gyfer cael gorchymyn adran 91(14), mae'n ymddangos bod y trothwy ar gyfer cael caniatâd i wneud cais pan fo gorchymyn mewn grym yn isel. Yn gyffredinol caiff ceisiadau am ganiatâd eu caniatáu pan fo materion lles plant yn gysylltiedig neu pan fo newid mewn amgylchiadau ers rhoi y gorchymyn, a nododd gweithwyr proffesiynol bod rhai cyflwynwyr yn gallu dyfeisio mân newidiadau er mwyn cyfiawnhau ceisiadau am ganiatâd. Hefyd nododd gwasanaeth cymorth LIP y gellid rhoi caniatâd i wneud cais ar y sail bod lles y plentyn wedi gwella, heb gydnabod bod y gwellhad hwnnw yn ganlyniad i'r gorchymyn 91(14), a bod llonydd rhag aflonyddu gan y rhiant camdriniol wedi ei gael drwy hynny. Dywedodd cyfreithiwr bod angen barnwr cadarn i weld drwy gais am ganiatâd.

Roedd cyflwyniadau hefyd yn adrodd am amrywiaeth sylweddol yn y ffordd yr oedd ceisiadau am ganiatâd i wneud cais yn cael eu trin, yn arbennig mewn perthynas â p'un a fyddai'r parti arall yn cael ei hysbysu am y cais. Roedd ymatebion y amrywio o ddweud bod y rhiant arall yn cael ei hysbysu bob amser, y byddai barnwyr yn sgrinio ceisiadau ac yn penderfynu a oeddent eisiau clywed dadl gan riant arall, neu nad oedd y rhiant arall fyth yn cael ei hysbysu. Yn amlwg, fel y nodwyd uchod, mae gan geisiadau am ganiatâd i wneud cais y capasiti i fod yn arf arall i gam-drin.

8.5.4 Datrysiad aneffeithiol

Ar hyn o bryd mae'n ymddangos bod gorchmynion 91(14) yn cael eu hystyried, yng ngeiriau gweithwyr proffesiynol eraill, fel rhyw fath o 'ddatrysiad gwan'; mae'r trothwy ar gyfer caniatáu'r gorchmynion yn rhy uchel, mae angen ailystyried faint o dystiolaeth sydd ei hangen ac ymagwedd barnwyr tuag at ganiatáu y datrysiad.

Un o'r materion allweddol a nodwyd gan yr holl grwpiau mewn perthynas â hyn oedd y diffyg dilyniant barnwrol, oedd yn golygu bod llysoedd yn methu ag adnabod camdriniaeth

drwy geisiadau mynych i'r llys, a gyfrannodd at amharodrwydd i ganiatáu gorchmynion adran 91(14) a pharodrwydd i ganiatáu ceisiadau am ganiatâd i wneud cais; ac a arweiniodd yn gyffredinol at benderfyniadau anghyson mewn achosion. Nododd Cynghorydd Cyfreithiol y byddai ceisiadau am ganiatâd i wneud cais yn cael eu cyfeirio at yr un lefel o farnwriaeth ag a roddodd y gorchymyn gwreiddiol, ond mai prin iawn yr oedd yr un barnwr neu ynadon yn gwrandao arnynt. Nododd Southall Black Sisters hefyd, er bod dilyniant barnwrol yn arfer dda, gallai o bosibl achosi oedi o nifer o fisoedd o ran gwrandawiadau. Mae hynny hefyd yn dangos effeithiau rhwystrol adnoddau barnwrol cyfyngedig ar gyfer achosion cyfraith breifat.

Er ei bod yn ymddangos bod y ffordd y mae gorchmynion adran 91(14) yn gweithredu ar hyn o bryd yn brin o fod yn ddelfrydol, roedd gweithwyr proffesiynol yn gweld potensial mawr ynddynt petaent yn cael eu rhoi ar waith yn wahanol. Mae'r agwedd symbolaidd o ddangos i'r rhiant camdriniol bod y llys yn ymwybodol o ac nad yw'n cymeradwyo eu hymdrechion i ddefnyddio'r achos fel arf i barhau i gam-drin, yn sylweddol. Hefyd mae yna'r elfen ymarferol o roi llonydd y mae ei wir angen ar y rhiant a gam-driniwyd a'r plant. Felly dylid ystyried nifer o argymhellion ar gyfer gwella a wnaethpwyd mewn perthynas ag adran 91(14) ac agweddau eraill o'r broses a drafodwyd yn y bennod hon.

8.6 Casgliad

Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn y bennod hon yn dangos bod y broses o ymddangos yn y llys yn drawmatig yn aml i ddiodefwr camdriniaeth ddomestig, yn fenywod a gwrywod. Fel theori mae mesurau arbennig er mwyn amddiffyn tystion sydd yn agored i niwed, megis ymweliadau ymgyfarwyddo â mynd i'r llys, mynedfeydd ac allanfeydd ar wahân, sgrinio a chysylltiadau fideo ar gael, ond yn ymarferol nid ydynt yn cael eu defnyddio yn llwyddiannus. Mae'r holl ddiodefwr yn cael anhawster wynebu eu camdrinwyr yn y llys yn absenoldeb cefnogaeth a gwarchodaeth ddigonol, ond, mae hynny yn arbennig o wir yn achos ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Dywedodd diodefwr wrth y panel bod croesholi yn brofiad erchyll, yn arbennig pan fo hynny yn cael ei wneud yn uniongyrchol gan gamdriniwr heb gynrychiolaeth. Roedd nifer o ddiodefwr wedi mynd drwy'r broses llys yma nifer o weithiau oherwydd bod eu camdriniwr wedi gwneud ceisiadau mynych. Nid oedd gan lawer unrhyw wybodaeth bod gan y llys bwerau i stopio hynny drwy ddefnyddio gorchmynion 'gwahardd'. Roedd y dystiolaeth arall a dderbyniwyd gan y panel yn awgrymu bod adran 91(14) yn cael ei danddefnyddio, a nifer o weithwyr proffesiynol yn awgrymu dull ffres o atal mwy o gamdriniaeth drwy geisiadau mynych.

Mae swm y dystiolaeth at ei gilydd yn dangos bod angen i'r llysoedd teulu fod yn lle ble mae rhiant nad yw'n gamdriniol yn teimlo yn ddiogel, sydd yn cynnig gwarchodaeth a chlust. Er mwyn gwireddu hynny, mae angen i adeilad y llys a holl staff y llys fod yn ymwybodol o drawma. Mae diodefwr camdriniaeth ddomestig angen cymorth er mwyn delio ag achosion yn emosiynol ac osgoi ail-fyw y trawma. Ni ddylai diodefwr orfod wynebu camdrinwyr yn y llys a dylent gael mynediad parod i gefnogwyr a mesurau


arbennig. Gall barnwyr chwarae mwy o rôl o ran sicrhau nad yw achosion yn cael eu defnyddio fel ffordd o barhau i gam-drin. Yn adran 11.7 rydym yn rhoi argymhellion penodol er mwyn gwella diogelwch dioddefwyr camdriniaeth yn y llys, yn cynnwys argymhellion mewn perthynas â mesurau arbennig a chyfarwyddiadau cyfranogi, croesholi, gwasanaethau cymorth arbenigol, adran 91(14) ac adnabod ceisiadau camdriniol. Mae'r diagram yn adran 11.7 yn adolygu'r un sydd wedi ei gynnwys ar ddechrau'r bennod hon er mwyn dangos sut allai taith drwy'r llys i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig edrych ar ôl ei diwygio.

9. Gorchmynion a wnaed

9.1 Ymagwedd y llysoedd

Amlygodd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y panel, ynghyd â'r adolygiad o lenyddiaeth ac adolygiad o gyfraith achos bedair thema yn ymagwedd y llysoedd teulu at roi gorchmynion mewn achosion plant cyfraith breifat. Sef: dylai plant gael cyswllt gyda'r rhieni nad ydynt yn preswyllo, y dylai cyswllt cyfyngedig ddatblygu i fod yn gyswllt anghyfyngedig, dylid hyrwyddo rhiantu ar y cyd a dylai dibyniaeth rhieni ar y llysoedd gael ei leihau. Dylanwadwyd y gryf ar y themâu yma gan y rhwystrau a nodwyd mewn penodau blaenorol. Yn benodol, mae'r diwylliant o blaid cyswllt yn tybio y dylai plant gael cyswllt, yn ddelfrydol heb unrhyw gyfyngiadau ac mai rhiantu ar y cyd yw'r trefniadau ôl-wahanu delfrydol i blant. Mae adnoddau cyfyngedig yn cyfyngu ar argaeledd ymyriadau a'r defnydd a wneir ohonynt er mwyn monitro cyswllt neu i fynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol, yn ogystal â rhoi pwys ar ddefnyddio gorchmynion caniatáu ac osgoi gwrandawiadau adolygu.

Ffigwr 9.1 Ymagwedd y llysoedd: y pedair thema



9.2 Dylai plant gael cyswllt:

Fel y nodwyd ym mhennod 4, mae'r Llys Apêl wedi rhoi cyfarwyddyd i'r llysoedd teulu i wneud pob ymdrech i gynnal cyswllt rhwng plant a'r ddau riant:

“Mae yna rhwymedigaeth gadarnhaol ar y Wladwriaeth, ac felly ar y barnwr, i gymryd mesurau i gynnal ac i ail-sefydlu'r berthynas rhwng riant a phlentyn, mewn gair , i gynnal neu adfer cyswllt. Mae gan y barnwr ddyletswydd gadarnhaol i geisio hyrwyddo cyswllt. Mae'n rhaid i'r barnwr ystyried yr holl ddewisiadau eraill cyn diystyru unrhyw obaith o greu rhyw fath o gyswllt. Mae'n rhaid iddo ofalu nad yw yn gwneud penderfyniad yn rhy fyrbyyll, oherwydd ni ddylai cyswllt gael ei stopio dim ond fel y dewis olaf a dim ond pa fydd hi'n amlwg na fydd y plentyn yn elwa o barhau gyda'r ymdrech.”¹⁴⁶

Yng nghyd-destun cam-drin domestig, nodwyd yn briodol gan farnwyr a gyfranogodd i'r sesiwn bord gron farnwrol, yn unol â phenderfyniad y Llys Apêl yn *Re L* (2000), bod canfyddiad o gam-drin domestig yn rhwystr i gyswllt. Mae PD12J yn nodi bod rhaid i'r llysoedd, pan maent yn penderfynu ar drefniadau plant ble canfuwyd cam-drin domestig, sicrhau na fydd unrhyw orchymyn i ganiatáu cyswllt ddim yn amlygu plentyn i “risg o niwed y gellir ei reoli” ac y bydd hynny er lles y plentyn.¹⁴⁷ Nid yw'r Cyfarwyddyd Ymarfer yn diffinio beth yw “risg o niwed na ellir ei reoli”. Disgrifiodd cyfranogwyr i'r sesiwn bord gron farnwrol hynny fel “craidd y broblem”.

“Beth sydd yn lefel dderbyniol o risg ar gyfer caniatáu cyswllt, ar ba lefel yr ydych yn dweud “na, dyna ddigon”? - dyma ble mae'r anhawster yn codi; mae yna'r niwed amlwg o gam-drin domestig, ac mae yna'r niwed mwy diriaethol o berthynas nad yw prin yn bodoli neu ddim yn bodoli o gwbl.” **Cyfarfod bord gron Barnwrol**

Dangosodd cyflwyniadau unigol gan rieni oedd wedi honni camdriniaeth neu oedd wedi bod yn destun honiadau, bod rhyw fath o gyswllt uniongyrchol, yn aml heb oruchwyliaeth, yn fwy tebygol o gael ei orchymyn.¹⁴⁸ Arsylwodd Nagalro bod y llysoedd yn tueddu i roi gorchmynion ar gyfer cyswllt anuniongyrchol pan wnaethpwyd canfyddiadau ac nad yw'r riant camdriniol wedi cydnabod y niwed a achoswyd neu sydd yn debygol o gael ei

¹⁴⁶ *Re C (A Child)* [2011] EWCA Civ 521 per Munby P at [47]. Y ‘rhwymedigaeth gadarnhaol ar y Wladwriaeth’ y cyfeirir ati yw'r rhwymedigaeth o dan adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998 i lysoedd weithredu mewn ffordd sydd yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sef yn yr achos yma Erthygl 8 y Confensiwn ar yr hawl i barch i fywyd preifat a bywyd teuluol.

¹⁴⁷ PD12J, para 35.

¹⁴⁸ Noder bod cyswllt ‘uniongyrchol’ yn cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb, a mathau eraill o gyswllt cydamserol megis galwadau ffôn a galwadau fideo. Gall y rhain gael eu goruchwyllo gan drydydd person neu beidio cael eu goruchwyllo.

achosi i'r plentyn a'r rhiant nad yw'n gamdriniol.¹⁴⁹ Ond adroddodd nifer o ymatebwyr proffesiynol nad oes yna fawr o wahaniaeth yn gyffredinol rhwng gorchmynion terfynol a roddir mewn achosion ble mae cam-drin domestig wedi cael ei ganfod ac achosion ble na chanfuwyd hynny neu nad yw wedi cael ei godi. Hefyd mynegodd gweithwyr proffesiynol a mamau bryderon bod y llysoedd ar brydiau yn anwybyddu asesiadau ac argymhellion gan Cafcass/Cymru neu weithwyr cymdeithasol er mwyn hyrwyddo cyswllt.

“Roedd gen i adroddiad diogelu Cafcass a gofynnodd y llys am adroddiad adran 7 a cherddodd y tad i ffwrdd gyda chyfran 50:50 o'r plant er gwaethaf argymhellion cryf Cafcass i ganiatáu bob yn ail penwythnos ac un neu ddau ymweliad yn ystod yr wythnos, ond nid dros nos. Bu i'r barnwr a glywodd fy achos anwybyddu adroddiad diogelu Cafcass yn llwyr, ac roedd y swyddog Cafcass yn y llys i roi tystiolaeth ac ategodd bob gair yn ei hadroddiad mewn perthynas â'r risg a achoswyd gan y tad a'i gefndir.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

“Yn y diwedd arestiwyd fy nghynbartner am gam-drin domestig ar ôl rheoli ein teulu gydag ofn am bedair blynedd. Cafodd rybudd ar sail 'cymeriad da blaenorol'. Dywedodd y gwasanaethau cymdeithasol a CAF/CASS na ddylai fyth gael cyswllt heb oruchwyliaeth gyda'r plentyn. Llwyddais i gael gorchymyn peidio ag ymyrryd. Yna roedd raid i ni fynd i'r llysoedd teulu...Canfu'r Barnwr [Rhanbarthol] bod fy nghynbartner yn dreisgar ac yn rheoli a'i fod yn bendant wedi cyflawni camdriniaeth ddomestig. Yn frawychus, unig bryder y barnwr oedd 'hawliau'r tad' a dyfarnodd gyswllt heb oruchwyliaeth beth bynnag.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Mae ymchwil ffeiliau yn dangos y rhoddwyd gorchmynion cyswllt anuniongyrchol a dim cyswllt mewn dim ond 10% o'r achosion oedd yn cynnwys honiadau o gam-drin domestig yn ystod y 10 mlynedd cyn 2017.¹⁵⁰ Hefyd canfu Harding a Newman bod cam-drin domestig yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel “un ffactor o blith nifer”, a bod gorchmynion dim cyswllt a chyswllt anuniongyrchol yn cael eu rhoi mewn ymateb i gymysgedd o bryderon ynghylch cam-drin domestig, pryderon difrifol am les plant (e.e. camddefnyddio

¹⁴⁹ Mae cyswllt 'anuniongyrchol' yn golygu cyswllt nad yw'n gydamserol, megis y rhiant yn anfon lythyrau, cardiau ac anrhegion i'r plentyn, neu i drydydd parti er mwyn eu trosglwyddo i'r plentyn.

¹⁵⁰ J Hunt and A McLeod, *Outcomes of Applications to Court for Contact Orders after Parental Separation or Divorce* (2008); M Harding and A Newnham, *How do County Courts Share the Care of Children Between Parents? Full Report* (2015) (gorffennodd 86% o achosion DA gyda gorchmynion ar gyfer cyswllt uniongyrchol, 8% gyda gorchmynion ar gyfer dim cyswllt neu gyswllt anuniongyrchol); Cafcass & Women's Aid Federation of England, *Allegations of Domestic Abuse in Child Contact Cases* (2017) (gorffennodd 57% o'r achosion DA ble roedd y deiliant yn hysbys gyda gorchmynion ar gyfer cyswllt heb oruchwyliaeth, 11% gyda gorchmynion ar gyfer dim cyswllt neu gyswllt anuniongyrchol); adolygiad o lenyddiaeth adran 9.12.

sylweddau, iechyd meddwl), gwrthwynebiadau gan blant, yn ogystal â phroblemau gydag agwedd ac ymgysylltiad y rhiant nad yw'n preswyllo.

Fel y gwelir yn y dyfyniad uchod, roedd cyflyniadau i'r alwad am dystiolaeth yn cyfeirio at achosion pan roddwyd gorchmynion gofal a rennir, neu gorchmynnwyd i blant fyw gyda chamdriniwr honedig. Roedd yn ymddangos bod merched BAME a merched gydag anabledau oedd yn ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn fwy tebygol o weld eu plant yn cael eu gorchymyn i fyw gyda'r rhiant camdriniol. Cyfeiriodd SafeLives at enghraifft o achos pan fu i'r:

“Cyflawnydd ddadlau na allai'r dioddefwr gynnig amgylchedd sefydlog oherwydd ei bod yn byw mewn lloches ac yn ddigartref. Cytunodd y barnwr a rhoi preswyliaeth i'r cyflawnydd oherwydd ei fod yn gweithio a bod ganddo deulu i'w gefnogi. Dychwelodd y dioddefwr ato yn fuan ar ôl iddi ddweud na allai adael ei phlant gydag ef gan wybod sut berson yr oedd.” **SafeLives**

Adroddodd nifer o famau pan na chanfuwyd honiadau o gam-drin plant yn rhywiol, bod y plant yn cael eu rhoi i fyw gyda'r camdriniwr honedig neu yn cael eu rhoi mewn gofal maeth. Adroddodd Mosac bod ei ystadegau eiriolaeth blynyddol diweddaraf yn dangos bod 7% o'i achosion oedd yn ymwneud â honiadau o gam-drin plant yn rhywiol wedi arwain at orchymyn 'byw gyda' o blaid y rhiant camdriniol honedig; arweiniodd 92% at orchymynion cyswllt aros heb oruchwyliaeth a llai na 1% arweiniodd at ddim cyswllt.

Wrth nodi nad yw camdriniaeth ddomestig yn rhwystro cyswllt, arsylwodd cyfranogwyr y sesiwn bord gron farnwrol ei bod yn ymddangos bod hynny yn syndod i rai partïon. Roedd ein cyflwyniadau yn awgrymu mai'r hyn y mae'r partïon yn ei brofi ar lawr gwlad yw anghysondeb syfrdanol rhwng canfyddiadau o gamdriniaeth a/neu yr asesiad risg a sefydlwyd a'r gorchmynion a roddwyd. Mae'n anodd cyfleu y sioc, anghrediniaeth a'r dicter a adroddwyd gan nifer o famau (ac aelodau'r teulu ar eu rhan) wrth ddisgrifio sut mae'r llysoedd wedi gorchymyn bod rhaid i gyswllt anghyfyngedig ddigwydd er gwaethaf yr hyn yr oeddent yn ei ystyried fel camdriniaeth ddifrifol a pharhaus oedd yn achosi risg iddyn nhw a'u plant. Dywedodd un fam 'Yr unig nod yw cyswllt, waeth pa niwed sydd wedi digwydd neu all ddigwydd'. Roeddent wedi tybio y byddai'r llys yn canolbwyntio ar warchod, a dywedodd nifer eu bod wedi eu siomi'n fawr bod y llysoedd yn ymddangos fel eu bod yn blaenoriaethu cyswllt yn hytrach na hynny.

[9.3 Dylai cyswllt gael ei ddatblygu](#)

Pan fo'r llys yn ystyried nad yw cyswllt anghyfyngedig yn ddiogel, mae'r sylw yn troi i sut ellir rheoli'r risg o niwed i'r plentyn (a/neu y rhiant nad yw'n gamdriniol). Mae hynny yn cael ei gyfleu yn dda mewn dyfyniad gan Farnwr Rhanbarth a gyfwelwyd fel rhan o ymchwil diweddar gan Harwood, oedd yn ystyried y “dylai cyswllt fodoli o hyd” a bod gan hyd yn

oed blant y mae eu tadau wedi cyflawni troseddau difrifol iawn hawl o hyd i adnabod eu tadau: "Ac rwyf yn credu mai i'r cyfeiriad hwnnw mae'r gyfraith yn mynd. Mae hyn yn ymwneud â rheoli'r cyswllt yn ddiogel...felly, mae a wnelo â sicrhau bod hynny yn ddiogel, ond yn gyffredinol nid wyf yn sicr hyd yn oed os oes yna gamdriniaeth eithaf difrifol, bod hynny yn atal cyswllt rhag digwydd".¹⁵¹

Y prif opsiynau ar gael i'r llysoedd ar gyfer rheoli'r risg o niwed yn ystod cyswllt yw gohirio cyswllt uniongyrchol dros dro wrth ddisgwyl am ddeiliant gwrandawriad canfod ffeithiau, cyswllt anuniongyrchol, cyswllt dan oruchwyliaeth neu gyswllt â chymorth, a rhaglenni cyflwynwyr camdriniaeth ddomestig (DAPP). Mae'r adrannau canlynol yn trafod y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y panel am yr opsiynau yma yn fanylach. Ond yr hyn sydd gan y rhan fwyaf ohonynt yn gyffredin yw y tueddir i'w hystyried fel gwaharddiadau dros dro, fel camau tuag at adfer cyswllt uniongyrchol. Ym mhob achos, mae'n debyg mai nod y llys fydd 'symud ymlaen' at gyswllt anghyfyngedig, a chyswllt aros yn ddelfrydol, cyn gynted â phosibl. Yr un eithriad yw cyswllt anuniongyrchol, ellir ei ddefnyddio fel mesur dros dro, ond mae'n fwy tebygol y caiff hynny ei orchymyn yn hirdymor. Ond fel y trafodwyd uchod, yn eithaf anaml y rhoddir gorchmynion cyswllt anuniongyrchol.

9.3.1 Gorchmynion dros dro

Mae PD12J yn dwyn sylw penodol i'r angen i sicrhau nad yw unrhyw orchmynion trefniadau plant dros dro yn amlygu'r plentyn na'r rhiant arall i risg o niwed na ellir ei reoli, pan nad oes penderfyniad wedi ei wneud ynghylch honiadau o gam-drin domestig gaiff eu herio.¹⁵²

Roedd cyflwyniadau yn adrodd am amrywiaeth yn y ffyrdd y gweithredir y ddarpariaeth hon. Disgrifiodd cyfranogwyr i'r sesiwn bord gron cyfranogwyr yn Lloegr sut yr oedd nifer o farnwyr yn rhoi gorchmynion cyswllt dros dro gan ddiystyru PD12J, ac mewn rhai achosion yn rhoi gorchmynion cyswllt neu hyd yn oed orchmynion gofal ar y cyd cyn i wiriadau diogelwch gael eu cwblhau, sydd hefyd yn groes i PD12J.¹⁵³

Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr - yn arbennig tadau a'r rhai oedd yn eu cefnogi - yn cwyno bod y llysoedd (ac yn arbennig ynadon) yn rhy ofalus ynghylch cyswllt cyn canfod ffeithiau. Mynegodd tadau bryderon bod gorchmynion dim cyswllt neu gyswllt cyfyngedig dros dro yn caniatáu i elyniaethu'r plant gan y fam barhau ac i hynny wreiddio'n gadarn, neu bod hynny wedi amharu ar berthynas rhiant-plentyn ac y cymerwyd amser maith i adfer hynny. Cyflwynodd Cymdeithas Genedlaethol Rhieni a Elyniaethwyd bod perthnasoedd plentyn-rhieni yn cael eu torri gan orchmynion dim cyswllt neu gyswllt

¹⁵¹ J Harwood, *Child Arrangements Orders (Contact) and Domestic Abuse – an Exploration of the Law and Practice* (PhD thesis, Warwick University, 2019) p.162.

¹⁵² PD12J, paras 25– 27.

¹⁵³ Mae PD12J para 12 yn nodi na ddylai'r llys yn gyffredinol roi gorchmynion trefniadau plant dros dro ar gyfer cyswllt heb wybodaeth am ddiogelwch, oni bai bod hynny er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn a/neu er mwyn diogelu'r plentyn rhag niwed.

anuniongyrchol mewn achosion plant cyfraith breifat heb y manylder a gymhwysir mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Roedd y pryderon yma fel arfer yn gysylltiedig â chyfeiriadau at arafwch achosion neu'r amser a gymerwyd i drefnu gwrandawriad canfod ffeithiau. Nododd gweithiwr cymdeithasol nad yw'r broses ar gyfer canfod ffeithiau yn rhan o amserlen y plentyn. Byddai gwrandawiadau canfod ffeithiau mwy amserol yn debygol o ddatrys nifer o'r problemau canfyddiadol mewn perthynas â hyn.

Yn astudiaeth Cafcass a Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr o ffeiliau achos, nid oedd gorchmynion dim cyswllt a chyswllt anuniongyrchol, pan honnwyd cam-drin domestig, yn llawer mwy tebygol o gael eu rhoi yn y gwrandawriad cyntaf (13%) nag yn y gwrandawriad terfynol (11%). Y prif wahaniaeth rhwng gorchmynion a roddwyd yn y gwrandawriad cyntaf a'r gorchmynion terfynol yn yr achosion hyn oedd bod y llys, mewn 42% o'r achosion, heb roi dim gorchmyn ynghylch cyswllt yn y gwrandawriad cyntaf. Byddai hynny yn golygu cadw at y statws quo, ac nid oes dim gwybodaeth ar gael ynghylch pa mor aml yr oedd y statws quo yn golygu cyswllt oedd yn bodoli neu ddim cyswllt.

9.3.2 Rhaglenni cyflawnwyr cam-drin domestig (DAPP)

Gellir gorchymyn DAPP rhwng canfod ffeithiau a'r gwrandawriad lles terfynol. Yn Lloegr mae Cafcass yn ariannu llyfeydd ar DAPP achrededig a gomisiynir ganddynt. Er bod yna DAPPau achrededig yng Nghymru, nid yw Cafcass Cymru yn eu comisiynu er mwyn darparu gwasanaethau neu adroddiadau ar gyfer y llysoedd teulu. Roedd ymatebwyr yn awgrymu i'r panel yr ystyriwyd DAPPau fel mecanwaith y gall waredu'r risg a achosir gan riant camdriniol a chaniatáu i gyswllt ddigwydd¹⁵⁴, neu, yng ngeiriau cyflwyniad gan un fam "tocyn am ddim i gael cyswllt". Nid fel hyn y dyluniwyd DAPP i weithio, ond efallai eu bod yn cael eu gweld fel hyn o fewn diwylliant o blaid cyswllt y llysoedd. Roedd nifer o gyflwyniadau yn codi pryderon ynghylch argaeledd, defnyddio a gweithredu DAPP.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr proffesiynol a sefydliadau at brinder DAPP. Mewn rhai ardaloedd daearyddol (yn arbennig ardaloedd gwledig mawr yn Lloegr) dywedwyd bod yna argaeledd cyfyngedig iawn neu ddiffyg llwyr o ran ymyriadau newid ymddygiad achrededig. Nodwyd absenoldeb llwyr llyfeydd ar DAPP yng Nghymru a ariennir gan Cafcass Cymru gan nifer o ymatebwyr, a chyfeiriwyd at amharodrydd Cafcass Cymru i dderbyn adroddiadau gan raglenni achrededig. Cyfeiriodd cyfranogwyr i'r sesiwn bord gron farnwrol at loteri cod post mewn perthynas â gwasanaethau - "mae'n ymddangos ei fod yn fater o lwc, pa ardal ydych yn byw ynddo ac a yw gwasanaethau ar gael neu beidio". Roeddent hefyd yn mynegi ansicrwydd ynghylch statws DAPP na chomisiynwyd gan Cafcass pan nad oedd dim DAPP a gomisiynir gan Cafcass ar gael yn eu hardal. Er bod diffyg DAPP a gomisiynir gan Cafcass yn cyfyngu yn sylweddol ar yr opsiynau sydd ar gael i'r llys, mae'r un mor annerbyniol i lysoedd dderbyn adroddiadau gan DAPPau nad

¹⁵⁴ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 9.10.

ydynt wedi eu comisiynu gan Cafcass, sydd heb eu hachredu a/neu nad ydynt yn ddarostyngedig i'r un safonau.

Roedd rhai tadau yn cwyno nad oedd Cafcass wedi comisiynu unrhyw DAPP ar gyfer merched. Nid yw'n eglur a yw'r gronfa ymchwil yn bodoli er mwyn cefnogi y math yma o ymyrraeth ar gyfer cyflawnwyr camdriniaeth ddomestig benywaidd, neu y gellid ei gynnig yn ddigon eang mewn ffordd gost effeithiol o ystyried y niferoedd llawer llai sydd yn gysylltiedig â hynny. Ond, y pwynt dilys sydd yn dal i fodoli yw nad oes dim ar gael i alluogi i famau y canfuwyd eu bod wedi cyflawni camdriniaeth ddomestig i ymgymryd â gwaith er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw risg parhaus allent fod yn ei achosi i'r plentyn a'u cyn-bartner.

Awgrymodd Nagalro bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud yn rheolaidd i DAPPau ar ôl canfod camdriniaeth ddomestig:

“O brofiad ein haelodau, fel arfer nid yw'r gorchmynion trefniadau plant yn cael eu rhoi ble bu cam-drin domestig, oni bai a nes bod y rhiant camdriniol wedi cael hyfforddiant adferol [DAPP] a'i fod yn gallu dangos i'r llys y gall cyswllt ddigwydd heb risg i'r plentyn neu'r rhiant arall.” **Nagalro**

Adroddodd gweithwyr proffesiynol eraill am barodrwydd amrywiol ymysg llysoedd i ganiatáu amser i riant camdriniol ymgymryd â gwaith adferol. Roedd rhai yn barod i ymestyn yr achos er mwyn caniatáu i'r rhiant elwa o driniaeth, ond roedd eraill eisiau symud ymlaen at gyswllt uniongyrchol p'un bynnag. Mynegodd rhai cyfranogwyr i'r sesiwn bord gron farnwrol bryderon bod DAPP yn “rhy fonolithig, mae'n rhaglen 26 wythnos neu ddim byd o gwbl”, gan awgrymu bod yna ymagwedd anhyblyg ‘unffurf’ tuag at newid ymddygiad. Er hynny, gall newid meddylfryd a phatrymau ymddygiad sydd wedi gwreiddio mewn rhiant camdriniol gymryd amser sylweddol. Roedd cyflwyniadau yn mynegi pryderon y gallai'r diwylliant o blaid cyswllt arwain llysoedd i ddiystyru dirifoldeb camdriniaeth a chwilio am ffyrdd cyflym o adfer cyswllt nad ydynt wedi eu dilysu nac yn effeithiol o ran lleihau risg.

Mae ystadegau Cafcass yn dangos bod nifer yr atgyfeiriadau DAPP yn isel:

Tabl 9.1 Atgyfeiriadau Cafcass i DAPP a Rhaglenni Cyswllt Diogel

Blwyddyn	Achosion Cyfraith Breifat Newydd	Atgyfeiriadau/teuluoedd cysylltiedig
2016/17	40,824	566 (1.4%)
2017/18	42,058	795 (1.9%)
2018/19	44,141	909 (2.1%)

Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol Cafcass

Mae hynny yn awgrymu, yn ymarferol, bod nifer sylweddol o rieni camdriniol yn cael gorchmynion ar gyfer cyswllt heb ofyn iddynt wneud unrhyw beth i fynd i'r afael â'u hymddygiad. Hefyd, ni fydd pob un a atgyfeirir i DAPP yn cael eu derbyn gan y darparwr gwasanaeth (yn ddibynnol ar y rhaglen a'r trothwyon cymhwysedd) ac mae rhai tadau yn methu â dechrau ar y rhaglen, er bod cyfraddau cwblhau ar gyfer DAPP yn gymharol uchel oherwydd bod hynny yn cael ei ystyried fel llwybr i gael cyswllt. Roedd rhai cyflwyniadau gan famau yn cyferbynnu'r rhwymedigaethau yr oedd y llys yn disgwyl iddynt eu hysgwyddo er mwyn hwyluso cyswllt, yn aml yn groes i'r hyn yr oeddent yn credu fyddai orau, a dim ond baich cyfyngedig iawn yn cael ei roi ar y cyflawnwyr. Nododd un fam bod y barnwr wedi gofyn i'r cyflwynydd ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad i'r plant. Nid oedd wedi gwneud hynny, ond roedd yn dal i gael cyswllt anghyfyngedig.

Yn y grwpiau ffocws gyda dynion oedd wedi mynd ar gwrs DVIP, roedd yr holl gyfranogwyr yn teimlo bod mynd ar y cwrs wedi bod yn fuddiol pan y gorchmynnwyd iddynt eu mynychu, a bod y llys wedi gwneud y penderfyniad cywir ar gyfer eu plentyn a'r cynbartner. Ymysg pethau eraill roeddent wedi dysgu am reoli drwy orfodaeth, wedi cael mewnwediadau i'w hymddygiad ac nid oeddent mwyach yn gwadu eu camdriniaeth. Ar yr un pryd, roeddent yn deall bod y cwrs yn ffordd o gael yr hyn yr oeddent eisiau: cael cyswllt gyda'u plant. Disgrifiodd un tad y gwrthdaro parhaus gyda'i gynbartner ynghylch cyswllt, a dywedodd: "Rwyf yn dweud wrthi: rwyf naill ai yn mynd i'w gweld, neu mi fyddaf yn disgwyl nes y byddaf yn gorffen y cwrs ac yn dechrau eu gweld ar delerau'r llys" (grŵp ffocws Respect).

Roedd mamau yr oedd eu cynbartneriaid wedi mynd ar DAPP yn llai cadarnhaol amdanynt. Er mwyn cael eu derbyn ar DAPP, mae'n rhaid i gyflawnwyr gydnabod eu camdriniaeth a dangos y posibilrwydd y gallent newid yn ystyrion; ac yn dilyn y rhaglen dylai'r newid hwnnw gael ei dystiolaethu. Ond, adroddodd nifer o famau am dadau oedd yn methu â chadw at y safonau yma, yn cynnwys:

- Tadau camdriniol yn cael eu derbyn ar gyrsiau ar sail isafswm derbyniadau neu er nad oeddent yn bodloni'r gofynion cymhwyso.
- Tadau camdriniol yn 'ticio'r bocsys', yn 'pasio' y cwrs ac yn cael eu hystyried fel tadau sydd wedi'u hadsefydlu er nad oedd eu hymddygiad wedi newid, bod eu hymddygiad o reoli yn parhau ac yn parhau i wadu eu camdriniaeth, heb unrhyw ofyniad i ysgwyddo cyfrifoldeb am eu gweithredoedd.
- asesiadau risg ôl-DAPP ddim yn ystyried safbwyntiau yr oedolyn oedd yn ddioddefwr neu'r plant.

Dywedodd SafeLives bod goroeswyr wedi mynegi pryderon gyda nhw ynghylch cyflawnwyr yn cael eu derbyn ar raglenni hyd yn oed os ydynt wedi eu dosbarthu fel rhai risg uchel, bod adroddiadau ôl-raglenni yn brin o fanylion ac yn adrodd dim ond ar gyfranogiad yn hytrach na deilliannau, a diffyg asesiadau risg trwyadl neu farnu a oedd

ymddygiad y cyfranogwyr wedi newid neu beidio. Yn yr achosion yma, gellir cwestiynu a oedd y DAPP yn effeithiol o ran lleihau'r risg a achoswyd gan y rhiant camdriniol.

Yn olaf, arsylwodd un cyfreithiwr ar arferiad lleol pan fo llys yn gorchymyn DAPP ar ôl canfod ffeithiau, ond yn dod â'r achos i ben ar y pwynt hwnnw ac yn disgwyl i'r rhieni gytuno ar gyswllt ar ôl cwblhau'r DAPP. Mae hynny yn dangos sut y gall DAPPau ddod i gael eu hystyried nid fel gofyniad o ran atebolrwydd a dangos newid ystyrion, ond dim ond fel mecanwaith ddibynadwy i symud ymlaen at gyswllt. Mae'n ymddangos bod rhesymeg gyffelyb wedi bod ar waith yn achos mam yr oedd ei chyn-ŵr wedi mynychu DAPP ac wedi cyfaddef iddo fod yn fygythiol ac iddo gam-drin yn gorfforol, emosiynol ac ariannol:

“Dyweddod y swyddog Cafcass a drefnodd yr adran 7 bod llinell wedi cael ei thynnu o dan yr honiadau o gam-drin domestig oherwydd bod yr ynadon wedi ystyried bod hynny yn amherthnasol i'r patrwm cyswllt i'r dyfodol. Nid oedd yr adran 7 hyd yn oed yn cyfeirio ar gam-drin domestig.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

9.3.3 Cyswllt â chymorth a dan oruchwyliaeth

Mae ymchwil blaenorol wedi awgrymu y gall y llys ddefnyddio cyswllt dan oruchwyliaeth neu â chymorth yn ystod y cam gorchymyn dros dro fel opsiwn tymor byr er mwyn aildechrau y cyswllt, ond yn anaml iawn y defnyddir hynny fel opsiwn hirdymor fel rhan o orchymyn terfynol. Yn astudiaeth Cafcass a Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr, roedd cyswllt dan oruchwyliaeth yn cael ei orchymyn ychydig mwy aml yn ystod y cam dros dro mewn achosion o gam-drin domestig (14% o'r gorchmynion yn y gwrandawriad cyntaf, 10% o'r gorchmynion terfynol), er nad oedd yna fawr o wahaniaeth mewn perthynas â gorchmynion ar gyfer cyswllt â chymorth (7% o'r gorchmynion yn y gwrandawriad cyntaf, 5% o'r gorchmynion terfynol).

Roedd Nagalro yn ystyried bod cyswllt dan oruchwyliaeth yn werthfawr o ran hwyluso cyswllt a gwarchod dioddefwyr camdriniaeth:

“Mewn achosion pan fo'r rhiant arall wedi mynd i'r afael â'u hymddygiad ond bod y dioddefwr (yn ddealladwy) yn teimlo trallod o orfod wynebu'r rhiant arall, mae defnyddio canolfannau cyswllt (pan fônt yn fforddiadwy ac ar gael) wedi hwyluso perthnasoedd yn ddiogel rhwng y plentyn a'r rhiant” **Nagalro**

Ond bu iddyn nhw ac ymatebwyr eraill nodi bod adnoddau cyfyngedig yn rheswm allweddol am y defnydd cyfyngedig o gyswllt wedi ei fonitro. Roedd llawer o gyflwyniadau yn cyfeirio at brinder gwasanaethau cyswllt, yn arbennig cyswllt dan oruchwyliaeth. Mewn rhai ardaloedd daearyddol (yn arbennig ardaloedd gwledig mawr) dywedwyd bod yna

argaeledd cyfyngedig iawn neu ddiffyg llwyr o ran canolfannau cyswllt dan oruchwyliaeth. Nododd cyfranogwr i'r sesiwn bord gron farnwrol broblemau gydag argaeledd a fforddiadwyedd:

“Nid oes gennym ddigon o ganolfannau cyswllt plant i bobl all dalu, maent yn ddrud, maent yn anhyblyg, a gallwch awgrymu canolfan gyswllt a rhaid aros am 17/18 wythnos, 70, 80 punt ac maent yn rhy llawn ar gyfer trosglwyddiadau y rhan fwyaf o'r amser. Nid oes yna ddim gwasanaethau.” **Cyfarfod bord gron Barnwrol**

Nododd Cymorth i Ferched Cymru, pan fo arian ar gael drwy Cafcass Cymru, nid yw hynny ond ar gael am nifer cyfyngedig o sesiynau yn unig, ac ar ôl hynny bydd raid i'r rhiant barhau i dalu.

Mae yna nifer o ganlyniadau i'r prinder gwasanaethau am ddim neu fforddiadwy, yn arbennig gwasanaethau dan oruchwyliaeth, ar y cyd â'r diwylliant o blaid cyswllt. Arsylwodd ALC “ar wahân i gyfnodau byr pan ellir categoreiddio goruchwyllo cyswllt fel asesiad...gall y llys fethu â bwrw ymlaen â chyswllt y mae wedi penderfynu sydd er lles y plentyn ond sydd angen ei oruchwyllo am resymau diogelwch.” Ar y llaw arall, adroddodd CLOCK a nifer o famau y bydd llysoedd, yn absenoldeb gwasanaethau cyswllt dan oruchwyliaeth yn gorchymyn cyswllt heb oruchwyliaeth. Mae'r diffyg cyflenwad yn golygu y gall dioddefwyr a'u cynrychiolwyr roi'r ffidil yn y to o ran gwneud cais am oruchwyliaeth. Er enghraifft adroddodd cyfranogwr mewn grŵp goroeswyr yng Nghymru y dywedwyd wrthi nad oedd dim gwasanaethau cyswllt dan oruchwyliaeth ar gael ac felly doedd dim diben gofyn amdanynt.

Yn ail, roedd cyflwyniadau yn awgrymu, yn absenoldeb cyswllt fforddiadwy neu unrhyw gyswllt dan oruchwyliaeth, bod llysoedd yn gorchymyn cyswllt gwyliadwriaeth isel a bod canolfannau cyswllt â chymorth a gynhelir yn wirfoddol yn dibynnu ar y dioddefwr neu aelod teulu i oruchwyllo'r cyswllt. Hefyd arsylwodd ALC bod cau canolfannau cyswllt wedi golygu y gofynnwyd yn amlach i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig i hwyluso cyswllt gyda rhiant camdriniol. Mae hynny er gwaethaf diwygiad i PD12J yn 2017¹⁵⁵ a fwriadwyd i ddiweddu'r arferiad yma pan fo asesiad risg wedi casglu bod rhiant yn achosi risg i blentyn neu i'r rhiant arall. Roedd Hawliau Merched yn ystyried bod y ddarpariaeth newydd yn cael ei diystyru gan y llysoedd a'i bod ond yn cael ei chymhwyso pan fo yna risg o niwed corfforol neu rywiol difrifol i blentyn. Eglurodd mam a gafodd brofiad yn y llys teulu yn 2018-19: “Mae'n rhaid i mi oruchwyllo cyswllt rhwng fy nghamdriniwr a'n plant. Mae hynny yn effeithio'n niweidiol ar fy iechyd meddwl ac yn achosi i mi barhau i ddiodeff trawma o'i herwydd ef, ond mae'n rhaid i mi wneud hynny er mwyn cadw fy mhlant yn ddiogel a hapus”.

¹⁵⁵ PD12J, para 38.

Yn drydydd, nid yw'r llysoedd yn barod i orchymyn cyswllt dan oruchwyliaeth yn hirdymor. Mae'r Llys Apêl wedi pwysleisio nad oes yna egwyddor cyffredinol y dylid diystyru cyswllt uniongyrchol pe byddai hynny yn golygu y byddai angen goruchwyliaeth hirdymor er mwyn cadw'n ddiogel.¹⁵⁶ Mae hynny yn digwydd mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Ond, roedd cyflwyniadau gan famau yn nodi mai disgwyliad y llysoedd bob amser oedd y byddai cyswllt yn symud ymlaen o fod dan oruchwyliaeth i beidio bod dan oruchwyliaeth, a hynny mor fuan â phosibl.¹⁵⁷ Dywedodd un fam 'yn anaml iawn y ceir gorchmynion hirdymor ar gyfer cyswllt dan oruchwyliaeth'.

Ond, fel y nododd nifer o famau, heb newid yn ymddygiad y cyflawnydd, nid oedd unrhyw reswm i dybio y byddai'r plentyn neu oedolyn sydd yn ddiodefwr yn ddiogel heb oruchwyliaeth. Nid yw cyfnod o gyswllt dan oruchwyliaeth 'llwyddiannus' yn dileu pryderon neu yn lleihau'r risg a achosir gan gamdriniwr, mae hynny ond yn gohirio eu hymddygiad camdriniol am y tro. Bydd camdrinwyr sydd wedi gallu rheoli eu diodefwr efallai yn gallu ymddwyn yn dda tra eu bod yn cael eu goruchwyllo, ond ar ôl 'symud ymlaen' i gyswllt heb oruchwyliaeth gallent ailgychwyn cam-drin heb rwystr.¹⁵⁸ Mewn gwirionedd roedd yna nifer o gyflwyniadau oedd yn nodi camdriniaeth barhaus diodefwr a phlant mewn perthynas â chyswllt heb oruchwyliaeth (gweler pennod 10).

Roedd yna hefyd dystiolaeth nad oedd dim un o'r mathau o gyswllt cyfyngedig yn ddigon cydnerth i warchod yr holl blant neu oedolion oedd y diodefwr. Roedd nifer o gyflwyniadau yn mynegi pryderon ynghylch digonolrwydd cyswllt â chymorth a goruchwyliaeth teulu anffurfiol er mwyn amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth barhaus a rheolaeth drwy orfodaeth.

"Mae'n cael cysylltu â nhw dros y ffôn ac yn parhau i ddefnyddio hynny fel ffordd o'u rheoli, gan wneud iddynt deimlo'n ddrwg neu'n drist drosto pryd bynnag y mae eisiau gwneud hynny. Bydd yn parhau i'w cam-drin am cyn belled ag y caniateir cyswllt iddo. Rwyf bob amser yn gallu stopio'r cam-drin corfforol drwy fod yna bob amser, ond nid yw hynny yn stopio effaith cam-drin a rheoli meddyliol. Nid oes gan y llys ddealltwriaeth na dirnadaeth o reolaeth drwy orfodaeth o gwbl." **Mam, galwad am dystiolaeth**

Yn yr un modd, nododd Hawliau Merched bod gwarchodaeth i'r rhiant nad yw'n gamdriniol mewn trefniadau plant yn tueddu i ganolbwyntio ar eu diogelwch corfforol yn unig, ac nad yw'n ymestyn i ryddid rhag rheolaeth drwy orfodaeth barhaus neu niwed i'w lles emosiynol,

¹⁵⁶ *Re S (A Child) (Child Arrangements Order: Effect of Long-Term Supervised Contact on Welfare)*, [2015] EWCA Civ 689.

¹⁵⁷ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 9.12.

¹⁵⁸ Gweler hefyd Perry and Rainey (2007) 'Supervised, supported and indirect contact orders: Research findings', *International Journal of Law, Policy and the Family* 21: 21–47, yr oedd eu cyfweiliadau dilynol gyda rhieni oedd wedi cael mynediad at ryw fath gyswllt dan oruchwyliaeth wedi canfod lefelau isel o fodlonrwydd a phroblemau o ran rhoi cyswllt ôl-oruchwyliaeth ar waith.

yn cynnwys y gorbryder o orfod trosglwyddo'r plentyn i riant y maent yn gwybod sydd yn gamdriniol.

Roedd nifer o gyflwyniadau yn rhybuddio yn erbyn tybio y bydd cyswllt anuniongyrchol o reidrwydd yn amddiffyn plant a'r rhiant sydd yn ddiodefwr. Dywedodd Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh y gall cyflawnwyr barhau i gam-drin drwy gyswllt anuniongyrchol drwy anfon llythyrau camdriniol sydd yn aflonyddu ac yn ystelcian ar eu cyn-bartneriaid. Disgrifiodd mam yr oedd ei chyn-wr wedi cael ei euogfarnu am dreisio a throseddau cam-drin plant yn rhywiol sut:

“Ar y cychwyn, fel mesur dros dro cyn y gwrandawriad terfynol, caniatodd y llys iddo ysgrifennu at fy mhlant o'r carchar unwaith y mis. Roedd y llythyrau yn achosi gorbryder i fy mhlant - roeddent yn ifanc iawn ond roeddent yn gwybod digon i wybod ei fod yn bedoffilydd ac roeddent yn teimlo'n gorfforol sâl wrth orfod darllen ei llythyrau. Roedd fy merch yn hunan-anafu a bu'n rhaid i CAMHS ofalu amdani, roedd fy meibion yn cael eu tristau yn ddifrifol gan y llythyrau ac yn adweithio'n ddifrifol bob amser yr oedd y llythyrau yn cyrraedd - a hynny yn achosi problemau emosiynol olygai bod raid iddynt gael cwnsela, yn ogystal ag achosi iddynt gael problemau yn yr ysgol ac o ran eu cyfeillgarwch â phlant eraill.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Roedd mamau eraill yn teimlo bod cyswllt drwy we-gamerâu, Facetime a Skype yn ddifrifol o ymwithiol, oherwydd bod hynny yn teimlo fel caniatáu y camdriniwr yn ôl i'r cartref. Y mamau sydd yn cael eu gadael yn rheolaidd i reoli risg y math yma o gyswllt.

Roedd nifer o gyflwyniadau yn cyfeirio at gamdrinwyr oedd yn dal i ddefnyddio cyswllt dan oruchwyliaeth er mwyn parhau i gam-drin, yn cynnwys adroddiadau o fygythiadau y tu allan i ganolfannau cyswllt na adroddwyd amdanynt nac y gweithredwyd arnynt gan staff y canolfannau cyswllt; esgeuluso'r plentyn yn ystod cyswllt dan oruchwyliaeth yn cael ei ddiystyru gan staff; a cham-drin emosiynol parhaus a meithrin plant yn amhriodol yn ystod cyswllt dan oruchwyliaeth. Hefyd roedd cyflwyniadau yn nodi, pan riportwyd digwyddiadau o gam-drin, roedd plant yn cael eu gorchymyn i fynd yn ôl i'r ganolfan gyswllt. Roedd yr ymatebydd yma wedi bod yn destun achosion llys teulu pan yn blentyn:

“Methodd y Llys Teulu â fy ngwarchod oherwydd bod cyswllt wedi cael ei orfodi mewn canolfannau “dan oruchwyliaeth” ble llwyddodd fy nhad i fod yn gamdriniol hyd yn oed “dan oruchwyliaeth”. Nid wyf yn dymuno rhoi manylion oherwydd gallai hynny datgelu pwy ydwyf, ond roedd yn gwneud bygythiadau mor dawel fel na allai'r merched oedd yn goruchwyllo eu clywed, yn defnyddio teganau er mwyn rhoi'r argraff ei fod yn chwarae gyda fi tra'n eu defnyddio i greu senarios treisgar a *macabre* y byddai'n eu cysylltu â fi wrth i ni “chwarae”. Buaswn yn dymuno cyfeirio at ddigwyddiadau eraill, ond eto byddai'r rhain yn datgelu fy hunaniaeth. Pan ddigwyddai'r pethau yma roeddwn bob amser yn dweud wrtho fy mod yn mynd i ddweud wrth yr oedolion, ac atebai “Fydd neb fyth yn dy gredu”. Yn anffodus roedd hynny yn gwbl wir oherwydd cafodd yr holl wybodaeth yma ei bwydo'n ôl i wrandawiadau Llys Teulu ble cafodd fy mam ei difenwi am greu straeon. Mae'n rhaid i mi bwysleisio fy mod yn gwybod bod hyn yn wir oherwydd rwyf wedi darllen nodiadau'r achos. ...Roedd yr effaith arnaf i fel plentyn yn erchyll oherwydd nid oeddwn eisiau mynd i'r canolfannau cyswllt yma o gwbl, ac yn sicr nid oeddwn eisiau gweld fy nhad biolegol oherwydd bod ei ymddygiad yn y canolfannau mor fygythiol. Rwyf yn cofio teimlo'n drallodus iawn pan ddwedwyd wrthyf bod raid i mi fynd yno, a fy mam yn egluro i mi y byddai'n cael ei hanfon i'r carchar pe na bawn yn mynd. Rwyf yn gwybod bod hynny hefyd yn wir oherwydd rwyf wedi gweld yn y nodiadau achos lythyr gan ei gyfreithiwr i'w chyfreithiwr hi yn nodi eu bwriad i gychwyn achos traddodi petai'n methu â chydymffurfio â'r gorchymyn i mi fynychu cyswllt dan oruchwyliaeth. Rwyf hefyd yn cofio'n dda iawn sefyll wrth ddrws y ganolfan yn sgrechian ac yn gwrthod mynd i mewn. Mae'r nodiadau achos hefyd yn dangos bod yr ymddygiad yma yn cael ei briodoli i “hyfforddiant” gan fy mam h.y. Roedd yn fy nysgu i wneud hynny. Nid oedd yn gwneud hynny. **Dioddefwr cam-drin domestig pan yn blentyn, galwad am dystiolaeth**

Rhoddodd mam dystiolaeth o'i phrofiad hi a phrofiad ei phlentyn o gyswllt hirdymor mewn canolfan gyswllt yn dilyn adroddiad seicolegydd oedd yn nodi y “dylai cyswllt barhau i fod dan oruchwyliaeth am amser sylweddol”:

“Gwnaethom hynny am 7 mlynedd. Roedd y mab yn datgelu i athrawon yn yr ysgol yn barhaus nad oedd yn teimlo yn ddiogel. Roedd yn rheolaidd yn cael melysion oedd yn cynnwys cnau [gan ei dad] er ei fod yn gwybod bod ganddo alergedd difrifol i gnau. Roedd yn cael ei dywys i'r toiled yn rheolaidd ble roedd yn cael ei fygwth eto. Siaradais â staff y ganolfan gyswllt. Yr holl wirfoddolwyr mewn eglwys. Ni chymerwyd unrhyw gamau diogelwch. Datgelwyd hynny i gwsnelydd. Ni chymerwyd unrhyw gamau. Ffoniais ofal cymdeithasol, dywedwyd wrthyf am ffonio'r heddlu. Ffoniais yr heddlu a dywedwyd wrthyf ei fod yn fater i ofal cymdeithasol. Oherwydd na ymosodwyd yn gorfforol ar y plentyn nid oeddwn yn gallu cael cymorth cyfreithiol er mwyn mynd â'r mater yn ôl i'r llys, felly roeddwn yn fy unfan. Yn yr unfan am 7 mlynedd. 7 mlynedd o weithredoedd gan ei dad a waethgodd PTSD [y plentyn]. Y digwyddiad terfynol, y tad yn ymosod yn rhywiol ar y mab 13 oed mewn canolfan gyswllt. Achoswyd niwed parhaol iddo. Plis dywedwch wrtha i sut mae hyn yn canolbwyntio ar y plentyn.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Felly, mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y panel yn awgrymu y gallai 'symud' cyswllt o fod dan oruchwyliaeth i beidio bod dan oruchwyliaeth amlygu plant a'r rhiant arall i risg o niwed parhaus, ond hefyd y gallai cyswllt dan oruchwyliaeth ei hun fethu ag amddiffyn plant rhag camdriniwr penderfynol.

9.4 Hyrwyddo riantu ar y cyd

Y trydydd thema yn ymagwedd y llysoedd teulu yw'r disgwiliad y bydd rhieni yn gweithio gyda'i gilydd fel rhieni ar y cyd. Mae'n ymddangos bod hynny yn cael ei arddel hyd yn oed pan fo yna gefndir o gam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth. Roedd nifer o ymatebwyr, yn cynnwys Cyngor Dinas Sheffield, yn nodi bod dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a'u cyn-bartneriaid yn cael eu gorchymyn i fynychu cyrsiau Separated Parents Information Programme (SPIP, yn Lloegr) neu Gydweithio ar gyfer Plant (WT4C, yng Nghymru) sydd yn canolbwyntio ar riantu ar y cyd ac nad ydynt yn briodol ar gyfer achosion o gam-drin domestig.

“Argymhellwyd gan y llys fy mod yn gorfod mynd ar gwrs “cydweithio ar gyfer y plentyn”. Dyna oedd y 4 awr gwaethaf. Roedd yn wirioneddol drallodus, ansensitif, ac roedd y ddynes oedd yn ei gynnal yn dweud wrtha i “nid sesiwn gwnsela yw hon, os ydych yn system y llys mae'n sefyllfa o golli y naill ffordd neu'r llall a'r peth gorau y gallwch ei wneud yw datrys hyn y tu allan i'r llys"...Mae fy nghyn-bartner, y cyflawnydd, yn seicopath, yn hunan-addolwr, ac mae gennyf orchymyn ffrwyno yn ei erbyn, ni allwch gydweithio neu riantu ar y cyd gyda rhywun fel yna.” **Cyfranogwr grŵp ffocws goroeswyr**

Mae disgwyliaidau riantu ar y cyd yn cael eu adlewyrchu yn y warchodaeth gyfyngedig i rieni nad ydynt yn gamdriniol yn y gorchmynion cyswllt a gorchmynion i famau oruchwylio cyswllt, fel y trafodwyd hynny yn yr adran flaenorol. Darparodd British Autism Advocate fwy o enghreifftiau o gyswllt dan oruchwyliaeth yn cael ei orchymyn yng nghartref y riant preswyl, er mwyn galluogi i blentyn awtistig nad yw'n gallu ymdopi heb ei riant preswyl gael cyswllt â'r riant arall, heb ddim ystyriaeth i ddiogelwch a risgiau iechyd meddyliol ac emosiynol i'r riant preswyl. Hefyd mynegodd Southall Black Sisters bryderon ynghylch rhoi gorchmynion ar gyfer trefniadau cyswllt cymharol llac i'r partïon benderfynu arnynt, sydd yn gadael i ddiodefwr camdriniaeth negodi trefniadau ar eu pennau eu hunain gyda'u camdrinwyr. Dadleuodd gweithiwr cymorth camdriniaeth ddomestig bod disgwyliaidau Cafcass ynghylch rhieni yn gweithio gyda'i gilydd i drefnu trefniadau cyswllt yn gwbl amhriodol mewn achosion cam-drin domestig ac y gallai hynny ddarparu ffyrdd eraill o gam-drin, megis 'llyfr cyfathrebu' rhieni yn cael ei ddefnyddio gan y camdriniwr i wneud honiadau ac anfon negeseuon camdriniol - cyfeiriadau cudd ar brydiau mai dim ond y dioddefwr fyddai yn eu hadnabod.

Mae parodrwydd y llysoedd i gyfarwyddo rhieni i fynychu gweithgareddau i gefnogi cyswllt a riantu ar y cyd yn cyferbynnu â'r defnydd cyfyngedig o ymyriadau i fynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol. Cyfeiriodd nifer o gyflwyniadau at y cyferbyniad yma yn nisgwyliaidau'r llys i rieni gwarchodol gydymffurfio â gorchmynion cyswllt a'r ddefnydd o riantu ar y cyd, er gwaethaf unrhyw bryderon parhaus allai fodoli ynghylch cam-drin domestig neu unrhyw niwed arall i'r plant, tra bod y gofynion a osodwyd ar gyflawnwyr yn fychan.

9.5 Lleihau dibyniaeth ar y llysoedd

Y pedwerydd thema yn ymagwedd y llysoedd yw'r pwyslais ers peth amser ar annog rhieni i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch riantu ar ôl gwahanu. Mae hynny wedi cwmpasu ymdrech i arallgyfeirio achosion o'r llys er mwyn annog datrys anghydfodau mewn ffyrdd eraill ac annog setliad ar gyfer yr achosion hynny sydd yn cyrraedd y llys, yn hytrach na bod yn llys yn gwneud penderfyniad. Er y gallai hyrwyddo cytundeb preifat a chefnogi cyfrifoldeb rhieni fod yn gwbl briodol mewn rhai achosion, roedd nifer o gyflwyniadau yn mynegi pryderon y gallai fod yn gwbl amhriodol mewn achosion o gam-drin domestig pan fo dioddefwyr a phlant angen gwarchodaeth y llys er mwyn dadwneud pŵer a rheolaeth y camdriniwr.

Cododd dau brif fater yn y cyflwyniadau mewn perthynas â'r thema hon: dibyniaeth ar orchmynion cydsynio a chyfyngu ar wrandawiadau adolygu.

9.5.1 Dibyniaeth ar orchmynion cydsynio

Ystyrir bod gorchmynion cydsynio mewn achosion plant cyfraith breifat yn ddymunol fel adlewyrchiad o riant ar y cyd adeiladol a'u bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi i'r llysoedd reoli eu llwyth achosion gyda'u hadnoddau cyfyngedig. Canfyddiad cyson mewn

ymchwil blaenorol yw bod dros dri chwarter y gorchmynion terfynol mewn achosion trefniadau plant yn cael eu gwneud drwy gydsynio, ac mae achosion sydd yn ymwneud â cham-drin domestig yr un mor debygol o gael eu datrys drwy gydsynion ag yw achosion heb honiadau o gam-drin domestig.¹⁵⁹ Felly, yn ymarferol, bydd nifer o'r gorchmynion cyswllt a roddir gan lysoedd teulu mewn achosion o gam-drin domestig yn cael eu gwneud drwy gydsynio.

Mae PD12J yn ei gwneud yn ofynnol i lysoedd ddefnyddio'r un gofal wrth roi gorchmynion cydsynio mewn achosion trefniadau plant fel y mae'n rhaid iddynt wrth roi gorchmynion a gaiff eu herio. Wrth ystyried a oes yna unrhyw risg o niwed i'r plentyn, mae'n rhaid i'r llys ystyried yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael iddo.¹⁶⁰ Mae yna hefyd ddarpariaeth i'r llys gyfarwyddo adroddiad adran 7 ar lafar neu yn ysgrifenedig cyn cymeradwyo gorchmynion cydsynio,¹⁶¹ er nad oedd y dystiolaeth i'r panel yn awgrymu bod yr opsiwn yma yn cael ei ddefnyddio yn aml.

Roedd nifer o'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth yn mynegi pryderon difrifol ynghylch dibyniaeth fawr y llysoedd ar orchmynion cydsynio. Cyfeiriodd mamau at nifer o ddiogwyddiadau o deimlo eu bod yn cael eu gorfodi i gytuno i orchmynion cydsynio gan y camdriniwr, eu cyfreithwyr a/neu y llys er y mynegwyd pryderon nad oedd y gorchmyn yn adlewyrchu risgiau oedd wedi eu sefydlu.

“Mae'n achosi straen, pwysau ac ofn enfawr, nid yn unig o ran beth allai'r camdriniwr ei wneud, ond y risg y bydd y dioddefwyr yn colli cystodaeth o'r plentyn pe na baent yn cydymffurfio â'r gorchmyn hyd yn oed os ydynt yn gwybod y byddai gwneud hynny yn y pen draw yn arwain at fwy o niwed.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Nododd Southall Black Sisters bod merched BAME yn benodol o dan bwysau cymdeithasol a diwylliannol i gymodi a chytuno ar gyswllt, ac roedd yn argymhell bod angen mwy o ymdrech er mwyn diogelu dioddefwyr a phlant cyn caniatáu gorchmynion cydsynio.

Yn yr un modd roedd ymatebwyr proffesiynol yn nodi bod dioddefwyr yn cael eu rhoi dan bwysau yn aml gan farnwyr a chyfreithwyr yr ochr arall i gytuno â gorchmynion cydsynio nad ydynt yn mynd i'r afael â cham-drin domestig. Nodwyd ganddynt nad oes gan ddioddefwyr yn aml yr arian na'r egni emosiynol i wynebu'r pwysau yma. Neu, os byddant yn dymuno ymglyfreitha, eglurir iddynt gan eu cyfreithwyr eu hunain neu gyfreithiwr y parti

¹⁵⁹ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 9.6. Canfu astudiaeth Cafcass a Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr, *Allegations of Domestic Abuse in Child Contact Cases* (2017) bod 89% o'r gorchmynion a roddwyd yn y gwrandawriad cyntaf (pan fônt yn hysbys), mewn achosion oedd yn datgan honiadau o gam-drin domestig, wedi eu gwneud drwy gydsynio. Roedd 86% o'r gorchmynion terfynol hefyd wedi eu rhoi drwy gydsynio, ond nid yw hynny wedi cael ei ddadansoddi yn yr adroddiad yn ôl DA/dim DA.

¹⁶⁰ PD12J, para 8.

¹⁶¹ PD12J, para 8

arall neu'r llys, os na fyddant yn cytuno â chyswllt y bydd y llys yn gorchymyn hynny beth bynnag, ac o bosibl gyda llai o fesurau diogelwch. Arsylwodd rhai ymatebwyr y gellid ystyried wedyn bod cytundeb y dioddefwr â gorchymyn cydsynio yn arwydd o naill ai fethiant i warchod eu plant neu gyfaddefiad cynnil bod eu honiadau wedi cael eu gorliwio neu yn ymdrech i 'elyniaethu', a bod cyswllt mewn gwirionedd yn ddiogel.¹⁶²

9.5.2 Anghymeradwyo gwrandawiadau adolygu

Ers cyflwyno Rhaglen Trefniadau Plant yn 2014 mae llysoedd wedi cael eu hannog i beidio cynnal gwrandawiadau adolygu. Cyn hynny, roedd y llysoedd yn rheolaidd yn gweithredu dull fesul cam pan fyddai rhyw fath o gyswllt yn cael ei orchymyn ac yna yn cael ei adolygu gan y llys. Gyda'r gostyngiad mewn gwrandawiadau adolygu, mae'r llys wedi symud tuag at orchymynion cyfnodol neu mewn camau, gydag amserlen wedi ei phennu ymlaen llaw fel y gall cyswllt 'symud yn ei flaen'. Gall y dull yma gynyddu'r cyflymder y bydd cyswllt yn 'symud ymlaen' i'r ffurf lleiaf rheoledig.

“Argymhellodd Cafcass gyfnod o therapi estynedig i fy mab cyn caniatáu unrhyw gyswllt dan oruchwyliaeth, ond gorchmynnodd y barnwr gyswllt o fewn 2 wythnos, roedd fy mab yn teimlo'n hunanleiddiol ar y pwynt yma ac fe'i atgyfeiriwyd at CAHMS.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Mae anghymeradwyo gwrandawiadau adolygu hefyd yn rhoi cyfrifoldeb ar ysgwyddau rhieni i ddod â'r achos yn ei ôl os bydd yna broblemau, yn hytrach na bod y llys yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod ei orchymynion yn ymarferol ac yn ddiogel mewn gwirionedd. Mae'r crynodeb o gyflwyniad canlynol yn dangos rhai o anfanteision y dull yma. Roedd nifer o gyflwyniadau gan famau, tadau a gweithwyr proffesiynol yn galw am i orchymynion gael eu hadolygu yn awtomatig ar ôl cyfnod penodol yn hytrach na gadael i rieni naill ai geisio rheoli trefniadau anaddas neu anniogel neu gychwyn achos newydd.

¹⁶² I weld enghraifft o resymeg o'r fath gweler *Re LG (Re-opening of Fact-finding)* [2017] EWHC 2626 (Fam).

Crynodeb o Gyflwyniad

Bu i fam adael ei gŵr yn dilyn hanes o reolaeth drwy orfodaeth, yn cynnwys cam-drin corfforol a threisio. Adroddodd ei bod yn teimlo'n euog am dynnu'r plentyn oddi wrth y teulu cnewyllog, ond dywedodd ei bod wedi gadael ar gyngor proffesiynol. Trefnwyd gwrandawriad canfod ffeithiau, ond hepgorwyd yr honiadau mwyaf difrifol oherwydd bod yr heddlu yn ymchwilio iddynt. Roedd y barnwr yn dymuno osgoi'r gwrandawriad a pherswadiodd y cyn-wŵr i wneud cyfaddefiadau. Dywedodd y fam bod y rhain wedi eu "creu mor greffus [gan gyfreithwyr] drwy ddefnyddio iaith a geirfa benodol, fel bod unrhyw honiadau yr oeddwn i wedi eu gwneud yn ymddangos yn ddibwys". Cafodd ei hannog gan Cafcass i riantu ar y cyd. Rhoddodd y barnwr orchymyn ar gyfer cyswllt uniongyrchol gan "wrthod gwrandawriad adolygu er mwyn gwirio sut yr oedd pethau yn mynd yn eu blaenau i fy [mhlentyn] a finnau". Adroddodd y fam bod yn plentyn yn goranadlu cyn y cyswllt ac nad oedd eisiau mynd, yn dilyn hyrddiadau ffrwydrol o dymer gan y tad. Dywedodd y fam ei bod yn teimlo'n ddiymadferth oherwydd nad oedd Gwasanaethau Plant yn fodlon ymyrryd gan ei chynghori yn unig i fynd yn ôl i'r llys, ond ni allai fforddio hynny. Yn y cyfamser, roedd y tad yn rheolaidd yn bygwth achos llys yn ei herbyn petai yn anghytuno ag ef. Diwedodd gyda'r eironi o weithwyr proffesiynol yn dweud wrth famau i adael ond yn cael eu gadael "mewn gwaeth sefyllfa oherwydd bod y llysoedd y gwneud penderfyniadau mor wael heb unrhyw ystyriaeth i anghenion unigol y plant neu les y dioddefwr".

9.6 Casgliad

Roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau bod y llysoedd, wrth orchymyn cyswllt uniongyrchol yn y rhan fwyaf o achosion, yn anwybyddu, yn diystyru ac yn systematig yn bychanu honiadau o gam-drin domestig ac yn syml yn trin yr achos fel petai dim perthnasedd i gam-drin domestig parhaus. Hyd yn oed pan fo canfyddiadau o gam-drin domestig yn cael eu gwneud, mae'r cyflwyniadau yn awgrymu yn rhy aml y dywedir wrth ddiodefwyr am 'symud ymlaen' ac i fwrw ymlaen â chyswllt, er nad yw'r cyflawnydd wedi dangos dim neu fawr ddim ymdrech i dderbyn neu i ymgysylltu â'r canfyddiadau yn ei erbyn. Felly y dioddefwr fydd yn gorfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb o sicrhau bod cyswllt yn digwydd, yn cynnwys cysylltu gyda'r camdriniwr, ac ar brydiau yn erbyn y dymuniadau a fynegwyd gan y plentyn. I'r gwrthwyneb, roedd y dystiolaeth yn dangos bod camdrinwyr yn gallu defnyddio eu hawl i gael cyswllt heb fod disgwyl iddynt ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am fynd i'r afael â'u hymddygiad. Roedd nifer o gyflwyniadau yn nodi hyn fel canlyniad i'r diwylliant o blaid cyswllt. Fel ffordd o rywiaeth sydd wedi gwreiddio yn y llysoedd teulu.

Er gwaetha bwriadau PD12J, y neges amlwg sydd yn deillio o'r cyflwyniadau, yn ogystal ag ymchwil blaenorol ac ystadegau swyddogol, yw nad yw achosion o gam-drin domestig yn cael eu trin yn wahanol iawn i achosion nad ydynt yn ymwneud â chamdriniaeth. Mae

cryfder y diwylliant o blaid cyswllt, yn gyfun ag adnoddau cyfyngedig, yn golygu ei bod yn ymddangos bod yr un ymagwedd at gyswllt yn cael ei gymhwyso i achosion plant cyfraith breifat, p'un a oes hanes o gam-drin domestig neu beidio. O ganlyniad i hynny, mae'r gorchmynion a roddir gan y llys yn y rhan fwyaf o achosion o gam-drin domestig yn edrych yn debyg iawn i'r rhai a roddir mewn achosion nad ydynt yn cynnwys cam-drin domestig, ac eithrio y bydd cyswllt cyfyngedig yn arwain at gyswllt llai cyfyngedig ac anghyfyngedig cyn gynted â phosibl, os nad yw'n cael ei orchymyn yn syth. Mewn cyfran fechan o achosion fydd y llys yn gorchymyn mesurau gwarchodol, ac mae'r rhain wedi cael eu beirniadu fel rhai annigonol o warchodol yn erbyn camdrinwyr penderfynol ac sydd yn aml yn para am gyfnod cyfyngedig.

Mae'n ymddangos bod ymdrechu i sefydlu cyswllt ac ymdrechion cyfyngedig i fynd i'r afael ag ymddygiad cyflawnwyr yn adlewyrchu gobaith y bydd cyflawnwyr mewn rhyw ffordd yn rhoi'r gorau i gam-drin heb fwy o ymyrraeth. Ond fel mae pennod 10 yn ei ddangos, nid yw'r gobaith hwnnw yn cydsynio â realiti ddeilliannau gorchmynion llys yn achos plant ac oedolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Mae caniatáu cyflawnwyr i gael cyswllt anghyfyngedig heb fynd i'r afael â'u hymddygiad yn gallu ac yn effeithio ar ddiogelwch plant a darpar rieni. Ym mhennod 11 mae'r panel yn argymhell, ymysg pethau eraill, y dylai gweithdrefn ddiwygiedig gynnwys adolygiadau awtomatig o orchmynion er mwyn gwirio a ydynt yn gweithio yn ddiogel, ac y dylid cael adolygiad o DAPPau. Yn fwy cyffredinol, mae argymhellion y panel wedi eu dylunio i hwyluso newid diwylliant er mwyn cefnogi gwarchodaeth fwy effeithiol i blant ac oedolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig drwy orchmynion llys.

10. Niwed sydd yn deillio o orchmynion llysoedd teulu

10.1 Cyflwyniad

Fel ymateb i'r alwad am dystiolaeth, darparodd ymatebwyr dystiolaeth newydd arwyddocaol i'r panel ynghylch y profiad o gyswllt a orchmynnwyd gan y llys yng nghydestun cam-drin domestig. Er y bu ymchwil sylweddol i effeithiau parhaus rhieni camdriniol ar eu plant a chyn-bartneriaid ar ôl gwahanu,¹⁶³ mae'r rhan fwyaf o ymchwil i brofiadau cyswllt a orchmynnwyd gan y llys wedi bod ar ffurf astudiaethau graddfa fach,¹⁶⁴ yn cynnwys astudiaethau achos o blant sydd wedi cael eu lladd gan dadau camdriniol yn dilyn achosion llys a gorchmynion cyswllt.¹⁶⁵ Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y panel yn ychwanegu yn sylweddol at y llenyddiaeth yma ac am y rheswm hwnnw, mae'r bennod hon yn dyfynnu yn fwy helaeth o'r cyflwyniadau a thystiolaeth grwpiau ffocws nag a wnaed yn y penodau blaenorol. Adroddodd ymatebwyr bod gorchmynion y Llys Teulu wedi galluogi camdriniaeth a rheolaeth barhaus ar blant ac oedolion sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig. Roeddent hefyd yn dweud, o ganlyniad i orchmynion llys a chamdriniaeth barhaus, bod plant ac oedolion sydd yn ddi-doddefwyr wedi dioddef niwed corfforol, seicolegol, emosiynol ac ariannol hirdymor, niwed i'w haddysg, a niwed i'r berthynas rhiant-plentyn, perthynas rhwng brodyr a chwiorydd, perthnasoedd yn y teulu ehangach a pherthnasoedd y plant i'r dyfodol.

Roedd yna wahaniaethau cyffredinol rhwng cyflwyniadau a wnaed gan famau a thadau ynghylch deilliannau gorchmynion llys. Roedd mamau yn mynegi lefelau uchel iawn o bryder am ddiogelwch eu plant. Roedd nifer yn teimlo eu bod nhw a'u plant mewn sefyllfa waeth o ganlyniad i fynd i'r llys teulu, ac roedd nifer yn mynegi teimladau o drallod, dicter, gofid, ac anobaith ynglŷn â'r sefyllfa yr oeddent ynddi yn dilyn yr achos llys. Roedd cyflwyniadau gan dadau yn llai manwl ac yn canolbwyntio fwy ar ddeilliannau gorchmynion

¹⁶³ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 4.2.2.

¹⁶⁴ E.e. Callaghan et al. (2018) 'Beyond "witnessing": Children's experiences of coercive control in domestic violence and abuse', *Journal of Interpersonal Violence* 33(10): 1551–81; J Fortin, J Hunt and L Scanlan, *Taking a Longer View of Contact: The Perspectives of Young Adults who Experience Parental Separation in their Youth* (2012); S Holt (2015) 'Post-separation fathering and domestic abuse: Challenges and contradictions', *Child Abuse Review* 24: 210–22; F Morrison, *After Domestic Abuse: Children's Perspectives on Contact with Fathers* (2009), F Morrison, *Children's Views on Contact with Non-Resident Fathers in the Context of Domestic Abuse* (2016); R Thiara and A Gill, *Domestic Violence, Child Contact, Post-Separation Violence: Experiences of South Asian and African-Caribbean Women and Children* (2012). Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y panel yn adlewyrchu canfyddiadau yr ymchwil cynharach yma.

¹⁶⁵ H Saunders, *Twenty-Nine Child Homicides* (2004); Women's Aid Federation for England, *Nineteen Child Homicides* (2016).

llys eu hunain. Yn gyffredinol roeddent yn mynegi llai o bryder ynghylch cam-drin plant oedd yn deillio o orchmynion llys, diogelwch eu plant, neu o fod yn gaeth i berthynas gamdriniol, ac yn darparu llai o dystiolaeth o niwed i blant o ganlyniad i fyw gyda neu o gael cyswllt â'u mamau.¹⁶⁶

10.2 Parhad camdriniaeth drwy orchmynion cyswllt

Roedd mamau i raddau helaeth yn disgrifio camdriniaeth, rheolaeth a dioddefaint parhaus mewn cysylltiad â gorchmynion cyswllt. Roedd rhai yn adrodd bod y gamdriniaeth wedi gwaethygu, ac roeddent yn ystyried bod eu plant mewn mwy o berygl yn dilyn achosion llys teulu. Teimlad cyson oedd eu bod nhw a'u plant erbyn hyn yn destun yr hyn yr oedden nhw yn ei ddisgrifio fel camdriniaeth a orchmynnwyd gan y llys:

“Mae'r llysoedd nid yn unig wedi caniatáu ein camdriniwr i barhau i'n cam-drin, maent wedi cyfranogi yn ein camdriniaeth am y tair blynedd diwethaf.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

“Roeddwn yn blentyn gafodd ei amlygu i niwed yn ystod cyswllt. Y tro olaf i mi gael cyswllt oedd pan daflodd fy nhad ddwrn ataf, mae'n ddyn treisgar, ac roedd hynny yn hysbys o'r cychwyn, ond eto dyfarnwyd cyswllt iddo am 7 mlynedd ac am gyfnod hirach gyda fy mrawd. Yn ystod y 7 mlynedd yma gwelais gariad iddo yn cael ei churo a nifer o farciau ar y ddynes sydd yn wraig iddo erbyn hyn, y bygythiadau o fod eisiau lladd mam neu sut ei fod am gymryd pob ceiniog oddi wrthi. Mae hyn i gyd yn gamdriniaeth. Roeddwn yn blentyn ofnus iawn yn gorfod ei weld bob yn ail penwythnos ac yn ystod gwyliau ysgol.” **Dioddefwr cam-drin pan yn blentyn, galwad am dystiolaeth**

Eglurodd nifer o famau eu bod wedi dianc o'r berthynas gyda'r tad er mwyn amddiffyn eu plant a nhw eu hunain rhag camdriniaeth, dim ond i weld y warchodaeth honno yn cael ei thanseilio neu ei chwalu gan y llys teulu. O ganlyniad i orchmynion y llys, roeddent yn aml yn gweld nad oedd ganddynt ddim ffordd o gadw nhw eu hunain na'r plant yn ddiogel, dim ffordd i ddianc, ac roeddent yn byw mewn ofn am fywydau eu plant a'u bywydau eu hunain.

¹⁶⁶ Roedd nifer o dadau yn disgrifio niwed i'w plant oedd yn deillio o gyswllt â mamau oedd yn wael yn feddyliol neu oedd yn camddefnyddio alcohol neu gyffuriau. Er bod y rhain heb os yn faterion diogelu difrifol, a gallent gydfodoli â cham-drin domestig, nid ydynt yn uniongyrchol yn rhan o gylch gorchwyl yr adroddiad hwn.

“Nawr mae'r gamdriniaeth yn digwydd (emosiynol, corfforol ac ariannol) i fy nau ieuengaf oherwydd bod y llys teulu yn dymuno i'r cyswllt yma beidio cael ei oruchwylio ac i fod yn gyswllt dros nos. Yn y cyfamser mae fy nghynbartner yn defnyddio'r system i fy rheoli. Tair blynedd ers i ni adael cartref ein teulu rydym yn dal i fyw mewn ofn ac yn disgwyl iddo gymryd y cam nesaf.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Cadarnhawyd y cyflwyniadau yma gan ymarferwyr a arsylwodd bod disgwyliadau goroeswyr y byddai pethau yn gwella ar ôl riportio'r gamdriniaeth yn cael eu gwrthwneud gan y realiti bod pethau yn aml yn gwaethygu.

Disgrifiodd nifer o'r mamau a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth sut oedd eu plant yn cael eu cam -drin yn uniongyrchol yn ystod cyswllt neu pan yn byw gyda'r camdriniwr. Roedden nhw a'r gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda nhw yn adrodd bod y llysoedd, Cafcass/Cymru, yr heddlu a gofal cymdeithasol i blant yn gwrthod gweithredu ar bryderon a godwyd gan famau neu gan y plant eu hunain ynghylch camdriniaeth yn ystod cyswllt, yn cynnwys adroddiadau am gamdriniaeth gorfforol ddifrifol, camdriniaeth rywiol ac emosiynol, a'u bod yn parhau i fynnu bod rhaid i gyswllt ddigwydd ac yn beio'r dioddefwr pe na bai hynny'n digwydd.

“Deuthum i wybod bod fy nghynbartner wedi cam-drin fy mab hefyd, ac nid oeddwn yn gwybod am hynny. Gadawodd ar ôl fy ngham-drin i. Tra yr oedd ar ymweliad gyda'i dad, cafodd ei gam-drin. Bu i mi riportio hynny a dweud wrth yr heddlu. Hyd heddiw ni all fy mab siarad am beth ddigwyddodd. Cafod ei gyfweid yn yr ysgol, a digwyddodd dim. Mae fy nghynbartner yn fy mygwth, mae'n dod i glybiau ysgol, i fy ngwaith, i fy nghartref. Rwyf wedi gofyn am orchymyn peidio ag ymyrryd. Mae'r heddlu yn dweud na allant wneud dim oherwydd y gorchymyn llys teulu.” **Cyfranogwr grŵp ffocws goroeswyr**

“Yn ddiweddar dywedodd fy merch wrth Cafcass am sut yr oedd ei thad wedi ei cham-drin a dywedodd wrth ei heiriolwr hefyd - ac nid oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn barod i ymchwilio oherwydd maent yn dweud mai mater i'r llys teulu ydyw. Gyda llaw - bu iddi ddweud wrthynt, a'r wythnos ddilynol roddent wedi ceisio ei gorfodi i'r un ystafell ag ef. Roedd hi yn sgrechian, yn wylo yn y maes parcio, gwelodd ei gar a dyna oedd pen ei thennyn, roedd yn wylo ac yn crynu ac nid oedd eisiau mynd i mewn. ...Mae Cafcass yn dal i fynd ar drywydd gelyniaethu rhieni, fy mod yn gwneud hynny mewn rhyw ffordd, er y dystiolaeth amlwg a datgeliad gan blentyn.” **Cyfranogwr grŵp ffocws goroeswyr**

Dywedodd mamau eu bod yn cael eu cyhuddo o ddweud celwydd ac o elyniaethu eu plant pan yr oeddent yn mynegi pryderon am gyswllt camdriniol, ac y dywedwyd wrth blant nad oedd hynny wedi digwydd ac fe'u hanfonwyd yn ôl at y camdriniwr. Rhoddodd mamau nifer o adroddiadau o deimlo'n ofnus bob amser yr oedd eu plant gyda'r rhiant camdriniol.

“Erbyn hyn mae ein plentyn dan orchymyn llys i dreulio amser cyswllt heb oruchwyliaeth gyda'n camdriniwr am 6 awr bob pythefnos. Gall 6 awr achosi llawer o niwed. Roedd fy mhlentyn yn 2 oed pan fu i ni ddianc oddi wrth ein camdriniwr, ac mae'r llys teulu nawr wedi gadael iddo ddechrau cam-drin eto. ...Mae'r 6 awr yna yn uffern, yn meddwl a yw fy mhlentyn yn iawn, ac a yw'r cyflawnydd yn mynd am y maes awyr agosaf. Oherwydd mae ein plentyn ar ei docyn ef i aros yn y DU.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Yn ogystal â cham-drin plant yn uniongyrchol, disgrifiodd mamau brofiadau parhaus o gamdriniaeth eu hunain mewn cysylltiad â gorchmynion cyswllt. Derbyniwyd nifer o adroddiadau am gamdrinwyr yn parhau i ddefnyddio plant fel offerynnau yn yr ymdrech i reoli eu mamau drwy orfodaeth.

“Mae'r rhiant camdriniol yn cwestiynu'r plentyn yn barhaol am wybodaeth y gellir ei defnyddio yn erbyn y rhiant a gam-driniwyd, fel y gallent reoli'r sefyllfa ar gyfer mynd yn ôl i'r llys. Mae plant yn cael eu defnyddio fel offerynnau gan y rhieni camdriniol i gythruddo'r rhiant a gam-driniwyd, i reoli mwy arnynt hyd yn oed os nad ydynt gyda'r camdriniwr mwyach. Mae'n anodd i'r un a gam-driniwyd ganfod perthnasoedd newydd oherwydd y camdriniwr, ond pan maent yn gwneud hynny, mae ganddynt gymorth, ond bydd y camdriniwr yn defnyddio hynny yn erbyn y plentyn ac yn ceisio canfod gwybodaeth drwy ofyn mwy a mwy o gwestiynau. Nid yw'r plentyn mewn sefyllfa dda. ...Dyma un o'r rhesymau y bu i mi ildio fy merch, yn ogystal â fy iechyd roedd raid i mi feddwl am beth oedd y camdriniwr yn ei wneud iddi er mwyn ceisio fy nghythrudo i.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Darparodd Refuge enghraifft o gamdriniwr yn rhoi ffonau a thabledi newydd i'w blant oedd â nifer o apiau tracio wedi eu gosod arnynt er mwyn tracio symudiadau'r plant a'r fam. Hefyd mae rhieni preswyl yn cael eu gadael i geisio ymdopi gydag ymatebion eu plant i gyswllt.

“Mae plant yn cael eu hesgeuluso, dannedd ddim yn cael eu glanhau, ddim yn cael eu hymolchi, eu bwydo neu ddim eu bwydo'n iawn, amharu ar eu patrymau cysgu (yn ystod cyswllt â rhiant camdriniol) ac yna yn dod adref wedi blino, yn drist, wedi cael eu rheoli, eu cam-drin (yn cynnwys yn gorfforol), yn rhwystredig ac yn dial ar y fam. Mae tadau yn beio'r mamau am fod yn annigonol, er mai ef yw'r achos cudd.” **Gweithiwr cam-drin domestig, galwad am dystiolaeth**

Gall cam-drin domestig effeithio ar blant yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol pan fo cam-drin gofalwr sylfaenol y plentyn yn effeithio ar gyflwr meddyliol y rhiant hwnnw a'u gallu i ganolbwyntio ar ac ymateb i anghenion y plentyn.¹⁶⁷ Dywedodd nifer y cyflwyniadau bod ymddygiad camdrinwyr yn effeithio'n ddifrifol a bwriadol ar allu riantu mamau, a bod hynny yn effeithio'n niweidiol ar y plant.

“Roeddwn yn dioddef trallod emosiynol o ganlyniad i gelwyddau oedd yn cael eu dweud yn fy nghymuned...ac rwyf wedi dioddef PTSD difrifol o ganlyniad i'r celwyddau amdanaf. Nid oedd gan y llys ddiddordeb mewn gelyniaethu. Ni nododd Cafcass ymddygiadau gelyniaethu yn 2011, nac yn 2017. ...Roedd y plant yn dioddef yn yr ysgol ac mae bywyd wedi bod yn eithriadol o heriol...Ers iddo fod yn 10 oed mae fy mab, sydd bellach yn 18 oed, a minnau wedi ymbellhau, a bu'n rhaid iddo ddiodeff rhethreg gamdriniol a chasineb geiriol ers yn ifanc iawn, ac mae effaith hynny ar ein perthynas wedi bod yn argyfyngus. Methodd y llysoedd ag adnabod yr effaith ar ein plentyn ieuengaf a ddiwedodd mewn gofal maeth oherwydd i mi ddiodeff salwch meddwl difrifol o ganlyniad i'r trallod diddiwedd a achoswyd gan riant gelyniaethus a meddyliol/emosiynol gamdriniol...Tybir fy mod yn rhiant sydd yn or-warchodol, nid wyf yn rhiant sydd yn or-warchodol, rwyf yn rhiant gofalgwr oedd yn cael anhawster amddiffyn ei dau fab rhag rhiant oedd yn benderfynol o sicrhau y buaswn yn cael fy nileu o'u bywydau.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Disgrifiodd nifer o gyflwyniadau sut yr oedd gorchmynion i blant fyw gyda'r tad neu i breswyllo ar y cyd wedi arwain at barhau'r gamdriniaeth economaidd yr oedd y fam wedi ei ddiodeff. Yn unol â'r rheolau ynghylch budd-daliadau a chynhaliadau plant, roedd y gorchmynion yma yn golygu bod incwm y fam yn cael ei docio, neu ei bod yn ofynnol iddi dalu cynhaliadau plant i'r tad. Arsylwodd ymatebwyr proffesiynol y gall gorchmynion sydd yn trosglwyddo preswyliaeth i'r cyflwynydd honedig olygu bod y cyn-riant preswyl nad oedd yn gamdriniol yn colli budd-daliadau cysylltiedig â phlant, ac mewn rhai achosion yn dod yn ddigartref.

¹⁶⁷ Gweler PD12J, para 4; literature review section 5.2; and in particular C Sturge and D Glaser (2000) 'Contact and domestic violence – The experts court report', *Family Law* 30: 615-29.

“Yn 2016 gofynnais am swm digonol o arian cynhaliaeth oherwydd fy mod yn dal i gael anhawster fel mam sengl oedd yn gweithio, ac yntau yn gallu fforddio gwyliau moethus ac eitemau drud pan nad oeddwn i yn gallu fforddio gweithgareddau all-gwricwlaidd i'r genethod. Er mwyn talu'n ôl am fy nghais am arian cynhaliaeth, dechreuodd eu tad achos llys er mwyn iddo ef gael y genethod i fyw gydag ef hanner yr amser. Cyfeiriais at gam-drin domestig fel achos pryder sylweddol. Argymhellodd Cafcass...bod gofal 50/50 yn digwydd....Felly, yn anfodlon a heb ddim dewis arall, roedd yn rhaid i mi lofnodi gorchymyn cydsynio i ofal 50/50 ar y cyd. Ar yr un diwrnod y llofnodwyd hynny cysylltodd y tad â HMRC i ddweud y dylai ef nawr dderbyn budd-dal plant a chredydau treth yn hytrach na fi, oherwydd ei fod ef nawr yn gofalu mwy am y genethod. ...Ni ddatryswyd y sefyllfa budd-dal plant a chredydau treth am 12 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwnnw ataliwyd y taliadau yn gyfan gwbl tra y cadarnhawyd gan bwy oedd yr hawl gyfreithiol i hawlio'r taliadau hynny. Yn ystod y cyfnod hwnnw nid oeddwn yn gallu talu fy rhwymedigaethau ariannol ac nid oeddwn yn gallu talu fy mil cerdyn credyd, felly roedd yn rhaid i mi gael gorchymyn rhyddhau dyled.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Cyfeiriodd nifer o gyflwyniadau gan famau a gweithwyr proffesiynol at orchymynion camau gwaharddedig oedd yn atal dioddefwyr camdriniaeth rhag symud i ffwrdd oddi wrth y camdriniwr i le diogel. I'r gwrthwyneb, roedd yna hefyd adroddiadau am gamdrinwyr yn symud nifer o filltiroedd i ffwrdd ac yn gorfodi eu dioddefwyr i yrru yn bell er mwyn cludo eu plant i gael cyswllt.

“Roedd dad eisiau'r trosglwyddo ddigwydd hanner ffordd oherwydd bod mam a dad yn byw 90 milltir oddi wrth ei gilydd. Rydym bob amser wedi herio hynny oherwydd symudodd dad i ffwrdd ar ôl iddynt wahanu. Mae gan mam ME ac mae'n cael ei gydnabod yn eang bod dioddefwyr ME yn dioddef blinder ac nid yw bob amser yn bosibl nad yn ddiogel iddyn nhw nac i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd, heb sôn am y plentyn sydd yn y car. Ond fe gafodd dad ei ffordd ei hun.” **Chwaer i dioddefwr camdriniaeth, galwad am dystiolaeth**

Un thema amlwg yn y cyflwyniadau oedd mai effaith cyswllt a orchymynnwyd gan y llys oedd trapio dioddefwyr camdriniaeth ddomestig mewn perthynas gyda'r camdriniwr nes bod y plant yn ddigon hen i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Roedd dioddefwyr yn teimlo bod achosion llys teulu wedi rhoi mwy o bŵer a chryfder i gyflawnwyr camdriniaeth ac wedi cynyddu eu rheolaeth. Roeddent yn credu bod cyflawnwyr wedi canfod y gallent ddefnyddio proses y llys i achosi mwy o niwed i'w dioddefwyr.

“Y cwbl wnaeth y llys oedd grymuso fy ngŵr, mae ganddo gymaint o bŵer nawr yn dilyn proses y llys teulu. Roedd eisoes yn gyflawnwr treisgar difrifol ac erbyn hyn mae'n un llawer cryfach. Ers y gwrandawriad terfynol ym mis Mai, rwyf wedi derbyn negeseuon diddiwedd: edrycha ar bopeth yr wyf wedi cymryd oddi wrthyt, edrycha sut yr wyf wedi dy chwalu, nid oes gen ti ddim ar ôl.” **Cyfranogwr grŵp ffocws goroeswyr**

Adroddodd mam yn y grŵp ffocws i ferched BAME nad oedd fyth yn teimlo'n hyderus pan oedd yn mynd i'r llys y byddai'r barnwr yn gwrandao arni, ac roedd yn ofni pŵer y barnwr. Nid oedd yn credu ei bod yn iawn y dylai fod yn ofni'r person yr oedd yn gofyn am help ganddo, er mai hi oedd y dioddefwr. Roedd hi eisoes yn ofni ei gŵr, ac erbyn hyn roedd yn ofni'r gyfraith hefyd.

Casglodd rhai mamau yn eu cyflwyniadau y byddai wedi bod yn fwy diogel aros gyda'r camdriniwr, oherwydd byddent wedi cael gwell gobaith o amddiffyn eu plant ac wedi gallu sicrhau na fyddai'r plant yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain gydag ef.

Yn yr un modd, dywedodd Mosac bod nifer o'r rhieni y maent yn eu cefnogi wedi dweud na fyddent yn riportio cam-drin plant yn rhywiol i'r awdurdodau eto o ganlyniad i'w profiadau yn y llys teulu. Dywedodd Southall Black Sisters wrthym bod goroeswyr yn mynegi “teimlad o ddiffyg ymddiriedaeth mawr yn y system llysoedd teulu a'i allu i'w gwarchod nhw a'u plant rhag niwed”. Rhoddodd gweithwyr proffesiynol eraill enghreifftiau o famau yn cytuno â threfniadau cyswllt neu i ddychwelyd i fyw gyda chamdriniaeth ddomestig risg uchel oherwydd eu bod yn teimlo eu bod mewn lle gwell i allu amddiffyn eu plant yn hytrach na risgio achos llys a gorchmynion gan y llys.

10.3 Gwrthod cyswllt a'r niwed o ganlyniad i gyswllt a orfodir

Derbyniodd y panel nifer o adroddiadau am blant yn dioddef trallod eithriadol wrth feddwl am y syniad o gyswllt ac yn ceisio gwneud popeth i osgoi hynny.

“Mae gen i enghreifftiau o blant oedd mor bryderus ynghylch cyswllt fel eu bod, er enghraifft, yn cuddio o dan welyau, yn cloi eu hunain mewn ystafelloedd, yn rhedeg i'r lôn tra'n cael eu goruchwylio gan arbenigwr, yn anafu eu hunain fel nad ydynt yn gorfod mynd, yn gwrthod mynd i'r ysgol, yn dioddef poen yn y bol difrifol i'r graddau fel eu bod wedi cael eu rhuthro i'r ysbyty gydag amheuaeth o lid y pendics y profwyd eu bod yn boenau emosiynol yn unig, wylo, encilio, yn mynnu bod yn sownd i'r rhiant 'diogel', yn atchwelyd i oedran llawer iau o ran ymddygiad, yn dangos ymddygiad catatonig pan ofynnir iddynt am y rhiant y maent yn ei ofni, yn peidio â chymdeithasu â phlant eraill ac yn cael hunllefau yn rheolaidd.” **Gweithiwr ysgariad a cham-drin proffesiynol, galwad am dystiolaeth**

Ond roedd ein ymatebwyr yn nodi, er gwaethaf eu hadroddiadau am niwed yn ystod cyswllt ac ofni'r syniad o gyswllt, yn aml iawn mae plant yn cael eu gorchymyn i gael cyswllt yn erbyn eu dymuniadau ac mae'n ofynnol i famau eu gorfodi i wneud hynny. Dywedodd mamau bod carchariad wedi cael ei fygwth arnynt am ddirmyg llys, neu dynnu eu plant oddi wrthynt petaent yn methu â chydymffurfio. Dywedodd y mamau yma eu bod wedi cael eu rhoi mewn sefyllfa amhosibl: petaent yn ceisio amddiffyn eu plant rhag cyswllt camdriniol a chefnogi eu dymuniadau i beidio â chael cyswllt, gallent wynebu achos gorfodi, cyhuddiadau o rwystro ac ymatebion cosbol. Ond petaent yn ceisio gorfodi eu plant i gael cyswllt, roedd y plant yn cael eu rhoi mewn perygl ac yn colli ymddiriedaeth yng ngallu'r fam a'i pharodwydd i'w hamddiffyn.

10.3.2 Profiadau plant o gyswllt a orfodir

Mynegodd nifer o famau bryder ynghylch plant yn cael eu gorfodi i gael cyswllt gyda rhiant camdriniol:

“Ni chafodd fy mab hawl i fynegi ei ddymuniad pan oedd yn 12 oed, roedd yn rhaid i mi ei orfodi i fynd i weld ei dad ac roedd yn fy nghasáu i am hynny. Aeth ei waith ysgol lawr allt, roedd yn camymddwyn yn yr ysgol. Roedd yn cael ei anafu gan ei dad ac roedd yn rhaid i mi barhau i'w orfodi i fynd. Nes, ar un diwrnod yr aeth yn noeth i'w wely a dweud y byddai'n rhaid i mi wisgo amdano er mwyn iddo fynd.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Roedd tystiolaeth gan ddiodefwyr camdriniaeth ddomestig pan yn blant yn adrodd am brofiadau cyffelyb o gyswllt dan orfodaeth:

“Yn ffodus gofalodd CAMHS am fy PTSD, a dyma achubodd fi rhag mwy o gyswllt dieisiau oedd wedi bod yn digwydd ers yr oeddwn yn tua 7 oed, nid oedd fy mrawd yr un mor ffodus, ac roedd yn 3 blynedd yn iau na fi, roedd yn rhain iddo fynd i gael cyswllt dydd gyda'n tad - roedd yn arfer torri i lawr mewn dagrau ac yn sgrechian ar ôl mynd wrth i'r ddynes o Cafcass ymddangos ar yr ymweliadau a gwneud iddo deimlo ei fod wedi cael ei drapio. Yna gorfodwyd fy mrawd i fynd ar ymweliadau ar benwythnosau bob pythefnos, er ei fod wedi dweud yn bendant nad oedd eisiau gweld ei dad.” **Dioddefwr cam-drin domestig pan yn blentyn, galwad am dystiolaeth**

Roedd cyflwyniadau yn ei gwneud yn glir bod cyswllt a orfodir yn arwain at ganlyniadau niweidiol difrifol i blant. I ddechrau, mae'n niweidiol i blant gael eu gorfodi i sefyllfa pan nad ydynt yn teimlo yn ddiogel.

“Mae iechyd emosiynol plant yn dioddef yn ofnadwy pan gânt eu gorfodi i weld rhywun sydd yn eu hanafu yn gorfforol ac yn emosiynol, ac nid ydynt eisiau mynd. Roedd fy mhlentyn yn ofni'r man cyswllt ac roedd yn cysylltu y fan honno â gorfod gweld ei thad.”
Ymatebydd arolwg SafeLives

Disgrifiodd cynrychiolydd cyfreithiol yn un o'r cyfarfodydd bord gron i ymarferwyr achos cyfredol pan fu i'r barnwr berswadio swyddog Cafcass i newid ei hargymhelliad o gyswllt anuniongyrchol yn yr adroddiad adran 7 i gyswllt dan oruchwyliaeth mewn canolfan gyswllt:

“Dechreuodd [y fam] fynd â'r plant; ar y diwrnod cyntaf, nid yw'r plentyn hynaf yn gallu dod allan o'r car, mae'n cicio ac yn sgrechian oherwydd nid ydyw eisiau mynd. Yn y pen draw, mae'n llwyddo i'w chael i fynd. Ar gyfer yr ymweliad nesaf, mae mam yn eu ffonio ymlaen llaw ac yn dweud, nid yw'n credu y gall wneud hyn, ac atebodd y ddynes Cafcass “twyllwch y plentyn i feddwl ei bod yn mynd i rywel arall, yna dewch â hi i'r ganolfan”. Felly mae'r fam yn cyrraedd gyda'r plant sydd yn gwaeddi ac yn sgrechian, felly mae'n mynd â nhw adref unwaith eto - mae'r plentyn hyn yn dioddef trawma llwyr o ganlyniad i'r holl beth ac erbyn hyn yn beio'r fam am bopeth sydd wedi mynd o'i le. ...Nawr rwy'n gorfod ail-ymgeisio i'r llys i geisio dadwneud yr holl beth, ond mae hyn bron yn sefyllfa pan fo'r plant yn dioddef cymaint o drawma fel bod angen i wasanaethau cymdeithasol ymyrryd efallai, a'r cwbl oherwydd beth mae'r llysoedd a Cafcass wedi ei wneud iddynt, ac mae hynny yn drychineb lwyr.” **Cyfreithiwr, bord gron ymarferwyr**

Yn ail, fel y mae dyfyniadau blaenorol wedi ei awgrymu, mae'n niweidiol i blant ac yn eu dirymu pan eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu clywed, a phan mae eu safbwyntiau a fynegwyd yn gadarn yn cael eu diystyru.

“Dywedodd Gwasanaethau Plant wrth fy mhlentyn y byddai yn cael ei rhoi mewn gofal maeth, yn cael ei symud i fyw gyda'i thad a fyth yn gweld ei mam eto oni bai ei bod yn rhoi'r gorau i wrthod cyswllt heb oruchwyliaeth ac arosiadau dros nos. Roedd yn ferch 10 oed ddeallus bryd hynny. Mae'r ddwy ohonom yn dioddef yn feddyliol o ganlyniad i'r trawma ac mae gan fy mhlentyn broblemau cysgu. Mae fy mhlentyn yn dal i gael ei cham-drin yn emosiynol.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Yn drydydd, nododd CLOCK bod plant yn derbyn negeseuon dryslyd: ar y naill law maent yn cael eu dysgu am bwysigrwydd adnabod a riportio ymddygiad camdriniol, ond ar y llaw arall, mae rhywun ag awdurdod yn dweud wrthynt bod raid iddynt ddioddef ymddygiad camdriniol gan un o'u rhieni. Yr un mor niweidiol, mae plant yn cael eu hannog i ddiystyru

eu ofnau eu hunain a'u trallod a dywedir wrthynt y byddant yn dod i arfer â hynny. Nododd y fam hon y gofynnwyd i'w phlant yn hytrach nag i'w gŵr newid er mwyn galluogi cyswllt.

“Siawns na all fod yn iach cael eich gorfodi yn erbyn eich ewyllys am 6 mlynedd i fynd at rywun nad ydych yn ymddiried ynddo, sydd yn dweud ac yn gwneud pethau sydd yn eich brifo, yn gwneud i chi deimlo yn fach, dibwys, gorbryderus, ddim yn gwranddo arnoch, eich allgau, esgeuluso, anwybyddu, peidio eich bwydo, ofnus, ynysig ac isel, hyd yn oed os mai eich rhiant ydyw. Gyda dim gwir gymorth pan fo rhywun yn gweithio gyda'ch tad er mwyn newid yr ymddygiadau yma, dim ond gyda chi y plentyn o un flwyddyn i'r llall, fydd yn bendant ddim yn newid ei ymddygiad. Rwyf yn credu bod y llys a Cafcass wedi niweidio fy mhlant am oes oherwydd eu bod yn parhau i gredu bod teimladau a dymuniadau plant yn llai pwysig na chyfranogiad rhieni, ac oherwydd hynny maent wedi gorchymyn cyswllt heb unrhyw gymorth i newid ymddygiad y tad a gwella'r berthynas.”

Mam, galwad am dystiolaeth

Yn olaf, mae plant yn colli eu ffynhonnell allweddol o gydnerthedd yn erbyn effeithiau camdriniaeth - cymorth eu rhiant gwarchodol, ac mae hynny yn achosi pryder penodol. Mae bygwth eu mamau am fethu â hyrwyddo cyswllt, fel yr arsylwodd nifer o gyflwyniadau, yn golygu na does gan blant neb i siarad â nhw os ydynt yn ofnus neu yn dioddef camdriniaeth yn ystod cyswllt. Efallai na fydd plant yn meiddio siarad â'u mamau am beth sydd wedi digwydd yn ystod cyswllt oherwydd y byddai hynny yn cael ei ddefnyddio yn eu herbyn yn y llys er mwyn dangos 'drwgdeimlad anghymodlon' neu 'elyniaethu'. O ganlyniad, mae plant sydd yn dioddef camdriniaeth barhaus drwy gyswllt yn cael eu hynysu.

“Roedd hi [mam] yn gefnogol iawn ond o dan yr amgylchiadau yna mae'n anodd bod yn gefnogol i'ch plentyn oherwydd eich bod yn cael eich cyhuddo o reoli, a dyna beth ddigwyddodd am bum mlynedd. Felly yn ystod y pum mlynedd yna, nid oedd gen i unrhyw un i droi ato mewn gwirionedd. Oherwydd nid oeddwn yn gallu troi at fy nheulu oherwydd...byddai hynny yn adlewyrchu'n ddrwg arnyn nhw ac ni fyddai hynny yn llesol i mi yn y llys. Felly am bum mlynedd roeddwn i bob pwrpas ar fy mhen fy hun.

Cyfranogwr grŵp ffocws Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teulu

“Hefyd mae’n anodd pan mai’r person yr ydych yn ymddiried ynddo fwyaf yw eich mam neu eich tad ac nid ydych yn gallu siarad â nhw oherwydd bod hynny yn annilysu popeth, felly mae hynny yn anodd iawn. Nid oeddwn yn gallu siarad â mam oherwydd fe aeth i drwbl unwaith oherwydd ei bod wedi dweud “beth wyt ti eisiau?” unwaith, ond dyna yr oedd wir yn ei feddwl, dim ond “beth wyt ti eisiau?”, ac yna adroddwyd ar hynny.

Cyfranogwr grŵp ffocws Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teulu

Roedd cyflwyniadau hefyd yn nodi bod ynysu a diffyg cymorth i blant yn cael ei waethygu o ganlyniad i ddiffyg cymorth iechyd meddwl a chwrsela sydd ar gael i blant sydd yn mynd drwy gyswllt trallodus a thrawmatig. Gallai hynny fod o ganlyniad i adnoddau cyfyngedig a diffyg gwasanaethau, ond hefyd gall fod o ganlyniad i ymyrraeth y llys.

“Roedd fy mam yn cymryd rhan mewn rhaglen grŵp plant mewn canolfan Cymorth i Ferched leol, ar gyfer plant yn benodol, ac i famau allu eu helpu ar ôl cael eu cam-drin. Roddodd fy marnwr yn fy achos i stop ar hynny oherwydd dywedodd y byddai’r grwpiau yma yn dysgu plant eu bod wedi cael eu cam-drin, dywedodd bod y grwpiau yma yn achosi ymddygiad gwael ymysg plant a dweud na fyddent yn gwybod eu bod yn ddiodefwr pe na baent wedi bod i’r grwpiau yma.” **Cyfranogwr grŵp ffocws goroeswyr**

I’r gwrthwyneb, dywedodd Mosac: “Mewn dau achos yr adroddodd Mosac arnynt yn ddiweddar, gorchynnodd y llys teulu y dylai plant dderbyn therapi er mwyn eu helpu i ddeall nad oeddent wedi cael eu cam-drin, er gwaetha’r ffaith bod plant yn dal i riportio camdriniaeth.” Fel y gwelir uchod, roedd hi’n ymddangos y disgwylid i blant newid er mwyn goresgyn eu gwrthwynebiad i gyswllt, tra nad yw gwella plant yn dilyn camdriniaeth yn cael yr un gefnogaeth.

Darparwyd rhai enghreifftiau o ymarfer mwy cefnogol i'r panel.

“Derbyniais linell ryfeddol yn fy ngorchymyn llys gan farnwr oedd yn deall (yn y pen draw) sut yr oedd fy ngŵr yn ein rheoli ni. Gosodwyd y llinell er mwyn amddiffyn y plant pan nad oeddent eisiau mynd (yn teimlo'n anniogel yn dilyn pennod gamdriniol) fel nad oedd y gyfraith yn dweud bod RAID iddynt fynd ato oherwydd mai ei amser cyswllt ef oedd hynny. Rhywbeth tebyg i hyn oedd y llinell 'er y dylai'r fam gefnogi'r cyswllt, mae'n rhaid ystyried dymuniadau a theimladau'r plant'. Mae nifer o heddweision wedi dweud wrtha i pa mor dda yw'r llinell yma mewn gorchymyn llys a'u bod yn dymuno y byddai mwy o orchmynion llys yn cynnwys y llinell yma. Dywedodd y barnwr y dylwn ddweud wrth y bechgyn am y llinell yma yn y gorchymyn llys - roedd yn gwybod ei fod yn grymuso 2 o blant drwy wneud hyn. Ac mae hynny yn wir. Mae wedi bod yn amhrisiadwy i ni ac wedi galluogi ein plant i greu peth sefydlogrwydd iddyn nhw eu hunain yn yr hirdymor.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

10.3.2 Gwrthwynebiad mamau i gyswllt

Roedd nifer o gyflwyniadau gan dadau yn cwyno bod mamau preswyl yn rheoli cyswllt yn llwyr ac yn torri gorchmynion cyswllt yn ddi-gosb, ac nad oedd llysoedd teulu yn ddigon cydnherth o ran gorfodi gorchmynion cyswllt.

“Nid yw gorchmynion plant yn werth y papur yr ysgrifennwyd nhw arno beth bynnag, oherwydd nid yw'r llysoedd yn gorfodi yn erbyn mamau. Dim ond 0.8% o'r amser, pan fo hynny yn addas, y caiff gorchmynion eu gorfodi. ...Dylai mamau hyrwyddo cyswllt...yn hytrach nag anwybyddu a gelyniaethu.” **Tad, galwad am dystiolaeth**

Ond, canfu'r unig astudiaeth hyd yma o achosion gorfodi cyswllt, ¹⁶⁸ mai dim ond mewn lleiafrif bychan iawn o achosion o'r fath (4%) yr oedd 'mamau gelyniaethus anghymodlon' yn bodoli, tra bod tua thraean o achosion yn cynnwys risg cyfredol neu faterion diogelwch mewn perthynas â cham-drin domestig a/neu gam-drin plant. Yn yr achosion hyn, roedd cyswllt wedi methu oherwydd bod gorchmynion yn anniogel. Hefyd canfu'r astudiaeth bod llysoedd wedi 'camddarllen' bron i hanner yr achosion risg fel rhai oedd yn ymwneud â gwrthdaro o'r ddwy ochr neu elyniaeth anghymodlon, ac o ganlyniad i hynny roeddent wedi rheoli'r mater diogelu yn annigonol, a arweiniodd at ymyriadau amhriodol a mwy o orchmynion cyswllt anniogel. Roedd yr astudiaeth yn priodoli'r canlyniadau yma i ddiwylliant y llysoedd o blaid cyswllt.

Trafodwyd gwrth-honiadau o 'elyniaeth rhieni' ym mhennod 5 fel un o'r ffactorau allai rwystro dioddefwyr rhag datgan neu fwrw ymlaen â honiadau o gam-drin domestig yn y

¹⁶⁸ L Trinder et al, *Enforcing Contact Orders: Problem-Solving or Punishment?* (2013). Gweler hefyd yr adolygiad o lenyddiaeth adran 10.

llys teulu, ac ym mhennog 6 fel ffordd o anghymhwysu llais plant. Fel y gwelwyd mewn nifer o'r dyfyniadau uchod, gellir gwneud honiadau o 'ddrwgdeimlad anghymodlon' neu 'elyniaeth rhieni' hefyd mewn sefyllfaoedd pan fo mamau yn methu â hyrwyddo neu derfynu cyswllt oherwydd pryderon ynghylch diogelwch, neu pan fo plant yn gwrthod cyswllt ac y rhoddir y bai ar y fam am wrthod hynny. Roedd hynny yn cael ei adlewyrchu mewn ystod eang o gyflwyniadau ac mewn nifer o'r grwpiau ffocws.

Er bod y panel yn derbyn y gallai rhai rhieni preswyl wrthwynebu cyswllt eu plant â'r rhiant nad yw'n preswyl, mae'r cysylltiad cryf rhwng honiadau o elyniaethu a honiadau o gamdrin domestig,¹⁶⁹ a phwysau'r dystiolaeth ymchwil¹⁷⁰ a chyflwyniadau, yn awgrymu bod honiadau o elyniaethu rhieni yn cael eu defnyddio yn aml i fygwth a beio dioddefwyr camdrin domestig sydd yn ymdrechu i amddiffyn eu plant a chreu trefniadau cyswllt mwy diogel.

Cyfeiriodd nifer sylweddol o famau at y bygythiad y byddai eu plant yn cael eu trosglwyddo i fyw gyda'r tad pe na baent yn hyrwyddo cyswllt, ac roedd hynny yn fath arall o gamdriniaeth iddynt.

“Mae'n achosi straen, pwysau ac ofn enfawr, nid yn unig o ran beth allai'r camdriniwr ei wneud, ond y risg y bydd y dioddefwr yn colli cystodaeth o'r plentyn pe na baent yn cydymffurfio â'r gorchymyn hyd yn oed os ydynt yn gwybod y byddai gwneud hynny yn y pen draw yn arwain at fwy o niwed.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Mewn rhai achosion, dywedodd mamau bod preswyliaeth wedi cael ei drosglwyddo i'r tad camdriniol oherwydd y canfuwyd bod plant wedi'u gelyniaethu, ac nad oeddent wedyn yn gallu cynnig gwarchodaeth na chymorth:

¹⁶⁹ Gweler A Barnett (2020) 'A genealogy of hostility: Parental alienation in England and Wales', *Journal of Social Welfare and Family Law* 42(1): 18-29.

¹⁷⁰ Gweler L Trinder et al, *Enforcing Contact Orders: Problem-Solving or Punishment?* (2013); erthyglau a chyfeiriadau yn y rhifyn arbennig o *Journal of Social Welfare and Family Law* 42(1) (2020); erthyglau yn y rhifyn arbennig o *Journal of Child Custody* 16(1)–(2) (2019).

“Y tro olaf i mi weld fy mab 8 oed, dywedodd wrtha i “Mam, rwy’n mynd yn flin iawn oherwydd fy mod yn dy golli di gymaint”. Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol nad oedd hynny wedi ei gofnodi. Yn ystod y cyswllt cyn hynny, dywedodd fy mab 6 oed wrtha i “mam, pryd ydan ni am fod yn deulu unwaith eto?”. Torrodd i lawr ac roedd y gweithwyr cymdeithasol yn dystion iddo yn dweud “mam rwyf eisiau dod adref gyda thi” a’r cyfan y gallwn ei ddweud...yn fy nghytundeb...ni chaf siarad ag ef am beth ddigwyddodd, ynglŷn â’r llys. Nid wyf yn cael dweud wrthynt fy mod eisiau iddynt ddod adref...Felly ni allaf roi sicrwydd iddynt, ni allaf ddweud fy mod yn ymladd iddynt ddod adref drwy’r amser...Pam nad ydynt yn hyrwyddo cyswllt, y berthynas rhwng mam a’i phlentyn? Mae gennyf dal gyfrifoldeb riant, ond nid yw’n golygu dim.” **Cyfranogwr grŵp ffocws goroeswyr**

Mae’r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y panel yn awgrymu, pan dybir bod mamau ar fai, eu bod yn cael eu trin yn fwy negyddol ac mae’n fwy tebygol y byddir yn disgwyl iddynt newid eu hymddygiad na thadau sydd wedi cyflawni camdriniaeth ddomestig. Mae’r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod llysoedd, o fewn y diwylliant o blaid cyswllt, yn rhy barod i fychanu neu ddiystyru cam-drin domestig ac i dderbyn y stereoteip o’r fam ‘elyniaethus’ neu sydd â ‘drwgdeimlad anghymodlon’. Disgrifiwyd y safonau dwbl ymddangosiadol a gymhwysir i famau a thadau yn rymus gan rywun a ddioddefodd gamdriniaeth ddomestig pan yn blentyn:

“Fel plentyn yr achos, a gan siarad o gof llawn ac o ganlyniad i fynediad llawn i nodiadau achos fel oedolyn, rwyf yn dal yn rhyfeddu at y casineb at ferched sydd yn bodoli yn y llysoedd teulu sydd yn dirmygu ac yn bygwth mamau sydd yn ymdrechu i amddiffyn plant, ac sydd yn hyrwyddo hawliau a rolau tybiedig tadau ar draul popeth arall a phawb arall, waeth pa mor gamdriniol a niweidiol maent wedi bod. Nes bod hynny yn dod i ben, bydd niwed i ferched a phlant yn parhau i fod yn beryglus a difrifol.” **Dioddefwr cam-drin domestig pan yn blentyn, galwad am dystiolaeth**

10.3.3 Canlyniadau hirdymor cyswllt camdriniol.

Roedd adroddiadau ymatebwyr ar ganlyniadau cyswllt dan orchymyn llys i blant yn gyson â’r llenyddiaeth ar y deilliannau mwy hirdymor i blant yn gyffredinol o ganlyniad i gyswllt ar ôl gwahanu oddi wrth riant camdriniol.¹⁷¹ Roeddent hefyd yn gyson â’r llenyddiaeth ehangach ar effaith hirdymor profiadau plentyndod niweidiol (ACE).¹⁷² Hefyd, roedd y cyflwyniadau yn cynnig mewnwelediadau i ganlyniadau parhaol cyswllt dan orchymyn llys i oedolion sydd yn ddioddefwyr camdriniaeth, a gall y ffordd y mae’r llys teulu yn prosesu

¹⁷¹ Gweler yr adolygiad o lenyddiaeth adran 5.3.

¹⁷² I weld trafodaeth ddefnyddiol ar y dystiolaeth ymchwil ar ACE, gweler House of Commons Science and Technology Committee, *Evidence-Based Early Years Intervention* HC 506 (2018).

ac yn gorchymyn amharu ar allu plant ac oedolion sydd yn ddiodefwr rhag dechrau ar y broses o wella yn dilyn trawma.

10.3.4 Amharu ar adferiad

Roedd y cyflwyniadau yn adrodd am nifer o ffyrdd yr oedd plant ac oedolion sydd wedi dioddef camdriniaeth yn cael eu rhwystro rhag cael mynediad at wasanaethau cymorth neu therapiwtig yn ystod achosion yn y llys teulu. Mewn rhai achosion, roedd camdrinwyr yn cael gorchymynion camau gwaharddol er mwyn atal hynny. Mewn achosion eraill, roedd y llys ei hun yn gwahardd ffyrdd o gael cymorth. Er enghraifft, adroddodd CARA am orchymynion na ddylai plant oedd wedi datgelu camdriniaeth rywiol dderbyn cymorth neu therapi arbenigol tra bod achosion llys teulu yn mynd rhagddynt. Pan oeddent wedi codi'r mater yma gyda'r DFJ perthnasol, dywedwyd wrthynt bod gorchymynion o'r fath yn cael eu rhoi yn unol â chanllawiau arferion da,¹⁷³ sydd yn nodi "Mater i'r llys benderfynu arno yw p'un a fu i'r plentyn gael ei gam-drin yn rhywiol neu beidio, ac mae'n hanfodol bod asiantaethau eraill yn disgwyl am y penderfyniad cyn cyflwyno camau rheoli, cwnsela neu therapi sydd yn rhagfarnu'r mater" (cyflwyniad CARA). Ond, nododd CARA bod y canllawiau yma yn sylweddol anghydnaws â'r ffordd o feddwl cyfredol yn y system cyfiawnder troseddol a chanllawiau CPS ar ddarparu therapi i blant yr honnir eu bod yn ddiodefwr.¹⁷⁴

"Mae darpariaeth er mwyn sicrhau y gall plant gael mynediad at gymorth arbenigol wedi ei ymgorffori mewn achosion cyfiawnder troseddol ynghylch camdriniaeth rywiol, ac ni ystyrir bod hynny yn gwrthdaro â methu â phrofi camdriniaeth rywiol. Gall gwadu'r cymorth yma gan y llys teulu atal y plentyn rhag symud ymlaen ar ôl profiad trawmatig. Hefyd mae gwadu therapi chwarae (sydd yn addfwyn ac yn cael ei arwain gan blant, sydd yn aml ddim yn cynnwys unrhyw gyfeiriad uniongyrchol at gyswllt rhywiol) yn cynrychioli camddealltwriaeth arwyddocaol o'r ffordd y mae gwasanaethau cam-drin rhywiol arbenigol i blant o dan 12 oed yn gweithio." **CARA**

Dywedodd diodefwr sydd yn rhieni am eu hanallu i gael mynediad at wasanaethau cymorth a chwnsela tra bod y broses llys teulu yn mynd rhagddo, a'u bob i bob pwrpas yn ail-fyw y gamdriniaeth:

¹⁷³Y canllawiau y cyfeirir ato yn y cyflwyniad y dywedwyd y dyfynnwyd ohono gan DFJ yw'r Atodiad ar Ymchwiliad Diffygiol i Gamdriniaeth Rywiol o'r Llawlyfr ar Arferion Gorau mewn Achosion Deddf Plant. Cyhoeddwyd y Llawlyfr Arferion Gorau yn wreiddiol gan Bwyllgor Cynghori ar y Ddeddf Plant yn 1997. Nid yw'r panel wedi llwyddo i leoli'r Atodiad a ddyfynnir yn annibynnol.

¹⁷⁴ Provision of Therapy for Child Witnesses Prior to a Criminal Trial: <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/therapy-provision-therapy-child-witnesses-prior-criminal-trial>

“Erbyn hyn mae SARC [Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol] yn dweud bod rhaid i chi fod wedi dod allan o ben arall y llys teulu cyn y byddant yn darparu cwnsela i chi. Mae hynny yn wych i'r llys ond achosodd oedi o ran mynediad i gymorth i mi. Pryd ydych chi fyth allan o broses y llys teulu?” **Cyfranogwr grŵp ffocws goroeswyr**

“Erbyn hyn rwyf wedi cael diagnosis PTSD ac anhwylder datgysylltiol, rwyf hefyd wedi cael methiant meddyliol, a digwyddodd hynny i gyd ers iddo ddechrau'r broses llys teulu, ac rwyf dan ofal y tîm iechyd meddwl na fydd yn dechrau ar fy therapi ar gyfer gwella nes bod y broses llys ar ben oherwydd mae'n dal i gael rhyddid i fy ngham-drin. Rwyf yn un o'r rhai lwcus yn yr ystyr bod fy mab yn rhy ifanc i'r broses effeithio arno, ond effeithir arno yn anuniongyrchol tra fy mod i'n methu â gweithio ar fy iechyd meddwl. **Mam, galwad am dystiolaeth**

Ar ôl rhoi gorchmynion terfynol, roedd cyflwyniadau yn egluro sut y mae cyswllt parhaus â'r rhiant camdriniol yn atal plant ac oedolion sydd yn ddiodefwr rhag dechrau ar y broses o wella. Yn hytrach, maent yn cael eu gorfodi i barhau i oroesi er mwyn rheoli'r risg parhaus o gamdriniaeth.

“Un o agweddau mwyaf cyffredin ein gwaith eirioli a chymorth, yw bo raid i ni, yn amlach na pheidio, fynd i'r afael â'r canlyniadau emosiynol yn dilyn achosion plant cyfraith breifat pan fo preswyliaeth/cyswllt wedi cael ei orchymyn o blaid y camdriniwr. Yn hytrach na helpu merched gyda'u proses o wella ac ailadeiladu eu bywydau, rydym yn gorfod parhau i gefnogi merched a phlant sydd wedi dioddef niwed o ganlyniad i orchmynion trefniadau plant. Rydym yn gorfod darparu cymorth dwys a chwnsela, yn ogystal â helpu merched i reoli'r risgiau cynyddol sydd yn deillio o roi gorchmynion o'r fath.” **Southall Black Sisters**

10.3.5 Niwed hirdymor i blant

Roedd y cyflwyniadau yn darparu nifer o adroddiadau manwl a thrallodus o niwed a ddiodefwyd gan blant yr oedd ymatebwyr yn eu priodoli i'r cyswllt dan orchymyn llys gyda'r rhiant camdriniol. Mae'r panel yn cydnabod ei bod yn anodd gwneud cyfiawnder â maint a difrifoldeb y niwed a ddisgrifiwyd gan yr ymatebwyr. Dywedwyd wrthym am blant a ddiodefodd anafiadau corfforol niferus, camdriniaeth rywiol a niwed emosiynol; plant yn datblygu anhwylderau bwyta, problemau cysgu, dychryniadau nos, gwlychu'r gwely, poenau stumog, gorbryder, ansicrwydd, gor-wyliadwraeth, dicter, problemau ymddygiad, hunanwerth isel, ADHD, OCD, PTSD, PTSD cymhleth ac iselder. Hefyd, roedd cyflwyniadau yn dweud yr effeithiwyd ar fywyd ysgol y plant, bod plant yn cael anawsterau

dysgu ac yn cael eu gwahardd o'r ysgol. Roedd yna nifer o adroddiadau o blant yn hunan-niweidio, rhai plant yn ceisio lladd eu hunain, ac o blant yn cyflawni hunanladdiad mewn rhai achosion erchyll.

“[Ar ôl rhoi'r gorchymyn ar gyfer cyswllt heb oruchwyliaeth] Daeth y plentyn yn dreisgar yn gyflym a dechrau gwlychu ei wely, gwrthod bwyd a datblygu dychryniadau nos. ...Mae fy mhlentyn wedi cael ei niweidio yn ddifrifol oherwydd bod y llys teulu wedi gwrthod dilyn 12J ac wedi gwrthod amddiffyn y plentyn.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

“Datblygodd fy mhlentyn hynaf boenau stumog cronig a byddai yn chwydu yn ystod yr wythnos oedd yn arwain at y cyswllt, oherwydd ei bod mor bryderus. Ildiodd fy mhlentyn ieuengaf yn llwyr ac nid oedd hyd yn oed yn cwyno pan yr oedd yn cael ei cham-drin oherwydd bod y ddau ohonynt yn dweud wrtha i dro ar ôl tro nad oedd fawr bwys oherwydd nad oedd neb yn poeni a neb yn gwrando... Roedd fy mhlentyn hynaf yn ofni bod yn yr un ystafell â dynion am amser maith. Roedd ei hysgol yn bryderus iawn ynghylch ei hymateb i gael gwers mewn dosbarth gan athro gwrywaidd. Roedd yn mynd yn hysterig.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

“Datblygais PTSD, roedd yn achosi gymaint o straen... Roedd gorbryder fy chwaer mor ddrwg, gadawodd yr ysgol.” **Dioddefwr cam-drin domestig pan yn blentyn, galwad am dystiolaeth**

Roedd nifer o'r cyflwyniadau yn cyfeirio at blant yn cael eu hatgyfeirio at neu angen mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).¹⁷⁵ Er bod y cyflwyniadau yma yn aml yn ymwneud â'r diffyg adnoddau oedd ar gael a'r anhawster o ran sicrhau triniaeth briodol i blant sydd wedi dioddef trawma, roedd y cyflwyniadau yn awgrymu bod parhad niwed o ganlyniad i orchmynion llysoedd teulu wedi creu cost sylweddol i CAMHS.

Yn ychwanegol at yr effeithiau ar iechyd corfforol a meddyliol plant, roedd cyflwyniadau yn arsylwi yr amharir ar berthnasoedd plant hefyd gan y gamdriniaeth barhaus maent yn ei

¹⁷⁵ Mae gwefan GIG yn egluro: “Defnyddir CAMHS fel term ar gyfer yr holl wasanaethau sydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anawsterau o ran eu lles emosiynol neu ymddygiadol. Mae gan ardaloedd lleol nifer o wahanol wasanaethau cymorth ar gael”: <https://www.nhs.uk/using-the-nhs/nhs-services/mental-health-services/child-and-adolescent-mental-health-services-camhs/>.

ddioddef drwy gyswllt - er enghraifft, roeddent yn cael eu gelyniaethu oddi wrth eu mamau gan dadau camdriniol, yn cael eu hamlygu i fodel rôl amhriodol ac yn tyfu i fyny heb ddeall y gwahaniaeth rhwng perthnasoedd iach a rhai nad ydynt yn iach. Dywedwyd bod rhai plant yn adlewyrchu ymddygiad eu tadau, yn rheoli, yn gamdriniol ac yn parhau y cylch o drais, neu roeddent yn sefydlu perthnasoedd fel oedolion gyda dynion camdriniol.

“Mae fy mab wedi tyfu i fyny, a thrwy gyswllt dan orchymyn llys mae wedi dysgu i fod fel ei fam. Dechreuodd fod yn gamdriniol (corfforol a geiriol) tuag ataf i a brodyr/chwiorydd iau ac ni allai fyw adref ar ôl hynny. Gadawodd y llys iddo fyw gyda'i dad!!! Gofynnais i ofal maeth gael ei ystyried nes iddo gael help. Beth bynnag rwyf yn disgwyl y bydd yn cyflawni DV yn erbyn partneriaid a phlant yn y dyfodol. Mae'n gallu rheoli, cam-fanteisio a cham-drin. Mae cyswllt dan orchymyn llys gyda thad oedd y cam-drin yn ddomestig wedi dinistrio fy mhlentyn.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

“Rwyf yn sicr yn meddwl bod tyfu i fyny mewn amgylchedd oedd yn gamdriniol, ac yna mynd i berthynas oedd yn gamdriniol fy hun, nid oeddwn wedi sylwi ar hynny mor fuan ag y byddai rhywun arall wedi ei wneud efallai oherwydd roedd hynny yn eithaf normal...felly roedd hynny yn eithaf derbyniol. Ac yna pan ddaeth y berthynas i ben yn y diwedd, nid oeddwn yn gallu credu fy mod wedi gadael i hynny ddigwydd i mi eto.”

Cyfranogwr grŵp ffocws Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teulu

Dywedodd plant y cam-fanteisiwyd arnynt gan eu tadau er mwyn parhau i gam-drin eu mamau eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu caru, eu bod yn cael eu defnyddio a'u bod yn unig. Roedd plant y'u gorfodwyd gan y llys teulu i gael cyswllt â rhiant camdriniol yn disgrifio canlyniadau gydol oes y dirymu hwnnw.

“Fel plentyn roeddwn yn dioddef problemau aciwt gyda bwyta, cysgu, mynd i'r toiled a gorbryder. Fel glasoed ac oedolyn roedd gennyf ofn unigolion ag awdurdod oherwydd roeddwn yn eu hystyried fel pobl allai fy ngorfodi, yn erbyn fy ewyllys, i wneud pethau nad oeddwn eisiau eu gwneud o gwbl. Yn ail, roeddwn yn eu hystyried fel pobl oedd â'r pŵer i fy nghosbi. Hefyd roedd gennyf broblemau uwcharenol a gorbryder. Nid oes gen i unrhyw ffydd o gwbl mewn systemau cymdeithasol na'r system gyfreithiol.” **Dioddefwr cam-drin domestig pan yn blentyn, galwad am dystiolaeth**

10.3.6 Niwed hirdymor i oedolion sydd yn ddiodefwr

Darparodd oedolion sydd yn ddiodefwr camdriniaeth adroddiadau yr un mor erchyll o fyw gydag effeithiau hirdymor cam-drin domestig a thrawma, sydd wedi eu dwysau a'u

hymestyn gan achosion llys, a chamdriniaeth barhaus a alluogwyd gan orchmynion llys. Roedd yr effeithiau yma yn cynnwys cyflyrau iechyd cronig hirdymor ac anableddau, PTSD a chwalfa nerfol.

“Canfu'r barnwr bod fy nghyn-bartner yn euog o DV ond dywedodd fy mod yn barti i fy nghamdriniaeth fy hun. Mae pob sefydliad yn gwybod mai ni yw'r dioddefwyr, roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy ngham-drin unwaith eto, erbyn hyn rwyf yn dioddef â gorbryder a PTSD, nid wyf yn ymddiried yn neb erbyn hyn.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

“Cymerodd [y llys] ormod o amser i warchod y plant, ni wrandawodd a bu'n rhaid i ni ddiodeff gweithredoedd barbaraid, sarhaus ac annynol ar brydiau, a'r llys yn methu â dilyn ei weithdrefnau a'i ganllawiau ei hun, a arweiniodd at flynyddoedd o drawma olygai bod 1 oedolyn a 2 o blant angen triniaeth seicolegol hir ar gyfer PTSD, gorbryder a chamdriniaeth. ...Mae'r plant a minnau wedi diodeff blynyddoedd o gamdriniaeth uniongyrchol, a chamdriniaeth anuniongyrchol drwy'r system llysoedd yn cael ei ddefnyddio fel arf er mwyn bygwth a chodi ofn. Y canlyniad, ar ôl blynyddoedd o hyn, oedd therapi maith a dwys er mwyn goresgyn y trawma a achoswyd i'r plant ac i mi fy hun. Mae'r niwed ariannol wedi bod yn ddifrifol hefyd, a minnau bron yn 50 oed rwyf yn teimlo bod fy mywyd wedi ei chwalu gan system anghyfiawn.” **Tad, galwad am dystiolaeth**

Disgrifiodd nifer o famau sut yr oeddent wedi colli eu swyddi, eu cartrefi, wedi mynd i ddyledion mawr oherwydd costau cyfreithiol, wedi cael eu trapio mewn tloidi, wedi dod yn ddiartref ac yn ddiymadferth. Roedd llawer hefyd wedi diodeff poen o weld eu plant yn cael eu gorchymyn i fyw gyda'r camdriniwr, tra bod eraill yn destun achosion cyfraith gyhoeddus ddilynol.

“Nid oeddent yn ei rwystro rhag mynd â fi i'r llys yn barhaus, oherwydd nad oedd yn fodlon negodi, ac yn y pen draw cefais chwalfa nerfol, ac yna bu'n rhaid i mi adael fy ngwaith. Cefais ddiagnosis o 'Iselder Adweithiol' ac yn y pen draw bu'n rhaid i mi ildio fy merch ieuengaf, er fy mod yn gwybod am ei gamdriniaeth, oherwydd na allwn brofi hynny... Fe'm gadawyd â dyledion anferth, ac fe'm gorfodwyd i dalu am y rhan fwyaf o fy nyledion drwy werthu'r tŷ yr oedd gennym, ac mae gen i tua £5,000 o ddyledion o hyd. Rwyf yn dal i dalu am y dyledion hynny gydag asiantaeth reoli dyledion.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Cyfeiriodd rhai tadau hefyd at y boen o gael eu rhwystro rhag gweld eu plant, a arweiniodd at iselder, gorbryder a theimladau hunanleiddiol.

“Mae trefniadau cyswllt diangen/gwael yn gwneud niwed seicolegol enfawr i'r rhiant pell.... Roedd fy mab yn treulio amser yng ngofal pobl eraill yn hytrach na'i rieni oedd yn ei garu.” **Tad, galwad am dystiolaeth**

Ar ôl disgrifio ymdrechion tad i gynnal perthynas gyda'i blant oherwydd bod y fam yn rhwystro hynny, adroddodd un ymatebydd:

“Mae effaith hynny ar y tad wedi bod yn drawmatig. Mae'n ymddangos yn isel, wedi mynegi teimladau hunanleiddiol ac mae'n flin am yr anghyfiawnder a'r effaith ar les ei blant. Mae'r dicter hwnnw yn amlygu ei hun drwy waeddi. Mae yna ddyddiau pan rwyf yn sicr y gallai gerdded i ffwrdd oherwydd ei fod yn teimlo'n ddiymadferth, yn ofni colli ei blant, effaith hynny arnynt a beth fydd eu dyfodol.” **Aelod teulu tad, galwad am dystiolaeth**

Mae'n ymddangos bod ymatebion gan rieni yn adlewyrchu methiannau sylweddol gan y llysoedd teulu i naill ai gefnogi rhieni gwarchodol neu i annog a chefnogi rhieni camdriniol i newid patrymau ymddygiad sydd wedi gwreiddio.

Nododd rhai mamau, yn absenoldeb canlyniadau yn y llys teulu, bod tadau oedd wedi bod yn cyflawni camdriniaeth ddomestig erbyn hyn yn cam-drin eu partneriaid newydd a'r plant yn yr un modd. Roedd y cyflwyniadau yma yn codi pryderon ynghylch diogelwch plant ac oedolion sydd yn ddiodefwr nad ydynt ar hyn o bryd yn destun achos llys, yn ogystal â'r plant sydd yn ymweld â nhw ar gyfer cyswllt a gwaethygu eu profiadau o gam-drin domestig drwy weld hynny yn digwydd eto.

10.4 Canlyniadau hirdymor dim cyswllt

Yn ychwanegol at ofyn am dystiolaeth o niwed sydd yn deillio o orchmynion a roddwyd mewn achosion plant cyfraith breifat, roedd yr alwad am dystiolaeth hefyd yn gofyn am y risg o niwed i blant o ganlyniad i beidio â chael perthynas â rhiant oedd yn cam-drin yn ddomestig, neu riant sydd wedi cyflawni troseddau difrifol eraill yn erbyn y rhiant arall neu blentyn.¹⁷⁶

Derbyniwyd tystiolaeth gan dadau am y niwed i blant o ganlyniad i beidio â gweld eu tadau a theulu ehangach y tad, ac weithiau cael eu gwahanu oddi wrth frodyr/chwiorydd.

¹⁷⁶ Galwad am dystiolaeth cwestiynau 22 a 23.

Disgrifiwyd y niweidiau yma yn nhermau colli perthnasoedd sefydledig, cysylltiadau teuluol a rhan o hunaniaeth y plentyn.

“Roedd [fy merch] wedi torri cysylltiad â fy ochr i o'r teulu yn gyfan gwbl, a hithau wedi cael perthnasoedd agos iawn gyda nhw cyn hynny. Mae hyn wedi bod yn amser erchyll iddi hi, ac nid yw maint yr hyn sydd wedi digwydd yn hysbys hyd yma. Er ei bod wedi cael digonedd o [bethau materol] roedd wedi colli y gwir bethau sydd yn bwysig o ganlyniad i'r hyn yr oedd yn credu oedd ei phenderfyniadau ei hun. ...Collodd fy merch ei hunaniaeth. Mae'n rhaid i bopeth y mae'n ei ddweud a'i wneud wrth siarad â fi fynd drwy ei mam.” **Tad, galwad am dystiolaeth**

Dywedodd Cymdeithas Cyfreithwyr Plant er bod y dystiolaeth mewn perthynas â risg o niwed i blant o ganlyniad i berthynas â rhiant camdriniol yn hysbys iawn, “mae'r dystiolaeth o'r risg o niwed i blant o ganlyniad i beidio â chael perthynas â rhiant sydd yn cam-drin yn ddomestig yn llai eglur”, er eu bod yn ystyried bod yna “risgiau yn gysylltiedig â diffyg hunaniaeth o ganlyniad i beidio â gweld rhiant pan fo'r rhiant sydd yn ddiodefwr honedig yn cael anhawster darparu gwaith ar stori bywyd y rhiant camdriniol”. Dywedodd Nagalro:

“Mae'r ateb yn dibynnu ar i ba raddau mae'r rhiant camdriniol wedi cydnabod, derbyn a diwygio'r ymddygiad camdriniol oedd yn debygol o achosi niwed i'w plentyn. Mae hynny yn golygu bod angen amser ac adnoddau, ond yn aml mae'n arwain at berthynas ddiogel rhwng y plentyn a'r rhiant. Pan ellir cyflawni hynny, dyma'r deilliant gorau a lleiaf niweidiol i'r plentyn. ...Mewn achosion pan nad oes unrhyw gydnabyddiaeth o'r niwed a achoswyd neu sydd yn debygol o gael ei achosi i'r plentyn a'r rhiant nad yw'n gamdriniol, bydd gorchmynion ar gyfer cyswllt anuniongyrchol ond wedi adlewyrchu'r angen i les y plentyn fod yr ystyriaeth bwysicaf oll.” **Nagalro**

Fel y trafodwyd ym mhennod 9, mae cyswllt anuniongyrchol, gwaith stori bywyd (pan roddir i'r plentyn wybodaeth am eu tad a theulu'r tad) a chyswllt hunaniaeth yn fecanweithiau a ddefnyddir i geisio cynnal rhyw fath o berthynas rhwng y plentyn a'r rhiant camdriniol tra'n lleihau y niwed posibl i'r plentyn.

“Roeddem angen treial llawn arall olygai bod cyswllt yn cael ei oruchwylio gan weithiwr cymdeithasol annibynnol a chyswllt hunaniaeth yn cael ei gynnal 4 gwaith y flwyddyn. Hefyd cawsom orchymyn adran 91.14 fydd yn para tan fydd fy merch yn 16 oed. ... Dywedwyd wrtho am ganfod 3 gweithiwr cymdeithasol yr oedd yn rhaid iddo dalu amdanynt, ond roeddwn i yn gallu dewis y person olaf i ofalu am fy merch pan oedd gydag ef. Gwnaethom hynny ac erbyn hyn mae wedi cael 4 sesiwn cyswllt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw'n berffaith o bell ffordd, ond mae fy merch wedi setlo i'r drefn. **Mam, galwad am dystiolaeth**

Ond, fel y trafodwyd hefyd ym mhennod 9, nid yn aml y gorchmynnir y mathau yma o gyswllt mewn achosion plant cyfraith breifat ac efallai na fydd yn atal cyflawnwyr rhag parhau i gam-drin.

Ar y llaw arall, roedd nifer o ymatebion yn mynegi anghrediniaeth am ein bod yn gofyn y cwestiynau yma.

“Nid ydym yn amlygu plant i oedolion sydd yn gamdriniol ac sydd yn gorfodi mewn unrhyw gyd-destun cymdeithasol arall heb law am gyfraith teulu. Os bydd plentyn yn cael ei amlygu yn fwriadol a mynych i ymddygiad camdriniol a cymhellol oedolyn mewn unrhyw gyd-destun cymdeithasol ac eithrio cyfraith teulu, bydd yn fater i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r niwed o amlygu plentyn i ymddygiad oedolyn camdriniol a cymhellol mor amlwg fel nad oes hyd yn oed angen gofyn y cwestiwn yma. Nid yw camdriniaeth a gorfodi yn dderbyniol oherwydd bod dyn yn perthyn yn fiolegol i'r plentyn.” **Dioddefwr cam-drin domestig pan yn blentyn, galwad am dystiolaeth**

Roedd yr ymatebwyr yma yn ystyried bod y boen a'r tralod posibl o beidio â chael perthynas â'r rhiant camdriniol yn cael ei wrthbwysu'n sylweddol gan y niwed a'r trawma difrifol, fel y manylwyd ar hynny yn gynharach yn bennod hon, o ganlyniad i barhau i ddioddef a byw gyda chamdriniaeth.

“Mae plant sydd yn dioddef camdriniaeth ddomestig yn diweddu fel cleientiaid i ni fel oedolion sydd yn cael therapi trawma, ac mae hynny yn dystiolaeth derfynol y gall bod yn dyst i gamdriniaeth fod yr un mor niweidiol â'r dioddef. Mae gorfodi plant i berthynas gyda chamdriniwr yn gwbl anghywir - ond mae hynny yn arfer gyffredin mewn llys teulu. Nid wyf yn credu bod yna niwed mewn peidio cael perthynas...[pa fo un rhiant wedi marw er enghraifft] mae'n gwbl dderbyniol i blentyn gael ei fagu yn iach a hapus gan un rhiant, ond yr hyn sydd ddim yn dderbyniol yw plant yn cael eu gorfodi i gael cysylltiad â rhiant camdriniol. **Gweithiwr cam-drin domestig proffesiynol, galwad am dystiolaeth**

“Y gwir amdani yw na all camdriniwr fod yn rhiant da. Mae angen i'r llysoedd gydnabod hynny. Y gred gaiff ei harddel yn y llysoedd yw bod y trawma y mae plentyn yn ei ddiodef yn ddiweddarach yn ystod ei oes o ganlyniad i beidio â chael perthynas gyda'i riant yn fwy nag unrhyw drama a achosir drwy orfodi cyswllt. Nid yw hynny yn wir ac mae'n eithafol farbaraidd a niweidiol i'r plentyn. **Ymarferydd ysgariad a cham-drin domestig, galwad am dystiolaeth**

Roedd ymatebion gan weithwyr cam-drin domestig a chymorth teulu yn ystyried bod plant yn datblygu'n well mewn amgylchedd dawel, gariadus ble nad yw cam-drin yn digwydd.

“Mae'n well i blentyn gael un rhiant cyson nad yw'n cam-drin ac sydd yn darparu patrwm a ffiniau drwy riantu cadarnhaol (yn cynnwys cefnogaeth gweithwyr cymorth a'i chymuned i wneud hynny - yr ysgol hefyd) na chael yr anrhefn parhaus y mae rhieni camdriniol ac ystrywgar yn ei achosi mewn unrhyw berthynas gydag unrhyw un, yn cynnwys eu plant eu hunain.” **Gweithiwr cam-drin domestig, galwad am dystiolaeth**

Roedd y mamau oedd wedi llwyddo i ddianc rhag eu perthnasoedd camdriniol wedi darparu tystiolaeth o'r rhyddhad mawr a ddaeth ar ôl i'r cyswllt â'r tad camdriniol ddod i ben. Roeddent yn disgrifio sut yr oedd eu plant yn raddol yn gallu gwella, cael teimlad o ddiogelwch a dechrau ffynnu.

“Mae'r ferch erbyn hyn yn blodeuo hebdo ac mae hynny yn dweud popeth.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Hyd yn oed pan ohiriwyd cyswllt am gyfnod, roedd mamau yn nodi bod eu plant yn gymaint gwell eu byd - roeddent yn ymddwyn yn well, yn fwy tawel eu meddwl, a diflannodd eu symptomau trawmatig:

“Ni welodd ei thad am 3 mis oherwydd rhoddais stop ar y cyswllt oherwydd ei fod yn ei niweidio. Ac o fewn 3 mis roedd yn blentyn hollol wahanol. Nid oedd yna ddim ymladd gyda'i chwiorydd, roedd yn fwy caredig tuag ataf ac yn llawer tawelach ei meddwl, a chyn gynted ag yr aeth yn ôl i weld ei thad, ar y dydd Sul, aeth i gael cwnsela ar y dydd Llun a bu iddynt ddweud yn syth bod yna wahaniaeth yn ei hymddygiad ar ôl gweld ei thad, mae'n llawer mwy dig ac ymosodol.” **Mam, galwad am dystiolaeth**

Dywedwyd yr un peth gan yr ymatebwyr oedd wedi bod yn destun achosion llys teulu fel plant - roedd eu hadferiad wedi dechrau pan ddaeth y cyswllt i ben - hyd yn oed mewn rhai achosion pan oeddent yn dal i gael eu hystelcian a'u haflonyddu gan eu tadau camdriniol.

“Pan roddais derfyn ar fy mherthynas, dechreuais wella, a thair blynedd yn ddiweddarach (er gwaethaf aflonyddu mynych) rwyf yn llawer iachach a hapusach gyda fy rhiant nad yw'n gamdriniol.” **Dioddefwr cam-drin domestig pan yn blentyn, galwad am dystiolaeth**

“Yn yr ysgol gynradd roeddwn yn blentyn mor annifyr...pan wellodd fy ymddygiad, roedd hynny oherwydd nad oeddwn yn byw gyda fy nhad mwyach. Symudais i ffwrdd o'r amgylchedd hwnnw ac o fewn 8 mis i flwyddyn roeddwn yn blentyn gwahanol...roeddwn yn wyllt fel cath ac yna roeddwn yn annwyl.” **Cyfranogwr grŵp ffocws Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teulu**

“Nid wyf wedi cael unrhyw gyswllt â fy nhad ers i mi fod yn 9 oed ac nid wyf yn teimlo'n ddim gwaeth oherwydd hynny. Os rhywbeth, rwyf yn teimlo'n llawer gwell. Rwyf yn rhydd o rywbeth oedd yn eithaf erchyll ac nid wyf yn credu ei bod yn deg tybio bod cymryd plentyn oddi wrth un o'r rhieni neu beidio annog perthynas yn emosiynol a meddyliol niweidiol o reidrwydd i'r plentyn. Yn fy achos i, fe'm hachubodd rhag rhywbeth go erchyll.” **Cyfranogwr grŵp ffocws Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teulu**

10.5 Casgliad

Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn y bennod hon yn dangos nad yw llysoedd teulu yn gwarchod nifer o blant ac oedolion sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig yn effeithiol rhag mwy o niwed. I'r gwrthwyneb, mae diwylliant y llysoedd o blaid cyswllt yn arwain at orchmynion mewn nifer o achosion plant cyfraith breifat sydd yn achosi risg o niwed difrifol yn aml i blant a'u rhieni gwarchodol. Gwelir bod profiadau o gyswllt anniogel, camdriniol a thrawmatig yn eu tro yn arwain at ystod eang o effeithiau mwy hir dymor ar les dioddefwyr. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod niwed o'r fath yn gwrthbwysu gwerth perthynas barhaus â rhiant camdriniol, a hynny yn sylweddol.

Gwnaeth Nagalro y pwynt pwysig bod diogelwch a budd plentyn o ganlyniad i berthynas barhaus yn “dibynnu ar i ba raddau y mae'r rhiant camdriniol wedi cydnabod, derbyn a diwygio'r ymddygiad camdriniol oedd yn debygol o achosi niwed i'w plentyn”. Mae'r dystiolaeth i'r panel a drafodwyd ym mhennod 9 a'r bennod yma yn awgrymu bod rhieni camdriniol, mewn nifer fawr o achosion, yn cael cyswllt heb ofyn iddynt gydnabod, derbyn na diwygio eu hymddygiad camdriniol, ac yn hytrach na hynny disgwylir i blant a rhieni nad ydynt yn gamdriniol dderbyn bod rhaid i gyswllt ddigwydd ac ysgwyddo'r gost, waeth faint o niwed all hynny ei achosi. Mae'r canfyddiadau yma yn ategu adroddiadau archwilio ardaloedd targed ar y cyd Ofsted o ymatebion gofal cymdeithasol plant i gam-drin

domestig: sef nad yw'r effeithiau cronol ar blant sydd yn dioddef cam-drin domestig yn cael digon o gydnabyddiaeth; bod yna ormod o ddibyniaeth ar oedolion agored i niwed sydd yn ddiodefwyr i gadw plant yn ddiogel; a bod yna ddiffyg ffocws ar y cyflawnydd a'r angen i newid eu hymddygiad.¹⁷⁷

Mae'r panel yn credu mai'r ffordd orau i lysoedd teulu hyrwyddo lles plant yw drwy eu gwarchod rhag amlygiad parhaus i gamdriniaeth, gan gydnabod a chefnogi rôl rhieni gwarchodol, galluogi plant a rhieni gwarchodol i wella yn dilyn trawma, herio rhieni camdriniol a'u hannog a'u cynorthwyo i wneud y gwaith caled o newid ymddygiad. Mae'n debyg y bydd hynny yn golygu y bydd angen gwell adnoddau er mwyn galluogi i'r llysoedd ymchwilio'n drylwyr i honiadau o gam-drin domestig a'u deall, mynnu newid ymddygiad gan rieni camdriniol a bod yn fodlon â hynny, a rhoi gorchmynion sydd yn gwella adferiad diodefwyr.

Mae'r panel hefyd yn ystyried na ddylid gorfodi plant na rhieni preswyl i fyw gyda gorchmynion cyswllt anniogel ac ni ddylai rhieni preswyl gael eu bygwth, eu beio na'u cosbi am beidio â gorfodi plant i gael cyswllt o dan yr amgylchiadau yma. Os na fydd plentyn yn teimlo'n ddiogel o ran cael cyswllt dan orchymyn llys, dylid adolygu'r gorchymyn hwnnw a dylid mynd i'r afael â phryderon y plentyn. Hefyd, mae'r panel yn ystyried bod yna achos o blaid mwy o fuddsoddi mewn cefnogaeth therapiwtig i blant ac oedolion sydd wedi dioddef camdriniaeth yn ystod achosion llys teulu, yn ogystal â rhaglenni newid ymddygiad achrededig ar gyfer cyflawnwyr camdriniaeth.

Mae'r casgliadau yma wedi eu hymgorffori yn argymhellion y panel ym mhennod 11, ar gyfer set newydd o egwyddorion a gweithdrefnau mewn achosion trefniadau plant, adolygiad o DAPP, ac adnoddau ychwanegol er mwyn cefnogi gwasanaethau ar gyfer plant ac oedolion sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig.

¹⁷⁷ Y Stanley (2020) 'Domestic abuse: Keeping the conversation going' yn <https://socialcareinspection.blog.gov.uk/2020/01/07/domestic-abuse-keeping-the-conversation-going/>

11. Argymhellion

11.1 Trosolwg

Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y panel, ynghyd â'r adolygiad o dystiolaeth, yn dangos bod yna bedwar rhwystr trosfwaol i allu'r llys teulu i ymateb yn gyson ac yn effeithiol i droseddau cam-drin domestig a throseddau difrifol eraill:

- Diwylliant y llys o blaid cyswllt
- Y system wrthwynebol
- Adnoddau cyfyngedig sydd yn effeithio ar bob elfen o achosion cyfraith breifat
- Y ffordd y mae'r llys yn gweithio mewn seilo, heb gydlyniant â llysoedd a sefydliadau eraill sydd yn delio â cham-drin domestig.

Er mwyn galluogi llysoedd teulu i amddiffyn plant ac oedolion sydd yn ddioddefwyr yn gyson ac effeithiol rhag mwy o niwed, mae angen newidiadau cynhwysfawr er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau yma, fel y nodir hynny yn Ffigwr 1:



Er mwyn cyflawni'r newidiadau hynny, mae'r panel yn casglu bod angen diwygio achosion plant cyfraith breifat mewn ffordd sylfaenol, fel y cefnogwyd hynny gan nifer o gyflwyniadau a chyfranogwyr grwpiau ffocws. Mae'r panel yn gobeithio y bydd ei argymhellion yn grymuso barnwyr, cyfreithwyr, Cafcass, Cafcass Cymru a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes cyfiawnder teulu i weithio i'w potensial gorau mewn achosion plant cyfraith breifat, ac yn bennaf oll y bydd ei argymhellion o fudd i blant a rhieni sydd yn dioddef camdriniaeth ddomestig.

11.2 Egwyddorion dylunio ar gyfer achosion plant cyfraith breifat

Mae'r panel yn argymhell y dylai egwyddorion dylunio elfennol ar gyfer achosion plant cyfraith breifat fod y rhai a nodir yn Ffigwr 1 uchod. Ystyriaeth bwysicaf y llys yn lles y plentyn. Dylai'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar les plant a hyrwyddo hynny:

- Ganolbwyntio ar ddiogelwch a bod yn ymwybodol o drawma¹⁷⁸
- Defnyddio dull ymchwiliol o ddatrys problemau sydd yn seiliedig ar ymchwiliad agored i beth sydd yn digwydd ar gyfer y plentyn a'i deulu
- Meddu ar yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn gweithredu yn effeithiol a defnyddio adnoddau yn effeithiol yn unol â'r egwyddorion sylfaenol yma
- Cydweithredu â systemau, gweithdrefnau a gwasanaethau cysylltiedig

Mae'n rhaid i achosion plant cyfraith breifat yn y llys ymorol am yr ystod lawn o faterion a gyflwynir gerbron y llysoedd teulu. Ond, esblygodd y gweithdrefnau cyfredol ar adeg pan fo rhieni oedd yn dod i'r llys yn fwy nodweddiadol yn cael eu cynrychioli gan gyfreithwyr. Mae ymchwil diweddar hefyd wedi atgyfnerthu'r lefelau uchel o bryderon ynghylch diogelwch a fynegwyd mewn achosion plant cyfraith breifat.¹⁷⁹ Yn ogystal â sicrhau bod anghenion a dymuniadau plant yn rhan ganolog o achosion plant cyfraith breifat, mae'r panel yn argymhell bod gweithdrefnau yn cael eu dylunio gydag anghenion ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, a phryderon ynghylch cam-drin domestig a materion diogelwch eraill, yn ystyriaethau canolog (Ffigwr 2). Mae gweithdrefnau a ddyluniwyd ar gyfer yr achosion mwyaf heriol a'r chyfranogwyr sydd fwyaf agored i niwed yn nodweddiadol yn gallu mynd i'r afael ag anghenion plant yn yr achosion lleiaf cymhleth. Mewn gwirionedd, mae'r panel yn ystyried y byddai ei ddiwygiadau a gynigir yn fuddiol i'r holl achosion plant cyfraith breifat, hyd yn oed y rhai sydd yn ymwneud â phryderon ynghylch diogelwch.

¹⁷⁸ Mae 'ymwybodol o drawma' yn golygu bod yn ymwybodol bod cam-drin domestig a throseddau difrifol eraill yn achosi trawma i blant ac oedolion sydd yn dioddefwyr, yn ymwybodol o effeithiau trawma pan fo dioddefwr yn mynychu'r llys ac yn rhoi tystiolaeth, ymwybodol o'r angen i osgoi ac atal achosi trawma drachefn yn ystod proses y llys cymaint â phosibl, ac ymwybodol bod y rhai sydd wedi dioddef trawma angen cymorth a chyfle i wella.

¹⁷⁹ Cafcass/Women's Aid Federation of England, *Allegations of Domestic Abuse in Child Contact Cases* (2017) – 62% o geisiadau am gyswllt yn mynegi honiadau o gam-drin domestig; Cymorth Cafcass gyda Gwneud Trefniadau Plant (Manceinion) Peilot - 80-86% o'r ceisiadau yn mynegi materion diogelwch difrifol ac yn anaddas i'w symud o'r llys.

11.3 Ymagwedd gyson a moesegol tuag at achosion sydd yn ymwneud â cham-drin domestig a risgiau o niwed eraill

Roedd y dystiolaeth yn mynegi pryderon mynych ynghylch sut y cafodd plant ac oedolion sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig eu trin mewn nifer sylweddol o achosion. Er nad ydym yn gwybod pa mor gynrychioliadol yw'r pryderon yma, yn ôl y dystiolaeth sydd ar gael, mae'r panel yn casglu bod y llysoedd teulu yn delio ag achosion cam-drin domestig yn anghyson, ac mewn rhai achosion bod hynny yn arwain at effeithiau niweidiol. Er mwyn adeiladu ar yr enghreifftiau o arfer dda a nodwyd, ac er mwyn ymgorffori hynny yn gyson, **mae'r panel yn argymhell mabwysiadu datganiad ymarfer ar gyfer achosion sydd yn datgan cam-drin domestig a risgiau o niwed eraill. Dylai'r datganiad yma gynnwys y pwyntiau canlynol:**

- Byddir yn ymdrin â honiadau o gam-drin domestig a phryderon eraill ynghylch diogelwch a fynegir gan rieni neu blant gyda pharch a byddir yn ymchwilio iddynt yn llawn.
- Bydd prosesau a phenderfyniadau yn rhydd o unrhyw fath o duedd yn cynnwys tuedd ar sail rhywedd, hiliaeth, stereoteipio a thybiaethau rhagfarnllyd.
- Mae prosesau a chyfleusterau'r llys yn amcanu at ddarparu diogelwch i bob cyfranogwr, er mwyn osgoi ail-fyw trawma a chaniatáu i gyfranogwyr gael cymorth emosiynol.
- Bydd prosesau mor gyflym â phosibl a bydd oedi cyn fyrred â phosibl, ond diogelwch fydd y flaenoriaeth.
- Bydd y llys a'r rhai sydd yn gweithio yn y system yn wylidwrus o'r rhai hynny sydd yn ceisio defnyddio prosesau'r llys fel ffordd o gam-drin a rheoli. Bydd ymddygiad o'r fath yn cael ei adnabod a'i atal.
- Mae'r llys yn amcanu at sicrhau ymateb cydlynol ar draws asiantaethau i faterion sydd yn ymwneud â niwed a risg i blant.
- Bydd safbwyntiau plant ar faterion sydd yn effeithio arnynt yn cael eu clywed yn unol â'u hawliau o dan UNCRC. Pan fo Cafcass. Cafcass Cymru, adroddiad gwaith cymdeithasol neu arbenigol yn cyflwyno argymhelliad neu pan fo'r llys yn gwneud penderfyniad sydd yn groes i ddymuniadau'r plentyn, dylid egluro'r rheswm am hynny i'r plentyn.

- Os na chanfyddir bod honiadau o gam-drin domestig neu droseddau difrifol eraill yn ffeithiau, bydd y rhesymau tanategol pam bod yr honiadau wedi cael eu gwneud yn cael eu hasesu'n sensitif cyn belled â phosibl.
- Bydd diogelwch parhaus gorchmynion trefniadau plant yn cael eu hadolygu. Os bydd plentyn yn teimlo'n anniogel ynghylch cyswllt dan orchymyn llys, bydd y rhesymau am hynny yn cael eu hasesu mewn ffordd sydd yn canolbwyntio ar y plentyn, bydd llais y plentyn yn cael ei glywed, a byddir yn mynd i'r afael yn briodol â'u pryderon a byddir yn eu cydnabod.

Mae'r panel yn gwahodd Llywydd yr Adran Deulu i hyrwyddo'r datganiad ymarfer yma. Mae'r panel hefyd yn argymhell ei fod yn cael ei ymgorffori i'r Rhaglen Trefniadau Plant.

Mae'r panel yn gobeithio y bydd negeseuon ei argymhellion hefyd yn cael eu cadarnhau a'u hamlygu gan yr Uchel Lysoedd, drwy eu hawdurdod apeliadol a dyfarniadau arwyddocaol eraill. Mae'r panel yn rhagweld y bydd angen ail-ymweld â rhai awdurdodau rhwymedig neu berswadiol (sydd yn mynd i'r afael â chyfraith weithdrefnol a sylwedd sydd yn berthnasol i gam-drin domestig a niwed) os caiff ei gynigion eu rhoi ar waith.

11.4 Rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni

Er bod rhai gweithwyr proffesiynol yn cefnogi rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni yn adran 1(2A) Deddf Plant 1989, derbyniodd y panel ddigon o dystiolaeth i gasglu bod y rhagdybiaeth yn y cohort o achosion a ddisgrifiwyd yn y cyflwyniadau yn atgyfnerthu mwy ar y diwylliant o blaid cyswllt, ac yn effeithio ar ffocws y llys ar les a diogelwch unigol y plentyn.

Trafododd y panel amrywiol awgrymiadau a gynigiwyd yn y cyflwyniadau a modelau sydd ar gael yn rhyngwladol ynghylch y ffordd orau i osgoi canlyniadau anfwriadol y rhagdybiaeth, ond nid oeddent wedi eu perswadio'n ddigonol gan unrhyw opsiwn penodol ar gyfer diwygio. Ond mae'r panel yn bendant na ddylai'r rhagdybiaeth barhau ar ei ffurf bresennol. **Rydym yn argymhell bod y rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni yn cael ei hadolygu ar frys er mwyn mynd i'r afael â'i heffeithiau niweidiol.**

11.5 Y Rhaglen Trefniadau Plant

Yn unol â'r angen i fynd i'r afael â'r problemau trosfwaol a nodwyd yn y dystiolaeth, **mae'r panel yn argymhell y dylai'r llysoedd teulu beilota a chynnal Rhaglen Trefniadau Plant ddiwygiedig mewn achosion plant cyfraith breifat.** Byddai'r rhaglen ddiwygiedig yn gweithredu'r egwyddorion dylunio o ganolbwyntio ar ddiogelwch a bod yn ymwybodol o drawma; defnyddio dull ymchwiliol o ddatrys problemau yn seiliedig ar ymchwiliad agored; cael digon o adnoddau a'u defnyddio yn effeithlon; a chydlynu â systemau, gweithdrefnau a gwasanaethau cysylltiedig. Byddai hefyd yn gweithredu'r datganiad ymarfer a

argymhellwyd yn 11.3 uchod. Mae'r panel yn nodi ymrwymiad maniffesto Llywodraeth San Steffan i beilota Llysoedd Cam-drin Domestig Integredig, ac yn argymhell dod â'r ddau ffrwd gwaith yma at ei gilydd a'u cydlynu. Mae'r panel hefyd yn argymhell bod gwaith Llywydd Gweithgor Cyfraith Breifat yr Adran Deulu i'r dyfodol yn cael ei gydlynu â'r cynnig yma.

Mae'r panel yn credu y dylai'r Rhaglen Trefniadau Plant ddiwygiedig ddefnyddio dull nad yw'n wrthwynebol sydd yn datrys problemau gyda dilyniant barnwrol yn nodwedd allweddol ohono.¹⁸⁰ Mae'n awgrymu bod y rhaglen yn cynnwys tair strategaeth:

- (I) **cam ymchwilio a chyfnewid gwybodaeth** gychwynnol - Byddai'r ffocws ar ddeall beth sydd wedi bod yn digwydd ar gyfer y plentyn, yn cynnwys effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol unrhyw gamdriniaeth yn y teulu ac anghenion y plentyn a'r oedolyn sydd yn ddiodefwr i gael eu gwarchod rhag niwed i'r dyfodol. Byddai gwybodaeth yn cael ei chasglu yn rhagweithiol, gan ddefnyddio yr holl ffynonellau perthnasol, yn cynnwys arbenigwyr sydd eisoes yn gweithio gyda'r teulu. Byddid yn ymgynghori â rhieni a phlant, a hefyd byddai rhieni yn derbyn gwybodaeth sydd yn berthnasol i'r materion a godwyd yn yr achos (yn cynnwys gwaith seico-addysgol ar gam-drin domestig o bob math). Os na fyddir yn gallu cytuno, bydd y llys yn cael ei baratoi yn rhagweithiol ar gyfer dyfarniad.
- (ii) **cam dyfarnu** - Byddai hon yn broses dan arweiniad barnwr fyddai yn canolbwyntio ar adnabod unrhyw niwed neu risg yn gywir, datrys problemau a sicrhau lles i'r dyfodol. Byddai mesurau arbennig yn cael eu darparu yn rhagweithiol pan fo angen hynny. Byddai cydlynu â phrosesau cyfiawnder eraill yn cael ei gynnal, a byddid yn defnyddio asiantaethau eraill sydd wedi gweithio ag aelodau'r teulu er mwyn caffael tystiolaeth a chymorth. Os bydd angen penderfynu ar ffeithiau er mwyn asesu'r risg i blentyn neu riant, byddai hynny yn digwydd yn ystod y cam yma.
- (lii) **cam dilynol** - cam dilynol rhagweithiol dri i chwe mis ar ôl rhoi gorchmynion i weld sut maent yn gweithio. Eto ni fyddai hyn yn wrthwynebol, ac os bydd angen mwy o ddyfarnu neu amrywio gorchmynion, byddid yn dilyn y broses ymchwilio a dyfarnu eto.

Byddai dychweliadau i'r llys gan barti yn cael eu cyfeirio at y barnwr a aseiniwyd a byddir yn delio â hynny yn unol â'r un egwyddorion a phrosesau. Byddai'r barnwr a aseiniwyd mewn sefyllfa i adnabod unrhyw faterion ynghylch cam-drin y system drwy geisiadau mynych, dylai fod yn wylidwros o hynny a dylai roi camau atalio ar waith.

¹⁸⁰ Mae'r panel yn nodi bod y Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd (FDAC) yn un model y bydd ymarferwyr cyfiawnder teulu yn gyfarwydd ag ef, sydd yn ymgorffori dull o'r fath, er eu bod yn gweithredu mewn cyd-destun gwahanol mewn achosion amddiffyn plant. Mae'r panel yn disgwyl y byddir yn defnyddio'r model FDAC, yn ogystal â modelau rhyngwladol o lysoedd cam-drin domestig arbenigol a llysoedd datrys problemau eraill, yn y broses o ddatblygu'r cynnig yma i fod yn system weithredol. Mae'r panel hefyd yn nodi sut y bydd cyflawni dilyniant barnwrol ar Haen 1 yn golygu y bydd angen sylw penodol.

11.6 Cryfhau Llais y Plentyn

Roedd nifer y cyflwyniadau yn dadlau bod angen cryfhau lleisiau plant sydd wedi dioddef cam-drin domestig a cham-drin rhywiol mewn achosion plant cyfraith breifat. Roedd y rhwystrau rhag clywed plant yr un fath â'r pedwar a nodwyd eisoes:

- Mae diwylliant y llysoedd o blaid cyswllt yn golygu nad yw lleisiau plant nad ydynt yn dymuno cael cyswllt â rhiant camdriniol, nad ydynt yn teimlo'n ddiogel wrth gael cyswllt neu sydd yn cael eu cam-drin yn ystod cyswllt yn cael eu clywed;
- Mae diffyg adnoddau yn golygu nad oes digon o adnoddau ar gael ar gyfer ymgynghori, cynrychioli a chefnogi plant mewn achosion plant cyfraith breifat;
- Mae'r weithdrefn wrthwynebol yn golygu y gellir newid y ffocws ar anghenion, dymuniadau a diogelwch plant am ffocws gormodol ar honiadau gan oedolion a gwrth honiadau, baich profi, gofynion gweithdrefnol technegol, ac amheuan o hunan-les rhieni;
- Gall gweithio mewn seilo olygu bod tystiolaeth bwysig ynghylch beth sydd yn digwydd i'r plentyn gael ei ddiystyru, a chymorth i'r plentyn wella yn dilyn trawma yn cael ei ddal yn ôl neu ei danseilio.

Mae'r panel yn credu y dylid gwneud mwy i roi cyfle i blant gael eu clywed yn yr achosion yma, yn unol ag Erthygl 12 UNCRC. Derbyniwyd ystod eang o awgrymiadau ar gyfer gwella o ran y ffordd mae lleisiau plant yn cael eu clywed, eu cynrychioli, a'r ffordd yr ymatebir iddynt, yn cynnwys FCA Cafcass/Cymru yn cael amser i feithrin perthynas â phlant, gwell cynrychiolaeth ar wahân i blant, argaeledd cymorth therapiwtig ar wahân i blant yn ystod achosion, a llysoedd teulu yn gweithio yn agosach â gwasanaethau a sefydliadau sydd wedi cefnogi plant y tu allan i'r llys. Roedd cyflwyniadau bron yn unfrydol o ran eu cefnogaeth i wella adnoddau yn y maes yma, yn cynnwys adnoddau ar gyfer Cafcass/Cymru a gwasanaethau cymunedol sydd yn cefnogi plant.

Mae'r panel yn credu y bydd y diwygiadau y mae'n argymhell i'r Rhaglen Trefniadau Plant, sydd yn ceisio goresgyn y rhwystrau a nodwyd, yn darparu fframwaith bwysig ar gyfer cryfhau lleisiau plant mewn achosion plant cyfraith breifat. **Mae'r panel yn argymhell y dylai'r ystod o opsiynau ar gyfer gwranddo ar lais y plentyn, ynghyd ag eiriolaeth, cynrychiolaeth a chymorth i blant gael eu harchwilio yn llawnach fel rhan o'r gwaith o ymhelaethu a pheilota'r Rhaglen Trefniadau Plant ddiwygiedig.**

Hefyd, mae'r panel yn cymeradwyo'r gwaith a wnaethpwyd gan Weithgor Tystion a Phlant Agored I Niwed mewn perthynas â thystiolaeth plant a phobl ifanc, ac mae'n annog MoJ i weithredu ei argymhellion cyn gynted â phosibl. Mae'r panel yn argymhell bod y gwaith o ymhelaethu a pheilota'r Rhaglen Trefniadau Plant ddiwygiedig yn rhoi ystyriaeth lawn i adroddiad y Gweithgor.

11.7 Diogelwch yn y Llys

Roedd cyflwyniadau yn galw am well darpariaeth o fesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig yn y llysoedd teulu, gwaharddiad statudol ar groesholi uniongyrchol gan naill ai gyflawnwyr neu ddioddefwyr cam-drin domestig, a dull cyson a chynhwysol mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Roedd yna hefyd gefnogaeth sylweddol i ddull diwygiedig mewn perthynas â gorchmynion adran 91(14) er mwyn atgyfnerthu eu potensial i atal ceisiadau camdriniol. Mae'r egwyddorion dylunio uchod o ran y llysoedd yn canolbwyntio ar ddiogelwch a bod yn ymwybodol o drawma, cael yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu yn effeithiol a chydweithredu â gwasanaethau cysylltiedig yn berthnasol iawn yn y cyd-destun yma.

Byddai argymhellion y panel ar gyfer y Rhaglen Trefniadau Plant yn cynnwys darpariaeth ragweithiol o fesurau arbennig a chyfarwyddiadau cyfranogi. **Mae'r panel yn cynnig yr argymhellion canlynol mewn perthynas â mesurau arbennig a chyfarwyddiadau cyfranogi:**

- Dylai'r darpariaethau ym Mil Cam-drin Domestig sydd yn ymwneud â mesurau arbennig mewn llysoedd troseddol ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig gael eu hymestyn i lysoedd teulu. Dylai'r darpariaethau gael eu cymhwysu i bob achos pan honnir cam-drin domestig.
- Dylai'r darpariaethau yn y Bil Cam-drin Domestig gael eu diwygio er mwyn gwahardd croesholi uniongyrchol mewn unrhyw achos teulu pan fo yna dystiolaeth o gam-drin domestig (yn cynnwys camdriniaeth gaiff ei gyfaddef neu ei sefydlu), neu pan fo cam-drin domestig yn destun yr achos.
- Pan fo yna honiadau o gam-drin domestig, dylai defnyddio mesurau arbennig fod yn norm ar unrhyw bwynt pan fo'r partïon yn y llys gyda'i gilydd.
- Pan fo yna honiadau o gam-drin domestig, dylid asesu natur fregus dioddefwyr honedig mewn ffordd sydd yn ymwybodol o drawma, a dylid cymhwysu darpariaethau Rhan 3A a PD3AA yn rhagweithiol, yn cynnwys y rhai sydd yn ymwneud â sut y dylid cwestiynu'r partïon a chynnal gwrandawiadau rheolau sylfaenol. Dylid ystyried cyfarwyddiadau cyfranogi er mwyn i'r cyflawnydd honedig roi ei dystiolaeth o bell.
- Dylai ymholiadau diogelu cychwynnol (gan Cafcass/Cymru) neu ymchwiliadau (yn ystod cam ymchwiliol y broses ddiwygiedig) gynnwys trafodaethau gyda'r partïon ynghylch yr angen am a'r mathau o fesurau diogelwch y byddai eu hangen efallai ar y partïon yn y llys.
- Dylid datblygu fframwaith o hawliau allweddol er mwyn amddiffyn oedolion a phlant mewn achosion llys teulu, yn seiliedig ar God Ymarfer MoJ ar gyfer Dioddefwyr

Troseddau, er mwyn cynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo ac ymateb cydnerth i achosion o dorri diogelwch.

Mewn perthynas â gwasanaethau eirioli a chymorth cam-drin domestig arbenigol, mae'r panel yn argymhell:

- Dylai IDVAau, eiriolwyr cam-drin domestig a gweithwyr cymorth iechyd meddwl, fel mater o arferiad, gael caniatâd i fynd i'r llys gyda'r parti y maent yn eu cynorthwyo.
- Dylai cyfarwyddiadau ymarfer a chanllawiau perthnasol gael eu diwygio er mwyn ymgorffori'r ddarpariaeth hon.
- Dylid ymgynghori ag IDVAau, eiriolwyr cam-drin domestig a gweithwyr cymorth iechyd meddwl wrth asesu natur fregus parti at ddibenion Cyfarwyddyd Ymarfer 3AA.
- Dylid archwilio model priodol a'i effeithiolrwydd cost ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer dioddefwyr honedig a chyflawnwyr honedig camdriniaeth ddomestig yn yr holl lysoedd teulu.

Mewn perthynas ag adran 91(14), mae'r panel yn nodi nad yw darpariaethau Deddf Plant 1989 yn rhagnodol, ond mae'r isadran wedi cael ei dehongli mewn cyfraith achos Re P [1999] er mwyn bod yn gymwys o dan amgylchiadau eithriadol yn unig. **Er mwyn galluogi i adran 91(14) amddiffyn plant ac oedolion sydd yn ddioddefwyr yn fwy effeithiol rhag niwed, mae'r panel yn argymhell cynnwys mesurau yn y Bil Cam-drin Domestig er mwyn dadwneud y gofyniad 'eithriadol' ar gyfer gorchymyn 91(14) a sefydlwyd yn eglur iawn yn Re P (Canllawiau Adran 91(14) [1999]).** Dylai'r mesurau yma ddiwygio, amnewid neu ategu adran 91(14) mewn ffordd sydd yn cydymffurfio ag Erthygl 6 er mwyn sicrhau bod yr amcanion polisi canlynol yn cael eu darparu yn glir a phendant mewn statud:

- Gellir rhoi gorchymynion 91(14) pan fo rhoi gorchymyn o'r fath er lles y plentyn;
- Gellir rhoi gorchymynion 91(14) pan fo'r llys yn casglu bod dwyn achos neu ymestyn achos yn gyfystyr â cham-drin domestig yn erbyn y rhiant arall;
- Nad yw'n angenrheidiol dangos ceisiadau mynych cyn y gallai'r llys wirioneddol roi gorchymyn o'r fath
- Gall y llys roi gorchymyn o'r fath drosto ei hun;
- Dylid ond rhoi caniatâd i wneud cais am orchymyn trefniadau plant ar ôl rhoi gorchymyn 91(14) pan fo'r ymgeisydd yn darparu tystiolaeth bod yr amgylchiadau ers rhoi'r gorchymyn wedi newid yn sylweddol, a phan na fyddai caniatáu caniatâd yn credu risg o niwed i'r plentyn neu'r rhiant arall.

Mae'r panel hefyd yn argymhell y dylai'r Rhaglen Trefniadau Plant ymgorffori gweithdrefn ar gyfer adnabod ceisiadau camdriniol a'u rheoli yn gyflym er mwyn dod i gasgliad crynoddol. Dylai'r weithdrefn yma gynnwys:

- Dilyniant barnwrol rhwng ceisiadau blaenorol a dilynol, a rhwng gorchmynion adran 91(14) a cheisiadau am ganiatâd i wneud cais;
- Dylai'r llys drin ceisiadau ychwanegol gyda gofal pan fu canfyddiadau blaenorol o gam-drin domestig;
- Dylai'r llys ystyried rhoi gorchymyn adran 91(14) drosto ei hun neu beidio mewn achosion o'r fath;
- Dylai'r llys ystyried drosto ei hun roi gorchmynion ychwanegol sydd yn caniatáu gwarchodaeth rhag aflonyddu neu gamdriniaeth parhaus (e.e. Gorchmynion peidio ag ymyrryd a gorchmynion camau gwaharddedig); a
- Rheoli ceisiadau am ganiatáu i wneud cais er mwyn lleihau eu heffaith ar y rhiant arall neu'r plant.

Drwy fabwysiadu'r argymhellion yma, mae'r panel yn rhagweld taith ddiwygiedig drwy'r llysoedd i ddiodefswyr cam-drin domestig fel y nodir hynny yn Ffigwr 3:

11.8 Mekanweithiau ar gyfer cyfathrebu, cydlynu, dilyniant a chysondeb

Mae'r dystiolaeth mewn perthynas â chanlyniadau niweidiol gweithio mewn seilo yn y llysoedd teulu yn glir. Mae'r panel yn nodi bod Llywydd Gweithgor Cyfraith Breifat yr Adran Deulu wedi gwneud nifer o argymhellion ar gyfer gwella cydlyniant rhwng y llysoedd a gwasanaethau cymorth. Hefyd, **mae'r panel yn argymhell sefydlu mecanweithiau gweithredol ar gyfer cyfathrebu, cydlynu, dilyniant a chysondeb ar lefelau cenedlaethol a lleol mewn perthynas â'r meysydd a restrwyd isod.**

Mae'r panel yn credu y dylid sefydlu mecanweithiau lefel genedlaethol o dan nawdd Llywydd yr Adran Deulu. Dylai'r Barnwyr Teulu Dynodedig oruchwylio trefniadau lefel leol i weithredu mecanweithiau a phrosesau cenedlaethol. Dylai'r mecanweithiau yma anelu at sicrhau bod profiadau a'r warchodaeth rhag niwed a gaiff plant ac oedolion sydd yn bartïon yn gyson o un achos i'r llall; bod llysoedd teulu mewn achosion plant cyfraith breifat yn ymwybodol o ac yn ystyried achosion eraill sydd yn ymwneud â'r un teulu, a vice versa; a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu rhwng prosesau. Y meysydd ar gyfer cydlynu yw:

- Rhwng achosion plant cyfraith breifat ac achosion llys teulu eraill (gwaharddeb, achosion ariannol, cyfraith gyhoeddus);
- Rhwng llysoedd teulu a llysoedd troseddol (gyda chyfeiriad penodol at achosion troseddol er mwyn cefnogi a gwarchod dioddefwyr, ac euogfarnau troseddol);
- Rhwng llysoedd teulu a'r heddlu (gyda chyfeiriad penodol at ddatgeliad yr heddlu i achosion plant cyfraith breifat) a Gwasanaeth Eryl y Goron (gyda chyfeiriad penodol at achosion troseddol ac achosion teulu sydd yn cyd-reddeg);
- Rhwng llysoedd teulu a MARAC a phaneli rheoli cyflawnwyr eraill (gyda chyfeiriad penodol at benderfyniadau a chynlluniau gweithredu a wnaethpwyd yn y fforymau hynny mewn perthynas â dioddefwyr risg uchel a chyflawnwyr camdriniaeth ddomestig);
- Rhwng llysoedd teulu ac asiantaethau a gwasanaethau plant statudol a'r trydydd sector (gyda chyfeiriad penodol at rannu gwybodaeth a chysondeb dull);
- Rhwng llysoedd teulu ac asiantaethau a gwasanaethau cam-drin domestig a cham-drin plant arbenigol (gyda chyfeiriad penodol at werthfawrogi'r arbenigedd a'r wybodaeth y gall y gwasanaethau yma eu darparu, a hwyluso mynediad at gymorth yn ystod achosion llys teulu);
- Rhwng llysoedd teulu ac asiantaethau a gwasanaethau cymorth i deuluoedd a therapiwtig (gyda chyfeiriad penodol at werthfawrogi'r arbenigedd a'r wybodaeth y gall y gwasanaethau yma eu darparu, a hwyluso mynediad at gymorth yn ystod achosion llys teulu).

Yn ychwanegol at yr angen am well cydlyniant rhwng llysoedd teulu a'r heddlu mewn perthynas â datgeliad yr heddlu, hefyd mae angen trefniadau er mwyn talu am gostau datgeliad yr heddlu pan nad yw'r partïon yn gallu talu am hynny. Felly mae'r panel yn argymhell y **dylai heddluoedd, ynghyd â Llysoedd Teulu a chynrychiolwyr polisi roi ystyriaeth frys i sut y gellid ariannu datgeliad yr heddlu pan na fo'r partïon yn cael cymorth cyfreithiol ac nad ydynt fel arall yn gallu ariannu eu hunain.**

11.9 Materion Adnoddau

Mae'r panel yn derbyn y pryderon a fynegwyd mewn nifer o gyflwyniadau bod diffyg adnoddau wedi effeithio'n sylweddol ar allu llysoedd teulu i amddiffyn plant a dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a risgiau eraill o niwed rhag cael eu hamlygu i fwy o niwed. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd mewn perthynas â chostau cam-drin parhaus i blant, partïon unigol, gwasanaethau statudol a chymunedol, nawr ac i'r dyfodol, yn cael ei thrafod ym mhennod 10. Mae'r rhain yn cynnwys costau uniongyrchol i'r system cyfiawnder teulu o ran dychweliadau i'r llys pan fo gorchmynion anniogel yn methu. Mae'r panel yn credu bod

yna ddadl gref o blaid buddsoddiad ychwanegol yn y system cyfiawnder teulu er mwyn galluogi'r llysoedd teulu i warchod plant a dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn fwy effeithiol. Byddai hynny yn dangos ymrwymadau San Steffan a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â cham-drin domestig, creu arbedion o ran cost cam-drin domestig i'r system cyfiawnder teulu ac i wasanaethau eraill a'r economi yn fwy cyffredinol,¹⁸¹ ac yn cynrychioli defnydd mwy cynhyrchiol o adnoddau. **Rydym yn argymhell buddsoddi mwy yn y meysydd canlynol yn unol â'r adolygiadau a gynigir i'r Rhaglen Trefniadau Plant:**

- Yr adnoddau llys a barnwrol sydd ar gael ar gyfer achosion plant cyfraith breifat - er mwyn lleihau'r oedi o ran rhestru gwrandawiadau, galluogi delio ag achosion yn amserol, osgoi cyfnodau hir o aflonyddu ar berthynas y plentyn â'i riant cyn y gwneir penderfyniad, sicrhau bod digon o amser llys ar gael i gynnal gwrandawiadau canfod ffeithiau mewn achosion plant cyfraith breifat, a sicrhau bod gan y rhai sydd yn gwrandao ar achosion o'r fath y cymorth gweinyddol a lles sydd ei angen arnynt er mwyn gwneud eu gwaith yn effeithiol.
- Cafcass a Cafcass Cymru – gwell adnoddau ar gyfer eu holl swyddogaethau mewn perthynas â chyfraith breifat, yn cynnwys ymholiadau diogelu, asesu risg (uwchsgilio a chynnal asesiadau, a rhoi'r amser sydd ei angen ar aseswyr i ddeall deinameg y teulu a chael adborth gan wasanaethau eraill sydd yn ymwneud â'r teulu); ymgynghori â phlant (yn cynnwys darparu'r amser sydd ei angen ar adroddwyr adran 7 i feithrin perthynas â phlant, a'r hyblygrwydd sydd ei angen er mwyn ennyn dymuniadau a theimladau yn unol â'r hyn a ffafir gan y plentyn); galluogi cyfranogiad FCAau arbenigol mewn achosion plant cyfraith breifat; a galluogi penodi gwarcheidwaid plant yn amlach er mwyn helpu i leisiau plant gael eu clywed.
- Ystâd y llys teulu - er mwyn sicrhau diogelwch yn benodol yn siambr Barnwyr Rhanbarth; a sicrhau bod darpariaeth ystafelloedd aros ar wahân, mynedfeydd ar wahân, sgriniau a chysylltiadau fideo yn safonol yn yr holl lysoedd.
- Cymorth cyfreithiol - er mwyn gwneud i gymorth cyfreithiol fod ar gael i gyflawnwyr honedig yn ogystal â dioddefwyr honedig cam-drin domestig er lles y plentyn; er mwyn sicrhau nad yw anghenion tystiolaethol yn gosod rhwystrau yn llwybr dioddefwyr cam-drin a rhieni sydd yn ceisio amddiffyn plentyn rhag camdriniaeth rywiol pan fo natur y gamdriniaeth yn golygu na fydd tystiolaeth trydydd parti ar gael efallai; er mwyn sicrhau nad yw partiön yn wynebu rhwystrau gweinyddol rhag cael mynediad i gymorth

¹⁸¹ Gweler Rhys Oliver et al., *The Economic and Social Costs of Domestic Abuse* (2019). Mae adroddiad ymchwil y Swyddfa Gartref yn amcangyfrif bod cost cam-drin domestig yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2017 yn £66bn, sydd cyn cynnwys £47bn mewn costau corfforol ac emosiynol i ddioddefwyr, £14bn mewn costau i'r economi a £5bn mewn costau i wasanaethau statudol a dioddefwyr a'r system gyfreithiol. Nid oedd y ffigurau yma yn cynnwys costau niwed i blant na chostau camdriniaeth ariannol neu ymddygiad o orfodi a rheoli. Er y gellir priodoli dim ond cyfran o'r costau yma i gam-drin domestig parhaus a hwyluswyd gan orchmynion llys teulu a dychweliadau i'r llys pan fo gorchmynion wedi methu, mae yna botensial amlwg i wneud arbedion yn dilyn buddsoddi a dargedir.

cyfreithiol a bod penderfyniadau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn cael eu cydlynu'n well ag amserlenni'r llysoedd.

- Arian ar gyfer asesiadau arbenigol - drwy gymorth cyfreithiol neu fel arall - fel y gellir, mewn achosion cymhleth pan fo cam-drin domestig neu gam-drin plentyn yn rhywiol yn cael ei sefydlu, cyfarwyddo arbenigwr â chymwysterau addas i gynnal asesiad risg a/neu seicolegol er mwyn cynorthwyo'r llys. Dylai arbenigwyr o'r fath fod yn ymarferwyr arbenigol yn y math perthnasol o gamdriniaeth, sydd yn gweithio i asiantaeth achrededig neu a benodir o banel llys o arbenigwyr.
- Rhaglenni Cyflawnwyr Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr (mae mwy o argymhellion mewn perthynas â DAPPau i'w cael isod yn 11.10).
- Canolfannau cyswllt dan oruchwyliaeth - er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn ehangach ar sail prawf modd, gyda gofynion mwy cadarn er mwyn monitro ac amddiffyn diogelwch plant a chofnodi ac ymateb i ddigwyddiadau cysylltiedig â diogelwch.
- Darpariaeth addysgol a therapiwtig mewn perthynas â cham-drin domestig i rieni mewn achosion plant cyfraith breifat - yn ystod cam cynnar/ymchwilio yr achos (sydd wedi eu hanelu at adnabod ymddygiadau camdriniol a deall ymyriadau newid ymddygiad sydd ar gael), yn ogystal ag ar gyfer dioddefwyr-goroeswyr ar ôl y llys er mwyn cynorthwyo adferiad. Fel yn achos DAPPau a gwasanaethau cyswllt dan oruchwyliaeth byddai'n briodol i'r gwasanaethau yma gael eu comisiynu gan Cafcass a Cafcass Cymru.
- Gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a cham-drin plant arbenigol - mae'r rhain angen arian a buddsoddiad cynaliadwy mewn darpariaeth ychwanegol er mwyn bodloni anghenion plant ac oedolion sydd wedi goroesi cam-drin domestig yn y llysoedd teulu, yn cynnwys darpariaeth estynedig o weithwyr cymorth eirioli arbenigol mewn llysoedd, cymorth i blant y mae eu rhieni yn gysylltiedig ag achosion plant cyfraith breifat gaiff eu herio, a darpariaeth therapiwtig annibynnol ar ôl llys ar gyfer plant pan fo'r angen.

Hefyd, mae'n hanfodol bod adnoddau priodol yn cael eu darparu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol Awdurdodau Lleol sydd yn gwneud gwaith mewn perthynas ag achosion plant cyfraith breifat, er mwyn sicrhau bod adroddiadau Adran 7 ac Adran 37 yn cael eu cwblhau gan weithwyr cymdeithasol profiadol sydd wedi cael eu hyfforddi'n dda mewn camdriniaeth ddomestig.

11.10 Adolygiad o Raglenni Cyflawnwyr Cam-drin Domestig

Mae'r panel yn cymeradwyo argymhellion gan nifer o ymatebwyr y dylai DAPP fod ar gael yn fwy eang yng Nghymru a Lloegr a dylent ganiatáu hunangyfeirio ar gyfer rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat. Er bod yna dystiolaeth hefyd o effeithiolrwydd DAPPau mewn rhai achosion, mae'r panel yn casglu y gallai eu perfformiad at ei gilydd wella.

Felly mae'r panel yn argymhell adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol o DAPP er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n effeithiol ar leihau niwed i blant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig, ac sydd yn seiliedig ar yr egwyddorion dylunio sydd yn tanategu ein holl argymhellion. Dylai'r adolygiad gael ei oruchwylio gan ac adrodd i weithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o randdeiliaid allweddol yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llywodraeth Cymru, y Farnwriaeth, Respect, Cymorth i Ferched Cymru, Ffederasiwn Cymorth i Ferched Lloegr a Chomisiynwyr Cam-drin Domestig a Dioddefwyr. Mae'r panel yn cynnig y dylai deilliannau'r adolygiad fod yn sail ar gyfer manyleb comisiynu newydd ar gyfer DAPPau.

Dylai'r adolygiad fynd i'r afael â'r ystod o bryderon ynghylch argaeledd a gweithredu'r DAPPau a nodwyd mewn cyflwyniadau ac y trafodwyd ym mhennod 9, yn cynnwys:

- A yw darpariaeth DAPP yn ymateb i'r ystod a risg ac angen sydd yn bodoli mewn achosion plant cyfraith breifat;
- Sut y gellir gwella mynediad amserol i DAPPau;
- Pan fo a phan ddylai mynychu DAPP gael ei orchymyn gan lysoedd teulu;
- Cynnwys cyrsiau DAPP, yn benodol sicrhau yr ymdrinnir ag ymddygiad o reoli a gorfodi ar ôl gwahanu, cam-drin ariannol, a cham-drin ôl-ddomestig;
- Sut yr asesir newid ymddygiad, yn cynnwys yr angen i ymgorffori profiadau rhieni a phlant sydd wedi dioddef camdriniaeth, a thystiolaeth o gamau cadarnhaol a gymerwyd er mwyn lleihau niwed;
- Pa ymyriadau fyddai fwyaf effeithiol pan nodir bod mamau yn cyflawni camdriniaeth, ac ar gyfer rhieni mewn perthnasoedd o'r un rhyw;
- Yr angen am achrediad, cysondeb o ran sicrwydd ansawdd a fframwaith safon gwasanaeth unigol ar gyfer yr holl ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr a ddefnyddir yn y llysoedd teulu.

11.11 Hyfforddiant

Roedd nifer o'r cyflwyniadau yn awgrymu bod angen mwy o hyfforddiant ar yr holl gyfranogwyr yn y system cyfiawnder teulu. Nodwyd bod argaeledd a swm yr hyfforddiant ar gyfer ynadon yn faes sydd yn achosi pryder penodol. Ar y llaw arall, roedd tystiolaeth gan farnwyr yn nodi eu bod eisoes wedi cael swm sylweddol o hyfforddiant mewn camdriniaeth ddomestig drwy'r Coleg Barnwrol, a helaethodd ei raglen mewn perthynas â hyn yn dilyn yr adolygiad diwethaf o P12J yn 2017.

Mae'r panel yn ystyried bod hyfforddiant presennol wedi cael ei danseilio neu ei niwtraleiddio gan y pedwar rhwystr i effeithiolrwydd y system bresennol: y diwylliant o blaid cyswllt, y dull gwrthwynebol, gweithio mewn seilos, ac adnoddau cyfyngedig. Mae'r panel yn casglu, heb ddiwygio sylfaenol fel yr argymhellwyd uchod, byddai mwy o hyfforddiant yn unig yn debygol o arwain at effaith gyfyngedig yn unig. Yn dilyn diwygiadau sylfaenol i achosion plant cyfraith breifat yn unol ag argymhellion y panel, dylai'r flaenoriaeth i

hyfforddiant gael ei roi ar gyfer ymgorffori'r newidiadau hynny. Byddai angen i hyfforddiant gael ei alinio ag agweddau allweddol o'r system a amlinellwyd uchod.

Mae'r panel yn argymhell y dylai hyfforddiant yn y system cyfiawnder teulu gynnwys y meysydd canlynol.

1. Diwygio trosfwaol:
 - Rhaglen newid diwylliannol er mwyn cyflwyno ac ymgorffori diwygiadau i achosion plant cyfraith breifat a helpu i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn gyson. Efallai y gall pecyn hyfforddiant 'Materion Cam-drin Domestig' y Coleg Plismona fod yn fodel addas ar gyfer rhaglen newid diwylliant o'r fath.
2. Meysydd gwybodaeth allweddol sydd eu hangen ar gyfer rhoi'r Rhaglen Trefniadau Plant ddiwygiedig ar waith yn effeithiol a chyson:
 - Dealltwriaeth drylwyr o gam-drin domestig, ei natur a'i effeithiau, cam-drin emosiynol a cham-drin economaidd;
 - Cydnabod cam-drin domestig;
 - Croestoriadau cam-drin domestig gyda hil, crefydd, diwylliant, anabledd a materion mewnfudo;
 - Dealltwriaeth gywir o ddata ynghylch achosion o honiadau ffug o gam-drin domestig;
 - Effaith cam-drin domestig ar blant, a phrofiad plant o gam-drin domestig o'i gymharu ag oedolion;
 - Datblygiad cynnar plant a damcaniaeth ymlyniad;
 - Dealltwriaeth drylwyr o gam-drin plant yn rhywiol, yn cynnwys dealltwriaeth gywir o gyfraddau cyffredinrwydd;
 - Trawma ac effeithiau hynny;
 - Asesu risg;
 - Rhyngweithio a gwahaniaethau rhwng risgiau mewn achosion cymhleth: cam-drin domestig, cam-drin plant yn rhywiol, gelyniaethu rhieni, cam-drin cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl, gwrthdaro mawr rhwng rhieni;
 - Y gyfraith mewn perthynas â throseddau rhywiol a chydysnio i weithredoedd rhywiol;¹⁸²
 - Adnabod ac ymateb i ddioddefwyr agored i niwed (cyfeiriwyd at hyfforddiant a ddarparwyd i ymarferwyr troseddol yn y cyflwyniadau fel model mewn perthynas â hyn), a chymhwyso Rhan 3A a PD3AA i ddioddefwyr cam-drin domestig;

¹⁸² Mae'r panel yn deall y bydd y Coleg Barnwrol yn darparu hyfforddiant i'r farnwriaeth sydd wedi ei fodelu ar yr hyfforddiant troseddau rhywiol sydd ar gael i farnwyr sydd yn eistedd yn Llys y Goron ac sydd yn cynnal achosion o droseddau o natur rywiol ddifrifol.

- Tuedd diarwybod a thuedd cadarnhau sydd yn deillio o dybiaethau ynghylch rolau rhywedd, a sut mae'r rhain yn croestorri â hil, anabledd, oedran, rhywioldeb a dosbarth;
- Amrywiaeth defnyddwyr y llys, yn cynnwys gwrywod sydd yn dioddef cam-drin domestig, a phrofiadau penodol merched BAME, merched anabl a chymunedau LGBT, a'r rhwystrau maent yn eu wynebu;
- Sut y gall cyflawnwyr cam-drin domestig ddefnyddio cyswllt â phlentyn, y llysoedd ac asiantaethau eraill i barhau i ddefnyddio rhybuddion o gam-drin sydd yn dynodi defnydd camdriniol posibl o achosion llys;
- Beth yw newid ymddygiad mewn cyflawnwyr cam-drin domestig.

Cynigiodd rhai cyflwyniadau awgrymiadau buddiol ynghylch sut y dylai hyfforddiant gael ei ddarparu a gan bwy. Dylid ystyried:

- Hyfforddiant aml-broffesiynol amlasiantaeth er mwyn hyrwyddo dull cyson.
- Hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan ddarparwyd arbenigol megis
 - Y sector Trais yn Erbyn Merched a Genethod, yn cynnwys darparwyr gwasanaeth BAME yn y sector yma;
 - Elusennau plant sydd yn ymwneud â cham-drin domestig a cham-drin plan yn rhywiol;
 - Y Comisiynydd Cam-drin Domestig.

11.12 Achrediad Gweithwyr Cymdeithasol

Mae'r dystiolaeth a nodir yn yr adroddiad yma yn awgrymu bod yna wendid sylweddol yng ngwybodaeth a sgiliau gweithwyr cymdeithasol sydd yn cynnal asesiadau risg a gwaith uniongyrchol cysylltiedig arall gyda phlant a'u teuluoedd pan honnir neu yr amheuir cam-drin domestig, neu pan fo'n hysbys. Yn Lloegr mae Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 yn nodi safonau ôl-gymhwyso cenedlaethol ar gyfer gwaith cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd. Datblygwyd achrediad ôl-gymhwyso cenedlaethol er mwyn sicrhau bod gan weithwyr cymdeithasol y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni'r safonau yma. Yng Nghymru, mae gan weithwyr cymdeithasol, ar ôl iddynt gymhwyso, ddyletswydd i gadw at ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru a'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol wrth ymateb i gam-drin domestig, yn ogystal â chadw at y gofynion hyfforddiant sydd yn gysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. **Mae'r panel yn argymhell:**

- bod gweithwyr cymdeithasol sydd yn cynnal asesiadau ar gyfer achosion plant cyfraith breifat yng Nghymru yn cael hyfforddiant ar safon Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Grŵp 3;

- dylai gweithwyr cymdeithasol sydd yn cynnal asesiadau ar gyfer achosion plant cyfraith breifat yn Lloegr fod yn ymarferwyr plant a theuluoedd achrededig; a
- bod cynnwys yr hyfforddiant achrededig yng Nghymru a'r asesiadau achredu yn Lloegr yn cael eu hadolygu gan arbenigwyr cam-drin domestig er mwyn helpu i sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol yn cael eu hasesu.

11.13 Monitro a throsolwg

Mae nifer sylweddol o gyflwyniadau wedi awgrymu yr angen am fonitro a throsolwg parhaus ar achosion plant cyfraith breifat er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol er mwyn gwarchod pob plentyn a dioddefwr camdriniaeth ddomestig a throseddau difrifol eraill rhag niwed. Mae'r panel yn cytuno bod angen monitro a throsolwg o'r fath er mwyn cyfeirio sylw parhaus i'r maes pryder yma. **Mae'r panel yn cynnig tri argymhelliad mewn perthynas â hyn:**

- Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder weithio gyda GLITEM, Cafcass a Cafcass Cymru er mwyn datblygu a gweithredu dull cyson a chynhwysfawr o gasglu data gweinyddol am achosion sydd yn codi materion cam-drin domestig, cam-drin plant yn rhywiol a phryderon eraill ynghylch diogelu.
- Sefydlu tîm monitro cenedlaethol yn swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig er mwyn cynnal trosolwg ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad llysoedd teulu o ran gwarchod plant a dioddefwyr rhag cam-drin domestig a risgiau o niwed arall mewn achosion plant cyfraith breifat.
- Dylai Awdurdodau Lleol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol Cymru gynnwys llysoedd teulu mewn adolygiadau o wersi lleol (yn Lloegr), adolygiadau o ymarfer plant (yng Nghymru) ac adolygiadau o ddynladdiadau domestig, pan fo'r teuluoedd dan sylw wedi bod yn gysylltiedig ag achosion plant cyfraith breifat. Dylai hynny gynnwys gofyn am gyfraniadau i'r adolygiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Cafcass neu Cafcass Cymru, ac adolygiad o ffeil achos y llys teulu.

11.14 Ymchwil ychwanegol

Cynigiodd ymatebwyr proffesiynol a sefydliadol nifer o awgrymiadau ar gyfer ymchwil ychwanegol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o ddata systematig ac ansoddol ar brosesau a deilliannau ymatebion y llysoedd teulu i achosion sydd yn datgan honiadau o gam-drin domestig, yn cynnwys:

- Y broses a deilliannau mewn perthynas â diogelu
- Sut y mae lleisiau plant yn cael eu clywed ac yn cael eu hystyried mewn achosion llys teulu

- Honiadau o gam-drin domestig yn cyd-ddigwydd â honiadau o elyniaethu rhieni, a'r deilliannau mewn achosion o'r fath
- Rhoi PD12J ar waith (yn ôl amrywiolion megis llys, rhanbarth a haen farnwrol)
- Gorchmynion a roddwyd (cyn ac ar ôl ymddeddfu y dybiaeth o gyfranogiad rhieni)
- Dychweliadau i'r llys a gweithredu adran 91(14) Deddf Plant 1989.

Roedd yna hefyd alwadau am fwy o ymchwil mewn perthynas ag effaith achosion llys ar blant:

- Datblygu'r gronfa dystiolaeth o brofiadau plant o achosion llys teulu ac effaith achosion ar blant
- Effeithiau amharu ar gyswllt o'i gymharu â pheidio â gwneud hynny tra'n aros am benderfyniad ynghylch ffeithiau ac asesiad risg
- Effaith, diogelwch ac effeithiolrwydd hirdymor gorchmynion llys.

Mae'r panel yn argymhell:

- Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gomisiynu astudiaeth ymchwil annibynnol, systematig, ôl-weithredol ar weithredu'r CAP presennol, PD12J ac adran 9(14) mewn achosion pan fo honiadau o gam-drin domestig, cam-drin plant yn rhywiol a throeddau difrifol eraill yn cael eu gwneud, er mwyn darparu gwaelodlin cyn diwygio cyn gweithredu'r diwygiadau a argymhellwyd gan y panel.
- Dylai'r Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant gynnal adolygiad cenedlaethol statudol seiliedig ar ymarfer o achosion cam-drin domestig mewn achosion plant cyfraith breifat yn ystod y 12 mis nesaf er mwyn darparu gwaelodlin, gydag adolygiad dilynol ôl-ddiwygio bob 2- 3 blynedd er mwyn edrych ar newidiadau mewn ymarfer; a bod Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru yn comisiynu adolygiad cyffelyb yng Nghymru.
- Dylai unrhyw gynlluniau peilot ar gyfer profi argymhellion y panel mewn perthynas â rhaglen Trefniadau Plant gael eu gwerthuso'n drylwyr gan ddefnyddio dulliau ymchwil ansoddol a meintiol, yn cynnwys adolygiad o ffeiliau, gorchmynion a dyfarniadau llys.
- Dylai cylch gorchwyl y corff goruchwyllo cenedlaethol yr argymhellwyd y dylid ei sefydlu uchod yn 11.13 gynnwys comisiynu a/neu gynnal ymchwil rhagolygol a pharhaus i'r gwaith o weithredu'r system ddiwygiedig ar gyfer materion plant cyfraith breifat, a bod ei gyllid yn ddigonol er mwyn ei alluogi i gyflawni'r swyddogaeth honno yn effeithiol.

Atodiad A: Rhestr o Acronymau

ADHD- Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywioigrwydd

ALC - Cymdeithas Cyfreithwyr Plant

BAME- Du Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

BBR - Meithrin Gwell Perthnasoedd

C100 - Ffurflen gais am orchymyn trefniadau plant

C1A - Ffurflen honiadau o niwed a thrais domestig

CAMHS - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

CAP - Rhaglen Trefniadau Plant

CARA - Canolfan Gweithredu ar Dreisio a Cham-drin

CLOCK - Community Legal Outreach Collaboration Keele

CPS - Gwasanaeth Erlyn y Goron

DAPP- Raglenni Cyflawnwyr Cam-drin Domestig

DDJ - Dirprwy Farnwr Rhanbarthol

DRA - Apwyntiad Datrys Anghydfod

DVIP - Prosiect Ymyrryd mewn Trais Domestig

ECHR - Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd

FCA - Cynghorydd Llys Teulu

FHDRA - Apwyntiad Gwrandawriad Cyntaf Datrys Anghydfod

FJYPB - Bwrdd Cyfiawnder Teulu Pobl Ifanc

FPR - Rheolau Gweithdrefn Teulu

GLITEM - Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

IC - Confensiwn Istanbul

IDVA - Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol

LASPO - Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012

LIP - Ymglyfreithiwr Drosto ei Hun

MARAC - Cynhadledd asesu risg amlasiantaeth

MIAM - Cyfarfod Cyfryngu Gwybodaeth ac Asesu

MoJ - Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mosac - Mamau plant a gam-driniwyd yn rhywiol

NAGALRO - Cymdeithas Genedlaethol Gwarcheidwaid ad Litem a Swyddogion Adolygu - yr asiantaeth broffesiynol ar gyfer gwarcheidwaid plant, Cynghorwyr Llysoedd Teulu a Gweithwyr Cymdeithasol Annibynnol

NSPCC- Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant

OCD - Anhwylder gorfodaeth obsesiynol

PAI - Ymyriadau Camdriniaeth Partner

PD - Cyfarwyddyd Ymarfer

PSU - Uned Gwasanaethau Personol - a elwir erbyn hyn yn Gymorth Drwy'r Llys

PTSD - Anhwylder straen ôl drawma

SARC - Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

SPIP - Rhaglen wybodaeth i rieni sydd wedi gwahanu

UNCRC - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r

WT4C - Cydweithio er mwyn plant

Atodiad B: Adolygiad o Gyfraith Achos

Mae'r atodiad yma yn adolygu'r gyfraith achos sydd yn gysylltiedig â Chyfarwyddyd Ymarfer 12J (PD12J) Rheolau Gweithdrefn Teulu 2010 ac adran 91(14) Deddf Plant 1989, er mwyn hysbysu penderfyniadau'r panel. Er mai gorchmynion adran 91(14) yw'r offeryn barnwrol mwyaf cyffredin er mwyn atal ceisiadau mynych ac afresymol mewn achosion plant cyfraith breifat, mae'r atodiad yma hefyd yn ystyried gorchmynion ffrwyno gweision sifil (CRO), sydd yn fath arall o orchymyn sydd ar gael i'r llysoedd er mwyn atal ceisiadau blinderus.

1. Cyfarwyddyd Ymarfer 12J: Gorchmynion Trefniadau Plant a Chyswllt Cam-drin Domestig a Niwed

Yn wreiddiol, sefydlwyd y dull oedd i'w ddefnyddio mewn achosion trefniadau plant pan fo honiadau o gam-drin domestig gaiff eu herio gan y Llys apêl yn *Re L (A Child) (Contact: Domestic Violence)* [2001] Fam 260. Yn yr achos hwnnw nododd Butler-Sloss P y camau oedd i'w cymryd pan fo parti yn honni y dylai hanes o gam-drin domestig gael ei ystyried wrth benderfynu trefniadau ar gyfer cyswllt a/neu breswyliaeth. Cymeradwyodd y Llys broses dau gam pan fo:

1. Gwrandawriad canfod ffeithiau yn cael ei gynnal er mwyn penderfynu ar wirionedd yr honiad; ac
2. Yna bydd y llys yn gwneud penderfyniad ar sail lles ynghylch trefniadau plant gan ymgorffori â phwyso a mesur
 - (A) y ffeithiau a brofwyd mewn perthynas â cham-drin domestig;
 - (B) y dystiolaeth arbenigol sydd yn ymwneud ag effeithiau cam-drin domestig ar blant; a
 - (C) ffactorau eraill ar y rhestr wirio lles.

Mae PD12J yn ymhelaethu'n sylweddol ar y fframwaith yma ac erbyn hyn mae'n darparu cod manwl i lysoedd ei ddilyn mewn achosion trefniadau plant pan fo yna honiadau o gam-drin domestig. Mae'r gyfraith achos ynghylch PD12J nid yn unig yn darparu dehongliadau awdurdodol o'i ddarpariaethau a'i ganllawiau ynglŷn â'i roi ar waith, ond mae hefyd yn esbonio'r meysydd ble mae anawsterau parhaus a phroblemau wedi codi.

1.1 Y diffiniad o gam-drin domestig

Mae paragraff 4 PD12J yn nodi'r diffiniad o gam-drin domestig (yn cynnwys gadael priodas trawswladol, ymddygiad o orfodi a rheoli) at ddibenion y Cyfarwyddyd Ymarfer. Yn gyffredinol nid yw hynny wedi bod yn destun her na sylwadau barnwrol.

- Yn *Re A (Children)* [2019] EWCA Civ 74 canfu barnwr y treial nad oedd y fam wedi dioddef gadael priodas trawswladol oherwydd nad oedd yn cydymffurfio â'r stereoteip o'r wraig 'glasurol' a adawyd, fyddai'n cael ei charcharu i bob pwrpas gan deulu'r gŵr dramor. Ond nododd y Llys Apêl, yn y diffiniad o adael priodas trawswladol a geir yn PD12J, nad oedd 'gadael' yn derm celfyddydol ac na fwriadwyd iddo gael ei gymhwyso fel fformiwla. Roedd yna nifer o ffyrdd y gellid gadael cymar.¹⁸³ Nodwedd greiddiol y math yma o gamdriniaeth yw (ceisio) camfanteisio gan un partner ar natur fregus y partner arall, er mwyn ceisio sicrhau nad ydynt yn gallu dod i'r DU na gadael y DU.¹⁸⁴ Hyd yn oed os yw'r ymdrech i adael cymar yn aflwyddiannus, gallai dal gefnogi canfyddiad o ymddygiad o reoli neu orfodi.¹⁸⁵ Yn yr ail wrandawriad, canfu'r llys bod y gŵr mewn gwirionedd wedi gadael y fam dramor, a bod hynny wedi bod yn rhan o ymgyrch barhaus er mwyn gelyniaethu'r plant oddi wrth eu mam.¹⁸⁶

Yn *JH v MF* [2020] EWHC 86 (Fam), canfu Russell J bod barnwr y treial wedi methu â chymhwyso'r diffiniad o gam-drin domestig yn PD12J. Ymysg pethau eraill, roedd y barnwr wedi canolbwyntio ar ddim ond un digwyddiad o drais corfforol, wedi gweud camgymeriad wrth ddiystyru negeseuon testun camdriniol a anfonwyd gan y tad a'u disgrifio fel dim ond 'secstio', wedi bychanu honiadau eraill o gamdriniaeth, ac wedi methu ag ystyried a oeddent yn batrwm o ymddygiad o orfodi a rheoli.¹⁸⁷

1.2 Gorchymynion cydsynio

Mae paragraff 7 PD12J yn nodi na ddylai llys roi gorchymyn trefniadau plant drwy gydsynio oni bai bod y partïon yn bresennol yn y llys, bod y llys wedi cael yr holl wiriadau diogelwch cychwynnol, a bod swyddog Cafcass wedi siarad gyda'r partïon ar wahân, ac eithrio pan fo'r llys yn fodlon nad oes yna risg o niwed i'r plentyn drwy roi y gorchymyn.

Yn *Re H* [2016] EWCA Civ 988, nododd Black LJ, er nad oedd hynny yn uniongyrchol gymwys i'r achos, bod darpariaeth paragraffau 7–8 PD12J "yn tanlinellu'r....gofal sydd angen ei gymryd wrth gymeradwyo cytundebau rhwng rhieni yng nghyd-destun honiadau o

¹⁸³ *Re A (Children)* [2019] EWCA Civ 74 [70] per Moylan LJ.

¹⁸⁴ *Ibid* [71].

¹⁸⁵ *Ibid* [78].

¹⁸⁶ *Re A (Children) (Rev 2)* [2019] EWHC 2334 (Fam) per McFarlane P.

¹⁸⁷ *JH v MF* [2020] EWHC 86 (Fam) per Russell J at [18], [28], [31].

gam-drin domestig".¹⁸⁸ Yn *Re LG (Re-opening of Fact-finding)* [2017] EWHC 2626 (Fam), pwysleisiodd Baker J bod y ddyletswydd i sicrhau nad yw gorchmynion yn amlygu plant i risg o niwed yn un parhaus. Felly, os daw tystiolaeth o gam-drin domestig i'r amlwg yn dilyn hynny, nid yw'r ffaith bod gorchmynion blaenorol a roddwyd drwy gydsynio yn golygu na ellir craffu mwy arnynt. Yn hytrach, dylai'r llys ail-archwilio'r gorchmynion er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac nad ydynt yn amlygu'r plentyn neu'r dioddefwr camdriniaeth i fwy o risg o niwed.

1.3 Penderfynu a oes angen canfod ffeithiau, ac os oes, a ddylid cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau ar wahân

Mae paragraffau 16 i 20 PD12J yn nodi beth ddylai'r llys ei wneud wrth benderfynu a oes angen cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau mewn perthynas â honiadau o gam-drin gaiff eu herio, ac os oes angen, mae'n rhoi cyfarwyddiadau ynghylch sut y dylai fwrw ymlaen.

Yn *L v F* [2017] EWCA Civ 2121 nododd Peter Jackson LJ:

Ychydig o berthnasoedd yn unig sydd heb achosion o ymddygiad drwg ar ran un neu'r ddau barti ar ryw adeg, ac mae'n achos teulu prin pan nad yw'n cynnwys cwynion gan y naill barti yn erbyn y llall, ac yn aml gwneir cwynion gan y ddau barti. Ond eto, ni fydd pob ymddygiad o'r fath yn 'gam-drin domestig', pan fo 'ymddygiad o orfodi' yn cael ei ddiffinio fel ymddygiad a 'ddefnyddir i niweidio, cosbi neu i godi ofn ar y dioddefwr...' ac 'ymddygiad o reoli' fel ymddygiad a 'ddyluniwyd i wneud i berson fod yn israddol...' Mewn achosion pan nad yw hyn yn nodweddu'r ymddygiad honedig, mae'n debygol na fydd angen ac y byddai'n anghymesur canfod ffeithiau manwl am y cwynion; mewn gwirionedd, mewn achosion o'r fath ni fyddai er lles y plentyn nac i gyfiawnder y llys iddo ganiatáu ei hun i fod yn faes y gad arall ar gyfer gwrthdaro rhwng rhieni.¹⁸⁹

Nododd hefyd mai'r "Dasg o adnabod achosion pan fo honiadau o gam-drin domestig yn golygu bod angen canfod ffeithiau...yw bara menyn barnwyr yn y Llys Teulu".¹⁹⁰ Ond mae'r gyfraith achos yn dangos mai hwn yw'r maes y mae barnwr yn destun apêl fwyaf aml iddo mewn perthynas â chymhwyso PD12J, a bod apeliadau yn fwyaf aml yn cael eu caniatáu yn yr achosion yma oherwydd methiant i ymgysylltu â chanfod ffeithiau.

Mae yna ddau gwestiwn yn codi yma: yn gyntaf, a oes angen canfod ffeithiau, ac yn ail, a ddylai hynny gael ei wneud mewn gwrandawriad canfod ffeithiau ar wahân. Fel y nodwyd gan Black LJ yn *Re H* [2013] EWCA Civ 72, nid yw PD12J yn ei gwneud yn *ofynnol* i gynnal gwrandawriad canfod ffeithiau. Yn hytrach, os bydd y llys yn penderfynu bod angen

¹⁸⁸ *Re H* [2016] EWCA Civ 988 [50].

¹⁸⁹ *L v F* [2017] EWCA Civ 2121 [61]. Yn yr achos hwn ategwyd penderfyniad y barnwr i beidio â cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau.

¹⁹⁰ *L v F* [2017] EWCA Civ 2121 [62].

canfod ffeithiau, dylai hefyd benderfynu a ddylai hynny gael ei wneud mewn gwrandawriad ar wahân neu mewn gwrandawriad canfod ffeithiau a gwrandawriad lles cyfun.¹⁹¹

1.3.1 Materion yn ymwneud ag oedi, yn arbennig yng nghyd-destun honiadau 'hanesyddol'

Mae'r Llys Apêl wedi ystyried y ddau gwestiwn yn *Re T* [2016] EWCA Civ 1210. Roedd yr achos yn ymwneud â phenderfyniad y barnwr i roi gorchmynion ar gyfer gwrandawriad canfod ffeithiau ar ôl oedi maith, a bwrw ymlaen yn hytrach gyda gwrandawriad lles. Roedd yn rhoi'r cyfle i ystyried y berthynas rhwng PD12J a'r amcan bwysicaf yn FPR rheol 1.1 yn ogystal â dyletswydd y llys i reoli achosion yn rheol 1.4. Penderfynwyd bod penderfyniad rheoli achos y barnwr, sef nad oedd hi mwyach yn angenrheidiol nac yn gymesur cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau yn anghywir.¹⁹²

Ynghylch yr angen i ganfod ffeithiau, nododd Ryder LJ bod y fam wedi gwneud honiadau difrifol bod ei thad wedi ei cham-drin yn rhywiol pan oedd hi yn blentyn, ac effeithiodd hynny ar ei sefyllfa mewn perthynas â chyswllt a chodi materion ynghylch risg uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl i'r plentyn. "Yn unol â hynny roedd y dadansoddiad o les tanategol yn golygu bod angen penderfynu ar wirionedd yr honiadau er mwyn ffurfio casgliadau ohonynt".¹⁹³ Yn benodol, roedd y barnwr wedi anwybyddu'r ffaith nad oedd:

Treigl amser wedi gwanhau canfyddiad y fam o bwysigrwydd yr honiadau (h.y. Eu heffaith arni) ac mae diffyg cwyn ddiweddar yn elfen, ond nid o reidrwydd yn elfen bendant, yn yr asesiad o sefyllfa'r fam i'r dyfodol a'r risg, os o gwbl, allai hynny ei achosi.¹⁹⁴

Mewn perthynas â chymesuredd, roedd y barnwr wedi methu ag ystyried yr opsiynau oedd ar gael, yn cynnwys gwrandawriad canfod ffeithiau ar y cyd â'r materion lles neu gydag egwyl fer rhwng canfod ffeithiau a phenderfynu ar les. Felly, ffordd fwy gymesur a theg o ddelio â'r materion rheoli achos fyddai gohirio'r gwrandawriad canfod ffeithiau ar gyfer dyddiad newydd pan y gellid fod wedi ymgymryd â'r materion lles hefyd. Ni fyddai'r gwarcheidwad profiadol wedi bod angen cyfnod o amser estynedig er mwyn cynghori ar les y plentyn ar ôl i'r barnwr ganfod y ffeithiau. Nid oedd hwn yn achos pan oedd angen amser rhwng y gwrandawriad canfod ffeithiau a'r gwrandawriad terfynol er mwyn caniatáu i'r tad ystyried ei sefyllfa neu i gynnal rhaglen therapiwtig.¹⁹⁵ Nododd Ryder LJ hefyd bod rhaid ystyried cymesuredd yn unigol yn ogystal ag yn gyfun, gyda chonsyrn am gyflawni cyfiawnder yn yr achos unigol.¹⁹⁶

¹⁹¹ *Re H* [2013] EWCA Civ 72 [54].

¹⁹² *Re T* [2016] EWCA Civ 1210 [21].

¹⁹³ *Ibid* [13].

¹⁹⁴ *Ibid* [14].

¹⁹⁵ *Ibid* [17]–[18].

¹⁹⁶ *Ibid* [19].

Felly, yn *Re T*, roedd natur yr honiadau yn golygu eu bod wedi effeithio'n ddifrifol ar y fam ac o bosibl yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar y plentyn. Er gwaethaf ei hoedran, roeddent yn dal yn berthnasol iawn i'r penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi gorchmynion trefniadau plant, ac os dylid, ym mha dermau. Daeth hynny yn amlwg pan ystyriwyd nad oedd yr honiadau yn ddigwyddiadau 'hanesyddol' ond yn hytrach yn nhermau deinameg barhaus y berthynas a'r risg yr oedd y tad yn ei achosi.¹⁹⁷ Yn y cyd-destun yma, y ffordd fwyaf priodol o ddelio ag oedi yn yr achos oedd nid diystyru'r angen i ganfod ffeithiau, ond i gyfuno'r gwrandawiadau canfod ffeithiau a'r gwrandawriad lles cymaint â phosibl.

Yn yr un modd roedd *Re G (A Child: Fact-Finding Hearing)* [2017] EWHC 2591 (Fam) yn achos cyfraith gyhoeddus a theulu yn gymysg oedd yn ymwneud ag anghydfod 10 mlynedd rhwng y rhieni, ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd y fam wedi allsymud y plentyn dramor am gyfnod, ac ar ôl iddynt ddychwelyd roedd y plentyn wedi cael ei roi mewn gofal maeth. Wrth galon yr achos roedd yna honiadau a heriwyd yn erbyn y tad o gam-drin y fam yn ystod y berthynas ac ar ôl gwahanu. Ym marn Baker J, roedd angen i'r llys sefydlu'r gwirionedd yn derfynol fel sail ar gyfer unrhyw benderfyniad ynghylch dyfodol y plentyn.

Yn *Re David (A Child, appeal)* [2018] EWFC B76, HHJ ategodd Atkinson benderfyniad DJ bod angen gwrandawriad canfod ffeithiau, oherwydd bod yr honiadau a wnaethpwyd yn golygu eu bod yn berthnasol i unrhyw orchymyn cyswllt y gallai'r llys ei roi yn y pen draw. Nid oedd y ffaith y byddai yna oedi maith yn anffodus cyn y gwrandawriad canfod ffeithiau yn golygu bod hynny yn anghymesur nac yn groes i les y plentyn:

Mae'r effaith ar y plentyn o ganlyniad i oedi o ran gwneud penderfyniadau ynglŷn â'i les yn un ffactor y dylid cofio amdano. Nid dyna'r unig ffactor. Mae yna fater ynghylch cam-drin domestig yma y mae angen ei dreialu. Mae awgrymu bod yr oedi anffodus o ran gallu rhestru'r gwrandawriad hwnnw yn golygu mai dull mwy cymesur fyddai anghofio am yr angen i benderfynu ar y mater hwnnw yn gwbl anghywir.¹⁹⁸

1.3.2 Achosion cymhleth sy'n cynnwys materion sylweddol ar wahân i gam-drin domestig

Yn *Re J (Children)* [2018] EWCA Civ 115, roedd y fam wedi gwneud honiadau o gam-drin yn erbyn y tad, yr oedd wedi eu gwadu, ac yn ei dro roedd wedi gwneud honiadau o ymddygiad camdriniol a rheoli gan y fam. Trefnwyd gwrandawriad canfod ffeithiau, ond yn y cyfamser, roedd adroddiad NYAS yn dangos bod y plant (15 a 10 oed ar y pryd) yn gwrthwynebu'r cyswllt yn chwyrn, a phenderfynwyd peidio â pharhau â'r gwrandawriad canfod ffeithiau gan na fyddai unrhyw ddiben i hynny. Yn dilyn apêl gan y tad, dyfarnodd McFarlane LJ bod y barnwr wedi bod yn anghywir yn peidio â bwrw ymlaen gyda'r gwrandawriad canfod ffeithiau, o ystyried safbwyntiau pegynol y partiön a'r ffaith bod y ddau ohonynt wedi honni bod y parti arall yn achosi risg i'r plant. Roedd angen ystyried y

¹⁹⁷ Ynghylch mater perthnasedd, gweler hefyd *Re V* [2015] EWCA Civ 274 [37] per McFarlane LJ.

¹⁹⁸ *Re David (A Child, appeal)* [2018] EWFC B76 [27].

sefyllfa ffeithiol ochr yn ochr â safbwyntiau negyddol y plant ynglŷn â'r tad yn hytrach na bod hynny yn cael ei roi i'r neilltu.

Yn *Re CB (International Relocation: Domestic Abuse: Child Arrangements)* [2017] EWFC 39, cafwyd cais gan y fam i ail-leoli dramor gyda phlentyn 16 mis oed, gyda chyd-destun o gam-drin domestig. Roedd y tad wedi cael ei euogfarnu am aflonyddu ar y fam, canfu MARAC bod y fam yn ddioddefwr camdriniaeth ddomestig risg uchel, ac roedd wedi gwneud honiadau eraill o gam-drin yr oedd y tad wedi eu gwadu. Ond mae'n ymddangos bod y gwrandawiadau cychwynol wedi canolbwyntio'n unig ar y mater adleoli. Dywedodd Cobb J:

Mae'n achos pryder nad oedd yr angen i ystyried PD12J, ar unrhyw adeg yn ystod camau rheoli achos yn yr achos yma, wedi cael ei nodi gan y farnwriaeth na chyfreithwyr y fam (mae'r tad, tan y gwrandawriad yma, wedi bod yn cynrychioli ei hun); codais y mater y tro cyntaf yn y gwrandawriad terfynol fy hun, sef y tro cyntaf i mi weld yr achos.¹⁹⁹

Penderfynodd bod angen canfod ffeithiau mewn perthynas â'r materion gaiff eu herio ynghylch ymddygiad y tad tuag at y fam, ac o reidrwydd roedd yn rhaid i hynny ddigwydd yn y gwrandawriad olaf. Ond fel yr eglurir isod, roedd y canfyddiadau yn y pen draw yn golygu bod rhaid gohirio'r penderfyniad ynglŷn â lles oherwydd bod hwn yn achos oedd angen ymyrraeth therapiwtig.

1.3.3 Canfod ffeithiau ddim yn angenrheidiol pan fo camdriniaeth eisoes wedi ei sefydlu

I'r gwrthwyneb, mae *Re P* [2015] EWCA Civ 466, yn dangos y math o sefyllfa pan nad yw canfod ffeithiau yn angenrheidiol. Yma, roedd tad wedi ei gollfarnu am ymosod, ac roedd ei ymddygiad treisgar hefyd wedi ysgogi i'r gwasanaethau cymdeithasol ddelio â'r teulu. Nid oedd yna unrhyw honiadau newydd fyddai'n dylanwadu'n arwyddocaol ar benderfyniad y llys mewn perthynas â chyswllt. Dyfarnodd y Llys Apêl bod penderfyniad y Cofnodwr i beidio â gorchymyn gwrandawriad canfod ffeithiau yn gyfiawn, oherwydd bod yna ddigon o dystiolaeth ar gael eisoes o hanes sefydledig a sylweddol o gam-drin domestig y gallai'r llys ei defnyddio i fwrw ymlaen i roi ei ddyfarniad ynghylch lles.²⁰⁰

1.3.4 Dilyniant barnwrol

Mae paragraff 20 PD12J yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant barnwrol rhwng gwrandawiadau canfod ffeithiau a gwrandawiadau lles. Ond nid yw'n mynd i'r afael â mater dilyniant barnwrol yn ystod camau eraill y broses, yn benodol rhwng y FHDRA, rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer canfod ffeithiau, a'r gwrandawriad canfod ffeithiau ei hun. Mae'r

¹⁹⁹ *Re CB (International Relocation: Domestic Abuse: Child Arrangements)* [2017] EWFC 39 [38].

²⁰⁰ *Re P* [2015] EWCA Civ 466 [19] per King LJ.

achosion yn aml yn dangos diffyg dilyniant barnwrol yn ystod y camau yma. Amlygwyd hynny gan Baker J yn *Re A and R* [2018] EWHC 2771 (Fam).²⁰¹

1.4 Cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau

Mae paragraffau 19, 20, 28 a 29 PD12J yn darparu canllawiau manwl mewn perthynas â chynnal gwrandawriad canfod ffeithiau.

1.4.1 Cyfyngu ar nifer yr honiadau

Mae pwysau ar amser llys a'r angen i ddelio â chanfod ffeithiau yn gymesur yn aml yn arwain at lysoedd yn pennu terfynau ar nifer yr honiadau y penderfynir arnynt. Ond y risg yw bod yr honiadau hynny yn cael eu tynnu o'u cyd-destun ac yn cael eu trin fel digwyddiadau ynysig yn hytrach na fel rhan o batrwm o ymddygiad o reoli a gorfodi. Fel y nodwyd gan Baker J yn *Re LG (Re-opening of Fact-finding)* [2017] EWHC 2626 (Fam):

Mae'n...gwbl briodol i lys, wrth ymarfer ei bwerau rheoli achos gyfyngu gwrandawriad canfod ffeithiau i'r materion y mae'n ystyried sydd yn angenrheidiol a pherthnasol. Nid yn anaml caiff parti sydd yn honni trais domestig ei gyfarwyddo i nodi a dibynnu ar ychydig o honiadau fel honiadau "sbesimen" er mwyn ceisio canfyddiadau. Ond o ddilyn y trywydd hwnnw, mae'n rhaid i bartïon a'r llys ofalu eu bod yn sicrhau nad yw materion sylweddol yn cael eu hanwybyddu. Ar brydiau nid yw patrwm o aflonyddu a mathau eraill o gam-drin domestig ond yn ganfyddadwy drwy gynnal archwiliad ehangach o'r honiadau.²⁰²

Pwysleisiodd Baker J y pwynt yma yn *Re G (A Child: Fact-Finding Hearing)* [2017] EWHC 2591 (Fam), gan nodi, fel y mae PD12J yn ei egluro, mae'n rhaid i lysoedd fod yn wyladwrus o batrymau ymddygiad, ac o'r ffaith bod gan ymddygiad o'r fath, fel patrwm, dueddiad i gael ei ailadrodd, ac felly i amharu ar les y plentyn i'r dyfodol.

Dychwelodd at y mater hwn eto yn *Re A and R* [2018] EWHC 2771 (Fam). Yn yr achos hwnnw, roedd y fam wedi cael ei chyfyngu i bum honiad a'r tad i bedwar. Roedd yr honiadau yr oeddent wedi eu cyflwyno er mwyn cydymffurfio â'r cyfyngiadau yma yn wasgarog iawn. Nododd Baker J ei bod yn ymddangos bod y naill a'r llall yn ceisio dangos patrwm o ymddygiad o reoli a gorfodi, ond nid oedd y ffordd y trefnwyd y gwrandawriad canfod ffeithiau wedi cael ei ddylunio er mwyn eu galluogi i ddangos patrwm o'r fath. Yn y cyd-destun yma, roedd y Cofnodwr wedi cynnal dadansoddiad gofalus o'r dystiolaeth ac roedd eu casgliadau mewn perthynas â'r honiadau ar wahân yn ddiysgog, ond roedd yn amlwg bod y canfyddiadau yn rhoi darlun anghyflawn iawn o'r gamdriniaeth allai fod wedi digwydd yn y berthynas.

²⁰¹ *Re A and R* [2018] EWHC 2771 (Fam) [59].

²⁰² *Re LG (Re-opening of Fact-finding)* [2017] EWHC 2626 (Fam) [27].

1.4.2 Mesurau arbennig

Mae para 10 PD12J yn delio â threfniadau arbennig er mwyn amddiffyn parti neu blentyn sydd yn mynychu unrhyw wrandawriad. Erbyn hyn mae'n rhaid darllen hyn ochr yn ochr â FPR Rhan 3A a Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA sydd yn benodol yn mynd i'r afael â natur fregus tystion a rhoi 'cyfarwyddiadau cyfranogi' er mwyn galluogi i dystion agored i niwed gyfranogi'n effeithiol mewn achosion.

Yn *JH v MF* [2020] EWHC 86 (Fam), ymysg y nifer o resymau dros apêl y fam yn erbyn ategu penderfyniad gwrandawriad canfod ffeithiau, roedd yna anghysonderau gweithdrefnol difrifol yn y ffordd yr oedd barnwr y treial wedi ei gwneud yn ofynnol i'r partïon roi eu tystiolaeth orau, gan fethu â chymhwysu PD3AA er mwyn galluogi'r fam i roi ei thystiolaeth orau, ac o ganlyniad i wneud hynny ffurfiodd gasgliadau niweidiol ynghylch ei hygrededd ar sail ei hymarweddiad 'pryderus' disgwylidig yn y llys.²⁰³

1.4.3 Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain a chroesholi uniongyrchol

Mae paragraffau 19 a 28 PD12J yn cydnabod y gall gwrandawriad canfod ffeithiau gynnwys ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, a bod rhaid addasu'r weithdrefn er mwyn eu galluogi i gyfranogi mor effeithiol â phosibl. Mae paragraff 28 yn nodi y gall y gwrandawriad fod yn broses holgar neu ymchwiliol, ac y dylai'r barnwr neu'r ustusiaid lleyg fod yn barod, pan fo hynny yn angenrheidiol ac yn briodol, i gwestiynu'r tystion ar ran y partïon, gan ganolbwyntio ar faterion allweddol yr achos. Mae paragraff 28 wedi'i ddylunio i gynorthwyo'n benodol â chroesholi dioddefwyr camdriniaeth yn uniongyrchol gan eu camdrinwyr honedig. Mae pryderon am yr arfer yma a'r effaith ddifrifol ar y dioddefwr camdriniaeth a'u gallu i gyfranogi yn deg a chydadd yn yr achos wedi cael eu mynegi, er enghraifft gan Hayden J i=y *Re A (a minor) (fact-finding: unrepresented party)* [2017] EWHC 1195 (Fam) a gan DJ Read yn *JY v RY* [2018] EWFC B16.

Yn *PS v BP* [2018] EWHC 1987 (Fam), cynigiodd Hayden J rai 'arsylwadau' (yr oedd yn ofalus i beidio eu disgrifio fel 'canllawiau') ynghylch penderfynu sut mae cynnal gwrandawriad canfod ffeithiau o dan yr amgylchiadau yma, gan ystyried darpariaethau PD12J a PD3AA (tystion agored i niwed):

- (i) Pan fo'n amlwg i'r llys bod angen iddo wrando ar achos a "gyflwynir" i dyst ffeithiol allweddol, pan fo'r honiadau yn ddifrifol a phersonol a phan mai'r tystion eu hunain yw'r cyhuddedig a'r cyhuddwyr, bydd "Gwrandawriad Rheolau Sylfaenol" (GRH) **bob amser** yn angenrheidiol;
- (ii) Dylai'r GRH, yn y rhan fwyaf o achosion, gael ei gynnal cyn gwrandawriad yr anghydfod ffeithiol;

²⁰³ *JH v MF* [2020] EWHC 86 (Fam) per Russell J at [15]–[16], [26].

- (iii) dylid ystyried bod dilyniant barnwrol rhwng y GRH a'r gwrandawriad sylwedd fod yn hanfodol;
 - (iv) Dylid cofio drwy gydol y broses mai'r cyhuddwr sydd yn ysgwyddo'r baich o sefydlu gwirionedd yr honiadau. Mae'n rhaid i'r broses ymchwiliol yn yr ystafell llys, pa mor boenus bynnag yw hynny, sicrhau tegwch i'r ddwy ochr. Mae'n rhaid i'r barnwr atgoffa ei hun, ar bob cam, na ellir cyfaddawdu ar y ddyletswydd honno wrth ymateb i drallod tyst;
 - (v) Nid oes yna dybiaeth y bydd yr unigolyn sydd yn wynebu'r cyhuddiad yn awtomatig yn cael ei wahardd rhag croesholi'r cyhuddwr ym mhob achos. Mae'n rhaid i'r barnwr ystyried a fyddai'r dystiolaeth yn debygol o fod yn wannach petai'n cael ei gynnal gan y cyhuddedig, ac y byddai'n debygol o gael ei gwella pe gwaharddwyd croesholi uniongyrchol. Yng nghyd-destun gwrandawriad canfod ffeithiau yn y Llysoedd Teulu, ble mae ethos y llys yn un ymchwiliol, rwyf yn ystyried y gallai'r ddau ffactor yma fod yn rhanadwy;
- (ii) Pan fo'r llys yn ffurfio barn, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, y byddai croesholi'r dioddefwr honedig ei hun yn arwain at risg o fod yn gamdriniol, (os sefydlir yr honiadau) dylai gofio ei bod yn debygol y bydd effaith y broses llys yn niweidiol i les y plant dan sylw. Mae'n wirebol y bydd trallod aciwt yn achos gofalwr yn effeithio ar les cyffredinol y plant. Mae hwn yn ffactor sydd yn ychwanegol at y rhai gaiff eu hystyried yn gyffredinol yn ystod treial troseddol.²⁰⁴

Yn absenoldeb parhaus sail ddeddfwriaethol ar gyfer cyfarwyddo y dylid penodi eiriolwr i groesholi,²⁰⁵ mae'r opsiynau sydd ar gael i'r barnwr yn y sefyllfa hon yn gyfyngedig. Maent yn cynnwys y barnwr ei hun yn gofyn y cwestiynau, Cyfaill Mckenzie, neu warchodwr y plant.

Cwestiynu barnwrol

Yn *Re D (Appeal – Failure of Case Management)* [2017] EWHC 1907 (Fam), caniatodd Peter Jackson J apel gan fam yn erbyn penderfyniad rheoli achos a wnaed gan barnwr y treial, oedd wedi cam-dybio bod gan y tad hawl i groesholi'r fam yn uniongyrchol ac wedi methu â gwerthfawrogi ei phwerau i ofyn y cwestiynau ei hun o dan PD12J.²⁰⁶ Yn *Re J* [2018] EWCA Civ 115, mynegodd McFarlane LJ:

Pan nad oes gan gyflawnwr honedig gynrychiolaeth, mae gan y llys ystod gyfyngedig iawn o opsiynau er mwyn bodloni'r ddau angen sydd yn aml yn gwrthdaro, sef cefnogi'r tyst er mwyn galluogi i'w thystiolaeth gael ei chlywed, ac ar yr un pryd rhoi digon o gyfle i'r cyflawnydd honedig gyflwyno ei hachos yn deg. O blith yr opsiynau sydd ar gael ar

²⁰⁴ *PS v BP* [2018] EWHC 1987 (Fam) [34].

²⁰⁵ Bwriedir i Fil Cam-drin Domestig 2019-2021 fynd i'r afael â hynny i ryw raddau.

²⁰⁶ *Re D (Appeal – Failure of Case Management)* [2017] EWHC 1907 (Fam) [21].

hyn o bryd, mae'n debyg mai'r lleiaf gwaethaf yw bod y barnwr yn ymgymryd â rôl yr holwr.²⁰⁷

Mae canllawiau ar gwestiynu ar ran partion wedi cael eu darparu gan y Llys Apêl yn *Re K and H* [2015] EWCA Civ 543. Pwysleisiodd Etherton LJ nad yw cwestiynu gan y barnwr ar faterion allweddol mewn proses holgar/ymchwiliol yr un peth â chroesholi tyst.²⁰⁸ Nid dadansoddi tystiolaeth y tyst yn fforensig yw'r nod, ond galluogi'r barnwr i benderfynu ar y materion ffeithiol y mae angen eu datrys.

Ond yn *PS v BP* [2018] EWHC 1987 (Fam), ategwyd apêl y tad oherwydd ystyriwyd bod y ffordd yr oedd y barnwr wedi ymgymryd â'r cwestiynu wedi bod yn or-warchodol o'r fam ac nad oedd wedi caniatáu i'w honiadau gael eu profi yn ddigonol. Hefyd, nid oedd y barnwr wedi rhoi cyfle i'r tad roi sylwadau i'r barnwr ynghylch croesholi nac i gyflwyno'r cwestiynau yn ysgrifenedig. Parhaodd 'arsylwadau' Hayden J ynglŷn â'r elfen yma:

- (vii) Os bydd y llys wedi penderfynu na fyddir yn caniatáu croesholi gan y cyhuddedig ac nad oes unrhyw eiriolwr arall ar gael i wneud hynny, dylai fod yn ofynnol cyflwyno'r cwestiynau yn ysgrifenedig. Byddai'n helpu'r broses, yn y rhan fwyaf o achosion, petai '**Seiliau Croesholi**' yn cael eu nodi o dan benawdau penodol;
- (ix) Ni ddylai barnwr fyth deimlo rheidrwydd i ofyn pob cwestiwn y mae'r parti lleyg yn bwriadu ei ofyn. Yn yr ymarferiad yma bydd raid i'r Barnwr werthuso perthnasedd a chymesuredd;
- (x) Mae croesholi yn gynhenid ddeinamig. Er mwyn iddo gael trylwyredd fforensig, bydd raid i'r Barnwr yn anochel lunio a gofyn cwestiynau sydd yn ymateb i'r atebion a roddir. Ni all y broses fyth fod yn fformiwla;
- (xi) Dylid cofio bob amser mai'r athroniaeth ganolog yw ymchwilio mewn fframwaith trosfwaol achosion Deddf Plant. Er bod gan wrandawiadau canfod ffeithiau, o'r natur a ystyrir yma, natur wrthwynebol iawn, mae'r un egwyddor yn gymwys. Felly, gall fod yn gwbl bosibl, heb effeithio ar degwch i'r naill ochr na'r llall, i'r Barnwr gwestiynu mewn arddull agored a llai gwrthwynebol na'r hyn a ddefnyddir wrth i eiriolwr unrhyw barti groesholi.

Cyfaill Mckenzie

Yn *Re J*, ystyriodd McFarlane mai dim ond mewn achosion eithriadol o brin y byddai'n briodol i'r llys ganiatáu hawliau cyfyngedig i Gyfaill Mckenzie at ddibenion croesholi.²⁰⁹ Yn yr un modd, yn *PS v BP*, tybiodd Hayden y byddai'r opsiwn yma yn anghyson â rôl

²⁰⁷ *Re J* [2018] EWCA Civ 115 [74].

²⁰⁸ *Re K and H* [2015] EWCA Civ 543 [58].

²⁰⁹ *Re J* [2018] EWCA Civ 115 [73].

gyffredinol Cyfaill Mckenzie fel y nodir hynny yng Nghanllawiau Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain.²¹⁰

Gwarchodwr y Plant

Mae yna raniad yn y gyfraith achos mewn perthynas â phriodoledd gofyn i warchodwr y plant (os bydd un yn bodoli, neu benodi un os nad oes un yn bodoli) i gwestiynu ar ran y ddau barti. Fel y nodwyd uchod, roedd McFarlane LJ yn *Re J* [2018] EWCA Civ 115 yn ystyried mai'r opsiwn lleiaf gwaethaf o'r rhai sydd ar gael yw bod y barnwr yn ymgymryd â rôl yr holwr mae'n debyg. Ac yn *Re D (Appeal – Failure of Case Management)* [2017] EWHC 1907 (Fam), un o'r seiliau ar gyfer caniatáu apêl y fam gan Peter Jackson J oedd bod y barnwr yn amhriodol wedi ceisio dirprwyo cwestiynu'r fam i gyfreithiwr y plentyn, tra'n methu i werthfawrogi ei phwerau ei hun i ymgymryd â'r cwestiynu.²¹¹

I'r gwrthwyneb, yn *PS v BP*, roedd 'arsylwadau' Hayden J yn cynnwys:

- (vii) Pan fo'r casgliadau ffeithiol yn debygol o effeithio ar y trefniadau ar gyfer lles plentyn neu blant, dylai'r llys ystyried ymuno â'r plentyn fel parti a sicrhau cynrychiolaeth. Pan fo hynny yn cael ei gyflawni, efallai mai eiriolwr y plentyn fyddai'n y sefyllfa orau i groesholi. (gweler *M and F & Ors.* [2018] EWHC 1720 Fam; *Re: S (wardship)* (Guidance in cases of stranded spouses) [2011] 1 FLR 319).²¹²

Yn *M v F* [2018] EWHC 1720 (Fam) roedd y plant eisoes wedi cael eu gwneud yn bartïon i'r achos ac roedd gwarchodwr wedi cael ei benodi oedd wedi cael gwybodaeth gan y plant a arweiniodd i'r safbwynt y gallent brofi tystiolaeth y partiön yn briodol. Felly rhoddodd Williams J gyfarwyddyd i gwnsler y gwarchodwr groesholi'r ddau barti, gan ystyried mai hynny oedd y trywydd mwyaf priodol yn yr achos yma, er na fyddai hynny o reidrwydd yn wir ym mhob achos.²¹³

Hepgor cwestiynu

Yn *RJ v CM* [2018] EWHC 2509 (Fam) ni fynychodd y fam ddiwrnod cyntaf y gwrandawriad canfod ffeithiau oherwydd bod ei phlentyn yn wael ac nid oedd yn gallu canfod gofal plant priodol. Gwrthodwyd ei chais am ohiriad, a chytunodd cyfreithwyr y ddau barti y dylai'r barnwr benderfynu ynghylch cyflwyniadau ysgrifenedig yn unig. Bu i'r barnwr wrthod holl honiadau'r fam ac eithrio'r rhai y cyfaddefodd y tad iddynt. Ar apêl, dyfarnodd Baker J na allai'r fam nawr ddadlau y dylid bod wedi rhoi cyfle iddi roi tystiolaeth oherwydd nad oedd wedi gofyn am hynny ar yr adeg. Ond, roedd hefyd yn ystyried, yn y rhan helaeth o

²¹⁰ *PS v BP* [2018] EWHC 1987 (Fam) [9].

²¹¹ *Re D (Appeal – Failure of Case Management)* [2017] EWHC 1907 (Fam) [21].

²¹² *PS v BP* [2018] EWHC 1987 (Fam) [34].

²¹³ *M v F* [2018] EWHC 1720 (Fam) [11].

achosion, y bydd yn hanfodol i'r llys glywed tystiolaeth lafar cyn gwneud canfyddiadau o ffeithiau gaiff eu herio.²¹⁴

1.5 Gwneud Canfyddiadau

Bu nifer o apeliadau yn erbyn canfyddiadau a wnaed gan farnwyr mewn gwrandawriadau canfod ffeithiau, ond yn anaml iawn y caiff y rhain eu hategu oherwydd yr egwyddorion cyffredinol sydd yn gysylltiedig â rôl y llys apêl a'i barch i'r barnwr sydd wedi gweld yr holl dystiolaeth ac wedi gweld y partïon yn ei rhoi. *Re A (Children)* [2019] EWCA Civ 74 oedd un o'r achlysuron prin pryd y caniatwyd apêl y fam yn erbyn canfyddiadau'r barnwr mewn gwrandawriad canfod ffeithiau, ar y sail bod y canfyddiadau yn gyferbyniol, nid oedd casgliadau'r barnwr wedi eu hategu gan ei ddadansoddiad o'r dystiolaeth, ac roedd wedi methu â gwneud unrhyw ganfyddiadau ar rai materion. Roedd *JH v MF* [2020] EWHC 86 (Fam) yn achos arall o'r fath, pryd y cafodd canfyddiadau'r barnwr eu gwrthdroi ar y sail ei fod wedi anwybyddu rhan o'r dystiolaeth, wedi methu gwneud canfyddiadau mewn perthynas â rhai o'r honiadau, wedi gwneud canfyddiadau ar faterion eraill yn absenoldeb tystiolaeth, wedi cymhwyso'r safon tystiolaeth anghywir, ac wedi cymhwyso'r prawf anghywir ar gyfer cydsynio wrth benderfynu ar honiadau'r fam o dreisio.²¹⁵

1.6 Asesiad Risg ac ymyriadau ac ôl canfod ffeithiau

Mae paragraffau 32 i 39 PD12J yn nodi sut y dylai'r llys fwrw ymlaen ym mhob achos pan fo cam-drin domestig wedi digwydd.

Beth sydd yn digwydd ar ôl canfod ffeithiau neu y sefydlir cam-drin domestig fel arall yw'r maes arwyddocaol arall o ran apeliadau mewn perthynas â chymhwyso PD12J. Yma, mae'n ymddangos mai'r brif broblem yw pan fo barnwyr yn canfod ffeithiau ac yna i bob pwrpas yn eu hanwybyddu yn y dyfarniad lles, a/neu yn ceisio arbed amser drwy hepgor asesiad risg neu yn torri corneli fel arall ac yn methu â chydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Ymarfer.

1.6.1 Asesiad Risg

Ym mhob achos, ar wahân i'r rhai mwyaf amlwg, mae'n debygol y bydd asesiad risg yn hanfodol er mwyn deall goblygiadau'r gamdriniaeth sydd wedi digwydd o ran risg parhaus i'r plentyn, hyd yn oed os na ystyriwyd bod angen gwrandawriad canfod ffeithiau.²¹⁶ Yn *Re W* [2012] EWCA Civ 528, gwnaeth y barnwr ganfyddiadau arwyddocaol o drais domestig parhaus gan y tad mewn gwrandawriad canfod ffeithiau ond yna gwrthododd gais am

²¹⁴ *RJ v CM* [2018] EWHC 2509 (Fam) [29].

²¹⁵ *JH v MF* [2020] EWHC 86 (Fam) per Russell J at [21], [23]–[25], [27], [30], [32]–[57].

²¹⁶ Gweler *Re P* [2015] EWCA Civ 466 [30] per King LJ.

adroddiad adran 7 ac asesiad seicolegol o'r tad, gan nodi ei fod yn fodlon bod yr olaf wedi bod yn wael ond ei fod erbyn hyn yn llawer gwell ac nad oedd angen asesiad arall. Cafodd ei benderfyniad y dylai cyswllt fynd yn ei flaen ei wrthdroi ar apêl, gyda Black LJ yn egluro bod asesu cyflwr meddyliol y tad a'r risg o fwy o drais yn fater yr oedd y barnwr angen cymorth proffesiynol yn eu cylch.²¹⁷

Yn *MS v MN* [2017] EWHC 324 (Fam), canfuwyd mewn gwrandawriad canfod ffeithiau bod tad wedi ymosod yn ddifrifol ar y fam ddwy waith, unwaith yng ngŵydd y plentyn, wedi bygwth lladd y fam ar nifer o achlysuron, ac yn gyffredinol ymosodol a bod ganddo ffiws byr. Yna caniatodd y llys gyswllt ar unwaith, yn groes i argymhellion Cafcass. Wrth ganiatáu'r apêl, nododd Moor J bod y barnwr wedi methu â dilyn PD12J. Er mwyn bwrw ymlaen, ystyriodd Cafcass bod angen asesiad risg arbenigol o'r tad cyn bwrw ymlaen ag unrhyw ymyriad, ond nid oedd y tad yn fodlon talu am yr asesiad risg, ac roedd y ffaith ei fod yn gwadu'r trais yn golygu nad oedd Cafcass y fodlon talu chwaith. O dan yr amgylchiadau yma, oedd yn cynnwys cyfranogiad blaenorol gan yr awdurdod lleol, rhoddodd Moor J gyfarwyddyd i'r awdurdod lleol o dan adran 7 ddarparu adroddiad arall ar y risg a achoswyd gan y tad a diogelwch unrhyw gyswllt a gynigiwyd.

1.6.2 Ymyriadau i leihau risg

Mae'r ymyriadau posibl a ystyrir ym mharagraffau 33(b) a 34 PD12J yn rhoi cyfle i'r llys ymdrechu i alluogi ailsefydlu cyswllt diogel a buddiol yn y pen draw. Yn *MS v MN* er enghraifft, nododd Moor J:

Rwyf yn ei gwneud yn glir fy mod yn credu y dylid ymchwilio i bob trywydd rhesymol er mwyn gweld a ellir sefydlu cyswllt yn yr achos yma, ond mae'n rhaid i hynny fod yn ddiogel. O ystyried y ffeithiau a ganfuwyd ni allaf weld sut y gall barnwr ddweud bod hynny yn ddiogel ar hyn o bryd. Rwyf yn gobeithio y bydd barnwr yn gallu dweud hynny maes o law...²¹⁸

Yn *Re K* [2016] EWCA Civ 99, canfu'r Llys Apêl bod y Cofnodwr wedi methu â dilyn canllawiau PD12J, ac yn benodol paragraffau 33-34, wrth ystyried y gwahanol ddewisiadau eraill oedd ar gael er mwyn galluogi i gyswllt uniongyrchol ddigwydd rhwng y plant a'r tad,²¹⁹ y canfuwyd ei fod wedi cyflawni camdriniaeth ddomestig mewn gwrandawriad canfod ffeithiau. Roedd y tad yn ymglyfreithwyr drosto ei hun, ac roedd y Cofnodwr wedi dibynnu ar safbwynt y gwarchodwr bod methiant y tad i dderbyn cyfrifoldeb am ei gamdriniaeth yn golygu mai dim ond cyswllt anuniongyrchol ellid ei orchymyn. Ond eglurodd y Llys y dylai'r Cofnodwr fod wedi gwneud ymdrech annibynnol i fynd i'r afael â'r dewisiadau eraill cyn diystyru'r posibilrwydd o gyswllt uniongyrchol.²²⁰ Er enghraifft, nid

²¹⁷ *Re W* [2012] EWCA Civ 528 [19]. Penderfynwyd ar hynny o dan fersiwn 2009 PD12J ble mae geiriad y paragraff perthnasol ychydig yn wahanol i eiriad y paragraff 30 presennol, ond mae arsylwad Black LJ ynglŷn â'r angen am farn broffesiynol arall yn dal yn berthnasol.

²¹⁸ *MS v MN* [2017] EWHC 324 (Fam) [12].

²¹⁹ *Re K* [2016] EWCA Civ 99 [41]–[43] per King LJ.

²²⁰ *Ibid* [44], citing *Q v Q* [2015] EWCA Civ 991.

oedd y gwarchodwr wedi argymhell nac wedi trefnu asesiad risg, ac ni wnaethpwyd unrhyw ymdrech i gynorthwyo'r tad i wneud y newidiadau yr ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol.²²¹ Cyfeiriodd paragraffau 33-34 PD12J y Cofnodwr at ystod o adnoddau eraill y dylid fod wedi eu hystyried.²²²

Yn Re CB, roedd y ffeithiau a ganfuwyd yn dangos bod y plentyn yn wynebu risg o gael ei amlygu i drais/camdriniaeth yn y dyfodol a niwed o ganlyniad i hynny, ac arsylwodd Cobb J bod "raid i gyswllt fod yn ddiogel i'r plentyn, ac ar hyn o bryd, a thra na all y tad ddangos gallu dibynadwy i reoli ei emosiynau cryf, mae gennyf amheuon sylweddol y gellid rheoli hynny yn hyderus a diogel". Nid oedd yna opsiynau dichonadwy ar gyfer cyswllt dan oruchwyliaeth oherwydd nad oedd y gwasanaeth cyswllt yn barod i barhau i weithio â'r tad, ac nid oedd y nain ar ochr y tad yn derbyn bod yna unrhyw broblem gyda'r tad. Ac er ei bod yn glir bod y tad angen help proffesiynol er mwyn mynd i'r afael â'i ymddygiad, nid oedd gan Cobb J unrhyw wybodaeth am wasanaethau lleol. Ond penderfynodd ei bod er lles i'r plentyn rhoi un cyfle olaf i'r tad gyda chyfyngiadau amser, er mwyn dangos y gallai fod yn rhiant da i'r plentyn. Felly rhoddodd y cyfrifoldeb ar y tad i hunangyfeirio i gael ymyrraeth cam-drin ddomestig arbenigol fel rhag-amod i unrhyw orchymyn trefniadau plant. Pennodd amserlen ar gyfer cytuno ar yr ymyrraeth a rhoi cyfarwyddyd gweithgaredd cyswllt priodol, a gohiriodd y gwrandawriad terfynol am o leiaf bum mis er mwyn galluogi'r tad i fwrw iddi a gobeithio cwblhau'r rhaglen i raddau helaeth a gweithio i ddangos ei allu i riantu ei blentyn yn ddiogel. Er bod Cobb yn ymwybodol o'r problemau o ran oedi, roedd yn fodlon o dan yr amgylchiadau bod hynny yn bwrpasol a chymesur.

Yn Re S, roedd yna anghytuno rhwng dau swyddog Cafcass ynghylch a oedd angen ymyrraeth therapiwtig ar gyfer y tad cyn gorchymyn cyswllt uniongyrchol. Dewisodd y barnwr safbwynt y swyddog oedd yn cymeradwyo cyswllt dan o oruchwyliaeth yn syth. Bu i'r Llys Apêl, er iddo fynegi cydymdeimlad â dyhead i farnwr i osgoi oedi o ran aildechrau'r cyswllt, wrthdroi'r penderfyniad, gan ddyfarnu bod angen clywed gan y ddau swyddog a rhoi ystyriaeth lawn i'r rhesymau am eu hargymhellion.²²³ Yr ystyriaeth bwysicaf oedd nid osgoi oedi ond osgoi niwed i'r plentyn.

1.7 Y dyfarniad lles a gorchmynion

Ym mhob achos pan fo camdriniaeth ddomestig wedi digwydd, mae paragraffau 35-37 (sydd yn seiliedig ar adroddiad Sturge a Glaser a ddarperir yn Re L) yn nodi'r ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu rhoi gorchymyn trefniadau plant neu beidio.

²²¹ Ibid [23].

²²² Gweler hefyd *Re M (a child)*, Y Llys Apêl, 25 Tachwedd 2015, yn ôl Macur LJ i'r un diben, a ddyfynnir yn *Re K* ibid [35]–[36].

²²³ *Re S* [2012] EWCA Civ 617 [32]–[34] per Black LJ.

1.7.1 Ffactora effeithiau camdriniaeth a sefydlwyd i'r dyfarniad lles

Mae'r Llys Apêl wedi pwysleisio dro ar ôl tro bod y ddisgyblaeth yn y paragraffau yma a'r rhai blaenorol yn cynnig y canllawiau mwyaf sicr ar gyfer gwneud penderfyniadau cywir a phenderfyniadau na ellir apelio yn eu herbyn. Er enghraifft, yn *Re P* [2015] EWCA Civ 466, er bod y Llys Apêl wedi ategu penderfyniad y cofnodwr i beidio â chynnal gwrandawriad canfod ffeithiau, bu iddo wrthdroi'r gorchmynion a roddwyd oherwydd bod y Cofnodwr wedyn wedi methu â chaffael asesiad risg ac wedi methu â chymhwyso paragraff 36 PD12J. Roedd yn anghywir wedi diystyru'r hanes o drais domestig a sefydlwyd, nac wedi ystyried ei fod yn berthnasol, dim ond i'r cwantwm yn hytrach na'r math o gyswllt.²²⁴

Yn *Re W*, sef yr achos pan fu i'r barnwr gynnal gwrandawriad canfod ffeithiau gan symud yn syth wedyn i benderfynu ar sut y dylid symud ymlaen gyda chyswllt, dyfarnodd Black LJ y dylid fod wedi rhoi cyfle i'r rhieni roi mwy o dystiolaeth ynghylch sut yr oedd y trais y canfuwyd ei fod wedi digwydd wedi effeithio ar y fam a'r plentyn, a sut yr oedd y tad wedi ymateb i'r canfyddiadau yn ei erbyn, cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch cyswllt.²²⁵

Yn *Re F* [2015] EWCA Civ 1315 caniatwyd apêl y fam yn rhannol oherwydd, er bod barnwr y treial wedi canfod bod y tad wedi aflonyddu ar y fam, ac wedi parhau â gorchymyn peidio ag ymyrryd yn erbyn y tad, fe anwybyddodd y canfyddiadau hynny wrth ystyried cyswllt y fam â'r plentyn oedd yn byw gyda'r tad.

Yn *Re A and R* [2018] EWHC 2771 (Fam), un o feirniadaethau apelydd o ddyfarniad canfod ffeithiau y Cofnodwr oedd nad oeddent wedi ystyried effaith y gamdriniaeth ddomestig, y canfuwyd ei fod wedi digwydd, ar y plant, fel sydd yn ofynnol yn ôl paragraff 29 PD12J. Nid oedd Baker J yn ystyried bod hynny yn gamgymeriad, ond awgrymodd y dylai canfyddiadau o'r fath gael eu hystyried yn y gwrandawriad lles arfaethedig, pryd y byddai'r Cofnodwr hefyd yn gallu elwa ar adroddiad gan weithiwr cymdeithasol annibynnol.²²⁶

Yn *Re K* a *Re A* bu i'r Llys Apêl bwysleisio'r cyngor y dylai barnwyr treial ofalu eu bod yn cyfeirio eu dyfarniadau at baragraffau perthnasol PD12J ac egluro sut y maent wedi dilyn y Cyfarwyddyd Ymarfer ac wedi ystyried y materion y mae'n ofynnol eu hystyried.²²⁷ Yn *Re A*, dywedodd McFarlane LJ y byddai'n ddoeth cyfeirio'n benodol at PD12J er mwyn dileu unrhyw amheuan y defnyddiwyd yr ymagwedd briodol, ac mewn rhai achosion efallai y bydd angen manylu ar sut y cydymffurfiwyd â pharagraffau 35-37.²²⁸

²²⁴ *Re J-P* [2015] EWCA Civ 466 [466] [22] per King LJ.

²²⁵ *Re W* [2012] EWCA Civ 528 [18].

²²⁶ *Re A and R* [2018] EWHC 2771 (Fam) [67].

²²⁷ *Re K* [2016] EWCA Civ 99 [42], [45] per King LJ; *Re A* [2015] EWCA Civ 486 [35], [49] per McFarlane LJ.

²²⁸ *Re A* *ibid* [49].

1.7.2 Gorchymynion cyswllt ac amodau

Mae paragraffau 38-39 yn gymwys pan fo'r llys, ar ôl ystyried yr holl ffactorau ac unrhyw asesiad risg arbenigol, yn ystyried er hynny bod cyswllt yn ddiogel ac yn fuddiol i'r plentyn. Yn *Re P* roedd y Cofnodwr wedi bod yn bryderus ynghylch oediadau yn yr achos, a phenderfynodd beidio â gorchymyn cyswllt dan oruchwyliaeth oherwydd byddai hynny yn rhy anodd ei drefnu. Anghymeradwywyd hynny gan y Llys Apêl oherwydd ei fod yn methu ag ystyried yn briodol yr hanes o drais domestig a sefydlwyd, y risg a achoswyd gan y tad tuag at y plant, ar ffaith y byddai angen ailgyflwyno cyswllt ar ôl ei ohirio am beth amser.

I'r gwrthwyneb, bu i orchymyn ar gyfer cyswllt hirdymor dan oruchwyliaeth oroesi apêl yn *Re D* [2016] EWCA Civ 89, oherwydd bod barnwr y treial wedi dilyn yr holl gamau angenrheidiol ac wedi dangos yn glir yn ei rhesymau sut oedd y ffactorau risg a nodwyd ynghylch cyswllt heb oruchwyliaeth heb leihau.²²⁹

Yn *Re M* [2013] EWCA Civ 1147, pwysleisiodd y Llys Apêl bod raid i farnwyr ystyried yn ofalus a rhoi rhesymau dros wrthod opsiynau cyswllt dan oruchwyliaeth, yn cynnwys eglurhad ynghylch pam na fyddir yn gwarchod yn ddigonol yn erbyn y risgiau y canfuwyd eu bod yn bodoli mewn cyswllt dan oruchwyliaeth, cyn penderfynu gorchymyn cyswllt uniongyrchol neu ddim cyswllt.²³⁰

Mae'r penderfyniad yma yn pwyntio at bwysigrwydd cyfraith achos gyffredinol y Llys Apêl ar gyswllt a'i ddyllanwad ar achosion o gam-drin domestig. Mewn geiriau eraill, nid y gyfraith achos ynghylch PD12J sydd yn berthnasol. Yr achos allweddol yma yw *Re C (Direct Contact: Suspension)* [2011] EWCA Civ 521, pan ddywedodd Munby P:

- Mae cyswllt rhwng rhiant a phlentyn yn elfen sylfaenol o fywyd teuluol ac mae hynny bron bob amser er lles y plentyn.
- Mae cyswllt rhwng rhiant a phlentyn i'w derfynu dim ond dan amgylchiadau eithriadol, pan fo yna resymau cymhellol dros wneud hynny a phan nad oes dewis arall. Bydd cyswllt yn cael ei derfynu dim ond os bydd hynny yn niweidiol i les y plentyn.
- Mae'n ddyletswydd gadarnhaol ar y Wladwriaeth... i gymryd camau...i gynnal neu i adfer cyswllt. ... Mae'n rhaid i'r cofnodwr ystyried yr holl ddewisiadau eraill cyn diystyru unrhyw obaith o greu rhyw fath o gyswllt. ...
- Dylai'r llys edrych ar bethau dros y tymor canolig a'r hirdymor a pheidio â rhoi gormod o bwys i beth sydd yn ymddangos sydd yn debygol o fod yn broblemau tymor byr neu dros dro. ...
- Ar ôl dweud hynny i gyd, yn y pen draw, lles y plentyn sydd bwysicaf; 'rhaid i les y plentyn fod yn fwy blaenllaw nag unrhyw ystyriaeth arall.²³¹

²²⁹ *Re D (Children)* [2016] EWCA Civ 89 [37]–[39] per Baker J. I Ar gyfer achos arall yn ymwneud â chyswllt hirdymor dan oruchwyliaeth, gweler *ND v KD* [2019] EWFC B17.

²³⁰ *Re M (Children)* [2013] EWCA Civ 1147 [19], [24], per Macur LJ and [27] per Underhill LJ.

²³¹ *Re C (Direct contact: suspension)* [2011] EWCA Civ 521 [47].

Mae nifer o achosion blaenorol a dilynol yn pwysleisio ac yn atgyfnerthu y safbwynt ragosodedig y dylid annog a cheisio sicrhau cyswllt.

2. Adran 91(14) Deddf Plant 1989

Mae Adran 91(14) Deddf Plant 1989 yn darparu'r canlynol: "Wrth benderfynu ar unrhyw gais am orchymyn o dan y Ddeddf hon, gall y llys (p'un a yw yn rhoi unrhyw orchymyn arall fel ymateb i'r cais) orchymyn na ellir gwneud unrhyw gais am orchymyn o dan y Ddeddf hon o unrhyw fath penodol mewn perthynas â'r plentyn dan sylw gan unrhyw berson a enwir yn y gorchymyn heb ganiatâd y llys".

2.1 Canllawiau ar gyfer rhoi gorchmynion adran 91(14)

Nodwyd y canllawiau ar gyfer rhoi gorchmynion adran 91(14) gan Butler-Sloss LJ yn achos *Re P (Section 91(14) Guidelines) (Residence and Religious Heritage)* [1999] 2 FLR 573 ac maent yn dal yn gymwys. Mae'r canllawiau, a nodir ym mharagraff 41 y dyfarniad, fel a ganlyn:

- 1) Lles y plentyn yw prif ystyriaeth y llys
- 2) Mae pŵer y llys yn ddewisol; wrth ddefnyddio ei ddisgresiwn mae'n rhaid i'r llys bwysu a mesur yr holl amgylchiadau perthnasol
- 3) Mae gosod gwaharddiad o'r fath yn ymyrraeth statudol ar hawl unrhyw barti i ddwyn achos gerbron y llys ac i gael eu clywed mewn materion sydd yn effeithio ar eu plentyn
- 4) Mae gorchymyn o'r fath yn eithriad ac nid yn arferiad, a dylid defnyddio pŵer y llys gyda gofal mawr ac yn ddarbodus
- 5) Hwn yw'r arf olaf mewn achosion o geisiadau mynych ac afresymol.
- 6) O dan amgylchiadau addas ac yn seiliedig ar dystiolaeth amlwg, gall y llys osod y gwaharddiad pan fo lles y plentyn yn golygu bod angen hynny, hyd yn oed os nad oes yna hanes o wneud ceisiadau afresymol
- 7) Mewn achosion pan nad oes hanes o geisiadau afresymol ond bod lles y plentyn yn golygu bod angen gwahardd ceisiadau, mae'n rhaid i'r llys fod yn fodlon i ddechrau bod y ffeithiau yn mynd y tu hwnt i'r angen cyffredin am amser i setlo a/neu sefyllfa pan fo drwg-deimlad rhwng y partïon, ac yn ail, bod yna risg difrifol y bydd y plentyn neu'r gofalwyr sylfaenol yn dioddef straen annerbyniol oni roddir y gwaharddiad.
- 8) Gall y llys osod gwaharddiad ar wneud ceisiadau hyd yn oed os nad yw parti wedi gwneud cais am hynny, yn ddarostyngedig i gyfiawnder naturiol, megis cyfle i bartïon gael eu clywed parthed y pwynt
- 9) Gellir gosod gwaharddiad gyda therfyn amser neu heb derfyn amser
- 10) Dylai maint y gwaharddiad fod yn gymesur i'r niwed y bwriedir iddo ei osgoi, felly dylai'r llys ystyried yn ofalus maint y gwaharddiad fydd yn cael ei osod, a nodi, pan fo hynny yn briodol, y math o gais fydd i'w wahardd a hyd cyfnod y gorchymyn
- 11) Ni fyddai'n ddymunol, ac eithrio yn yr achosion mwyaf eithriadol, i roi gorchymyn heb rybudd.

Achos sydd yn amlygu'r ymarferiad cydbwyso sydd ei angen yn unol â'r canllawiau yma yw *Re M (a Child)* [2012] EWCA Civ 446, oedd yn ymwneud â chais y tad am gyswllt gyda chyfrifoldeb rhiant am blentyn naw oed. Ar ail ddiwrnod y gwrandawriad terfynol colodd y tad "ei hunanreolaeth", "cwynodd ynghylch anghyfiawnder y system", roedd ei gais i dynnu ei geisiadau yn ôl yn aflwyddiannus, a gadawodd y llys. Yn ei absenoldeb, gwrthododd y barnwr ei geisiadau a rhoddodd orchymyn 91(14) am gyfnod o ddwy flynedd. Roedd y barnwr yn cydnabod bod y gorchymyn yn "ddraconaid" ond roedd yn credu bod y fam wedi dioddef o ganlyniad i'r achos ac y gellid cyfiawnhau'r gorchymyn a'i fod yn ymateb cymesur. Dyfarnodd y Llys Apêl mai lles y plentyn oedd "arwyddbost pwysicaf" y barnwr o hyd, felly dylid fod wedi rhoi amser i'r tad "ddod at ei synhwyrau" cyn gwrthod ei gais, oedd i bob pwrpas yn golygu dod ag unrhyw obaith o gael cyswllt i ben. Mae'n rhaid i'r llys "gymryd gofal wrth osod y gwaharddiadau yma. Dylid eu gosod yn briodol drwy gais a gefnogir gan dystiolaeth, a dylai'r person yr ystyrir ei wahardd gael pob cyfle i ymateb i'r cais" (paragraff 10). Hefyd, roedd y barnwr wedi rhoi gorchymyn cyffredinol yn hytrach na nodi y math o geisiadau fydd yn cael eu gwahardd yn y dyfodol.

- Yn *Re G (Children) (Intractable Dispute)* [2019] EWCA Civ 548 ategodd y Llys Apêl orchymyn dim cyswllt uniongyrchol gyda phlentyn a gorchymyn adran 01(14) am gyfnod o dair blynedd yn erbyn y tad yr aseswyd ei fod yn arddangos ymddygiad bygythiol a drwg-deimlad agored tuag at fam y plant oedd yn niweidiol i'w lles hi a lles y plant. Casglodd y Llys Apêl, er bod y "dybiaeth o gyfranogiad rhieni yn gryf iawn...nid yw yn absoliwt. Fel ym mhob mater sydd yn gysylltiedig â magu plentyn, lles sydd bwysicaf."²³² Ni thorrwyd hawliau Erthygl 8 y tad drwy ddiffyg cyswllt oherwydd "byddai'r plant yn dioddef niwed emosiynol petaent yn cael eu gosod gyda'u tad neu petai'n ofynnol iddynt gael cyswllt uniongyrchol gydag ef yn groes i'w dymuniadau" ac roedd wedi "colli golwg ar eu lles yn gyfan gwbl". Nid oedd y naill barti na'r llall wedi gofyn am wahardd cyswllt yn barhaol, ond yn hytrach dull therapiwtig allai newid ymddygiad y tad. Roedd hwn yn "achos amlwg ar gyfer gorchymyn a.91(14) yng ngoleuni canfyddiadau'r Barnwr a'r hanes dychrynlyd o ymgyfreitha. Mae gan y fam a'r plant hawl i gael peth gwarchodaeth rhag ymgyfreitha di-baid, ac nid yw hyd y gorchymyn yn anghyson â'r posibilrwydd y bydd dull therapiwtig yn arwain at adfer cyswllt."²³³

²³² *Re G (Children) (Intractable Dispute)* [2019] EWCA Civ 548 [46].

²³³ *Ibid*, [69]–[70].

2.2 Cais am orchymyn adran 91(14)

Mae'r gyfraith achos yn dangos yn glir y dylai partion gael digon o rybudd o gais am orchymyn adran 91(14), neu os yw'r llys yn ystyried rhoi gorchymyn o'r fath drosto ei hun, yn arbennig pan wneir cais am orchymyn yn erbyn ymgyfreithiwr drosto ei hun. Dylai gorchymyn a geisir heb roi cais ymlaen llaw, a heb dystiolaeth ategol, ond gael ei roi o dan amgylchiadau eithriadol - *DJ v MS* [2006] EWHC 1491 (Fam).

Yn *Re C (Litigant in Person: Section 91(14) Order)* [2009] EWCA Civ 674, nododd Wall LJ y dylid cymryd gofal er mwyn sicrhau bod:

- Ymgyfreithwyr yn deall bod caii am orchymyn adran 91(14) yn cael ei wneud, neu bod rhoi gorchymyn o'r fath yn cael ei ystyried;
- Eu bod yn deall ystyr ac effaith gorchymyn o'r fath; ac
- Eu bod yn cael cyfle priodol i roi cyflwyniadau i'r llys.

Mae *Re T (A Child) (Suspension of contact) (Section 91(14) CA 1989)* [2015] EWCA Civ 719 yn darparu canllawiau defnyddiol ynghylch sut y dylai llysoedd benderfynu ar y ffactorau yma ac ar orchymynion adran 91(14) yn gyffredinol. Yng nghyd-destun ymgyfreitha maith iawn, roedd barnwr y treial yn ystyried bod ymddygiad cyffredinol y tad ac effaith hynny ar y fam a'r plentyn mor niweidiol fel "na dylai'r fam orfod dioddef yr ymddygiad yma drwy'r llysoedd na fel arall am y dyfodol rhagweladwy".²³⁴ Gwrthododd orchymyn cyswllt uniongyrchol a rhoddodd orchymyn adran 91(14) oedd yn gwahardd y tad rhag gwneud mwy o geisiadau heb ganiatâd am bum mlynedd a hanner. Roedd gwarcheidwad y plant yn cefnogi'r gorchymyn hwnnw.

Ond, nid oedd y llys wedi darparu i'r tad, oedd yn ymgyfreithiwr drosto ei hun, gais y fam am y gorchymyn adran 91(14) na'r hysbysiad o'r gwrandawriad pryd y byddai'n cael ei ystyried. Oherwydd bod gorchymynion adran 91(14) yn ymwneud â materion "o bwysigrwydd mor sylfaenol megis terfynu cyswllt", nododd y llys bod raid i'r barnwr "gydnabod a phwyso a mesur hawliau Erthygl 8 ECGR pwysig y rhiant a'r plentyn".²³⁵ Nododd hefyd bod gorchymynion adran 91(14) "yn sicr yn eithriadau yn hytrach na'r arferiad, a dim ond yn cael eu rhoi pam fo lles y plentyn yn golygu bod hynny yn ofynnol", gan roi ystyriaeth i'r Llys Apêl yn *Re P* [1999] (uchod).²³⁶

Gan gymeradwyo'r canllawiau a roddwyd gan Wall LJ yn *Re C* (uchod), dywedodd y llys ei bod yn "hanfodol" bod y barnwr, p'un a bod parti yn cael ei gynrychioli neu beidio, yn fodlon bod y parti yr effeithir arno drwy roi gorchymyn adran 91(14):

- Yn gwbl ymwybodol bod y llys wedi derbyn cais ac yn ystyried rhoi gorchymyn o'r fath;

²³⁴ *Re T (A Child) (Suspension of contact) (Section 91(14) CA 1989)* [2015] EWCA Civ 719 [30].

²³⁵ *Ibid* [47].

²³⁶ *Ibid* [50].

- Yn deall ystyr ac effaith y gorchymyn;
- Yn meddu ar wybodaeth lawn o'r sail dystiolaethol ar gyfer gwneud cais am y gorchymyn; ac
- Wedi cael cyfle priodol i roi sylwadau mewn perthynas â rhoi'r gorchymyn, allai olygu gohirio'r cais er mwyn iddo gael ei glywed drwy hysbysiad.

Yn yr achos yma, roedd y Llys Apêl yn fodlon bod y tad yn ymwybodol y byddai'r llys yn ystyried rhoi gorchymyn adran 91(14) oedd wedi bod "ar y gweill" ers 2013, a bod yna ddigon o arwyddion ei fod yn deall ystyr y gorchymyn. Wrth ymarfer ei disgresiwn, roedd y barnwr wedi ystyried yn briodol "hyd a dwyster" yr ymgyfreitha, yr anhawster o ran sefydlu cyswllt "normal" rhwng y tad a'r plentyn, a bwriad amlwg y tad i amharu ar breswyliaeth y plentyn gyda'r fam. Ond nid oedd y barnwr wedi ystyried nac wedi cyfeirio at: "i) y rhesymau dros yr anawsterau o ran cyswllt y tad gydag E, ac a ellid priodoli hynny yn rhannol o leiaf i ymddygiad y fam; ii) a oedd yr holl gamau oedd ar gael wedi cael eu cymryd er mwyn cynnal cyswllt; ac yn hanfodol iii) a fyddai gorchymyn o'r fath er lles i E, a pham".²³⁷ Caniatwyd cais y tad a dychwelyd yr achos ar gyfer ail wrandawriad.

Mae'r gofynion gweithdrefnol a nodwyd gan y Llys Apêl yn *Re T* yn warchodaeth weithdrefnol gynhenid hanfodol cyn rhoi gorchymyn adran 91(14), yn ôl *Re N (Children)* [2019] EWCA Civ 903. Mae'r gofynion yma yn gymwys i bob parti, p'un a ydynt yn cael eu cynrychioli neu beidio. Yn *Re N* roedd y Llys Apêl yn delio ag ymgyfreithiwr drosto ei hun y rhoddwyd gorchymyn adran 91(14) iddo mewn gwrandawriad nad oedd yn ymwybodol y byddai hynny'n cael ei drafod, ac roedd yn absennol. Eto, cafodd y gorchymyn ei wrthdroi.

2.3 Hyd a thelerau gorchymyn adran 91(14)

Wrth benderfynu ar hyd gorchymyn adran 91(14), dywedodd y Llys Apêl yn *Re T (A Child) (Suspension of contact) (Section 91(14) CA 1989)* [2015] EWCA Civ 719 "o ystyried ei fod yn amharu'n amlwg â mynediad sylfaenol yr ymgyfreithiwr i gyfiawnder", dylid rhoi gorchymyn "am y cyfnod lleiaf sydd ei angen". Yn yr achos hwnnw, dyfarnodd y Llys Apêl bod barnwr y treial wedi methu ag egluro yr angen am a chymesuredd embargo pum mlynedd ar geisiadau yn ymwneud â phlentyn pedair oed neu i roi cyfle i'r tad roi sylwadau ynghylch hyd y gorchymyn.

Yn yr un modd, yn *Re G (A Child)* [2010] EWCA 470, er bod y Llys Apêl wedi derbyn bod gorchymyn adran 91(14) yn gyfiawn oherwydd bod yr achos yn achosi straen i'r fam, dyfarnodd bod gwaharddiad o bum mlynedd ar geisiadau mewn perthynas â phlentyn tair mlwydd a hanner yn ormodol, a rhoddodd orchymyn dwy flynedd yn ei le.

²³⁷ Ibid [53].

Gall y llys roi gorchymyn 'penagored' (heb hyd penodol), neu nodi y dylai'r gorchymyn bara tan ben-blwydd y plentyn yn 16 oed, ond dim ond dan amgylchiadau eithriadol, ac mae'n rhaid rhoi rhesymau clir dros orchymynion a roddir heb derfyn amser - *Re S (Permission to Seek Relief)* [2006] EWCA Civ 1190.

Mae *Re F (Children)* [2014] EWCA Civ 1474 yn enghraifft o achos pan fu i'r Llys Apêl ategu gorchymyn adran 91(14) a roddwyd fyddai'n para nes byddai'r plant 11 a 14 oed yn cyrraedd 18 oed. Roedd yr achos maith, sarrug a chwerw yn effeithio mor niweidiol ar y plant fel bod y ddau yn gwrthod cael cyswllt gyda'u tad ac roeddent angen ymyriadau iechyd meddwl, ac aethpwyd ag un plentyn i ofal ar un adeg. Roedd y llys wedi diddymu cyfrifoldeb rhiant y tad ac wedi gwrthod ei geisiadau mynych am orchymynion preswyl. Gwrthododd y Llys Apêl ganiatâd i apelio yn erbyn y gorchymyn 91(14) yr ategwyd ei fod yn gwbl gyfiawn yn seiliedig ar y ffeithiau.

Yn yr un modd yn *M v CF* [2018] EWHC 2658 (Fam) rhoddodd Keehan J orchymyn 91(14) nes bod y plentyn ieuengaf yn cyrraedd 18 oed pan yr oedd dau blentyn [pedair a phump oed] yn byw mewn cyfeiriad cyfrinachol gyda'u mam, ac ar ôl cael eu symud gan Gynllun Pobl Warchoddedig y DU o ganlyniad i'r risg uchel o niwed difrifol neu farwolaeth yr oedd y tad yn ei achosi i'r fam, a niwed cysylltiedig iddyn nhw. Roedd y tad wedi bwrw dedfryd o garchar am ymosod arni ac roedd wedi bygwth ei bywyd ar ôl cael ei ryddhau o'r carchar. Diddymodd y llys ei gyfrifoldeb rhiant, cyfyngodd ar y wybodaeth ellid ei rhoi iddo am y plant i ffaith eu marwolaeth (petai hynny yn digwydd yn ystod plentyndod), caniatodd newid enwau'r plant a rhoi'r gorchymyn adran 91(14) gan ddweud, "Rwyf yn gwbl fodlon bod y plant angen eu hamddiffyn rhag y tad ac mae'r fam angen yr hyder o wybod na all y tad wneud unrhyw gais i'r llys am unrhyw orchymyn s.8 mewn perthynas â'r plant heb ganiatâd y llys."

Ni all y llys atodi amodau i orchymyn adran 91(14), y tu hwnt i nodi am ba hyd y bydd yn para ac enwi'r math o ryddhad y mae'n gymwys iddo - *Re S (Permission to Seek Relief)* [2006] EWCA Civ 1190. Yn *Stringer v Stringer* [2006] EWCA Civ 1617, gwaharddwyd y tad rhag gwneud cais am breswyliaeth neu gyswllt gyda'r plant nes eu bod wedi cyrraedd 16 oed. Atodwyd amod i'r gorchymyn y byddai caniatâd i wneud cais am orchymynion o'r fath ond yn cael ei ganiatáu petai'r tad yn cyflwyno adroddiad seicolegol neu seiciatrig fyddai'n cadarnhau ei fod yn ymgymryd â thriniaeth. Drwy ganiatáu apêl y tad, gwahaniaethodd Wall LJ rhwng amodau yn y cyswllt yma yn cael eu hatodi i orchymyn, nad yw'n cael ei ganiatáu, a barnwr yn nodi y byddai caniatâd yn annhebygol o gael ei ganiatáu oni eir i'r afael â materion penodol.

2.4 Ceisiadau am ganiatâd i wneud cais yn dilyn adran 91(14)

Os yw parti yn dymuno cael caniatâd i wneud cais am orchymyn gwaharddedig tra bod gorchymyn 91(14) yn weithredol, y prawf perthnasol yw a oes yna "unrhyw angen am

ymchwiliad barnwrol o'r newydd" - Re A [1998] 1 FLR 1, sydd yn golygu gofyn a oes gan yr ymgeisydd 'achos y gellir ei ddadlau' gyda pheth gobaith o lwyddo - Re P (A Minor) (Residence Order: Child's Welfare) [2000] Fam 15.

Cafodd y weithdrefn briodol ar gyfer ystyried cais am ganiatâd i wneud cais am orchymyn gwaharddedig tra bod gorchymyn adran 91(14) mewn grym ei nodi gan y Llys Apêl yn Re S (Permission to Seek Relief) [2006] EWCA Civ 1190:

- Mae gan y llys elfen o hyblygrwydd ynghylch p'un a oes angen hysbysu'r rhiant arall ynghylch cais am ganiatâd i wneud cais. I ddechrau, a phan fo'r amgylchiadau yn sensitif (megis pan fo straen yr ymgyfreitha blaenorol wedi ansefydlogi'r teulu), ni ddylai'r llys hysbysu'r parti arall nes ei fod wedi penderfynu a yw hynny yn angenrheidiol neu beidio
- Gall barnwr, wrth roi gorchymyn adran 91(14), gyfarwyddo na ddylid hysbysu'r ymatebydd am unrhyw gais am ganiatâd i wneud cais tra ei fod mewn grym, ond dylid ystyried hynny ar y papurau
- Os bydd barnwr yn gwrthod caniatâd o'r fath ar y papurau, yna dylid cynnig gwrandawriad llafar i'r ymgeisydd os bydd yn anfodlon â'r gwrthodiad ar bapur.
- Os bydd barnwr sydd yn gwrandawriad ar gais ar bapur yn ystyried bod yma achos y gellid ei ddadlau, dylid rhestru'r mater ar gyfer gwrandawriad inter partes.

Ystyriwyd y prawf ddylid ei gymhwyso ar gyfer cais am ganiatâd gan Cobb J yn Re P & N (s 91(14): application for permission to apply: appeal) [2019] EWHC 421 (Fam). Ar ôl achos maith mewn perthynas â chyswllt y tad gyda'r ddau blentyn, a chanfyddiadau niweidiol yn erbyn y tad, rhoddwyd gorchymyn adran 91(14) oedd yn atal y tad rhag gwneud mwy o geisiadau adran 8 am dair blynedd. Ymgeisiodd y tad am ganiatâd i wneud cais am orchymyn 'treulio amser'. Gwrandawodd HHJ Plunkett ar gais y tad heb hysbysu'r fam na chyfreithiwr y plant, ac fe'i caniatodd. Apeliodd y fam yn erbyn y caniatâd a ddyfarnwyd. Caniatodd Cobb J apêl y fam a phenderfynu ar y weithdrefn briodol ar gyfer ceisiadau am ganiatâd:

- Nid yw'r 'prawf lles' yn gymwys i gais am ganiatâd, er bod lles y plentyn yn 'ystyriaeth berthnasol'
- Dylai'r llys ystyried amcan bwysicaf Rheol 1 FPR 2010, yn benodol 'delio â cheisiadau yn "gyfiawn", "teg", "gan sicrhau bod y ddau barti mewn sefyllfa gydradd" ac "arbed costau".
- Dylid ystyried y cais 'i ddechrau' ar y papurau neu mewn gwrandawriad llafar heb hysbysu'r ymatebydd, yn arbennig os oes yna bryderon ynghylch effaith ar yr ymatebydd o ganlyniad i glywed am gais newydd.

- Ni ddylid gwadu gwrandawriad llafar i ymgeisydd
- Os nad oes teilyngdod i gais, gellir ei wrthod ar y cam hwnnw
- Os bydd y cais yn dangos achos y gellir ei ddadlau, dylai'r llys restru'r cais ar gyfer gwrandawriad 'a hysbysir' er mwyn caniatáu i'r ymatebydd roi sylwadau.

3. Gorchmynion atal sifil

Arferid galw CROau yn orchmynion Grepe a Loam' a gellir eu holrhain yn ôl i benderfyniad y Llys Apêl yn *Bhamjee v Forsdick (Practice Note)* [2003] EWCA Civ 113, oedd yn pwysleisio eu bod ond yn briodol mewn achosion sydd yn ymwneud â cheisiadau parhaus nad oes dim teilyngdod o gwbl yn perthyn iddynt. Mae CROau yn atal ceisiadau rhag cael eu gwneud heb ganiatâd y llys mewn achosion o ymglyfreithwyr blinderus.

3.1 CRO - y rheolau

Mae'r rheolau i roi CRO wedi eu nodi yn rheol 4.8 Rheolau Gweithdrefn Teuluoedd 2010 a'r Cyfarwyddyd Ymarfer ategol, PD4B. Mae yna dri math o CRO::

- Gellir rhoi CRO **cyfyngedig** yn y Llys Sirol a'r Uchel Lys ble mae o leiaf dau gais wedi cael eu gwneud 'heb unrhyw deilyngdod'. Maent ond yn gymwys i'r achosion maent yn uniongyrchol gysylltiedig â nhw, ac yn para am oes yr achosion hynny.
- Gall CRO **estynedig** atal ceisiadau mewn achosion eraill sydd yn rhannol gysylltiedig, pan fo parti wedi gwneud ceisiadau 'parhaus' 'heb unrhyw deilyngdod'.
- Mae CRO **cyffredinol** yn gwahardd gwneud cais mewn unrhyw lys heb ganiatâd y llys pan fo parti wedi gwneud ceisiadau 'parhaus' 'heb unrhyw deilyngdod' dan amgylchiadau pan na fyddai CRO estynedig yn ddigonol neu'n briodol. Dim ond Barnwr Uchel Lys all roi CRO estynedig a chyffredinol a gallent bara am hyd at ddwy flynedd.

Gellir rhoi CRO ar gais neu gall y llys eu rhoi ohono ei hun. Mae PD4B yn nodi bod *rhaid* i'r llys ystyried rhoi CRO pan fo'n cyhoeddi datganiad achos neu'n diystyru achos (yn cynnwys cais am ganiatâd i apelio) ac yn ystyried nad oes gan y cais unrhyw deilyngdod.

Bydd y CRO yn cael ei gofrestru, a phan fydd y person a ataliwyd yn gwneud cais mewn unrhyw lys, bydd yr achos y cael ei ddiddymu yn awtomatig naill ai dan baragraff 3.3 PD4B neu baragraff 3.3 y Rheolau Gweithdrefn Sifil, Cyfarwyddyd Ymarfer 3C sydd union yr un fath.

3.2 Cyfraith achos

Mae PD4B yn egluro bod CROau yn orchmynion sydd ar wahân i orchmynion adran 91(14) ac nid ydynt yn eu hamnewid. Am y rheswm hwnnw, yn anaml iawn y rhoddir CRO mewn achosion plant cyfraith breifat ac maent yn cael eu rhoi yn fwyaf cyffredin (er bod hynny yn dal yn anaml) mewn achosion datrysiadau ariannol.

Un achos cyfraith teulu pan roddwyd CRO oedd *AEY v AL (Family Proceedings Civil Restraint Order)* [2018] EWHC 3253 (Fam). Roedd y tad wedi gwneud ceisiadau mynych am ganiatâd i apelio yn erbyn gorchmynion trefniadau plant mewn achos oedd wedi bod yn mynd rhagddo ers 2013. Roedd wedi cael ei euogfarnu o gam-drin domestig yn erbyn y fam a herwydio plant. Roedd wedi gwneud nifer o honiadau yn erbyn y fam ac wedi ceisio cynnwys y plant wrth geisio profi'r honiadau hynny. Roedd hefyd wedi gwneud nifer o honiadau yn erbyn barnwr y treial a'r awdurdod lleol. Roedd gorchymyn gwahardd wedi cael ei roi yn ei erbyn pan ymwelodd dro ar ôl tro â chartref maeth y plentyn hynaf. Cyn clywed y ceisiadau, roedd Knowles J wedi cyfarwyddo'r tad i fynd i egluro pam na ddylai CRO estynedig gael ei roi pe penderfynid nad oedd teilyngdod i'w geisiadau. Ar ôl clywed ceisiadau'r tad am ganiatâd i apelio, ystyriodd Knowles J bod pob un o'r saith heb unrhyw deilyngdod a gwrthododd ganiatâd i apelio.

Cyfeiriodd Knowles J at y diben oedd yn tanategu rhoi CRO, fel y crynhowyd hynny gan Leggat J yn *Nowak v The Nursing and Midwifery Council* [2013] EWHC 1932 (QB):

Y sail resymegol ar gyfer cyfundrefn gorchmynion atal sifil yw bod ymgyfreithiwr sydd yn gwneud hawliadau neu geisiadau nad oes ganddynt unrhyw deilyngdod yn gwneud niwed i weinyddiaeth cyfiawnder drwy wastraffu amser ac adnoddau cyfyngedig y llysoedd. ...Mae ymgyfreithwyr sydd yn gwneud hawliadau neu geisiadau anobeithiol yn fynych yn golygu bod eraill yn ysgwyddo costau am ddim rheswm da, a dim llawer o gostau neu ddim costau o gwbl yn cael ei ysgwyddo ganddyn nhw eu hunain fel arfer. ...O dan yr amgylchiadau yma mae yna les cyhoeddus cryf i warchod system y llys rhag camdriniaeth drwy atal eu defnydd o adnoddau'r llys.²³⁸

Roedd Knowles J yn cydnabod nad yw CROau yn cael eu rhoi yn gyffredin yng nghydestun achosion plant "o ystyried argaeledd gorchmynion adran 91 (14) ar gyfer atal ceisiadau mewn achosion o'r fath".²³⁹ Ond, er mai "pwrpas sylfaenol gorchmynion atal sifil yw rheoli adnoddau'r llys yn deg a chyfiawn i bob ymgyfreithiwr a gwarchod system y llys rhag camdriniaeth", yn yr achos yma roedd y materion lles yn cyfiawnhau rhoi CRO estynedig. Hefyd, cyfarwyddodd Knowles J y dylai unrhyw gais dilynol gan y tad am ganiatâd i wneud cais yn ystod cyfnod y CRO estynedig gael ei wneud heb hysbysu'r fam na'r plant er mwyn osgoi achosi straen a thralod.

²³⁸ *Nowak v The Nursing and Midwifery Council* [2013] EWHC 1932 (QB) per Leggat J at [58].

²³⁹ *AEY v AL (Family Proceedings Civil Restraint Order)* [2018] EWHC 3253 (Fam) [68].

Roedd *K v K* [2015] EWHC 1064 (Fam) yn achos pan roddwyd gorchymyn 91(14) (mewn perthynas ag achos trefniadau plant), a CRO (mewn perthynas ag achos datrysiadau ariannol). Roedd y tad wedi gwneud ceisiadau mynych i ymglyfreitha am yr eildro ynghylch materion aeth yn ei erbyn yn y ddau achos. Canfuwyd nad oedd unrhyw deilyngdod yn perthyn i'w geisiadau.

Nododd Mostyn J yn *Velupillai v Chief Land Registrar and Ors* [2017] EWHC 1693 (Fam) ddiffyg yn y system hysbysu mewn achos pan na chafodd y cais ei fflagio a'i wrthod yn awtomatig. Nododd:

Mae angen rhoi sylw, yn fy marn barchus i, i sefydlu offeryn effeithiol fyddai'n sicrhau bod yna gofrestr gwbl hygyrch a chyfredol o'r holl orchmynion atal sifil, ynghyd â system fflagio awtomatig, pan fo cais yn cael ei wneud sydd yn torri'r gorchymyn hwnnw sydd yn arwain at wrthodiad awtomatig fel y mae telerau'r Cyfarwyddyd Ymarfer yn ei ddarparu.²⁴⁰

²⁴⁰ *Velupillai v Chief Land Registrar and Ors* [2017] EWHC 1693 (Fam) [27].



© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Ble yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint o dan sylw.